



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 27 Chwefror 2008
Wednesday, 27 February 2008**

Cynnwys
Contents

3	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery
22	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills
41	Datganiad am Ailgyflunio Gwasanaethau Iechyd yng Ngogledd Cymru Statement on the Reconfiguration of Services in North Wales
59	Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders
60	Ethol Aelod i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal Election of a Member to the Committee on Equality of Opportunity
60	Adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Dwbercwlosis mewn Gwartheg The Rural Development Sub-committee's Report on Bovine Tuberculosis
89	Datganiad gan y Llywydd Statement by the Presiding Officer
90	Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Polisiau i Hyrwyddo a Diogelu Cymunedau Cymru Welsh Conservatives Debate: Policies to Promote and Protect Communities in Wales
120	Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Mesuryddion Smart Welsh Liberal Democrats Debate: Smart Meters
144	Amser Pleidleisio Voting Time
149	Dadl Fer: Clamydia: Yr Epidemig Tawel Short Debate: Chlamydia: The Silent Epidemic

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 12.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 12.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Galwaf y Cynulliad i drefn.

The Presiding Officer: I call the Assembly to order.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery

Additional Funding

Q1 Leanne Wood: What representations has the Minister received regarding the allocation of additional funding for the children, education, lifelong learning and skills portfolio? OAQ(3)0214(FPS)

The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies): I have regular discussions with the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills to discuss budget and expenditure matters.

Leanne Wood: Minister, I recently met with the headteacher of Cowbridge Comprehensive School, who showed me the shocking state of the buildings. Will the One Wales Government back the council's efforts to influence the Charity Commission regarding the disposal of land at the lower school site? Will you also tell us what representations you and other Ministers have made to Rhondda Cynon Taf County Borough Council regarding the upgrading and replacing of school buildings?

Andrew Davies: I will take up the specific question about Cowbridge Comprehensive School with the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, because I do not have that level of detail. More generally, the state of school buildings is a major priority for us, and we are working with the Welsh Local Government Association, which has also identified this as a priority area. I am working with Jane Hutt and ministerial colleagues to look at strategic capital investment priorities over the term of this Assembly. Some of that investment will be funded through Jane Hutt's main budget,

Cyllid Ychwanegol

C1 Leanne Wood: Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynglŷn â dyrannu cyllid ychwanegol i bortffolio plant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau? OAQ(3)0214(FPS)

Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies): Byddaf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i drafod materion yn ymwneud â'r gyllideb a gwariant.

Leanne Wood: Weinidog, yn ddiweddar, cyfarfûm â phennaeth Ysgol Gyfun y Bont-faen, a ddangosodd gyflwr dychrynlyd yr adeiladau imi. A wnaiff Llywodraeth Cymru'n Un gefnogi ymdrechion y cyngor i ddylanwadu ar y Comisiwn Elusennau o ran gwaredu'r tir ar safle isaf yr ysgol? A ddywedwch wrthym hefyd pa sylwadau yr ydych chi a Gweinidogion eraill wedi'u gwneud i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yng nghyswllt uwchraddio adeiladau'r ysgol a chael rhai newydd yn lle'r hen rai?

Andrew Davies: Trafodaf y cwestiwn penodol ynghylch Ysgol Gyfun y Bont-faen gyda'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau oherwydd nid wyf yn meddu ar y lefel honno o fanylion. Yn fwy cyffredinol, mae cyflwr adeiladau ysgolion yn un o'n prif flaenoriaethau, ac yr ydym yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sydd hefyd wedi dynodi bod hwn yn faes y dylid rhoi blaenoriaeth iddo. Yr wyf yn gweithio gyda Jane Hutt a chyd-Weinidogion i edrych ar flaenoriaethau buddsoddi cyfalaf strategol dros dymor y Cynulliad. Cyllidir rhywfaint o'r

but there is also provision for applications to the planned strategic capital investment board, so that we can look at ways in which we can leverage in additional investment.

Alun Cairns: Leanne Wood raises an important issue in terms of funding for the children, education, lifelong learning and skills portfolio. If we take out the additional funding that has been made available for top-up fees, which is effectively not going into schools, skills and the other types of issues that we are talking about, because it merely replaces funds that would be paid for in England by the student, you will be aware that the budget is being cut, in real terms, for the forthcoming financial year. Therefore, I was surprised to see that, for the current financial year, the supplementary budget change makes a further cut of £10 million. How do you account for the fact that the backlog in school maintenance and repairs, in schools such as Cowbridge and Llantwit Major, and across the whole of Wales, is £818 million, but that the capital made available for the next financial year is only £157 million? I note your response in relation to the strategic capital investment board, but even if all the money from that board was put into the education and lifelong learning budget, it still would not meet the £818 million backlog. What hope can you offer to pupils in Cowbridge, and across the whole of Wales, that they will have a new school building?

Andrew Davies: When you are looking at a major priority such as school refurbishment, you cannot see it in isolation from other areas of policy, such as falling school rolls, which is one of the five major priorities identified by the Welsh Local Government Association in its mini manifesto published last summer. We will be working with local authorities, individually and collectively, to identify ways in which we can maximise the resources available. For example, if there is to be rationalisation of school estates in response to falling school rolls, there are considerable assets in that regard for the local authorities; that is one of the issues that we will discuss

buddsoddiad hwnnw drwy brif gyllideb Jane Hutt, ond ceir hefyd ddarpariaeth ar gyfer ceisiadau i'r bwrdd buddsoddi cyfalaf strategol, er mwyn inni allu edrych ar ffyrdd y gallwn gael gafael ar fuddsoddiad ychwanegol.

Alun Cairns: Mae Leanne Wood yn codi mater pwysig o ran cyllid ar gyfer y portffolio plant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau. Os nad ydym yn cyfrif y cyllid ychwanegol sydd ar gael ar gael ar gyfer ffioedd dysgu atodol, cyllid nad yw, yn ei hanfod, yn mynd at ysgolion, sgiliau a materion eraill tebyg yr ydym yn siarad amdanynt, oherwydd mai dim ond cymryd lle cyllid y telid amdano yn Lloegr gan y myfyriwr y mae, byddwch yn ymwybodol bod y gyllideb yn cael ei thorri, mewn termau real, ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Yr oeddwn, felly, wedi synnu gweld bod toriad ychwanegol o £10 miliwn yn y newid yn y gyllideb atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Sut yr ydych yn rhoi cyfrif dros y ffaith bod yr ôl-groniad o waith yng nghyswllt cynnal a chadw ac atgyweirio ysgolion, mewn ysgolion megis y rheini yn y Bont-faen ac yn Llanilltud Fawr, a drwy Gymru gyfan, yn £818 miliwn, ond mai dim ond £157 miliwn yw'r cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf? Sylwaf ar eich ateb o ran y bwrdd buddsoddi cyfalaf strategol, ond hyd yn oed petai'r holl arian gan y bwrdd hwnnw'n cael ei roi yn y gyllideb addysg a dysgu gydol oes, ni fyddai eto'n bodloni'r ôl-groniad o £818 miliwn. Pa obaith y gallwch ei gynnig i ddisgyblion yn y Bont-faen, a ledled Cymru, y byddant yn cael adeilad ysgol newydd?

Andrew Davies: Wrth edrych ar flaenoriaeth bwysig megis ailwampio ysgolion, ni allwch edrych arni ar ei phen ei hun, heb edrych ar feysydd polisi eraill, megis gostyngiad yn niferoedd y disgyblion sydd ar y gofrestr, sy'n un o'r pum prif flaenoriaeth a ddynodir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei maniffesto bach a gyhoeddwyd yr haf diwethaf. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, yn unigol ac ar y cyd, i ganfod ffyrdd y gallwn fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael. Er enghraifft, os ad-drefnir ystadau ysgolion fel ymateb i'r ffaith bod nifer y disgyblion ar gofrestri ysgolion yn disgyn, golyga hynny asedau

with them. So, you cannot just take Assembly Government funding for education in isolation. To take one element of the budget—as you did with fees—and say that that, somehow, reflects our lack of commitment, is absolutely not true. In fact, over the next three years, there is a 3 per cent, 4 per cent and 4.5 per cent increase in the budget, over and above the additional resource that we are putting into the foundation phase.

sylweddol ar gyfer yr awdurdodau lleol; mae hwnnw'n un o'r materion y byddwn yn eu trafod gyda nhw. Felly, ni allwch ddim ond cymryd cyllid Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer addysg ar ei ben ei hun. Nid yw dweud, ar ôl edrych ar un elfen o'r gyllideb—fel y gwnaethoch gyda ffioedd—bod hynny, rywsut, yn adlewyrchu ein diffyg ymrwymiad, yn wir o gwbl. Mewn gwirionedd, dros y tair blynedd nesaf, ceir cynnydd o 3 y cant, 4 y cant a 4.5 y cant yn y gyllideb, a hynny'n ychwanegol at yr adnoddau ychwanegol yr ydym yn eu rhoi i mewn i'r cyfnod sylfaen.

Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

C2 Nerys Evans: Pa sylwadau mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch darparu cyllid ychwanegol er mwyn cyflawni'r polisiau sy'n ymwneud â chynigion Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol pan gânt eu cymeradwyo? OAQ(3)0239(FPS)

Andrew Davies: I have received a variety of representations relating to LCOs and other legislative proposals.

Nerys Evans: Mae consensws clir yn y Cynulliad ynglŷn ag ychwanegu at bwerau'r Cynulliad a'u hehangu. Bydd y Gorchmynion deddfwriaethol a Mesurau yn ychwanegu at bwerau, dyletswyddau a chylch gwaith y Cynulliad. Mae gan sawl Gorchymyn drafft sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd botensial am Fesurau eang yn y dyfodol. Mae gan y Mesurau sydd ar fin cael eu trafod oblygiadau mawr i'r Llywodraeth ac i lywodraeth leol. Yr wyf yn meddwl yn benodol am Fesur arfaethedig Dr Dai ynglŷn â dyletswyddau llywodraeth lleol ac fy nghynnig i am Fesur, na fu cyfle hyd yn hyn i'w drafod. Ategaf y gefnogaeth i ddatblygu ein pwerau ond beth yw'r broses ar gyfer dynodi cyllid i wireddu a chyflawni'r Mesurau hyn? A ydych yn hapus y bydd arian ar gael yn dilyn ein ceisiadau am bŵer? Nid ydym am ddatblygu sefyllfa lle yr ydym yn datblygu ein Mesurau ond bod angen cyfyngu ar ein gweithredoedd oherwydd cyfyngiadau ariannol.

The Presiding Officer: Order. That question

Legislative Competence Orders

Q2 Nerys Evans: What representations has the Minister received regarding additional funding to finance the delivery of the policies relating to LCO proposals, once approved? OAQ(3)0239(FPS)

Andrew Davies: Yr wyf wedi cael amrywiaeth o sylwadau'n ymwneud â Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol a chynigion deddfwriaethol eraill.

Nerys Evans: There is a clear consensus in the Assembly regarding adding to the Assembly's powers and enhancing them. Legislative Orders and Measures will add to the Assembly's powers, duties and remit. Many of the draft Orders being discussed at the moment have potential for broad-ranging Measures in the future. The Measures that are about to be discussed have great implications for the Government and for local government. I'm thinking specifically about Dr Dai's proposed Measure in relation to local government duties and my proposed Measure, which we have not had an opportunity to discuss yet. I endorse the wish to enhance our powers, but what is the process for identifying funding to realise and fulfil these Measures? Are you happy that funding will be available following our requests for powers? We do not want to see a situation emerging in which we develop our Measures but find ourselves constrained because of funding limitations.

Y Llywydd: Trefn. Yr oedd y cwestiwn

was much too long and I expect a shorter answer.

Andrew Davies: When any legislative proposal is put forward, one of the considerations to be made is the level of resources available. That is part of the budget process with Ministers. I will take into account, as will they, the resources needed to give effect to the legislative programme. The financial implications of any proposed legislation is key. In the first instance, the resources within the individual spending Minister's own portfolio would be called on. I am a member of the Cabinet legislation committee and my role there is to ensure that any proposals are fully funded.

William Graham: I will press you to amplify that a little. I am grateful for your answer to what was a long and involved question, but you will be well aware that, as part of the devolved process, the LCO is crucial to the development of the Assembly, and the financing of those proposals is your responsibility. Will you be open and completely transparent in finding that extra money?

Andrew Davies: When you ask me to 'amplify', do you mean to speak louder or to speak in greater depth?

William Graham: I am asking for more information. [*Laughter.*]

Andrew Davies: I am mindful of the Presiding Officer's injunction to be brief. When any proposal comes forward, we will consider its financial implications. We have also made it clear to local government that, if we are to impose or require any additional responsibilities, those will be fully funded. The resources available to us are a key factor in taking forward any legislation.

Jenny Randerson: The proposed LCO on mental health services, if it passes into law, will cost additional money. The additional money in next year's budget for mental health was welcomed by all sides in the

hwnnw'n rhy hir o lawer a disgwyliaf y bydd yr ateb yn fyrrach.

Andrew Davies: Pan gyflwynir unrhyw gynnis deddfwriaethol, un peth y dylid ei ystyried yw lefel yr adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn rhan o broses y gyllideb gyda Gweinidogion. Byddaf fi, yn yr un modd â hwy, yn ystyried yr adnoddau y mae eu hangen i roi'r rhaglen ddeddfwriaethol ar waith. Mae goblygiadau ariannol unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig yn allweddol. Yn gyntaf, edrychir ar yr adnoddau o fewn portffolio gwario unigol y Gweinidog ei hun. Yr wyf yn aelod o Bwyllgor Deddfau'r Cabinet a'm swyddogaeth yn y pwyllgor hwnnw yw sicrhau y cyllidir unrhyw gynigion yn llawn.

William Graham: Fe'ch anogaf i ymhelaethu ryw ychydig ar hynny. Yr wyf yn ddiolchgar am eich ateb i gwestiwn hir ac ymglymedig, ond byddwch yn dra ymwybodol bod y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, fel rhan o'r broses ddatganoledig, yn hanfodol i ddatblygiad y Cynulliad, a'ch cyfrifoldeb chi yw cyllido'r cynigion hynny. A fyddwch yn agored ac yn gwbl dryloyw wrth ddod o hyd i'r arian ychwanegol hwnnw?

Andrew Davies: Wrth ofyn imi 'ymhelaethu', a ydych yn golygu siarad yn uwch ynteu siarad mewn mwy o fanylder?

William Graham: Yr wyf yn gofyn am fwy o wybodaeth. [*Chwerthin.*]

Andrew Davies: Yr wyf yn cofio am orchymyn y Dirprwy Lywydd i fod yn gryno. Pan gyflwynir unrhyw gynnis, byddwn yn ystyried ei oblygiadau ariannol. Yr ydym hefyd wedi cyfleu'n glir wrth lywodraeth leol, os byddwn yn rhoi cyfrifoldebau ychwanegol iddynt neu'n gofyn iddynt gymryd cyfrifoldebau ychwanegol, y byddwn yn cyllido'r rheini'n llawn. Mae'r adnoddau sydd ar gael inni yn ffactor allweddol wrth symud unrhyw ddeddfwriaeth yn ei blaen.

Jenny Randerson: Os bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl yn dod yn gyfraith, bydd yn costio arian ychwanegol. Croesawyd yr arian ychwanegol

Chamber yet I notice that, in the final budget, the amount allocated for mental health was reduced by £1 million. Can you explain why?

Andrew Davies: I will speak to the Minister for Health and Social Services and other relevant Ministers and will write to you on that question. I do not have that level of detail, I am afraid.

Jenny Randerson: If the LCO becomes law, Minister, there will be an even greater need for modern accommodation for treating people with mental health problems, not least those suffering from eating disorders. The appalling buildings that we use as mental hospitals in some cases in Wales, not least in Cardiff where we are still using a nineteenth century asylum, will need to be dealt with. Can you assure us that there will be a more adequate amount of money in the capital budget to provide that suitable accommodation than there has been in the case of schools?

Andrew Davies: The Assembly Government has a substantial amount of resource available for capital expenditure. Of a budget of £14.1 billion, £1.6 billion is for capital this financial year. In addition, just under £500 million is allocated over the next three years for implementing the strategic capital investment board. In the first instance, it is a matter for the spending Minister or Ministers to come forward with any proposals for investment. If it is to become a call on the strategic capital investment board, that will again be for the Cabinet to decide on its priorities. If it passes the test, additional resources will, obviously, be allocated.

12.40 p.m.

Carbon Abatement Technologies

Q3 Bethan Jenkins: What representations has the Minister received regarding the provision of additional funding to aid carbon abatement technologies for public vehicles? OAQ(3)0208(FPS)

ar gyfer iechyd meddwl yng nghyllideb y flwyddyn nesaf gan bob ochr yn y Siambr. Serch hynny, ac edrych ar y gyllideb derfynol, sylwaf fod y swm a glustnodwyd ar gyfer iechyd meddwl £1 miliwn yn is. A allwch egluro pam?

Andrew Davies: Siaradaf â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Gweinidogion perthnasol eraill ac ysgrifennaf atoch ynghylch y cwestiwn hwnnw. Mae arnaf ofn nad wyf yn meddu ar wybodaeth fanwl am hynny.

Jenny Randerson: Weinidog, os bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn dod yn gyfraith, bydd mwy o angen byth am lety modern i drin pobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl, nid lleiaf y rheini sy'n dioddef o anhwylderau bwyta. Bydd angen delio â'r adeiladau gwarthus a ddefnyddiwn fel ysbytai meddwl mewn rhai achosion yng Nghymru, nid lleiaf yng Nghaerdydd lle yr ydym yn dal i ddefnyddio seilam o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. A allwch ein sicrhau y bydd swm mwy digonol o arian yn y gyllideb cyfalaf i ddarparu'r llety addas hwnnw nag a roddwyd i ysgolion?

Andrew Davies: Mae gan Lywodraeth y Cynulliad adnoddau sylweddol ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf. O gyllideb o £14.1 biliwn, mae £1.6 biliwn ar gyfer cyfalaf y flwyddyn ariannol hon. Yn ogystal â hyn, dyrennir dim ond ychydig yn llai na £500 miliwn dros y tair blynedd nesaf i roi'r bwrdd buddsoddi cyfalaf strategol ar waith. Yn y lle cyntaf, dylai'r Gweinidog neu'r Gweinidogion sy'n gwario gyflwyno unrhyw gynigion ar gyfer buddsoddi. Os bydd yn galw ar y bwrdd buddsoddi cyfalaf strategol, bydd y Cabinet eto i benderfynu ar ei flaenoriaethau. Os bydd yn pasio'r prawf, yn amlwg, dyrennir adnoddau ychwanegol.

Technolegau Lleihau Carbon

C3 Bethan Jenkins: Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynglŷn â darparu cyllid ychwanegol i gynorthwyo technolegau lleihau carbon mewn cerbydau cyhoeddus? OAQ(3)0208(FPS)

Andrew Davies: None, as far as I am aware.

Andrew Davies: Dim, hyd y gwn.

Bethan Jenkins: You may be aware that the Government has made funding available for local authorities to invest in carbon abatement mechanisms on council vehicles. These devices reduce the level of carbon emitted from vehicles and have proven to be very effective in minimising emissions by Governments world wide. Can the Minister tell me, therefore, the extent of the take up of the funding offered to local authorities by the Welsh Assembly Government and the total amount of money available for the forthcoming financial year?

Bethan Jenkins: Efallai y gwyddoch fod y Llywodraeth wedi sicrhau bod cyllid ar gael i awdurdodau lleol ei fuddsoddi mewn mecanweithiau lleihau carbon ar gerbydau cynghorau. Mae'r dyfeisiadau hyn yn gostwng lefel y carbon a ollyngir o gerbydau ac mae Llywodraethau ar draws y byd wedi profi eu bod yn lleihau gollyngiadau'n effeithiol iawn. Felly, a all y Gweinidog ddweud wrthyf i ba raddau y manteisiwyd ar y cyllid a gynigir i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a beth yw cyfanswm yr arian sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf?

Andrew Davies: We do support the development of carbon abatement technologies through the alternative fuel and power train cluster. I will ask Ieuan Wyn Jones, the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport, and/or the Minister for Environment, Sustainability and Housing to write to you, giving more detail on that programme.

Andrew Davies: Yr ydym yn cefnogi datblygu technolegau lleihau carbon drwy'r clwstwr trenau pŵer a thanwydd amgen. Gofynnaf i Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ac/neu'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ysgrifennu atoch, i roi mwy o fanylion am y rhaglen honno.

Darren Millar: Minister, will you join me in acknowledging the success of the green fleet review programme that is being operated by the Energy Saving Trust in England and Scotland? It provides free expert consultancy to public and private-sector organisations to help them to reduce emissions from their fleets. When does the Welsh Assembly Government intend to respond to the proposals from the Energy Saving Trust, which it submitted in January 2007, regarding the roll-out of this programme in Wales?

Darren Millar: Weinidog, a ymunwch â mi i gydnabod llwyddiant y rhaglen adolygu cerbydau gwyrdd sy'n cael ei gweithredu gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn Lloegr ac yn yr Alban? Mae'n darparu gwasanaeth ymgynghori arbenigol am ddim i sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i'w cynorthwyo i leihau gollyngiadau o'u cerbydau. Pryd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ymateb i gynigion gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2007, i gyflwyno'r rhaglen hon yng Nghymru?

Andrew Davies: Again, Darren, I will ask Ieuan Wyn Jones, as the Minister with responsibility for transport, to write to you on that matter.

Andrew Davies: Eto, Darren, gofynnaf i Ieuan Wyn Jones, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am drafnidiaeth, ysgrifennu atoch ynghylch y mater hwnnw.

Mick Bates: Minister, I appreciate your earlier comments in answer to Bethan Jenkins; however, I think that the greatest way to reduce carbon emissions from transport is to hasten the uptake of sustainable biofuels, a technology that is already available and does not require any modifications to vehicles in order for it to be used. What discussions have you had,

Mick Bates: Weinidog, yr wyf yn gwerthfawrogi'r sylwadau a roesoch yn gynharach wrth ateb Bethan Jenkins; fodd bynnag, credaf mai'r ffordd orau o leihau gollyngiadau carbon o drafnidiaeth yw cyflymu'r gwaith sy'n gysylltiedig ag annog defnyddio biodanwyddau cynaliadwy, technoleg sydd eisoes ar gael. Nid oes rhaid addasu cerbydau er mwyn defnyddio'r

Minister, with regard to funding or financial incentives to support the biofuels industry in Wales, which has such huge potential to reduce the carbon footprint of transport? That would especially help with the financial aspect of the delivery of many of our public services, especially in rural Wales.

Andrew Davies: It is certainly an interesting, but also a challenging, area of policy. This again comes back to the point about what is the appropriate role for Government and the public sector in intervening in what is, essentially, a market-driven policy area. There clearly needs to be a balance between increasing demand and increasing supply, but I know that there are also big challenges in terms of deciding whether biofuels do actually lead to a reduction in carbon emissions, because it depends very much on which fuel stock you use to derive your biofuels from. There is no environmental benefit if you end up using a huge amount of carbon in order to produce biofuels, so it is not a straightforward policy area. However, I will, once again, ask the Minister with responsibility for transport to write to you on that.

Public Service Delivery

Q4 Angela Burns: What steps is the Minister taking to improve the performance of public service delivery in Carmarthen West and South Pembrokeshire? OAQ(3)0229(FPS)

Andrew Davies: In every part of Wales, we are working to ensure that we have public services that are high performing, efficient, ambitious and innovative, which put the citizen at the centre of all that they do and work well together.

Angela Burns: Both of the councils in my constituency are having to consider the prospect of fortnightly refuse collections. That concerns me as we are still not meeting

dechnoleg ychwaith. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael, Weinidog, ynghylch arian neu gymhellion ariannol i gefnogi'r diwydiant biodanwyddau yng Nghymru—diwydiant sydd â photensial anferth i leihau ôl-troed carbon trafndiaeth? Byddai hynny'n arbennig yn cynorthwyo â'r agwedd ariannol sy'n gysylltiedig â chyflenwi llawer o'n gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yng Nghymru wledig.

Andrew Davies: Mae'n bendant yn faes polisi diddorol, ond y mae hefyd yn cynnig her. Mae hyn eto yn dychwelyd ar y pwynt ynghylch beth yw swyddogaeth briodol y Llywodraeth a'r sector cyhoeddus o ran ymyrryd mewn maes polisi sydd, yn ei hanfod, yn cael ei yrru gan y farchnad. Mae'n amlwg bod angen cael cydbwysedd rhwng cynyddu galw a chynyddu cyflenwad, ond gwn y ceir hefyd heriau mawr o ran penderfynu a yw biodanwyddau mewn gwirionedd yn arwain at leihau gollyngiadau carbon, oherwydd y mae'n dibynnu llawer iawn ar ba stoc tanwydd y bydd y biodanwyddau a ddefnyddiwyd yn tarddu. Os byddwch, yn y pen draw, yn defnyddio llawer iawn o garbon i gynhyrchu biodanwyddau ni fydd hynny'n fuddiol o gwbl i'r amgylchedd, felly nid yw'n faes polisi syml. Fodd bynnag, gwnaf, unwaith eto, ofyn i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am drafndiaeth ysgrifennu atoch ynghylch hynny.

Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

C4 Angela Burns: Pa gamau mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella perfformiad cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro? OAQ(3)0229(FPS)

Andrew Davies: Yr ydym yn gweithio ym mhob rhan o Gymru i sicrhau bod gennym wasanaethau cyhoeddus effeithlon, uchelgeisiol ac arloesol sy'n perfformio'n dda, yn sicrhau bod y dinesydd yn ganolog i bopeth a wnânt ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Angela Burns: Mae'r ddau gyngor yn f'etholaeth yn gorfod ystyried y posibilrwydd o gasglu sbwriel unwaith bob pythefnos. Mae hynny'n peri pryder imi gan nad ydym eto'n

the recycling targets. The majority of authorities in Wales are recycling less than half of that required by the English target of 50 per cent. As a whole, we are only recycling a quarter of our municipal waste. How can local authorities aim to increase their success figures when presented with such a tight settlement, which is restricting their ambitions?

Andrew Davies: Waste management is clearly a major policy area. Jane Davidson, as the Minister for the environment, leads on it, but several other Ministers also have an interest, including me. Jane is taking forward this policy area in collaboration with local government, both individually and collectively. The WLGA, in its mini manifesto, identified waste management as its top priority. We are working with local authorities to identify the best and most sustainable way forward, both financially and environmentally, in terms of waste management. We clearly have a long way to go. There has been a significant improvement in terms of recycling, but we know that, compared with not just England, but other parts of Europe, we still have a significant way to go. That is an area that Jane Davidson is leading on.

Angela Burns: It is nice to hear that, Minister, but obviously, we have an abysmal record on the delivery of some of our waste management strategies. In fact, on getting local authorities generally to meet their targets, there has been yet another report on the failures. There are also such issues as bedblocking. As the Minister with responsibility for public service delivery, what can you do to ensure that Ministers who otherwise fail to deliver services to the public actually deliver them in a timely and cost-effective manner?

Andrew Davies: The citizens of Wales expect high-quality services. I have identified what I call a postcode lottery in that services vary unacceptably across Wales. I think that local government has realised that waste management is a major priority. We are taking forward solutions on a regional basis, and not just on an individual local authority basis, and we are also investing a

cyrraedd y targedau ailgylchu. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau yng Nghymru yn ailgylchu llai na hanner y canran sy'n ofynnol yn Lloegr, sef 50 y cant. Ar y cyfan, dim ond chwarter ein gwastraff trefol yr ydym yn ei ailgylchu. Sut y gall awdurdodau lleol anelu at godi eu ffigurau llwyddiant a hwythau'n wynebu setliad mor dynn, sy'n cyfyngu eu huchelgeisiau?

Andrew Davies: Mae rheoli gwastraff yn amlwg yn faes polisi pwysig. A hithau'n Weinidog dros yr amgylchedd, Jane Davidson sy'n arwain y mater, ond mae gan amryw o Weinidogion eraill ddiddordeb hefyd, gan gynnwys myfi fy hun. Mae Jane yn mynd â'r maes polisi hwn yn ei flaen ar y cyd â llywodraeth leol, yn unigol ac ar y cyd. Mae CLILC, yn ei maniffesto bach, yn datgan mai rheoli gwastraff yw ei phrif flaenoriaeth. Ac ystyried rheoli gwastraff, yr ydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ganfod y ffordd orau a'r ffordd fwyaf cynaliadwy o symud ymlaen, o ran arian ac o ran yr amgylchedd. Cafwyd gwelliannau sylweddol o ran ailgylchu, ond gwyddom, o'n cymharu nid yn unig â Lloegr, ond â rhannau eraill o Ewrop, bod gennym lawer o waith o'n blaenau. Mae hwnnw'n faes y mae Jane Davidson yn ei arwain.

Angela Burns: Mae'n braf clywed hynny Weinidog, ond yn amlwg mae gennym hanes truenus o ran cyflwyno rhai o'n strategaethau rheoli gwastraff. Yn wir, o ran cael awdurdodau lleol i gyrraedd eu targedau yn gyffredinol, cafwyd adroddiad arall eto am y methiannau. Ceir hefyd faterion megis blocio gwelyau. Gan mai chi yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, beth allwch ei wneud i sicrhau y bydd Gweinidogion sydd, fel arall, yn methu cyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd, yn eu cyflenwi mewn modd costeffeithiol a phrydlon?

Andrew Davies: Mae dinasyddion Cymru'n disgwyl gwasanaethau o ansawdd uchel. Yr wyf wedi dynodi'r hyn a alwaf yn loteri cod post, o ran bod gwasanaethau'n amrywio'n annerbyniol ledled Cymru. Credaf fod llywodraeth leol wedi sylweddoli bod rheoli gwastraff yn flaenoriaeth o bwys. Yr ydym yn bwrw ymlaen ag atebion ar sail ranbarthol, ac nid ar sail awdurdod lleol unigol yn unig,

considerable amount of additional funding in that—some £90 million over three years is going towards addressing this major area of concern. Again, it is a matter of ensuring value for money and delivering on our policy objectives, and we know that we can only do that by working jointly and collaboratively. In this case, that is with local authorities, but, presumably, that will include the private sector in terms of providing waste management facilities.

Alun Davies: In terms of public service delivery in south-west Wales, will you outline how you see the role of the spatial plan and the relationship between the two? Specifically, will you accompany me on a visit to Ystradgynlais, in the upper Swansea valley, to see for yourself how the spatial plan will impact on communities and on the delivery of public services in communities such those of the upper Swansea valley as well as those of Pembrokeshire and Carmarthenshire?

Andrew Davies: I would be more than happy to visit Ystradgynlais with you again—we have been there together on a couple of occasions.

The Wales spatial plan is, for us, a major priority. Only last Friday, I chaired a consultation meeting of the Pembrokeshire Haven, which includes Pembrokeshire and west Carmarthenshire, looking at some of the big issues affecting citizens and communities there. These included employment, education and skills training, housing or tourism—a wide range of policy areas. The response has been enthusiastic to the Wales spatial plan, as indicated by the number of people who have responded and who want to attend the consultation meetings. In the case of Ystradgynlais, the Swansea valley and how it relates to mid Wales, the spatial plan is of crucial importance in addressing the needs of those communities.

Y Llywydd: Cwestiwn am Orllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro yw hwn, ac nid am Ystradgynlais.

ac yr ydym hefyd yn buddsoddi swm sylweddol o gyllid ychwanegol yn hynny—mae oddeutu £90 miliwn dros dair blynedd yn mynd at fynd i'r afael â'r maes pryder dybryd hwn. Eto, mae'n fater o sicrhau gwerth am arian a gwireddu ein hamcanion polisi, a gwyddom mai dim ond drwy gydweithio a gweithio'n gydweithredol y gallwn wneud hynny. Yn yr achos hwn, hynny yw, gydag awdurdodau lleol, ond, yn ôl pob tebyg, bydd hynny'n cynnwys y sector preifat o ran darparu cyfleusterau rheoli gwastraff.

Alun Davies: O ran cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn y de-orllewin, a roddwch frasmcan o'ch barn am swyddogaeth y cynllun gofodol, a'r berthynas rhwng y ddau? Yn benodol, a ddewch gyda mi i ymweld ag Ystradgynlais yng nghwm Tawe uchaf, i weld drosoch eich hun sut y bydd y cynllun gofodol yn effeithio ar gymunedau ac ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau megis y rheini yng nghwm Tawe uchaf, yn ogystal â'r rheini yn sir Benfro ac yn sir Gaerfyrddin?

Andrew Davies: Byddwn yn dra pharod i ymweld ag Ystradgynlais gyda chi eto—yr ydym wedi bod yno gyda'n gilydd unwaith neu ddwy.

Mae cynllun gofodol Cymru yn flaenoriaeth o bwys i ni. Ddydd Gwener diwethaf, bûm yn cadeirio cyfarfod ymgynghori Hafan Sir Benfro, sy'n cynnwys sir Benfro a gorllewin sir Gaerfyrddin, gan edrych ar rai o'r materion o bwys sy'n effeithio ar ddinasyddion ac ar gymunedau yno. Yr oedd y rhain yn cynnwys cyflogaeth, addysg, hyfforddiant sgiliau, tai neu dwristiaeth—ystod eang o feysydd polisi. Cafwyd ymateb brwdfrydig i gynllun gofodol Cymru, fel y dangoswyd yn nifer y bobl sydd wedi ymateb ac sydd am fynd i'r cyfarfodydd ymgynghori. Yn achos Ystradgynlais, cwm Tawe a sut y mae'n berthnasol i'r canolbarth, mae'r cynllun gofodol yn allweddol bwysig o ran mynd i'r afael ag anghenion y cymunedau hynny.

The Presiding Officer: This is a question about Carmarthen West and South Pembrokeshire, and not Ystradgynlais.

Nerys Evans: Yn sir Gâr, mae'r ymddiriedolaeth iechyd a'r cyngor sir wedi dod ynghyd i benodi pennaeth y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol ar y cyd. Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd yng Nghymru, ac mae'n ddatblygiad pwysig o ran integreiddio gwasanaethau. Beth ydych yn ei wneud fel Llywodraeth i hyrwyddo cydweithio yn y gwasanaethau hyn a'r angen i ddefnyddio model sir Gâr ar draws Cymru?

Andrew Davies: In fact, the work in Carmarthenshire comes, in large part, in response to the Government's local service board initiative. I pay tribute to the work of Carmarthenshire council as well as to the local NHS trust, the local health board and others in taking forward this programme, which is focused on certain key priorities and, in this case, delayed transfers of care and social care for older people. The approach is innovative, and it brings all the partners to focus clearly on a policy area, looking at outcome-focused delivery. I pay tribute to all those who have made that possible in Carmarthenshire. We want to learn best practice and to learn the lessons from that, and then roll that out.

Sub-regional Plan

Q5 Janet Ryder: What discussions has the Minister had regarding the implementation of the west Cheshire/north-east Wales sub-regional plan? OAQ(3)0212(FPS)

Andrew Davies: This work involved extensive and successful cross-border collaboration through the Mersey Dee Alliance, and this is reflected in that alliance winning an award for a sub-regional spatial strategy.

Janet Ryder: What is the impact of the sub-regional plan on the development of the Wales spatial plan and, more specifically for north Wales, on the economic development of the region? By how much are housing and transport patterns being dictated by that plan rather than plans that come from within Wales?

Nerys Evans: In Carmarthenshire, the health trust and county council have come together to appoint a joint head of community health and social care services. This is the first time that this has happened in Wales, and is an important development in integrating services. What are you doing as a Government to promote joint working in these services and in rolling out the Carmarthenshire model across Wales?

Andrew Davies: Yn wir, daw'r gwaith yn sir Gaerfyrddin i raddau helaeth, fel ymateb i gynllun bwrdd gwasanaethau lleol y Llywodraeth. Rhoddaf deyrnged i waith cyngor sir Gaerfyrddin ac i'r ymddiriedolaeth GIG leol, i'r bwrdd iechyd lleol ac i eraill o ran mynd â'r rhaglen hon rhagddi. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol penodol, ac yn yr achos hwn, ar oedi wrth drosglwyddo gofal a gofal cymdeithasol i bobl hŷn. Mae'r dull yn arloesol, ac mae'n gwneud i'r holl bartneriaid ganolbwyntio'n glir ar faes polisi, gan edrych ar gyflenwi sy'n canolbwyntio ar ganlyniad. Rhoddaf deyrnged i bawb sydd wedi gwneud hynny'n bosibl yn sir Gaerfyrddin. Yr ydym am ddysgu arfer gorau, a dysgu gwersi yn sgil hynny, ac yna gweithredu hynny.

Cynllun Isranbarthol

C5 Janet Ryder: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch gweithredu cynllun isranbarthol gogledd-ddwyrain Cymru a gorllewin swydd Gaer? OAQ(3)0212(FPS)

Andrew Davies: Yr oedd y gwaith hwn yn cynnwys cydweithio'n helaeth ac yn llwyddiannus mewn modd trawsffiniol drwy gyfrwng Cynghrair Mersi a Dyfrdwy, a chaiff hyn ei adlewyrchu drwy'r gynghrair honno'n ennill gwobr am strategaeth ofodol isranbarthol.

Janet Ryder: Beth yw effaith y cynllun isranbarthol ar ddatblygiad cynllun gofodol Cymru ac, yn fwy penodol i'r gogledd, ar ddatblygiad economaidd y rhanbarth? I ba raddau y mae patrymau trafniadaeth a thai yn cael eu llywio gan y cynllun hwnnw yn hytrach na chynlluniau a ddaw o Gymru?

12.50 p.m.

Andrew Davies: The Wales spatial plan is crucial, but it is about not only relationships in Wales, but external relationships, which, in this case, is with north-west England. The Mersey Dee Alliance is showing the way ahead, illustrated by the fact that it received an award for planning at the Royal Town Planning Institute's north-west regional planning achievement awards last year. It looks at concrete areas, including housing, patterns of employment, the movement of people or implications for transport. Implicit and embedded in the planning that is being developed in various areas such as Warren Hall or the northern gateway at the heart of the business park, and other major developments, is a spatial plan perspective, which relates to what is happening in north-west England as well as in Wales.

Mark Isherwood: The sub-regional spatial strategy that you referred to provides for far greater cross-border co-operation over the next 15 years. Wrexham and north Wales have cross-border agreements with regard to epilepsy services. They have recently received money from the Big Lottery fund to develop a field worker service, but they have been informed that they will not receive a renewal of core funding from the Assembly Government to help them deliver Edwina Hart's newly published service development commissioning directive for epilepsy. They tell me that if they cannot secure one-off grants of around £45,000, they will have to tell their staff that their contracts will end at the end of March and that, after 20 years, Epilepsy Wales will cease to operate in the way that it currently does. Will you use your good offices to see if the Assembly Government can intervene to ensure that Epilepsy Wales can continue beyond its 20 years and hopefully serve people in Wales with epilepsy for many decades to come?

Andrew Davies: Mae cynllun gofodol Cymru'n allweddol, ond nid yw'n ymwneud â chysylltiadau yng Nghymru'n unig, mae'n ymwneud â chysylltiadau allanol hefyd, sydd, yn yr achos hwn, yn gysylltiadau gyda gogledd-orllewin Lloegr. Dengys Cynghrair Mersi a Dyfrdwy'r ffordd ymlaen, a dangosir hynny yn y ffaith iddi ennill gwobr am gynllunio yng ngwobrau cyflawniad ym maes cynllunio rhanbarthol gogledd-orllewin Lloegr y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol y llynedd. Mae'n ymchwilio i feysydd diriaethol, gan gynnwys tai, patrymau cyflogaeth, y modd y mae pobl yn symud neu oblygiadau ar gyfer trafniadaeth. Mae persbectif cynllun gofodol wedi'i wreiddio ac ymhlyg yn y gwaith cynllunio a ddatblygir mewn amrywiol ardaloedd, megis yn Neuadd Warren neu ym mhorth y gogledd yng nghanol y parc busnes, ac mewn datblygiadau mawr eraill. Mae persbectif y cynllun gofodol yn berthnasol i'r hyn sy'n digwydd yng ngogledd-orllewin Lloegr yn ogystal â Chymru.

Mark Isherwood: Mae'r strategaeth ofodol isranbarthol y cyfeiriasoch ati'n darparu ar gyfer mwy o gydweithredu trawsffiniol o lawer dros y 15 mlynedd nesaf. Mae gan Wrecsam a'r gogledd gytundebau trawsffiniol parthed gwasanaethau epilepsi. Maent wedi cael arian yn ddiweddar gan y gronfa Loteri Fawr er mwyn datblygu gwasanaeth gweithiwr maes, ond maent wedi cael ar ddeall na adnewyddir y cyllid craidd gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn eu helpu i gyflwyno'r gyfarwyddeb comisiynu datblygu gwasanaeth ar gyfer epilepsi a gyhoeddwyd o'r newydd gan Edwina Hart. Dywedant wrthyf, oni allant sicrhau grantiau un-tro gwerth oddeutu £45,000, bydd yn rhaid iddynt ddweud wrth eu staff y bydd eu contractau yn dirwyn i ben ddiwedd Mawrth, ac y bydd Epilepsi Cymru, ar ôl 20 mlynedd, yn rhoi'r gorau i weithredu yn y modd a wna ar hyn o bryd. A ddefnyddiwch eich swyddi da i weld a all Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd i sicrhau y gall Epilepsi Cymru barhau y tu hwnt i'w 20 mlynedd, ac y gall gobeithio wasanaethu pobl yng Nghymru sydd ag epilepsi am nifer o ddegawdau i ddod?

Andrew Davies: I will draw this to the attention of the Minister for Health and Social Services, and either I or she will write to you on that.

Eleanor Burnham: I was at the inaugural launch with Sue Essex and others, and found your proposals to be heartening. I have two questions: first, when will you ensure electrification of the Wrexham to Bidston railway line, which is extremely important for the economy and the movement of people? Secondly, in view of the fact that a quarter of the patients in the West Cheshire Hospital in Chester are Welsh and that 40 per cent of Gobowen Hospital patients are from Wales, how will you ensure that the services are properly funded? I have grave doubts in relation to deep brain stimulation business in Walton Hospital, which I have referred to Edwina Hart. That is another example of public service delivery that involves some angst for a particular constituent of mine. This is all well and good on paper, but can you finance the rhetoric?

Andrew Davies: On your question about the NHS, I will ask the Minister for Health and Social Services to write to you.

On the electrification of the Wrexham to Bidston line, I know that a feasibility study was undertaken—in fact, it was started when I was Minister with responsibility for transport. That feasibility study on the possible electrification of the Wrexham to Bidston line is being conducted by Network Rail. We expect the results of the feasibility study later this year. It will then be up to Ieuan Wyn Jones, as the Minister for the Economy and Transport, and other partners and stakeholders, to decide whether there is a sound economic base for future investment.

‘One Wales’ Spending Commitments

Q6 The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): What discussions has the Minister had on meeting the ‘One Wales’ spending commitments? OAQ(3)0238(FPS)

Andrew Davies: Dygaf hyn i sylw'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a bydd naill ai hi neu fi'n ysgrifennu atoch ynghylch hynny.

Eleanor Burnham: Yr oeddwn yn bresennol yn y lansiad agoriadol gyda Sue Essex ac eraill, a chanfŷm eich cynigion yn galonogol. Mae gennyf ddau gwestiwn: yn gyntaf, pryd y sicrhewch drydaneiddio rheilffordd Wrecsam i Bidston, sy'n bwysig tu hwnt i'r economi ac o ran y modd y mae pobl yn symud? Yn ail, ac ystyried y ffaith bod chwarter y cleifion yn Ysbyty West Cheshire yng Nghaer yn Gymry, ac y daw 40 y cant o gleifion Ysbyty Gobowen o Gymru, sut y sicrhewch yr ariennir y gwasanaethau'n briodol? Mae gennyf amheuan difrifol ynghylch maes ysgogi yn nwf'n yr ymennydd yn Ysbyty Walton, ac yr wyf wedi'u cyfeirio at Edwina Hart. Dyna enghraifft arall o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sy'n golygu rhywfaint o ing i un o'm hetholwyr. Mae hyn yn edrych yn iawn ar bapur, ond a allwch ariannu'r rhethreg?

Andrew Davies: O ran eich cwestiwn am y GIG, gofynnaf i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu atoch.

O ran trydaneiddio rheilffordd Wrecsam i Bidston, gwn y cynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb—yn wir, dechreuwyd yr astudiaeth pan oeddwn yn Weinidog â chyfrifoldeb dros drafndiaeth. Network Rail sy'n cynnal yr astudiaeth ddichonoldeb ynghylch posibilrwydd trydaneiddio rheilffordd Wrecsam i Bidston. Disgwylwn ganlyniadau'r astudiaeth ddichonoldeb yn ddiweddarach eleni. Cyfrifoldeb Ieuan Wyn Jones, fel y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, a phartneriaid a rhanddeiliaid eraill wedyn fydd penderfynu a oes sail economaidd gadarn ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol.

Ymrwymadau Gwariant ‘Cymru’n Un’

C6 Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch cyflawni ymrwymadau gwariant ‘Cymru’n Un’? OAQ(3)0238(FPS)

Andrew Davies: The Assembly Government is committed to delivering over the term of this Assembly the radical but realistic 'One Wales' programme.

Michael German: Professor David Reynolds, in his description this morning of Wales's schools in crisis, referred to a report on funding for capital expenditure on schools and school maintenance, which he said demonstrated that what we spend on our schools in Wales is a fraction of what is spent per head in England. What is wrong with his figures, or does he have a point?

Andrew Davies: School effectiveness partly relates to the quantum of the investment that is made. It is interesting that Estyn—the education inspectorate—identified significant improvement across the board in schools in the report that it published yesterday. It stated that

'standards within most areas of education and training in Wales have improved during the last year'.

However, it has identified areas of concern, with one of the main ones being the fact that two-thirds of local authority education services inspected were judged to have uncertain prospects for improvement. Therefore, there are issues to be addressed, but these, as Estyn has identified, are more to do with leadership and management, both at a school and an education authority level, than funding specifically.

Chris Franks: The One Wales Government is committed to providing a minimum of one family nurse per secondary school by the end of the current Assembly. Could you update the Chamber on the funding that you have made available to achieve this aim and the progress that the Government is making on delivering this commitment?

Andrew Davies: I will write to you on that to give you an update.

Andrew R.T. Davies: The bus service operators' grant in Wales was not raised in

Andrew Davies: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i wireddu rhaglen radical ond realistig 'Cymru'n Un', dros dymor y Cynulliad hwn.

Michael German: Yn ei ddisgrifiad y bore yma o ysgolion Cymru mewn argyfwng, cyfeiriodd yr Athro David Reynolds at adroddiad am gyllid ar gyfer gwariant cyfalaf ar ysgolion ac ar gynnal a chadw ysgolion. Dywedodd fod hynny'n dangos bod yr hyn a wariwn ar ein hysgolion yng Nghymru yn ffracsiwn o'r hyn a werir y pen yn Lloegr. Beth sydd o'i le ar y ffigurau hyn, neu a oes ganddo bwynt?

Andrew Davies: Mae effeithiolrwydd ysgol yn ymwneud yn rhannol â chwantwm y buddsoddiad a wneir. Mae'n ddiddorol i Estyn—yr arolygiaeth addysg—nodi gwelliannau sylweddol yn gyffredinol mewn ysgolion yn yr adroddiad a gyhoeddodd ddoe. Yr oedd yn datgan bod

safonau mwyafrif o feysydd addysg a hyfforddiant yng Nghymru wedi gwella yn ystod y flwyddyn diwethaf.

Fodd bynnag, mae wedi nodi meysydd sy'n destun pryder, ac un o'r prif rai yw'r ffaith y barnwyd bod gan ddwy ran o dair y gwasanaethau addysg awdurdod lleol a arolygwyd ragolygon ansicr ar gyfer gwella. Felly, ceir materion y mae angen mynd i'r afael â hwy, ond, fel y mae Estyn wedi canfod, mae a wnelo'r rhain fwy ag arweinyddiaeth a rheolaeth na chyllid yn benodol, a hynny ar lefel awdurdod addysg ac ysgol.

Chris Franks: Mae Llywodraeth Cymru'n Un wedi ymrwymo i ddarparu o leiaf un nyrs deulu i bob ysgol uwchradd erbyn diwedd y Cynulliad presennol. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr ynghylch y cyllid yr ydych wedi'i ddarparu er mwyn cyflawni'r nod hwn, a'r cynnydd a wna'r Llywodraeth o ran gwireddu'r ymrwymiad hwn?

Andrew Davies: Ysgrifennaf atoch ynghylch hynny i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

Andrew R.T. Davies: Ni chynyddwyd grant y gweithredwyr gwasanaethau bysiau yng

line with the 2p increase in duty, as is customary and as happened over the border in England. One of the commitments of the One Wales Government is to increase public transport use. Surely, if bus operators do not receive this rebate, they will not be able to provide the services that everyone would wish to have in rural and urban communities. Did you receive a request for funding to increase the bus service operators' grant, and will you meet the increase if it goes through in April, rather than in October, when it should have gone through?

Andrew Davies: The grant would be a matter for the Department for the Economy and Transport, which deals with bus operators. Our commitment to public transport is self-evident, in terms of policy, delivery and the resources that we provide. Wales is the only part of the UK, apart from London, in which the long-term decline in bus use has been largely halted. We now have a position whereby bus operators in Wales have been reporting increased patronage, and, to a large extent, that is down to our free bus travel programme for older and disabled people. Therefore, we have a record of success in terms of both bus and rail services. We only recently reopened passenger services on the Ebbw Vale line, which were discontinued 40 years ago. That follows the reopening of the Vale of Glamorgan line in 2005 and the running of the first passenger services on the line since the Beecham cuts in the early 1940s. As a Government, we are very committed to public transport and encouraging that modal shift from car use to bus and train use.

Trysorlys y DU

C7 David Lloyd: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Thrysorlys y DU? OAQ(3)0210(FPS)

Andrew Davies: I have established a very positive relationship with the Treasury as a result of my discussions with Andy Burnham, the former Chief Secretary to the Treasury. I hope to meet Yvette Cooper, the current

Nghymru'n unol â'r 2c o gynnydd mewn treth, fel sy'n arferol ac fel y digwyddodd dros y ffin yn Lloegr. Un o ymrwymadau Llywodraeth Cymru'n Un yw cynyddu faint a ddefnyddir ar drafnidiaeth gyhoeddus. Oni chaiff gweithredwyr bysiau'r ad-daliad hwn, go brin y gallant ddarparu'r gwasanaethau y dymunai pawb eu cael mewn cymunedau gwledig a threfol. A gawsoch gais am gyllid i gynyddu grant y gweithredwyr gwasanaethau bysiau, ac a fodlonwch y cynnydd os gweithredir hynny ym mis Ebrill, yn hytrach nag ym mis Hydref, pan ddylai fod wedi'i weithredu?

Andrew Davies: Byddai'r grant yn fater i Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, sy'n delio â gweithredwyr bysiau. Mae ein hymrwymiad i drafnidiaeth gyhoeddus yn amlwg ddigon, o ran cyflenwi, polisi a'r adnoddau a ddarparwn. Cymru yw unig ran y DU, ar wahân i Lundain, lle mae'r dirywiad hirdymor o ran faint a ddefnyddir ar fysiau wedi'i atal i raddau helaeth. Mae gennym yn awr sefyllfa lle mae gweithredwyr bysiau yng Nghymru wedi bod yn cyhoeddi cynnydd yn y nifer sy'n eu defnyddio, ac, i raddau helaeth, ein rhaglen teithio ar fysiau am ddim ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl sydd wrth wraidd y cynnydd hwnnw. Felly, mae gennym hanes llwyddiannus o ran gwasanaethau rheilffordd a bysiau ill dau. Dim ond yn ddiweddar yr ail-agorwyd rheilffordd Glynebwy, y rhoddwyd y gorau i'w defnyddio 40 mlynedd yn ôl. Mae hynny'n dilyn ailagor rheilffordd Bro Morgannwg yn 2005, a chynnal y gwasanaethau teithwyr cyntaf ar y rheilffordd ers toriadau Beecham ddechrau'r 1940au. Fel Llywodraeth, yr ydym yn hynod ymroddgar i drafnidiaeth gyhoeddus ac i annog y newid cyffredinol hwnnw o ddefnyddio car i ddefnyddio bws a thrên.

UK Treasury

Q7 David Lloyd: What recent discussions has the Minister had with the UK Treasury? OAQ(3)0210(FPS)

Andrew Davies: Yr wyf wedi sefydlu perthynas hynod gadarnhaol gyda'r Trysorlys yn sgil fy nhrafodaethau gydag Andy Burnham, cyn-Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Gobeithiaf gwrdd ag Yvette

incumbent, in the near future to build on that positive relationship.

David Lloyd: You will recall that during last week's debate on sport and the London Olympics, we carried an amendment to support the One Wales Government's view that non-games spending on regeneration and transport in London should have a beneficial Barnett consequential for Wales. In view of that successful amendment, how do you intend to progress this important issue with the UK Treasury?

Andrew Davies: I will pursue it as vigorously as I did with the former Chief Secretary to the Treasury. We have made the case that we feel that the ring-fencing of Olympic Games funding and the fact that we did not receive a Barnett consequential was wrong. The funding will lead to significant regeneration in east London and improve transport infrastructure, and we believe that we should have received a Barnett consequential as a result. When I meet Yvette Cooper, I will make those points to her as vigorously as I did to Andy Burnham.

David Melding: The whole issue of the Barnett formula is very delicate given the way in which it affects the various nations of the UK. However, I think that we would all agree that devolution has tested the model quite considerably and that we ought to take stock to see whether it is still fit for purpose and to consider the way forward. I do not think that there is an instant answer, but we could probably work to bring in a more rational formula over the next 10 years or so. When will the much vaunted commission on funding meet? Can you tell us anything about the priorities that it is likely to identify in the first stages?

1.00 p.m.

Andrew Davies: As I indicated to Dai Lloyd, there are legitimate questions about the implementation of the Barnett formula. It was devised in the mid 1970s by Joel Barnett when he was Chief Secretary to the Treasury.

Cooper, y Prif Ysgrifennydd presennol, yn y dyfodol agos er mwyn adeiladu ar y berthynas gadarnhaol honno.

David Lloyd: Byddwch yn cofio inni basio gwelliant yn ystod dadl yr wythnos diwethaf am chwaraeon a Gemau Olympaidd Llundain—gwelliant a oedd yn cefnogi barn Llywodraeth Cymru'n Un y dylai gwariant yn Llundain ar drafnidiaeth ac adfywio nad yw'n ymwneud â'r gemau ddwyn manteision i Gymru drwy fformiwla Barnett. Yng nghyswllt y gwelliant llwyddiannus hwnnw, sut y bwriadwch symud y mater pwysig hwn yn ei flaen gyda Thrysorlys y DU?

Andrew Davies: Af ar drywydd hynny mor frwd ag y gwneuthum gyda chyn-Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Yr ydym wedi cyflwyno'r ddadl y teimlwn fod neilltuo cyllid y Gemau Olympaidd â'r ffaith inni beidio â chael swm canlyniadol drwy fformiwla Barnett yn anghyfiawn. Bydd y cyllid yn arwain at adfywio sylweddol yn nwyrain Llundain ac yn gwella seilwaith trafnidiaeth, a chredwn y dylem fod wedi cael manteision drwy fformiwla Barnett o ganlyniad. Pan gyfarfyddaf ag Yvette Cooper, cyflwynaf y pwyntiau hyn iddi mor frwd ag a wneuthum i Andy Burnham.

David Melding: Mae'r mater yn ymwneud â fformiwla Barnett yn sensitif iawn drwyddo draw ac ystyried y modd y mae'n effeithio ar amrywiol wledydd y DU. Fodd bynnag, credaf y byddem oll yn cytuno bod datganoli wedi profi'r model yn eithaf sylweddol, ac y dylem ystyried y sefyllfa i weld a yw dal yn addas i bwrpas, ac i ystyried y ffordd ymlaen. Ni chredaf y ceir ateb yn syth, ond gallem fwy na thebyg weithio i gyflwyno fformiwla fwy rhesymol dros y 10 mlynedd nesaf. Pryd fydd y comisiwn cyllido y bu cymaint o sôn amdano yn cwrdd? A allwch ddweud unrhyw beth wrthym am y blaenoriaethau y mae'n debygol o'u dynodi yn y camau cyntaf?

Andrew Davies: Fel y dywedais wrth Dai Lloyd, ceir cwestiynau dilys ynghylch gweithredu fformiwla Barnett. Fe'i dyfeisiwyd ganol yr 1970au gan Joel Barnett pan oedd yn Brif Ysgrifennydd i'r Trysorlys.

He certainly did not expect it to be more than a temporary measure and, more than 30 years later, here we are with the same system. There are legitimate questions to be asked about the calculation as well as its implementation, which will be considered by the review. The First Minister, my colleagues in Cabinet, and I are in discussions with colleagues in the UK Government, particularly in the Treasury, along with colleagues in Scotland. We want to ensure that, when we go forward, it is based on sound research. We are currently looking at the scoping of that study.

Yn sicr, nid oedd yn disgwyl iddo fod ddim mwy na mesur dros dro, a dyma ni, dros 30 o flynyddoedd yn ddiweddarach, dal gyda'r un system. Mae cwestiynau dilys i'w gofyn ynghylch y cyfrifo yn ogystal ag am ei weithrediad, ac ystyrir hyn yn yr adolygiad. Mae'r Prif Weinidog, fy nghyd-Weinidogion yn y Cabinet a minnau mewn trafodaethau gydag Aelodau Seneddol yn Llywodraeth y DU, yn enwedig yn y Trysorlys, ynghyd ag Aelodau Seneddol yn yr Alban. Mae arnom eisiau sicrhau, pan symudwn ymlaen, bod hynny ar sail ymchwil gadarn. Yr ydym yn ystyried cwmpasu'r astudiaeth honno ar hyn o bryd.

Changes Within the Budget

Q8 The Leader of the Opposition (Nick Bourne): What discussions has the Minister had on changes within the budget for the current year? OAQ(3)0242(FPS)

Andrew Davies: I have had regular discussions with Cabinet colleagues, and I published the revised 2007-08 expenditure plans for the Assembly Government on 19 February.

Nick Bourne: Thank you for that response. You will be aware that council tax in Wales over the past 10 years has increased by an average of 103 per cent. In fact, the two highest rises in the United Kingdom have been in Monmouthshire—which, before you blame the Tories, was under Labour control for part of that time—and Powys, at 184 per cent and 150 per cent respectively. That has hit pensioners particularly hard. It featured in the 'One Wales' agreement, but the £4 million that has been allocated in the budget to help pensioners will go nowhere. Will that be used just to publicise housing benefit, or will it be used for some other purpose, such as to give a discount, which we are very much in favour of; indeed, our proposal was that pensioners would have £100 discount per pensioner household? Are you looking at the discount option? If so, the £4 million will provide a discount of only around £10 per pensioner household.

Andrew Davies: Yes, we are looking at the

Newidiadau i'r Gyllideb

C8 Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y newidiadau yn y gyllideb am y flwyddyn gyfredol? OAQ(3)0242(FPS)

Andrew Davies: Yr wyf wedi cael trafodaethau gyda fy nghyd-Weinidogion yn y Cabinet, a chyhoeddais gynlluniau gwariant diwygiedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2007-08 ar 19 Chwefror.

Nick Bourne: Diolch ichi am yr ymateb hwnnw. Gwyddoch fod y dreth gyngor yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf wedi cynyddu yn ôl cyfartaledd o 103 y cant. Yn wir, bu dau o'r codiadau mwyaf yn y Deyrnas Unedig yn sir Fynwy—a oedd, cyn i chi feio'r Ceidwadwyr dan reolaeth Lafur am ran o'r cyfnod hwnnw—a Phowys, 184 y cant a 150 y cant, yn y drefn honno. Mae hynny wedi taro pensiynwyr yn arbennig o galed. Yr oedd yn elfen o gytundeb 'Cymru'n Un', ond ni fydd y £4 miliwn a ddyrannwyd yn y gyllideb i helpu pensiynwyr yn ddim cymorth. Ai unig ddefnydd hwnnw fydd rhoi cyhoeddusrwydd i fudd-dal tai, neu a gaiff ei ddefnyddio at ryw ddiben arall, megis rhoi disgownt—opsiwn a ffafriwn yn fawr; yn wir, ein cynnig oedd y byddai pensiynwyr yn cael disgownt o £100 am bob aelwyd bensiywyr? A ydych yn ystyried yr opsiwn disgownt? Os ydych, bydd y £4 miliwn ond yn rhoi disgownt o oddeutu £10 i bob aelwyd bensiywyr.

Andrew Davies: Ydym, yr ydym yn ystyried

implementation of that 'One Wales' commitment. You mentioned council tax rises in individual local authorities, but if you look at the figures over all, you will see that council tax levels in Wales are, on average, 25 per cent lower than in England, and I would not want that to be overlooked. That is because of the very substantial additional resources that we give to local authorities. If we were to fund local authorities at the same level as that at which English authorities are funded by the UK Government, there would be £0.5 billion less per year going in to support council services. Therefore, we support local government at a much higher level. We recognise that the settlement is tighter over the next comprehensive spending review, but we have supported local government to a significant level. However, we will work with colleagues in the Cabinet and in local government to look at ways in which we can mitigate any pressure, particularly on older people.

Alun Ffred Jones: In the changes made to the supplementary budget, the largest amount refers to health and social services, quite a large proportion of which is for the delivery of the waiting times targets. Is that money targeted at specific areas or specific trusts? What are the criteria for distributing that money?

Andrew Davies: The funding of the waiting times programme has been successful, and there has been a dramatic drop in waiting times in Wales. I am afraid that the Minister for Health and Social Services or I will have to write to you itemising the way in which the programme is managed and delivered.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 9, OAQ(3)0218(FPS), i'w ateb yn ysgrifenedig.

Economy and Transport Portfolio

Q10 William Graham: What discussions has the Minister had regarding the budget allocation for the economy and transport portfolio? OAQ(3)0232(FPS)

gweithredu'r ymrwymiad hwnnw yn 'Cymru'n Un'. Cyfeiriasoch at godiadau'r dreth gyngor mewn awdurdodau lleol unigol, ond os edrychwch ar y ffigurau cyffredinol, gwelwch fod lefelau'r dreth gyngor yng Nghymru, ar gyfartaledd, 25 y cant yn is nag yn Lloegr, ac ni ddymunwn i hynny gael ei anwybyddu. Mae hynny oherwydd yr adnoddau ychwanegol sylweddol iawn a rown i awdurdodau lleol. Petaem yn ariannu awdurdodau lleol ar yr un lefel ag yr ariennir awdurdodau Lloegr gan Lywodraeth y DU, ceid £0.5 biliwn yn llai y flwyddyn yn mynd at gefnogi gwasanaethau cyngor. Felly, yr ydym yn cefnogi llywodraeth leol ar lefel lawer uwch. Yr ydym yn cydnabod bod y setliad yn dynnach dros yr adolygiad cynhwysfawr o wariant nesaf, ond yr ydym wedi cefnogi llywodraeth leol i lefel sylweddol. Fod bynnag, byddwn yn gweithio gyda chyd-Weinidogion yn y Cabinet ac mewn llywodraeth leol i ystyried ffyrdd o liniaru unrhyw bwysau, yn enwedig ar bobl hŷn.

Alun Ffred Jones: Yn y newidiadau a wnaed i'r gyllideb atodol, mae'r swm mwyaf yn ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gyda chyfran bur fawr ohono ar gyfer cyflawni targedau amseroedd aros. A yw'r arian hwnnw wedi'i dargedu at ardaloedd penodol neu ymddiriedolaethau penodol? Beth yw'r meini prawf ar gyfer dosbarthu'r arian hwnnw?

Andrew Davies: Bu cyllido'r rhaglen amseroedd aros yn llwyddiannus, a gwelwyd gostyngiad dramatig mewn amseroedd aros yng Nghymru. Mae arnaf ofn y bydd yn rhaid i mi neu'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu atoch yn nodi'n union sut y rheolir ac y cyflawnir y rhaglen.

The Presiding Officer: Question 9, OAQ(3)0218(FPS), is transferred for written answer.

Portffolio'r Economi a Thrafnidiaeth

C10 William Graham: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y dyraniad yn y gyllideb i bortffolio'r economi a thrafnidiaeth? OAQ(3)0232(FPS)

Andrew Davies: The Welsh Assembly Government budget was approved by Cabinet following extensive discussions with ministerial colleagues.

William Graham: Thank you for your answer, Minister. May I press you once again on the M4 relief road? You will be aware of recent press reports that indicate that construction rate costs are way above inflation. That will have clear implications for this particular budget. Are you aware of that, and what contingency plan can you make, given that it is such an important artery to south Wales?

Andrew Davies: It is a major route for south Wales—the most important, in fact. That is why I made the decision more than three years ago, when I was Minister for Economic Development and Transport, to go ahead to develop a business plan, subject to available resources. At the time, it was clear that that would be funded by some form of road-user charging. Developing a business plan is not just about developing the route; a robust business plan has to come forward, which the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport, Ieuan Wyn Jones, and Cabinet will have to make a judgment on, when it is delivered.

Mohammad Asghar: I recently attended a meeting with the Severn Tunnel Action Group, along with other Assembly Members. The group wants more trains to stop at the Severn Tunnel Junction station, park-and-ride facilities to be set up, better facilities for the disabled and improved bus/rail interchange links. Will the Minister ensure that the funds are allocated for the improvement of that station, which could become an important hub for our rail services?

Andrew Davies: As I said in reply to an earlier question, we are committed to developing public transport, particularly our rail infrastructure and rail services. Upgrading facilities at any station would usually be a matter for local authorities, but, in this case, it would also be a matter for the regional transport consortium, which is the

Andrew Davies: Cymeradwywyd cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru gan y Cabinet, yn dilyn trafodaethau helaeth gyda chyd-Weinidogion.

William Graham: Diolch ichi am eich ateb, Weinidog. A gaf i bwysu arnoch eto ynghylch ffordd liniaru'r M4? Byddwch yn ymwybodol o adroddiadau diweddar yn y wasg sy'n nodi bod costau cyfraddau adeiladu ymhell dros chwyddiant. Bydd gan hynny oblygiadau clir i'r gyllideb benodol hon. A ydych yn ymwybodol o hynny, a pha gynllun wrth gefn y gallwch ei wneud, a chofio ei bod yn wythïen mor bwysig i dde Cymru?

Andrew Davies: Mae'n llwybr pwysig i dde Cymru—y pwysicaf un, yn wir. Dyna pam imi benderfynu dros dair blynedd yn ôl, pan oeddwn yn Weinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thwristiaeth, parhau i ddatblygu cynllun busnes, yn amodol ar yr adnoddau a oedd ar gael. Bryd hynny, yr oedd yn amlwg yr ariennid hynny drwy ryw ddull o godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd. Mae mwy i ddatblygu cynllun busnes na datblygu'r llwybr yn unig; rhaid i gynllun busnes cadarn esblygu, gyda'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ieuan Wyn Jones a'r Cabinet, yn gorfod dyfarnu yn ei gylch, pan gaiff ei gyflwyno.

Mohammad Asghar: Yn ddiweddar, bûm mewn cyfarfod gyda Grŵp Gweithredu Twannel Hafren, ynghyd ag Aelodau Cynulliad eraill. Mae'r grŵp yn dymuno gweld mwy o drenau yn aros yng ngorsaf Cyffordd Twannel Hafren, cyfleusterau parcio a theithio'n cael eu creu, gwell cyfleusterau ar gyfer pobl anabl a gwell dolenni bws/trên. A wnaiff y Gweinidog sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddyrannu ar gyfer gwella'r orsaf honno, gorsaf a allai ddod yn ganolbwynt pwysig i'n gwasanaethau rheilffordd?

Andrew Davies: Fel y dywedais wrth ateb cwestiwn blaenorol, yr ydym yn ymroddedig i ddatblygu trafndiaeth gyhoeddus, yn enwedig ein seilwaith rheilffordd a gwasanaethau trên. Fel arfer, mater i awdurdodau lleol fyddai uwchraddio cyfleusterau mewn unrhyw orsaf, ond, yn yr achos hwn, byddai hefyd yn fater i'r

South East Wales Transport Alliance. It would therefore be up to SEWTA to come forward with investment proposals, whether to incorporate disabled facilities at the station, or to make a range of other enhancements. However, I do not know the current state of play of those proposals, and I will speak to the Minister for transport and ask him to write to you on that.

At this stage, it would be remiss of me not to remark that, only yesterday, the Secretary of State for Transport made a major statement about the operation of the First Great Western franchise. As Members know, there have been significant concerns about the operation of that franchise, particularly between south Wales and London Paddington station. I am delighted that the Department for Transport has come to the decision that the franchise was not operating as it should have been, and that significant investment will be made. It is up to us, as a Government and an Assembly, to ensure that continued pressure is kept up, to ensure that services on the main line, as well as across the wider franchise, are what people can expect in the twenty-first century.

Managing Finances

Q11 Peter Black: Will the Minister make a statement on his vision for managing the finances of the Welsh Assembly Government? OAQ(3)0221(FPS)

Andrew Davies: My focus is on the delivery of the 'One Wales' programme in a way that maximises what I call the 'Welsh pound'.

Peter Black: Thank you for that statement on your vision, Minister; it was very short and sweet.

Many local government leaders and others have asked me how the money in the budget that you have put aside for capital expenditure will be allocated. What is the timetable for you to come forward with the rules of engagement for how that money will be accessed and spread out, and when it will be distributed?

consortium trafnidiaeth rhanbarthol, sef Cynghrai Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru. Cyfrifoldeb CTDDdC felly fyddai cyflwyno cynigion buddsoddi, boed hynny i gynnwys cyfleusterau ar gyfer pobl anabl yn yr orsaf, neu i wneud ystod o welliannau eraill. Fodd bynnag, ni wn beth yw sefyllfa'r cynigion hynny ar hyn o bryd, a chaf air â'r Gweinidog dros drafnidiaeth i ofyn iddo ysgrifennu atoch ynghylch hynny.

Bryd hyn, esgeulustod ar fy rhan fyddai peidio â datgan bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, ddoe diwethaf, wedi gwneud datganiad o bwys am weithrediad trwydded y First Great Western. Fel y gŵyr Aelodau, mae pryderon mawr wedi bod ynghylch gweithrediad y drwydded honno, yn enwedig rhwng de Cymru a gorsaf Llundain Paddington. Yr wyf wrth fy modd bod yr Adran Drafnidiaeth wedi penderfynu nad oedd y drwydded yn gweithredu fel y dylai, ac y buddsoddir yn helaeth. Ein cyfrifoldeb ni, fel Llywodraeth ac fel Cynulliad, yw sicrhau bod pwysau parhaus yn cael ei gynnal, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar y brif linell, yn ogystal ag ar draws y drwydded ehangach, yr hyn y gall pobl ei ddisgwyl yn yr unfed ganrif ar hugain.

Rheoli Cyllid

C11 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei weledigaeth ar gyfer rheoli cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)0221(FPS)

Andrew Davies: Mae fy ffocws ar gyflawni rhaglen 'Cymru'n Un' mewn ffordd sy'n manteisio i'r eithaf ar yr hyn a alwaf yn 'bunt Gymreig'.

Peter Black: Diolch ichi am y datganiad hwnnw am eich gweledigaeth, Weinidog; yr oedd yn gryno ac yn dderbyniol.

Mae nifer o arweinwyr llywodraeth leol ac eraill wedi gofyn imi sut y dyrennir yr arian yn y gyllideb a neilltuwyd gennych ar gyfer gwariant cyfalaf. Pa amserlen a bennwyd ar eich cyfer i gyflwyno'r rheolau ymgysylltu ynghylch sut y ceir at yr arian hwnnw, a'i daenu, a phryd y'i dosberthir?

Andrew Davies: I have given that commitment to the Chair and members of the Finance Committee, as well as the Health, Wellbeing and Local Government Committee, when I appeared before it last week. Once the framework has been established and the concrete proposals decided, I will come forward on that.

One word of warning is that the resources available for the strategic capital investment board, although significant, will be just under £500 million over three years; whereas, the capital expenditure outside that, within Ministers' existing budgets, is £1.6 billion this year. It is significant, but the bulk of expenditure is still in existing departmental budgets.

The Presiding Officer: Thank you for your concise answers, Minister.

Andrew Davies: Yr wyf wedi rhoi'r ymrwymiad hwnnw i Gadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Cyllid, yn ogystal â'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol pan ymddangosais ger ei fron yr wythnos diwethaf. Pan gaiff y fframwaith ei sefydlu a phan benderfynir ynghylch y cynigion concrit, cyflwynaf hynny.

Gair o rybudd—bydd yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y bwrdd buddsoddi cyfalaf strategol, er yn sylweddol, ychydig dan £500 miliwn dros dair blynedd; ar y llaw arall, mae'r gwariant cyfalaf y tu allan i hynny, o fewn cyllidebau cyfredol Gweinidogion, yn £1.6 biliwn eleni. Mae'n sylweddol, ond mae swmp y gwariant yn parhau mewn cyllidebau adrannol.

Y Llywydd: Diolch ichi am eich atebion cryno, Weinidog.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

School Curriculum

Q1 Val Lloyd: Will the Minister make a statement on the school curriculum for children and young people in Wales? OAQ(3)0311(CEL)

1.10 p.m.

The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt): The revised school curriculum, which will be implemented from September 2008, focuses on skills development from the foundation phase through to the 14-19 learning pathways, and promotes personal and social development, and health and emotional wellbeing. It will help schools to raise standards of achievement, and widen opportunity.

Val Lloyd: I know that you, like me, are concerned that girls consistently outperform boys in examinations. Last year's GCSE results saw that gap narrow by 1.6 per cent, but of course, the difference in achievement is still there. Could you tell me what the new curriculum will do to address that issue?

Cwricwlwm Ysgol

C1 Val Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cwricwlwm ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru? OAQ(3)0311(CEL)

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt): Mae'r cwricwlwm ysgol diwygiedig, a weithredir o Fedi 2008 ymlaen, yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau o'r cyfnod sylfaen drwodd i'r llwybrau dysgu 14-19, ac mae'n hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol, ac iechyd a lles emosiynol. Bydd yn helpu ysgolion i godi safonau cyflawniad, ac ehangu cyfleoedd.

Val Lloyd: Gwn eich bod, fel minnau, yn poeni bod merched yn perfformio'n gyson well na bechgyn mewn arholiadau. Yng nghanlyniadau TGAU y llynedd, lleihaodd y bwlch hwnnw 1.6 y cant, ond wrth gwrs, mae'r gwahaniaeth mewn cyflawniad yn dal yno. A allwch ddweud wrthyf beth fydd y

cwricwlwm newydd yn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwnnw?

Jane Hutt: We applaud the outstanding achievements of girls, but we want to ensure that boys also achieve at that level and standard. The revised curriculum will address that gap, and the focus on skills is a key element in that. From the foundation phase upwards, the emphasis is on hands-on activity, which is designed to develop children's skills, engaging boys and girls. Research indicates that, where boys are engaged in activities, they learn better, and so the revised curriculum will help with that.

Jane Hutt: Yr ydym yn llongyfarch merched ar eu cyflawniad nodedig, ond mae arnom eisiau sicrhau bod bechgyn hefyd yn cyflawni ar y lefel ac ar y safon honno. Bydd y cwricwlwm diwygiedig yn mynd i'r afael â'r bwlch hwnnw, ac mae'r ffocws ar sgiliau yn elfen allweddol o hynny. O'r cyfnod sylfaen ymlaen, mae'r pwyslais ar weithgarwch ymarferol a gynllunnir i ddatblygu sgiliau plant, a chynnwys bechgyn a merched. Yn ôl ymchwil, pan fydd bechgyn yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau, maent yn dysgu'n well, felly bydd y cwricwlwm diwygiedig yn helpu yn hynny o beth.

Andrew R.T. Davies: For many pupils, the curriculum is not just about academia, but also sport and physical education. Many pupils who excel at sport and physical education might not excel at the academic side of things. In 'One Wales', you made a commitment to invest in creating better links with sports clubs, and to look at other coaching activities that could be brought into schools. Given that many of these organisations are suffering from the curtailed lottery funding, how can you increase that funding to embrace the opportunity to expand the curriculum, and the opportunities for young people to expand their knowledge base?

Andrew R.T. Davies: I lawer o ddisgyblion, nid dim ond ag academia y mae'r cwricwlwm yn ymwneud, ond hefyd â chwaraeon ac addysg gorfforol. Mae'n bosibl nad yw llawer o ddisgyblion sy'n rhagori mewn chwaraeon ac addysg gorfforol yn disgleirio ar yr ochr academiaidd. Yn 'Cymru'n Un', ymrwymasoch i fuddsoddi mewn creu gwell cysylltiadau gyda chlybiau chwaraeon, ac ystyried gweithgareddau hyfforddi eraill y gellid eu cyflwyno mewn ysgolion. A chofio bod nifer o'r mudiadau hyn yn dioddef yn sgilocio arian y loteri, sut gallwch gynyddu'r cyllid hwnnw i fanteisio ar y cyfle i ehangu'r cwricwlwm, a'r cyfleoedd i bobl ifanc ehangu eu sylfaen wybodaeth?

Jane Hutt: That goes back to the importance that we place on, and the priority that we give to, physical education in schools, the community focus, and to taking forward out-of-school activities. The 5x60 initiative is improving levels of physical activity and is improving access to sports.

Jane Hutt: Mae hynny'n dychwelyd at y pwysigrwydd yr ydym yn ei osod ar addysg gorfforol mewn ysgolion, y ffocws ar y gymuned ac ar gynnal gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol, a'r flaenoriaeth a roddwn iddynt. Mae'r cynllun 5x60 yn gwella lefelau gweithgarwch corfforol ac yn gwella mynediad at chwaraeon.

Janet Ryder: Minister, I am sure that you are aware that many young people lose interest in the education system during the transition phase, when they move from primary to secondary school. Secondary schools involve a completely different style of teaching, a new set of teachers, and so on. Estyn has highlighted that as an area of concern where young people's interest is lost. Set against that, we have had your Government developing the foundation

Janet Ryder: Weinidog, yr wyf yn sicrhau eich bod yn sylweddoli bod llawer o bobl ifanc yn colli diddordeb yn y system addysg yn y cyfnod pontio, pan fyddant yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae ysgolion uwchradd yn cyflwyno arddull addysgu cwbl wahanol, set newydd o athrawon, ac yn y blaen. Mae Estyn wedi tynnu sylw at hynny fel maes pryder lle mae diddordeb pobl ifanc yn cael ei golli. O'i gymharu â hynny, yr ydym wedi cael eich

phase, which deals with children's different learning abilities and with individual learners. You have also developed the 14-19 learning pathways agenda, in which the emphasis is again placed on individual learning styles. However, we are left with a gap in the middle, of children aged between seven and 14, and it is in that crucial phase that we are starting to lose a lot of young people's interest in education. Would you be prepared to look at that age group? We have altered the curriculum slightly for that age group, but it needs to be looked at radically in the light of the skills that will have been developed in the foundation phase, to ensure that we get a developmental programme and curriculum that builds on those skills.

Jane Hutt: The revised school curriculum to be implemented from September comprises a single, coherent framework for curriculum assessment and qualifications for pupils aged from three to 19. That will help schools to raise standards of achievement and to widen educational opportunity. We need to look at the opportunities that that revised curriculum presents post foundation phase, moving through the transition that, as you say, can be challenging. I want to acknowledge the important work that is ongoing, with cluster schools making arrangements to plan for transition; indeed, there are good examples of children from secondary schools, as well as school leaders, engaging with primary schools on the transition phase. It is an important age group for the revised curriculum.

Eleanor Burnham: The Welsh language is extremely important to us, but so are other languages. Could you reassure me that the article in *The Daily Telegraph* on 26 February does not apply to Wales? It reported UK Government plans to scrap oral tests in language studies, and, if it is true, it is very worrying. However, I am hoping that we can have a reassurance from you on that.

Jane Hutt: As I am not a reader of *The Daily Telegraph*—particularly, I must say, when it does not relate to Welsh policy or Welsh

Llywodraeth yn datblygu'r cyfnod sylfaen, sy'n delio â galluoedd dysgu gwahanol plant a chyda dysgwyr unigol. Yr ydych hefyd wedi datblygu'r agenda llwybrau dysgu 14-19, lle mae'r pwyslais unwaith yn rhagor yn cael ei roi ar ddulliau dysgu unigol. Fodd bynnag, cawn ein gadael â bwlch yn y canol, gyda phlant rhwng saith ac 14 oed, ac yn y cyfnod hollbwysig hwnnw yr ydym yn dechrau colli diddordeb llawer o bobl ifanc mewn addysg. A fydddech yn fodlon edrych ar y grŵp oedran hwnnw? Yr ydym wedi addasu mymryn ar y cwricwlwm ar gyfer y grŵp oedran hwnnw, ond mae angen edrych arno'n radical yn wyneb y sgiliau a fydd wedi eu datblygu yn y cyfnod sylfaen, i sicrhau ein bod yn cael rhaglen ddatblygiadol a chwricwlwm sy'n adeiladu ar y sgiliau hynny.

Jane Hutt: Mae'r cwricwlwm ysgol diwygiedig a weithredir o fis Medi ymlaen yn cynnwys fframwaith cydlynol, sengl ar gyfer asesu cwricwlwm a chymwysterau ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 19 oed. Bydd hynny'n helpu ysgolion i godi safonau cyflawniad ac ehangu cyfle addysgol. Mae angen inni edrych ar y cyfleoedd y mae'r cwricwlwm diwygiedig hwnnw yn eu cynnig ar ôl y cyfnod sylfaen, wrth symud drwy'r cyfnod pontio sydd, fel y dywedwch, yn gallu bod yn anodd. Dymunaf gydnabod y gwaith pwysig sydd ar waith, gydag ysgolion clwstwr yn trefnu i gynllunio ar gyfer pontio; yn wir, ceir enghreifftiau da o blant o ysgolion uwchradd, yn ogystal ag arweinwyr ysgol, yn cysylltu ag ysgolion cynradd ynghylch y cyfnod pontio. Mae'r grŵp oedran pwysig i'r cwricwlwm diwygiedig.

Eleanor Burnham: Mae'r iaith Gymraeg yn hynod bwysig inni, ond mae ieithoedd eraill hefyd yn bwysig. A allwch fy sicrhau nad yw'r erthygl yn *The Daily Telegraph* ar 26 Chwefror yn berthnasol i Gymru? Yr oedd yn adrodd ar gynlluniau Llywodraeth y DU i ddiddymu profion llafar mewn astudiaethau iaith, ac, os yw hynny'n wir, mae'n destun pryder mawr. Fodd bynnag, yr wyf yn gobeithio y gallwch dawelu ein meddyliau ynghylch hynny.

Jane Hutt: Gan nad wyf yn darllen *The Daily Telegraph*—yn enwedig, rhaid imi ddweud, pan nad yw'n ymwneud â pholisi

issues—I do not think that I need to make any comment other than to say that I fully support the pioneering work being undertaken by CiLT Cymru.

Cymreig na materion Cymreig—ni chredaf fod gofyn imi wneud unrhyw sylw heblaw datgan fy mod yn cefnogi'n llwyr y gwaith arloesol a gyflawnir gan CiLT Cymru.

Reading

Q2 Val Lloyd: What is the Welsh Assembly Government doing to promote the benefits of reading? OAQ(3)0312(CEL)

Jane Hutt: We strongly promote the benefits of reading through statutory education and our national, all-age basic skills strategy, 'Words Talk, Numbers Count'. We also support a range of complementary initiatives designed to promote the benefits of reading, such as World Book Day and the National Year of Reading.

Val Lloyd: I recently visited the Bookstart programme operating in my constituency. As well as having quite a lot of fun I was able to see, at first hand, the benefits of promoting books and reading from an early age. However, the visit brought to light a discrepancy between Wales and England in how the programme works. It appears that Welsh children only get two packs of books, the baby pack and the early years pack, whereas in England there is an extra pack for toddlers. Why is there a difference in the number of books given to children in Wales compared to England, and are there any plans to increase the number of books made available to children in Wales?

Jane Hutt: As I said, we are building the reading skills of our children and young people through the national basic skills strategy for Wales, 'Words Talk, Numbers Count'. As you say, that includes the free book bag given at the health check at eight to nine months, and a further book of stories, songs and rhymes for children at 18 months. We are doing things in Wales that are not done in England. We should applaud the language and play schemes, which have an annual budget of over £1 million. Over 7,000 parents and children took part in the language and play projects between April and December 2007, and 6,000 parents and children took part in family learning

Darllen

C2 Val Lloyd: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo manteision darllen? OAQ(3)0312(CEL)

Jane Hutt: Yr ydym yn hyrwyddo manteision darllen yn frwd drwy addysg statudol a'n strategaeth sgiliau sylfaenol genedlaethol ar gyfer disgyblion o bob oed, 'Geiriau'n Galw – Rhifau'n Cyfri'. Cefnogwn hefyd amrediad o gynlluniau ategol a luniwyd i hyrwyddo manteision darllen, megis Diwrnod y Llyfr a'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol.

Val Lloyd: Ymwelais yn ddiweddar â'r rhaglen Dechrau Da sydd ar waith yn fy etholaeth. Yn ogystal â chael cryn dipyn o hwyl, cefais hefyd gyfle i weld, a'm llygaid fy hun, manteision hyrwyddo llyfrau a darllen o oed cynnar. Fodd bynnag, yn sgil fy ymweliad, sylwais ar anghysondeb rhwng Cymru a Lloegr yn y modd y mae'r rhaglen yn gweithio. Mae'n ymddangos mai dau becyn o lyfrau'n unig a gaiff plant Cymru, y pecyn i fabanod a'r pecyn blynyddoedd cynnar, ond yn Lloegr ceir pecyn ychwanegol i blant bach. Pam mae gwahaniaeth yn nifer y llyfrau a roddir i blant yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr, ac a oes unrhyw gynlluniau i gynyddu nifer y llyfrau a roddir i blant yng Nghymru?

Jane Hutt: Fel y dywedais, yr ydym yn meithrin sgiliau darllen ein plant a'n pobl ifanc drwy'r strategaeth sgiliau sylfaenol genedlaethol i Gymru, 'Geiriau'n Galw – Rhifau'n Cyfri'. Fel y dywedwch, mae hynny'n cynnwys y bag o lyfrau am ddim a roddir i fabanod wyth neu naw mis oed adeg y prawf iechyd, a llyfryn arall o straeon, caneuon a hwiangerddi i blant 18 mis oed. Gwnawn bethau yng Nghymru na wneir yn Lloegr. Dylem gymeradwyo'r cynlluniau iaith a chwarae, sydd â chyllideb flynyddol o dros £1 miliwn. Cymerodd dros 7,000 o rieni a phlant ran yn y prosiectau iaith a chwarae rhwng Ebrill a Rhagfyr 2007, a chymerodd 6,000 o rieni a phlant ran yn y rhaglenni

programmes. It is crucial that we also engage the parents in these opportunities. The Quick Reads/Stori Sydyn series, launched in 2006, is particularly appropriate to take this forward in Wales.

Paul Davies: I recently visited the National Library of Wales in Aberystwyth. I am sure that the Minister will agree that it is a great facility. Ensuring that schoolchildren, in particular, have access to local libraries during non-school time is essential for their continued education, especially those from families who do not have internet access. Does the Government have any plans to increase accessibility to libraries, especially for schoolchildren, so that children can benefit during weekends and school holidays?

Jane Hutt: In terms of access to libraries, I am sure that local authorities regard this as a key opportunity to play their part in improving educational effectiveness and access to resources. Close links have already been formed between schools and libraries during the school day, which is important to introduce children to the library and to engage parents and children out of school. Yours is an important point, and I will share it with the Minister for Heritage and the Minister for Social Justice and Local Government.

David Lloyd: Mae prinder o ran y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc â dyslecsia. Sut ewch i'r afael â'r mater hwn?

Jane Hutt: This is a crucial issue. We have just invested £1 million in early years support materials. I know that part of that will address children with dyslexia-related issues, and that that will also be provided through the medium of Welsh.

Education Services for Young People with Disabilities

Q3 Jonathan Morgan: What steps is the

dysgu fel teulu. Mae'n hanfodol ein bod hefyd yn ymgysylltu â'r rhieni drwy'r cyfleoedd hyn. Mae'r gyfres Stori Sydyn/Quick Reads, a lansiwyd yn 2006, yn arbennig o briodol i symud hyn ymlaen yng Nghymru.

Paul Davies: Ymwelais yn ddiweddar â Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno bod hwn yn gyfleuster penigamp. Mae sicrhau bod plant ysgol, yn benodol, yn cael mynediad at lyfrgelloedd lleol y tu allan i oriau ysgol yn hanfodol i ddisgyblion allu parhau â'u haddysg, yn enwedig y rheini sy'n dod o deuluoedd heb fynediad i'r rhyngwyd. A oes gan y Llywodraeth unrhyw gynlluniau i gynyddu mynediad at lyfrgelloedd, yn enwedig ar gyfer plant ysgol, fel y gall plant fanteisio arnynt dros y penwythnos ac adeg gwyliau ysgol?

Jane Hutt: O ran mynediad at lyfrgelloedd, yr wyf yn siŵr bod awdurdodau lleol yn ystyried bod hyn yn gyfle allweddol iddynt chwarae eu rhan i wella effeithiolrwydd addysgol a mynediad at adnoddau. Mae cysylltiadau agos eisoes wedi cael eu ffurfio rhwng ysgolion a llyfrgelloedd yn ystod oriau ysgol, sy'n bwysig er mwyn cyflwyno plant i'r llyfrgell ac i ymgysylltu â rhieni a phlant y tu allan i'r ysgol. Mae eich pwynt yn un pwysig, a byddaf yn ei rannu â'r Gweinidog dros Dreftadaeth a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

David Lloyd: There is a shortage of Welsh-medium provision for children and young people with dyslexia. How will you tackle this issue?

Jane Hutt: Mae hwn yn fater hollbwysig. Yr ydym newydd fuddsoddi £1 miliwn ar gyfer deunyddiau cefnogi i'r blynyddoedd cynnar. Gwn y bydd rhan ohono yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â dyslecsia, a bydd hynny hefyd yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwasanaethau Addysg i Bobl Ifanc ag Anableddau

C3 Jonathan Morgan: Pa gamau mae

Welsh Assembly Government taking to improve education services for young people with disabilities? OAQ(3)0285(CEL)

Jane Hutt: On 6 December 2007, as part of my wider statement on supporting disabled children, I announced an additional £1 million to support educational services for younger disabled children.

Jonathan Morgan: On Monday I visited Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf in my constituency, which is a popular Welsh-medium secondary school that is expanding at quite an incredible rate. In September 2008, the school will have an additional 70 pupils. The school is already struggling to cope with the increases in demand from pupils who wish to continue their Welsh-medium education from primary school to secondary school. As a result, this puts particular pressure on the school to deliver special educational needs provision, and it has seen an increase in the demands placed on it by pupils with particular educational needs in recent years. Will you consider visiting the school with me and other local representatives, including the MP for Cardiff North, Julie Morgan, who visited the school with me on Monday, to see for yourself the pressures that the school faces, not just in terms of capacity, but in delivering special educational needs provision to a large number of pupils?

1.20 p.m.

Jane Hutt: I am aware not only of the popularity of Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, but that it takes its responsibilities with regard to special educational needs provision very seriously. I am sure that I will be able to find an opportunity to visit the school with you. An additional £7.7 million was allocated to local education authorities this year in recognition of the increasing cost of providing for children with complex special educational needs, and I am sure that Glantaf is benefiting from that through the Cardiff authority.

Jenny Randerson: The incidence of deafness among children is relatively low, so, sadly, the impact of this disability is often not taken seriously enough. The newborn hearing

Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella gwasanaethau addysg i bobl ifanc ag anableddau? OAQ(3)0285(CEL)

Jane Hutt: Ar 6 Rhagfyr 2007, fel rhan o'm datganiad ehangach am gefnogi plant anabl, cyhoeddais £1 miliwn ychwanegol i gefnogi gwasanaethau addysgol ar gyfer plant anabl iau.

Jonathan Morgan: Ddydd Llun, ymwelais ag Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn fy etholaeth, sy'n ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg boblogaidd ac sy'n ehangu ar gyfradd syfrdanol. Ym mis Medi 2008, bydd gan yr ysgol 70 o ddisgyblion ychwanegol. Mae'r ysgol eisoes yn ei chael yn anodd ymdopi â'r galw cynyddol gan ddisgyblion sy'n dymuno parhau â'u haddysg cyfrwng Cymraeg o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. O ganlyniad, mae hyn yn rhoi pwysau penodol ar yr ysgol i gyflwyno darpariaeth anghenion addysgol arbennig, ac maent wedi sylwi ar gynnydd yng ngofynion disgyblion ag anghenion addysgol penodol dros y blynyddoedd diwethaf. A wnewch ystyried ymweld â'r ysgol gyda mi a chynrychiolwyr lleol eraill, gan gynnwys yr AS dros Ogledd Caerdydd, Julie Morgan, a ddaeth gyda mi i'r ysgol ddydd Llun, i weld drosoch eich hun y pwysau sy'n wynebu'r ysgol, nid yn unig o ran capasiti, ond o ran cyflwyno darpariaeth anghenion addysgol arbennig i nifer fawr o ddisgyblion?

Jane Hutt: Yr wyf yn ymwybodol, nid yn unig o boblogrwydd Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, ond hefyd ei bod yn cymryd ei chyfrifoldebau o ran darpariaeth anghenion addysgol arbennig yn ddifrifol iawn. Yr wyf yn siŵr y gallaf gael cyfle i ymweld â'r ysgol gyda chi. Dyrannwyd £7.7 miliwn yn ychwanegol i awdurdodau addysg lleol eleni fel cydnabyddiaeth o'r gost gynyddol o ddarparu ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig cymhleth, ac yr wyf yn siŵr bod Glantaf yn elwa o hynny drwy awdurdod Caerdydd.

Jenny Randerson: Mae achosion byddardod ymhlith plant yn weddol isel, felly, yn anffodus, nid yw effaith yr anabledd hwn yn aml yn cael ei hystyried yn ddigon difrifol.

screening programme has worked well, but, unfortunately, support, which is the essential follow-up, is often not available in the form that it should be, and it is patchy and generally below the level required. Some three years ago, the Welsh Assembly Government issued guidelines on educational standards for sensory-impaired children. The guidelines are very good, but the problem is that they are not being adhered to, because they are not statutory. Will you consider making them statutory?

Jane Hutt: Issues relating to the particular needs of deaf and hearing-impaired children are being addressed not only through that guidance, but by the extra £1 million that I have just announced for early support materials, which will address multi-sensory issues. Following the additional learning needs LCO, there may be an opportunity, if the evidence is clear, for that guidance to be made statutory.

Alun Cairns: Minister, you referred to the LCO or the powers that you are about to inherit in relation to making Measures for children with special educational needs, but the Assembly Government has also made a clear statement that it wants to reduce the number of statemented children from up to 5 per cent to 1 per cent or less. In order to deliver that, you have two choices: you can either increase the resources available for pupils with special needs hugely, or raise the bar in terms of the level at which statutory intervention would normally be provided. Which is your preferred method at this time?

Jane Hutt: I have not highlighted any wish to reduce the number of statemented children from 5 per cent to 1 per cent or less. In fact, that was a recommendation made by the former Education, Lifelong Learning and Skills Committee in its review of SEN, as I am sure that you know. The recommendation was that the Assembly Government should consult on a clear, unambiguous and widely understood definition of the most severe and complex needs that affect between 0.5 per cent and 1 per cent of children. At that time,

Mae'r rhaglen sgrinio clyw babanod newydd-anedig wedi gweithio'n dda, ond, yn anffodus, nid yw'r gefnogaeth, sy'n hanfodol ar gyfer y camau dilynol, ar gael yn aml yn y ffurf gywir, ac mae'n dameidiog ac yn gyffredinol is na'r lefel ofynnol. Rhyw dair blynedd yn ôl, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau am safonau addysgol ar gyfer plant â nam ar eu synhwyrau. Mae'r canllawiau yn dda iawn, ond y broblem yw na lynir wrthynt, oherwydd nad ydynt yn statudol. A wneuch ystyried eu gwneud yn statudol?

Jane Hutt: Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud ag anghenion penodol plant byddar a phlant â nam ar eu clyw nid yn unig drwy'r cyfarwyddyd hwnnw ond hefyd gan y £1 miliwn ychwanegol yr wyf newydd ei gyhoeddi ar gyfer deunyddiau cefnogi i'r blynyddoedd cynnar, a fydd yn mynd i'r afael â materion amlsynwyr. Ar ôl cyflwyno'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar anghenion dysgu ychwanegol, mae'n bosibl y bydd cyfle, os yw'r dystiolaeth yn glir, i wneud y cyfarwyddyd hwnnw'n statudol.

Alun Cairns: Weinidog, cyfeiriasoch at y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol neu'r pwerau yr ydych ar fin eu hetifeddu o ran llunio Mesurau ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, ond mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud datganiad clir ei bod am leihau nifer y plant â datganiad o hyd at 5 y cant i 1 y cant neu lai. Er mwyn cyflawni hyn, mae gennych ddau ddewis: gallwch naill ai gynyddu'n sylweddol yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig, neu godi'r safon o ran pryd y darperir ymyriad statudol fel arfer. Pa un yr ydych yn ei ffafrio ar hyn o bryd?

Jane Hutt: Nid wyf wedi tynnu sylw at unrhyw ddymuniad i leihau nifer y plant â datganiad o 5 y cant i 1 y cant neu lai. Yn wir, argymhelliad oedd hwnnw gan yr hen Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn ei adolygiad o anghenion addysgol arbennig, fel yr wyf yn siŵr y gwyddoch. Yr argymhelliad oedd y dylai Llywodraeth y Cynulliad ymgynghori ar ddiffiniad clir, diamwys a rhwydd ei ddeall o'r anghenion mwyaf difrifol a chymhleth sy'n effeithio ar rhwng 0.5 y cant ac 1 y cant o blant. Yr adeg

the recommendation was accepted in principle on the basis that it should form part of a consultation with parents and other key stakeholders as part of the review of the future framework. We did not say that we wanted to reduce the number of statemented children from 5 per cent to 1 per cent, but we agreed that we would consult on the whole issue of the future framework for statutory assessment. I have already fed back to you the important pre-consultation events that have been held over the last year, jointly organised and facilitated by SNAP Cymru, which is an independent parent support group. The views of parents, as well as those of professionals, are crucial in this consultation.

Alun Cairns: I am grateful to the Minister for that answer, but she has confused the matter further. The Assembly Government responded to that report and accepted the recommendation in principle. Are you now saying that it is not the policy of the Assembly Government to reduce the number of statemented children in Wales? I hope that that is what you are saying, because if a child needs a statement, he or she needs a statement, and the funding has to be found from somewhere. If we cannot support pupils with special needs, then who can we support? Those pupils will become economically inactive at a later stage unless they get support at the right time. However, even under the current arrangements, 116 cases were taken to the special educational needs tribunal last year. Many of them were withdrawn by the local authority, or the parents—usually because they got what they wanted in the end from the school or the local authority. However, 27 rulings were made against local authorities in relation to children with special needs. Are you satisfied with that performance, or do you believe that local authorities need to get their act together and support special needs pupils in the way that is laid down in the guidance, because, in 27 of those cases last year, they were not acting within the law?

Jane Hutt: Again, Alun, you are confused on this issue. This was a recommendation from

honno, derbyniwyd yr argymhelliad mewn egwyddor ar y sail y dylai ffurfio rhan o ymgynghoriad â rhieni a rhanddeiliad allweddol eraill fel rhan o'r adolygiad o'r fframwaith i'r dyfodol. Ni ddywedasom ein bod am leihau nifer y plant â datganiad o 5 y cant i 1 y cant, ond cytunasom y byddem yn ymgynghori ar y fframwaith gyfan ar gyfer asesu statudol i'r dyfodol. Yr wyf eisoes wedi rhoi adborth ichi am y digwyddiadau cyn ymgynghori pwysig a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, a drefnwyd ac a hwyluswyd ar y cyd â SNAP Cymru, sef grŵp annibynnol sy'n cefnogi rhieni. Mae barn rhieni, yn ogystal â barn gweithwyr proffesiynol, yn hollbwysig yn yr ymgynghoriad hwn.

Alun Cairns: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw, ond mae hi wedi drysu mwy ar y mater. Ymatebodd Llywodraeth y Cynulliad i'r adroddiad hwnnw a derbyniodd yr argymhelliad mewn egwyddor. A ydych yn dweud nawr nad polisi Llywodraeth y Cynulliad yw lleihau nifer y plant â datganiad yng Nghymru? Gobeithiaf mai dyna beth a ddywedwch, oherwydd os oes angen datganiad ar blentyn, yna mae angen datganiad ar y plentyn hwnnw, a rhaid dod o hyd i gyllid o rywle. Oni allwn gefnogi disgyblion ag anghenion arbennig, yna pwy allwn eu cefnogi? Oni chânt gefnogaeth ar yr amser cywir, bydd y disgyblion hynny yn datblygu i fod yn anweithgar yn economaidd yn nes ymlaen. Fodd bynnag, hyd yn oed dan y drefn gyfredol, cyflwynwyd 116 achos i'r tribiwnlys anghenion addysgol arbennig y llynedd. Cafodd lawer ohonynt eu tynnu'n ôl gan yr awdurdod lleol, neu'r rhieni—fel arfer oherwydd eu bod wedi cael eu dymuniad yn y pen draw gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, dyfarnwyd yn erbyn awdurdodau lleol mewn 27 achos yn ymwneud â phlant ag anghenion arbennig. A ydych yn fodlon â'r perfformiad hwnnw, neu a ydych yn credu y dylai awdurdodau lleol roi eu tŷ mewn trefn a chefnogi disgyblion ag anghenion arbennig yn unol â geiriad y cyfarwyddyd, oherwydd, mewn 27 achos y llynedd, nid oeddent yn gweithredu o fewn terfynau'r gyfraith?

Jane Hutt: Unwaith eto, Alun, yr ydych wedi drysu. Argymhelliad oedd hwn gan yr

the former Education, Lifelong Learning and Skills Committee. What we accepted to do in principle was to consult—we did not accept doing anything else, and it was timely to consult on a clear, unambiguous and widely understood definition in relation to the special needs of children. That is what we agreed in principle—to consult—and that is what we are doing. It is important that we now await that consultation, and also that we recognise the point that I made that, last year, we allocated an additional £7.7 million in recognition of the increasing costs of providing for the complex needs of children. We now have opportunities through the additional learning needs LCO, which you welcomed, to strengthen the code of practice, for example. That will be crucial in protecting the rights and the entitlements of special needs children.

Gwneud Ysgolion yn Addas i'r Diben

C4 Gareth Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wneud ysgolion yn addas i'r diben? OAQ(3)0320(CEL)

Jane Hutt: Good progress is being made. Annual Assembly Government funding for capital investment is increasing from £82 million in 2002-03 to £168.5 million in 2008-09, and authorities are also investing their own resources. The most recent figures show forecast expenditure in 2007-08 as £188.4 million.

Gareth Jones: Hoffwn gyfeirio at beth yn union yr ydym yn ei olygu wrth 'addas i'r diben', oherwydd mae'n creu peth dryswch. Mae 'addas i'r diben' yn cael ei ddefnyddio'n aml, nid fel esgus, ond efallai fel un rheswm pam y dylem gau ysgolion bach, neu hyd yn oed eu had-drefnu. Mewn adroddiad diweddar, datganodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei bod hefyd ar goll braidd o ran yr hyn y mae'n ei olygu. A yw'n golygu eich bod yn cael adeiladau newydd, neu a ydynt yn adeiladau a fydd yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn yr unfed ganrif ar hugain? A wnewch chi ystyried gwneud datganiad am beth yn union y mae hyn yn ei olygu?

hen Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Gwnaethom dderbyn mewn egwyddor i ymgynghori—ni wnaethom dderbyn gwneud dim arall, ac yr oedd yn amserol i ymgynghori ar ddiffiniad clir, diamwys a rhwydd ei ddeall o ran anghenion arbennig plant. Dyna beth a gytunasom mewn egwyddor—i ymgynghori—a dyna beth yr ydym yn ei wneud. Mae'n bwysig ein bod nawr yn disgwyl am yr ymgynghoriad hwnnw, a'n bod hefyd yn cydnabod y pwynt a wneuthum, sef ein bod, y llynedd, wedi dyrannu £7.7 miliwn yn ychwanegol er cydnabyddiaeth o'r costau cynyddol o ddarparu ar gyfer anghenion cymhleth plant. Bellach, mae gennym gyfleoedd drwy'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar anghenion dysgu ychwanegol, y gwnaethoch ei groesawu, i gryfhau'r cod ymarfer, er enghraifft. Bydd hynny'n hollbwysig wrth amddiffyn hawliau plant ag anghenion arbennig.

Making Schools Fit for Purpose

C4 Gareth Jones: Will the Minister make a statement on making schools fit for purpose? OAQ(3)0320(CEL)

Jane Hutt: Mae cynnydd da ar waith. Mae cyllid blynyddol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn cynyddu o £82 miliwn yn 2002-03 i £168.5 miliwn yn 2008-09, ac mae awdurdodau hefyd yn buddsoddi yn eu hadnoddau eu hunain. Mae'r ffigurau diweddaraf yn rhagweld gwariant o £188.4 miliwn yn 2007-08.

Gareth Jones: I would like to refer to what is meant exactly by 'fit for purpose', because it is somewhat confusing. 'Fit for purpose' is often used, not as an excuse, but maybe as one reason why we should look at closing small schools, or even to reorganise them. In a recent report, the Welsh Local Government Association stated that it, too, was at a loss to explain its meaning. Does it mean that you get new buildings, or are they buildings that reflect the fact that we live in the twenty-first century? Will you consider making a statement about what exactly it means?

Jane Hutt: I attended the conference at which the WLGA presented this report. The report contained some important findings, as well as a recognition of the challenges facing local authorities in building better schools—twenty-first century schools. It is important that we recognise the need to link the allocation of capital funding for schools and effective strategic planning by local education authorities that reflects levels of local demand for school places. That was taken on board at that conference.

We need to ensure that local authorities, which are working with our officials, plan how they can achieve the fitness target, which is essential, in terms of using their own resources and the resources coming from the school building improvement grant. Local authorities are working towards an understanding of what fitness for purpose for the twenty-first century means for them, and what it means in terms of the links to the local demand for school places. I do not want to legislate on how big or small a school should be, but I need to ensure that we provide them with opportunities through our guidance, for example, with opportunities for federation, and opportunities in relation to understanding how we handle school closure, if that is appropriate, most effectively and responsibly.

1.30 p.m.

Darren Millar: Do you agree that a school is not fit for purpose unless it makes proper provision for the children in its care who suffer from illnesses such as diabetes? It is vital that staff and facilities are available in every single Welsh school so that appropriate medication and care can be administered.

Jane Hutt: That is something on which we have guidance. It is clear that it is part of the role of headteachers and governors to ensure that the guidance is adhered to.

Alun Davies: Minister, do you agree that the vision and ambition of local authorities is absolutely essential in making schools fit for

Jane Hutt: Yr oeddwn yn bresennol yn y cyfarfod pan gyflwynodd CLILC yr adroddiad hwn. Yr oedd yr adroddiad yn cynnwys rhai canfyddiadau pwysig, ac yr oedd hefyd yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth adeiladu gwell ysgolion—ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod yr angen i greu cyswllt rhwng dyrannu cyllid cyfalaf i ysgolion a chynllunio strategol effeithiol gan awdurdodau addysg lleol sy'n adlewyrchu lefel y galw lleol am leoedd mewn ysgolion. Ystyriwyd hynny yn y gynhadledd honno.

Mae angen inni sicrhau bod awdurdodau lleol, sy'n gweithio gyda'n swyddogion, yn cynllunio sut y gallant gyrraedd y targed addasrwydd, sy'n hanfodol, o ran defnyddio eu hadnoddau eu hunain a'r adnoddau sy'n dod o'r grant gwella adeiladau ysgolion. Mae awdurdodau lleol yn gweithio at ddeall yn union beth mae addas i'r diben ac unfed ganrif ar hugain yn eu golygu iddynt, a'r hyn a olygir o ran y cysylltiadau i'r galw lleol am leoedd mewn ysgol. Nid wyf am osod rheolau ynghylch pa mor fawr neu fach ddylai ysgol fod, ond mae angen imi sicrhau ein bod yn rhoi'r cyfleoedd iddynt drwy ein canllawiau, er enghraifft, cyfleoedd ar gyfer ffederaleiddio, a chyfleoedd o ran deall sut yr ydym yn delio â chau ysgol, os yw hynny'n briodol, yn y ffordd fwyaf effeithiol a chyfrifol.

Darren Millar: A ydych yn cytuno nad yw ysgol yn addas i'w diben oni bai ei bod yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer y plant yn ei gofal sy'n dioddef o afiechydon fel diabetes? Mae'n hanfodol fod staff a chyfleusterau ar gael ym mhob ysgol yng Nghymru fel y bydd modd rhoi meddyginiaeth a gofal priodol.

Jane Hutt: Mae hynny'n rhywbeth y mae gennym ganllawiau arno. Mae'n amlwg ei fod yn rhan o rôl penaethiaid a llywodraethwyr i sicrhau y cedwir at y canllawiau.

Alun Davies: Weinidog, a ydych yn cytuno bod gweledigaeth ac uchelgais awdurdodau lleol yn gwbl hanfodol i wneud ysgolion yn

purpose? In this context, the modernising education strategy followed by Carmarthenshire, in my region, has transformed the educational experience of pupils throughout the county. Estyn described the modernisation strategy as a very clear vision for schools and the Wales Audit Office described it as innovative and far-reaching. Will you congratulate me—*[Laughter.]* Will you join me in congratulating Carmarthenshire on its work in creating a twenty-first century school system for the county?

Jane Hutt: First, I congratulate you, Alun—*[ASSEMBLY MEMBERS: ‘Oh.’]*—on such an excellent supplementary question. I am also pleased to congratulate Carmarthenshire, because—and colleagues will want to hear this—over 60 per cent of the modernising education provision programme has been completed there. Every local authority should have that kind of record. Around £85 million has been spent on improving school buildings, including a new secondary school and 10 new primary schools, and both the special schools will be in good condition by 2010. That is what I want to hear from every local authority.

The Presiding Officer: Would the leader of the Welsh Liberal Democrat group like to be congratulated, or are you all right? *[Laughter.]*

Michael German: I will just deal with the thrust of my question, if I may, Presiding Officer.

The Minister has always portrayed capital spend as the way in which schools will be made fit for purpose, and we have asked the question many times. Yet, this morning, the Minister will have heard Professor David Reynolds say that Wales is only spending a quarter of what is being spent in England on ensuring that schools are fit for purpose. In other words, what we spend is not sufficient to do as well as is done in England. I will ask you the same question that I asked the Minister earlier—do you think that Professor David Reynolds is wrong, are the reports wrong, or has he really got a point?

addas i’w diben? Yn y cyd-destun hwn, mae’r strategaeth i foderneiddio addysg a ddilynwyd gan sir Gaerfyrddin, yn fy rhanbarth i, wedi trawsnewid profiad addysgol disgyblion ledled y sir. Disgrifiodd Estyn y strategaeth foderneiddio fel gweledigaeth glir iawn i ysgolion a disgrifiodd Swyddfa Archwilio Cymru hi fel un arloesol a phellgyrhaeodd. A wnewch chi fy llongyfarch i—*[Chwerthin.]* A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch sir Gaerfyrddin ar ei gwaith yn creu cyfundrefn ysgolion bwrpasol i’r unfed ganrif ar hugain ar gyfer y sir?

Jane Hutt: Yn gyntaf, llongyfarchaf chi, Alun—*[AELODAU CYNULIAD: ‘O.’]*—ar gwestiwn atodol mor rhagorol. Yr wyf ffinau hefyd yn falch o longyfarch sir Gaerfyrddin oherwydd—a bydd cyd-Aelodau am glywed hyn—mae dros 60 y cant o’r rhaglen i foderneiddio’r ddarpariaeth addysg wedi cael ei chwblhau yno. Dylai fod gan bob awdurdod lleol record felly. Mae tua £85 miliwn wedi cael ei wario ar wella adeiladau ysgolion, gan gynnwys ysgol uwchradd newydd a 10 ysgol gynradd newydd, a bydd y naill a’r llall o’r ysgolion arbennig mewn cyflwr da erbyn 2010. Dyna wyf am ei glywed gan bob awdurdod lleol.

Y Llywydd: A hoffai arweinydd grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru gael ei longyfarch, ynteu a ydych chi’n iawn? *[Chwerthin.]*

Michael German: Yr wyf am ganolbwyntio ar fyrdwn fy nghwestiwn, os caf fi, Lywydd.

Mae’r Gweinidog wedi portreadu gwariant cyfalaf erioed fel y ffordd y gwneir ysgolion yn addas i’w diben, ac yr ydym wedi gofyn y cwestiwn droeon. Eto i gyd, y bore yma, bydd y Gweinidog wedi clywed yr Athro David Reynolds yn dweud nad yw Cymru ond yn gwario chwarter yr hyn sy’n cael ei wario yn Lloegr ar sicrhau bod ysgolion yn addas i’w diben. Mewn geiriau eraill, nid yw’r hyn yr ydym yn ei wario yn ddigonol i wneud cystal ag a wneir yn Lloegr. Gofynnaf yr un cwestiwn i chi ag a ofynnais i’r Gweinidog yn gynharach—a ydych yn credu bod yr Athro David Reynolds yn anghywir, a yw’r adroddiadau’n anghywir, ynteu a oes ganddo bwynt yn wir?

Jane Hutt: Professor David Reynolds from the University of Plymouth has clearly supported our school effectiveness framework, which I announced to the Assembly yesterday, to widespread support and acknowledgment. What is crucial, in terms of the school effectiveness framework, is that we move forward on a reform agenda, which includes our plans and programmes for building better schools. However—and crucially—it is geared to ensuring that we apply the best practice, and the greatest success, in terms of teaching and learning to every school in Wales.

Locally Sourced Food

Q5 Mick Bates: Will the Minister make a statement on the use of locally sourced food in school meals? OAQ(3)0318(CEL)

Jane Hutt: The Welsh Assembly Government encourages all public sector organisations, including schools, to open up opportunities for local suppliers that can provide value-for-money products that are healthy, nutritious and safe with support, for example, from Hybu Cig Cymru.

Mick Bates: I am the first to congratulate you on that statement, Minister. I am sure you will join me in congratulating the Welsh scouts, who visited the Senedd yesterday, to promote healthy living through outdoor activities and healthy eating—I would also like to see them grow healthy food. Many local authorities, as you rightly point out, have very good local procurement programmes, such as my own Powys County Council. It was recently announced that cookery lessons will become compulsory for 11 to 14-year-olds in England from 2011. Could this be replicated here in Wales? It could include education that raises awareness among our schoolchildren about the importance not only of healthy eating, but of locally sourced food, which, in turn, can help our environment by reducing food miles and provides the local economy with so many benefits.

Jane Hutt: I join you in congratulating the

Jane Hutt: Mae'r Athro David Reynolds o Brifysgol Plymouth yn amlwg wedi cefnogi ein fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, a gyhoeddais i'r Cynulliad ddoe, i gefnogaeth a chydabyddiaeth eang. Yr hyn sy'n dyngedfennol, o ran y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, yw ein bod yn symud ymlaen ar agenda ddiwygio, sy'n cynnwys ein cynlluniau a'n rhaglenni i adeiladu gwell ysgolion. Fodd bynnag—ac yn dyngedfennol—ei nod yw sicrhau ein bod yn rhoi'r arferion gorau, a'r llwyddiant mwyaf, ar waith, o safbwynt addysgu a dysgu, ym mhob ysgol yng Nghymru.

Bwyd o Ffynonellau Lleol

C5 Mick Bates: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio bwyd o ffynonellau lleol mewn prydau ysgol? OAQ(3)0318(CEL)

Jane Hutt: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog pob corff sector cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, i gynnig cyfleoedd i gyflenwyr lleol sy'n gallu darparu cynnyrch gwerth am arian sy'n iach, yn faethlon ac yn ddiogel gyda chymorth, er enghraifft, oddi wrth Hybu Cig Cymru.

Mick Bates: Fi yw'r cyntaf i'ch llongyfarch ar y datganiad hwnnw, Weinidog. Yr wyf yn siŵr y gwnewch ymuno â mi i longyfarch sgowtiaid Cymru, a ymwelodd â'r Senedd ddoe, i hyrwyddo byw'n iach drwy weithgareddau awyr agored a bwyta'n iach—hoffwn hefyd eu gweld yn tyfu bwyd iach. Mae gan lawer o awdurdodau lleol, fel yr ydych yn ei nodi'n gwbl gywir, raglenni caffael lleol da iawn, megis Cyngor Sir Powys, fy nghyngor i. Cyhoeddwyd yn ddiweddar y bydd gwersi coginio'n dod yn orfodol i blant 11 i 14 oed yn Lloegr o 2011. A ellid copïo hynny yma yng Nghymru? Gallai gynnwys addysg sy'n codi ymwybyddiaeth ymysg ein plant ysgol o bwysigrwydd nid dim ond bwyta'n iach, ond o bwysigrwydd bwyd o ffynonellau lleol, sydd, yn ei dro, yn gallu helpu ein hamgylchedd drwy gwtogi ar filltiroedd bwyd a dod â chynifer o fanteision i'r economi leol.

Jane Hutt: Ymunaf â chi i longyfarch

Welsh Scout Council for its pioneering work in outdoor and indoor activities. The food and fitness action plan, which is now feeding into 'Appetite for Life', includes actions relating to bringing cookery classes into the curriculum. An important point is that we are extending this to wider, family opportunities to engage in cookery classes too. I congratulate the leadership of Michaelston Community College, which has pioneered, with Food Matters, the opportunity for children to do cookery classes. When I met the children, they said that they were enjoying cooking for their families, because of what they had learned.

Brynle Williams: I recognise that the Assembly has made great strides in recent years in putting quality food and local produce, in particular, on the school menu but there is still a problem, particularly in the towns and cities, where a large proportion of young people have never had the opportunity to experience the countryside and learn, firsthand, where their food comes from. What work are you undertaking to improve the ties between schools and farms, to give more children and young people, particularly from deprived and urban areas, the chance to participate in farm visits?

Jane Hutt: We can take the farm to the school and the school to farm. The farming link organisation, the name of which I cannot recall at present, has produced a video that I participated in about links to schools. Yesterday I visited another excellent school in Bridgend, Maes yr Haul Primary School, with my colleague, Carwyn Jones, where I reminded the pupils that I had met Judy the cow in the playground on my previous visit. Food for Thought, which is a pioneering initiative led by farmers in the Vale of Glamorgan, has been taking cows to schools, because many children did not know where milk was sourced from.

Gwasanaeth Therapi Lleferydd

C6 Alun Ffred Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido'r gwasanaeth therapi lleferydd i ddisgyblion ysgol? OAQ(3)0308(CEL)

Cyngor Sgowntiaid Cymru ar ei waith arloesol ym maes gweithgareddau awyr agored a than do. Mae'r cynllun gweithredu bwyd a ffitrwydd, sydd erbyn hyn yn bwydo i mewn i 'Blas am Oes', yn cynnwys camau gweithredu yn ymwneud â dod â dosbarthiadau coginio i'r cwricwlwm. Mae'n bwynt pwysig ein bod hefyd yn ehangu hyn i gyfleoedd teuluol, ehangach i fanteisio ar ddsbarthiadau coginio. Llongyfarchaf arweinwyr Coleg Cymuned Michaelston, sydd wedi arloesi, ynghyd â Bwyd o Bwys, i sefydlu'r cyfle i blant gael dosbarthiadau coginio. Pan gyfarfûm â'r plant, dywedasant eu bod yn mwynhau coginio i'w teuluoedd, oherwydd yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu.

Brynle Williams: Yr wyf yn cydnabod bod y Cynulliad wedi cymryd camau breision dros y blynyddoedd diwethaf yn rhoi bwyd o safon a chynnyrch lleol, yn arbennig, ar fwydlenni ysgolion ond mae problem o hyd, yn enwedig yn y trefi a'r dinasoedd, lle nad yw cyfran fawr o'r bobl ifanc erioed wedi cael y cyfle i brofi cefn gwlad ac i ddysgu, o brofiad personol, o ble mae eu bwyd yn dod. Pa waith ydych chi'n ei wneud i wella'r cysylltiadau rhwng ysgolion a ffermydd, i roi'r cyfle i fwy o blant a phobl ifanc, yn enwedig o ardaloedd difreintiedig a threfol, i ymweld â ffermydd?

Jane Hutt: Gallwn fynd â'r fferm i'r ysgol a'r ysgol i'r fferm. Mae'r corff cyswllt ffermio, na allaf gofio ei enw ar y funud, wedi cynhyrchu fideo y cymerais i ran ynddo ynglŷn â chysylltiadau ag ysgolion. Ddoe, ymwelais ag ysgol ragorol arall ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Ysgol Gynradd Maes yr Haul, gyda'm cyd-Aelod, Carwyn Jones, lle yr atgoffais y disgyblion imi gwrdd â Judy y fuwech ar y buarth chwarae ar fy ymweliad blaenorol. Mae Cnoi Cil, sef menter arloesol dan arweiniad ffermwyr ym Mro Morgannwg, wedi bod yn mynd â gwartheg i ysgolion, gan nad oedd llawer o blant yn gwybod o ble mae llaeth yn dod

Speech Therapy Services

Q6 Alun Ffred Jones: Will the Minister make a statement on funding speech therapy services for school pupils? OAQ(3)0308(CEL)

Jane Hutt: Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi £3.1 miliwn i awdurdodau lleol ar gyfer 11 prosiect peilot lleferydd ac iaith cydweithredol i helpu disgyblion ysgol. Mae'r canlyniadau wedi bod yn galonogol.

Jane Hutt: Over the last three years, the Welsh Assembly Government has provided £3.1 million to local authorities for 11 collaborative speech and language pilot projects to support school pupils. Results have been encouraging.

Alun Ffred Jones: Y gwasanaeth iechyd sydd yn cyflogi therapyddion lleferydd, hyd y gwn i, yn y rhan fwyaf o leoedd, ac mae'r gwasanaeth hwnnw o dan bwysau. Y broblem yw bod plant, yn aml, yn syrthio rhwng dwy stôl, yn enwedig os yw therapyddion yn gadael neu yn mynd ar gyfnod mamolaeth. Mae'r plant, wedyn, yn cael cam. Beth allwch ei wneud i sicrhau bod y gwasanaeth hwn ar gael i bob plentyn yng Nghymru sydd ei angen?

Alun Ffred Jones: As far as I am aware, speech therapists are employed, in most cases, by the health service, and that service is under pressure. The problem is that children often fall between two stools, especially if therapists leave or take maternity leave. The children suffer as a result. What can you do to ensure that this service is available for all those children in Wales who need it?

Jane Hutt: The work that we undertook in 'Working Together: Speech and Language Services for Children and Young People', which was a joint initiative of health, education and the speech and language therapy action group, identified the importance of delivering in speech and language therapy and moving forward, not just in terms of additional training opportunities for speech and language therapists but also in terms of opportunities for engaging with speech and language therapies technicians and to engage more fully with parents in supporting their children. The appointment of a co-ordinator to implement the pilot projects and draft future guidance materials will take us forward in this respect.

Jane Hutt: Amlygodd y gwaith a wnaethom yn 'Gweithio Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau Lleferydd ac Iaith i Blant a Phobl Ifanc', a oedd yn fenter ar y cyd rhwng iechyd, addysg a'r grŵp gweithredu ar therapi lleferydd ac iaith, bwysigrwydd darparu therapi lleferydd ac iaith a symud ymlaen, nid dim ond ar ffurf cyfleoedd hyfforddi ychwanegol i therapyddion lleferydd ac iaith ond hefyd o ran cyfleoedd i weithio gyda thechnegwyr therapïau lleferydd ac iaith ac i weithio mwy gyda rhieni ar gynorthwyo eu plant. Bydd penodi cyd-drefnydd i roi'r prosiectau peilot ar waith ac i ddrafftio canllawiau ar gyfer y dyfodol yn mynd â ni ymlaen yn y cyswllt hwn.

David Melding: I declare an interest as chair of Meadowbank School's governing body. That school is specifically for children with speech and language learning difficulties. For the last 18 months, despite the efforts of the health service and the school, we have been under establishment with speech therapists, which indicates the difficulty, because we do not have enough speech therapists. It is a key skill. It goes way beyond acquiring the basics of verbal abilities and it is crucial for all forms of communication and the development of children particularly primary school children.

David Melding: Datganaf ddiddordeb fel cadeirydd corff llywodraethu Ysgol Meadowbank. Mae'r ysgol honno yn benodol ar gyfer plant sydd ag anawsterau dysgu lleferydd ac iaith. Am y 18 mis diwethaf, er gwaethaf ymdrechion y gwasanaeth iechyd a'r ysgol, yr ydym wedi bod yn fyr o therapyddion lleferydd, sy'n dangos yr anhawster, oherwydd nid oes gennym ddigon o therapyddion lleferydd. Mae'n sgil allweddol. Mae'n mynd lawer ymhellach na chaffael hanfodion medrau llafar ac mae'n dyngedfennol i bob math o gyfathrebu ac i ddatblygiad plant, yn enwedig plant ysgol gynradd.

1.40 p.m.

I want to see much more mainstream provision, where you also have specialist teams using specialist centres, because this is an under-diagnosed area. There is evidence that, if many are to achieve the basic skills that we want them to achieve, children will need this important intervention.

Jane Hutt: I agree with you wholeheartedly, David. I will put the project evaluation of the speech and language pilot schemes in the Members' Library. The evaluation comes out with a number of findings that we need to consider and take forward. It is also an opportunity to acknowledge the important skills of speech and language therapists, and to recognise the difference that they can make to a child's life, in terms of opportunity.

Kirsty Williams: Minister, the fact is that too many children are waiting too long for speech therapy appointments. However, providing therapy to children within the school environment can lead to a decrease in the number of children who miss therapy appointments when they finally get to see the speech therapists. There are many reasons why parents can sometimes find it difficult to get their children to alternative venues to access speech therapy. What is the Government doing to get more speech therapists to work in multidisciplinary teams in the school setting, thus reducing stigma and ensuring that children get to the appointments that they need?

Jane Hutt: This is very much part of our inclusion strategy, and, following on from David Melding's comments, it is important that the multidisciplinary team is present and engaged at the school setting. There is an issue in terms of the need for more speech and language therapists and to fill vacancies, some of which will be temporary vacancies due to maternity leave and other arrangements. However, the multidisciplinary, on-site approach is what we want to pursue.

Kirsty Williams: Minister, with all due respect, we have been talking about recruiting more speech and language

Yr wyf am weld llawer rhagor o ddarpariaeth prif ffrwd, lle mae gennych hefyd dimau arbenigol yn defnyddio canolfannau arbenigol, oherwydd mae hwn yn faes lle ceir tanddiagnosisio. Ceir tystiolaeth y bydd angen yr ymyriad pwysig hwn ar blant, cyn y gall llawer ohonynt fagu'r sgiliau sylfaenol yr ydym am iddynt eu cael.

Jane Hutt: Cytunaf o ddifrif â chi, David. Rhoddaf y gwerthusiad prosiect o'r cynlluniau peilot lleferydd ac iaith yn Llyfrgell yr Aelodau. Mae'r broses werthuso yn cyflwyno nifer o ganfyddiadau y mae angen inni eu hystyried a'u symud ymlaen. Mae hefyd yn gyfle i gydnabod pwysigrwydd sgiliau therapyddion lleferydd ac iaith, ac i gydnabod y gwahaniaeth y gallant ei wneud i fywyd plentyn, o safbwynt cyfle.

Kirsty Williams: Weinidog, y ffaith yw bod gormod o blant yn disgwyl yn rhy hir am apwyntiadau therapi lleferydd. Fodd bynnag, mae darparu therapi i blant yn amgylchedd yr ysgol yn gallu arwain at ostyngiad yn y nifer o blant sy'n methu apwyntiadau therapi pan fyddant yn y pen draw yn cael gweld therapyddion lleferydd. Mae llawer o resymau pam y mae rheini weithiau'n ei chael hi'n anodd mewn â'u plant i fannau eraill i gael therapi lleferydd. Beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i gael mwy o therapyddion lleferydd i weithio mewn timau amlddisgyblaethol mewn ysgolion, gan leihau'r stigma felly a sicrhau bod plant yn cael yr apwyntiadau y mae eu hangen arnynt?

Jane Hutt: Mae hyn yn sicr yn rhan o'n strategaeth gynnwys, ac, yn dilyn o sylwadau David Melding, mae'n bwysig fod y tîm amlddisgyblaethol yn bresennol ac yn gweithio yn yr ysgol. Mae problem o ran yr angen am ragor o therapyddion lleferydd ac iaith a llenwi swyddi gweigion, rhai ohonynt yn swyddi gweigion dros dro oherwydd absenoldeb mamolaeth a threfniadau eraill. Fodd bynnag, y dull gweithredu amlddisgyblaethol, ar y safle, yw'r hyn yr ydym am ymgynhyrdd ato.

Kirsty Williams: Weinidog, gyda dyledus barch, yr ydym wedi bod yn siarad am recriwtio rhagor o therapyddion lleferydd ac

therapists since you and I were on the health committee, aeons ago, and we are still having the same conversations about a lack of therapists.

A second issue is access to speech therapists through the medium of Welsh. Children who access Welsh-medium education having therapy through the medium of English can cause huge problems in terms of assessing linguistic abilities. This often results in parents who come, perhaps, from an English-speaking background changing their minds about accessing Welsh-medium opportunities for their children. What are you doing to ensure that children whose first language is Welsh, or whose parents have chosen to educate them through the medium of Welsh, have access to a speech therapy service in the language of their choice?

Jane Hutt: I do not disagree with that point. The pioneering course at the University of Wales Institute, Cardiff for Welsh-medium speech and language therapies has an important role to play. We must meet these needs in terms of not only the code of practice, which informs us in terms of guidance for statementing, but also for the basic level of intervention in the early years. We also have opportunities in the foundation phase for extra training to support classroom assistants, as well as teachers, in early intervention. I will be looking at these points on Welsh-medium education.

Top-Up Fees

Q7 Nick Bourne: Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policy on top-up fees? OAQ(3)0306(CEL)

Jane Hutt: The Assembly Government's policy on top-up fees is set out in the 'One Wales' agreement. We will maintain existing fee levels up to and including 2009-10 and do whatever possible to mitigate the effects on Welsh domiciled students, if the Westminster Government lifts the cap on fees in 2009.

iaith ers yr oeddech chi a minnau ar y pwyllgor iechyd, oesoedd yn ôl, ac yr ydym yn dal i gael yr un sgysiau am ddiffyg therapyddion.

Ail broblem yw cyrchu at therapyddion lleferydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae i blant sy'n cael addysg cyfrwng Gymraeg gael therapi drwy gyfrwng y Saesneg yn gallu achosi problemau enfawr o ran asesu gallu ieithyddol. Mae hyn yn aml yn peri i rieni sy'n dod, efallai, o gefndir Saesneg ei iaith, newid eu meddyliau am fanteisio ar gyfleoedd cyfrwng Cymraeg i'w plant. Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod plant sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, neu y mae eu rhieni wedi dewis eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn gallu cyrchu at wasanaeth therapi lleferydd yn eu dewis iaith?

Jane Hutt: Nid wyf yn anghytuno â'r pwynt hwnnw. Mae gan y cwrs arloesol yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, ar therapiau lleferydd ac iaith cyfrwng Cymraeg, rôl bwysig i'w chwarae. Rhaid inni ddiwallu'r anghenion hyn nid dim ond o safbwynt y cod ymarfer, sy'n sylfaen inni o ran rhoi canllawiau ynglŷn â datganiadau, ond hefyd ar gyfer y lefel ymyrryd sylfaenol yn y blynyddoedd cynnar. Mae gennym gyfleoedd hefyd yn y cyfnod sylfaen i ddarparu hyfforddiant ychwanegol i helpu cynorthwywyr dosbarth, yn ogystal ag athrawon, i ymyrryd yn gynnar. Byddaf yn edrych ar y pwyntiau hyn o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg.

Ffioedd Atodol

C7 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ffioedd atodol? OAQ(3)0306(CEL)

Jane Hutt: Mae polisi Llywodraeth y Cynulliad ar ffioedd atodol wedi cael ei nodi yng nghytundeb 'Cymru'n Un'. Byddwn yn cynnal y lefelau ffioedd presennol hyd at ac yn cynnwys 2009-10 ac yn gwneud beth bynnag sy'n bosibl i liniaru'r effeithiau ar fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru, os bydd Llywodraeth San Steffan yn codi'r cap ar ffioedd yn 2009.

Nick Bourne: Students will be taking decisions between now and the end of this Assembly term about where they will study. The motion that we put forward, subsequently carried by the Assembly, on top-up fees has led to a greater number of Welsh domiciled students studying in Welsh universities—that is the obvious evidence from the sector. Given that the sector, students and their families need to know and plan, what are you going to do for the rest of the Assembly term, given the uncertainty that has been created by the ‘One Wales’ agreement about the period between 2010 and 2011? Do you undertake to ensure that top-up fees remain outlawed in Wales for that period of time?

Jane Hutt: I think that the ‘One Wales’ commitment is the responsible one, at a time when we do not know what plans the Westminster Government may have following the outcome of the review of the impact of tuition fees in England.

Bethan Jenkins: Minister, I suggested an LCO on the student loan threshold and I wonder whether you would endorse a change in the regulations. Currently, when students pay back their student loans, it is a 9 per cent tax on all earnings above £15,000 a year. Of course, you may know that students do not start paying back the interest until they earn over £20,000 a year. This is a considerable problem in Wales, considering that graduate job levels are much lower in Wales than in other parts of the UK. Would you look at this regulation, with a mind to increasing the student loan threshold in Wales?

Jane Hutt: I am certainly interested in looking at your proposals, Bethan.

Peter Black: Minister, now that students are paying fees—remember that 50 per cent of students in Welsh universities are doing so because they come from England or elsewhere—they expect a much higher standard of education and much better

Nick Bourne: Bydd myfyrwyr yn gwneud penderfyniadau rhwng nawr a diwedd y tymor hwn yn y Cynulliad ynglŷn â ble y byddant yn astudio. Mae'r cynnig a gyflwynasom ni, a basiwyd wedi hynny gan y Cynulliad, ynglŷn â ffioedd atodol wedi arwain at nifer fwy o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru yn astudio ym mhrifysgolion Cymru—dyna'r dystiolaeth amlwg o'r sector. Ac ystyried bod angen i'r sector, myfyrwyr a'u teuluoedd wybod a chynllunio, beth ydych chi'n mynd i'w wneud am weddill tymor y Cynulliad, ac ystyried yr ansicrwydd sydd wedi cael ei greu gan gytundeb ‘Cymru'n Un’ ynglŷn â'r cyfnod rhwng 2010 a 2011? A ydych yn ymrwymo i sicrhau y bydd ffioedd atodol yn dal i gael eu gwahardd yng Nghymru am y cyfnod hwnnw o amser?

Jane Hutt: Yr wyf yn meddwl mai ymrwymiad ‘Cymru'n Un’ yw'r un cyfrifol, ar adeg pan na wyddom pa gynlluniau a allai fod gan Lywodraeth San Steffan yn dilyn canlyniad yr adolygiad o effaith ffioedd dysgu yn Lloegr.

Bethan Jenkins: Weinidog, awgrymais Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar y trothwy ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr a tybed a fyddech yn cymeradwyo newid y rheoliadau. Ar hyn o bryd, pan fydd myfyrwyr yn ad-dalu eu benthyciadau myfyrwyr, mae'n dreth o naw y cant ar yr holl enillion dros £15,000 y flwyddyn. Wrth gwrs, efallai eich bod yn gwybod na fydd myfyrwyr yn dechrau ad-dalu'r llog nes iddynt ennill dros £20,00 y flwyddyn. Mae hon yn broblem sylweddol yng Nghymru, ac ystyried bod lefelau swyddi graddedigion yn is o lawer yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU. A fyddech yn edrych ar y rheoliad hwn, gyda bwriad i gynyddu'r trothwy ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr yng Nghymru?

Jane Hutt: Mae gennyf ddiddordeb mewn gweld eich cynigion yn sicr, Bethan.

Peter Black: Weinidog, gan fod myfyrwyr yn awr yn talu ffioedd—cofiwch fod 50 y cant o'r myfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru'n gwneud hynny oherwydd eu bod yn dod o Loegr neu o fannau eraill—maent yn disgwyl addysg o safon uwch o lawer a

facilities. What are you doing in relation to the funding gap between England and Wales and how are you meeting those expectations by trying to close that gap?

Jane Hutt: There is huge student satisfaction with Welsh higher education. The third annual National Student Survey showed that those in higher education in Wales continue to have a high level of satisfaction with their student experience. In 2007, 83 per cent of students in Wales were satisfied with their experience, which remains above the figure achieved by the UK as a whole. Aberystwyth University scored highest in the UK for satisfaction in *The Times Good University Guide*. This is great news for Welsh higher education institutions. I was pleased to speak today at a conference, organised by the Higher Education Funding Council for Wales, about the experience of international students. In fact, the First Minister and I are to host a reception shortly that will be attended by over 200 overseas students from every university in Wales. The satisfaction of the 8,000 overseas students in Wales shows that not only are students from Wales satisfied, but that students from the UK and the rest of the world are satisfied with our higher education. That is why, of course, I am always seeking to improve and build on the level of funding received by our higher education institutions in Wales.

Education Achievements

Q8 Joyce Watson: What are the Welsh Assembly Government's main education achievements in Carmarthenshire? OAQ(3)0280(CEL)

Jane Hutt: Carmarthenshire benefits from the implementation of our policies for children, education, lifelong learning and skills. We are investing to provide educational and learning opportunities for people of all ages and at all life stages across Carmarthenshire.

Joyce Watson: Do you agree that the Labour-led Government's focus on education has led to a massive investment in the future of our schools in Wales and was needed as a result of the Tories' 18 years of neglect? An

chyfleusterau gwell o lawer. Beth ydych yn ei wneud yng nghyswllt y bwllch cyllido rhwng Cymru a Lloegr, a sut yr ydych yn diwallu'r disgwyliadau hynny drwy geisio cau'r blwch hwnnw?

Jane Hutt: Mae myfyrwyr yn arbennig o fodlon ag addysg uwch Cymru. Dangosodd y trydydd Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr fod y rheini sydd mewn addysg uwch yng Nghymru'n dal yn fodlon iawn â'u profiad o fod yn fyfirwyr. Yn 2007, yr oedd 83 y cant o fyfirwyr yng Nghymru'n fodlon â'u profiad, sy'n dal yn uwch na'r ffigur a gyflawnwyd gan y DU yn ei chyfanrwydd. Cafodd Prifysgol Aberystwyth y sgôr uchaf yn y DU am fodlonrwydd yn *The Times Good University Guide*. Mae hyn yn newyddion gwych i sefydliadau addysg uwch Cymru. Yr oeddwn yn falch o siarad mewn cynhadledd heddiw, a drefnwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ynghylch profiad myfyrwyr rhyngwladol. A dweud y gwir, bydd y Prif Weinidog a minnau'n cynnal derbyniad cyn bo hir ar gyfer dros 200 o fyfirwyr tramor o bob prifysgol yng Nghymru. Dengys bodlonrwydd yr 8,000 o fyfirwyr tramor yng Nghymru nid yn unig bod y myfyrwyr o Gymru yn fodlon, ond bod y myfyrwyr o'r DU a gweddill y byd yn fodlon â'n haddysg uwch. Dyna pam, wrth gwrs, fy mod bob amser yn ceisio gwella ac adeiladu ar lefel y cyllid a gaiff ein sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Llwyddiannau Addysg

C8 Joyce Watson: Beth yw prif lwyddiannau addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sir Gaerfyrddin? OAQ(3)0280(CEL)

Jane Hutt: Mae sir Gaerfyrddin yn elwa o weithredu ein polisiau ar gyfer plant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau. Yr ydym yn buddsoddi i ddarparu cyfleoedd addysgol a dysgu ar gyfer pobl o bob oed ac ar bob cam mewn bywyd ledled sir Gaerfyrddin.

Joyce Watson: A ydych yn cytuno bod ffocws y Llywodraeth dan arweiniad Llafur ar addysg wedi arwain at fuddsoddiad enfawr yn nyfodol ein hysgolion yng Nghymru, ac yr oedd angen hynny o ganlyniad i 18 mlynedd

example of this is Ysgol y Bedol in Garnant, a new super community-focused school, which was created using £5.5 million invested by the Labour-led Assembly Government and Carmarthenshire County Council. It is the second school to open in the massive modernisation process in Carmarthenshire. Do you also agree, Minister, that the way forward is the £3.8 million invested in Bryn Primary School, Llanelli, which was spent on making new equipment like white boards and plasma touch-screen televisions available in every classroom? Do you further agree that continued proactive investment in schools is required in order for Wales to be not only an educator, but a leader in education?

The Presiding Officer: Order. I am afraid that today is long-question day, but I hope that it is also still succinct-answer day. Thank you, Minister.

Jane Hutt: I join Joyce in congratulating Carmarthenshire County Council on its excellent education service.

The Presiding Officer: What an excellent answer.

Angela Burns: Despite Joyce Watson's eulogy on the wonders of the Labour Government's education strategy, we have had a stern warning this week that we are neglecting our talented and gifted students in Wales in favour of meeting basic skills targets. Once again, we are trailing behind England, which introduced a gifted and talented strategy five years ago. Minister, what plans do you have to introduce a similar initiative in Wales to ensure that we are giving such students the necessary opportunities? In your school effectiveness framework, you state that you want to raise the bar and narrow the gap. I fear that we may narrow the gap by lowering the bar.

1.50 p.m.

Jane Hutt: If you had met the young people of Ynysawdre Comprehensive School in Ogmre yesterday, you would have seen how we are recognising, supporting and applauding the talents of our most gifted

o esgeulustod y Torïaid? Un enghraifft o hyn yw Ysgol y Bedol yng Ngarnant, ysgol bro wych newydd, a grëwyd drwy ddefnyddio £5.5 miliwn a fuddsoddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad dan arweiniad Llafur a Chyngor Sir Caerfyrddin. Dyma'r ail ysgol i agor yn y broses moderneiddio enfawr yn sir Gaerfyrddin. A ydych hefyd yn cytuno, Weinidog, mai'r ffordd ymlaen yw'r £3.8 miliwn a fuddsoddwyd yn Ysgol Gynradd Bryn, Llanelli, a wariwyd ar ddarparu offer newydd megis byrddau gwyn a setiau teledu plasma sgrin gyffwrdd ym mhob ystafell ddosbarth? A ydych hefyd yn cytuno bod angen buddsoddi'n rhagweithiol mewn ysgolion er mwyn i Gymru fod yn arweinydd ym maes addysg yn ogystal ag yn addysgwr ?

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf yn ofni bod heddiw yn ddiwrnod cwestiynau hir, ond gobeithiaf ei fod hefyd yn ddiwrnod atebion cryno. Diolch, Weinidog.

Jane Hutt: Ymunaf â Joyce i longyfarch Cyngor Sir Caerfyrddin ar ei wasanaeth addysg rhagorol.

Y Llywydd: Dyna ateb rhagorol.

Angela Burns: Er gwaethaf moliant Joyce Watson am ryfeddodau strategaeth addysg Llywodraeth Lafur, yr ydym wedi cael rhybudd llym yr wythnos hon ein bod yn esgeuluso ein myfyrwyr dawnus a thalentog yng Nghymru er mwyn cyrraedd targedau sgiliau sylfaenol. Unwaith eto, yr ydym y tu ôl i Loegr, a gyflwynodd strategaeth myfyrwyr dawnus a thalentog bum mlynedd yn ôl. Weinidog, pa gynlluniau sydd gennych i gyflwyno menter debyg yng Nghymru i sicrhau ein bod yn rhoi'r cyfleoedd angenrheidiol i fyfyrwyr o'r fath? Yn eich fframwaith effeithiolrwydd ysgol, nodwch bod arnoch eisiau codi'r safon a lleihau'r blwch. Ofnaf y gallem gau'r bwch drwy ostwng y safon.

Jane Hutt: Petaech wedi cwrdd â phobl ifanc Ysgol Uwchradd Ynysawdre yn Ogwr ddoe, byddech wedi gweld sut yr ydym yn cydnabod, yn cefnogi ac yn cymeradwyo talentau ein myfyrwyr mwyaf dawnus.

pupils. I would say that all children in our schools have an opportunity to display those kinds of talents and abilities when they get the kind of education offered in that comprehensive school, right through from junior school to comprehensive school. I am sure that you will be aware of the fact that those pupils won the UK award in the design and technology challenge, and they will be going to Malaysia as ambassadors for Wales. I hope that they win, and I am sure that you do too, Angela.

Byddwn yn dweud y caiff pob plentyn yn ein hysgolion gyfle i arddangos y mathau hynny o dalentau a galluoedd pan gânt y math o addysg a gynigir yn yr ysgol uwchradd honno, o ysgol iau i ysgol uwchradd. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn ymwybodol o'r ffaith bod y disgyblion hynny wedi ennill gwobr y DU yn y sialens dylunio a thechnoleg, a byddant yn mynd i Maleisia fel llysgenhadon dros Gymru. Gobeithiaf y byddant yn fuddugol ac yr wyf yn siŵr eich bod chithau'n gobeithio hynny hefyd, Angela.

Datganiad am Ailgyflunio Gwasanaethau Iechyd yng Ngogledd Cymru Statement on the Reconfiguration of Services in North Wales

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): The 'One Wales' agreement committed the Assembly Government to a new approach in bringing about change in the Welsh health service. It is worth restating the terms in which the agreement approached this issue:

'Where proposals are contentious, we will proceed on the basis of an agreed evidence base...Where flaws or gaps are identified in existing evidence, new information will be sought and fresh public consultation will be embarked upon'.

I have made it my policy to report as regularly as possible to Members on the progress of the different reviews put in place in order to meet that 'One Wales' obligation. Today, I want to update Members further on a range of these initiatives as they affect north Wales, announcing publication of the final reports of one review and the way in which I intend to respond.

Turning to the review of community services, Members will recall that I asked Dr Christopher Jones CBE, chair of the Rhondda Cynon Taf Local Health Board and a general practitioner, to review current plans for community services in north Wales, and to provide me with a report on their appropriateness. I am meeting Dr Jones this afternoon to discuss his emerging findings, and I shall make a further statement to

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Yr oedd y cytundeb 'Cymru'n Un' yn ymrwymo Llywodraeth y Cynulliad i ddull gweithredu newydd ar gyfer cyflwyno newid yng ngwasanaeth iechyd Cymru. Mae'n werth ailadrodd y termau a ddefnyddiwyd i drafod y mater hwn:

Ann Jones: Ceir llawer o bethau i'w croesawu yn eich datganiad, Weinidog, a byddwn yn myfyrio ar hynny. Mae gennyf ddau gwestiwn penodol. Mae un yn ymwneud ag adolygiad Prestatyn, a gaiff ei gyhoeddi'n fuan, gobeithio, a bydd gennyf ddiddordeb gweld beth a ddaw yn ei sgil. Yr wyf hefyd wedi gwrandao'n ofalus ar y trafodaethau ynglŷn ag Ysbyty Glan Clwyd, a'r adolygiad o wasanaethau cymunedol. Sut y gallwn fod yn sicr y bydd yr holl adolygiadau hyn yn creu dull cydlynol o ymdrin â gofal iechyd sylfaenol, yn hytrach na rhywbeth tameidiog? Gwnaf apêl hefyd—a chithau wedi rhoi arian i Abergele, sy'n newyddion da, a wnewch chi ystyried canolfan gofal iechyd sylfaenol i Brestatyn?

Edwina Hart: Diolch am y sylwadau hynny, Ann. Gobeithiaf y bydd adroddiad Michael Williams ar gael yr wythnos nesaf. Yr ydych yn llygad eich lle o ran Prestatyn a'r materion ynghylch hynny. Sut yr ydym yn cysylltu hyn ag anghenion iechyd y gymuned, nid yn unig ym Mhrestatyn, ond yn yr ardal ehangach? Wrth drafod materion ynglŷn ag ysbytai, a ydym yn anghofio am yr hyn y mae angen inni ei wneud ar gyfer iechyd a lles yn gyffredinol yn yr ardal? Gobeithiaf yr ymdrinnir â'r cwestiynau hynny'n llawn yn adroddiad Michael, ac yn sicr yn y camau y byddaf yn eu cymryd yn ei sgil.

Hoffwn ddiolch ichi am eich cymorth o ran Ysbyty Glan Clwyd, oherwydd bu eich cyfraniad ar hynny'n bwysig. Yr ydych chi'n bendant eich barn bod yn rhaid inni gael yr ateb gorau, ac nid yr ateb rhataf o reidrwydd—mae arnom angen ateb i'r tymor hir os ydym am i Ysbyty Glan Clwyd barhau i ddarparu gwasanaethau rhagorol.

Jonathan Morgan: Er fy mod yn derbyn canlyniad adolygiad Burns, yn enwedig o ran sicrhau bod dyfodol i ysbyty yn Llandudno, mae'n amlwg bod canlyniad yr adroddiad hwnnw'n adlewyrchu thema ganolog 'Cynllun Gogledd Cymru', a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2006. Byddwch yn cofio i'r ddogfen honno ddatgan yn glir mai dim ond

specialist and critical care services could only be safely provided at the major district general hospitals, and therefore coronary care, acute care, stroke care and breast surgery could not be provided and supported at Llandudno. Therefore, the Burns review has, in effect, endorsed what was stated in 'Designed for North Wales' in April 2006. Can you confirm that the outcome of this review confirms what was decided almost two years ago? On that basis, will you accept that many people in Wales will now view the reconfiguration process as somewhat chaotic?

We have had a series of reviews: reviews in the various regions of Wales, and the all-Wales 'Designed for Life' and 'Designed to Deliver' reviews. As a result, we saw emergency surgery shifted from Prince Philip Hospital. A review was held into that decision, and concluded that while the consultation was flawed, the outcome was the right one. At the moment, we are on track in these reviews to endorse most of the outcomes that were agreed upon two years ago. That throws up a question in my mind about the nature of the consultation process, the way in which clinicians are engaged, and the way in which reconfiguration should happen in the future. Have you given any thought to the level of reform that we might need to apply to reconfiguration processes in future? We need to learn from this because, as you can see from what I have outlined, the process appears to be somewhat chaotic.

Edwina Hart: One of my worries over the last few months has been in relation to that last point that you made: how do I learn from all this and develop a better consultation process? How do I engage clinicians properly at the first stage to say what the ideal is in terms of services, and then build on that in terms of explaining to the public what we are doing with services? I am hoping that Michael's report will give a lead in some areas. I am speaking to Chris Jones later today and I think that he also has some views about how things could have been done differently. I hope that the sum total will allow me to instruct officials to develop a

yn y prif ysbytai cyffredinol dosbarth y gellid darparu gwasanaethau gofal arbenigol a chritigol lefel 3 yn ddiogel, ac felly na ellid darparu a chefnogi gofal coronaidd, gofal aciwt, gofal strôc a llawdriniaethau ar y fron yn Llandudno. Felly, mae adolygiad Burns, mewn gwirionedd, wedi ategu'r hyn a ddywedwyd yn 'Cynllun Gogledd Cymru' ym mis Ebrill 2006. A allwch gadarnhau bod canlyniad yr adolygiad hwn yn cadarnhau'r hyn a benderfynwyd bron i ddwy flynedd yn ôl? Ar sail hynny, a dderbyniwch y bydd llawer o bobl yng Nghymru bellach yn ystyried bod y broses ailgyflunio braidd yn ddryslyd?

Yr ydym wedi cael cyfres o adolygiadau: adolygiadau yng ngwahanol ranbarthau Cymru, ac adolygiadau 'Cynllun Oes' a 'Cynllun Cyflenwi' dros Gymru gyfan. O ganlyniad, gwelsom lawdriniaethau brys yn cael eu symud o Ysbyty'r Tywysog Philip. Cynhaliwyd adolygiad i'r penderfyniad hwnnw, a daethpwyd i'r casgliad, er bod yr ymgynghori'n ddiffygiol, bod y canlyniad yn iawn. Ar hyn o bryd, ymddengys y byddwn, yn yr adolygiadau hyn, yn ategu'r rhan fwyaf o'r canlyniadau y cytunwyd arnynt ddwy flynedd yn ôl. Mae hynny'n codi cwestiwn yn fy meddwl ynglŷn â natur y broses ymgynghori, y modd y caiff clinigwyr eu cynnwys, a sut y dylai ailgyflunio ddigwydd yn y dyfodol. A ydych wedi ystyried o gwbl faint o ddiwygio y bydd ei angen, o bosibl, ar brosesau ailgyflunio gennym yn y dyfodol? Mae angen inni ddysgu ar sail hyn oherwydd, fel y gwelwch o'r hyn yr wyf wedi'i amlinellu, ymddengys bod y broses rywfaint yn ddryslyd.

Edwina Hart: Mae un o'm pryderon dros yr ychydig fisoedd diwethaf yn ymwneud â'r pwynt olaf hwnnw a wnaethpwyd gennych: sut y gallaf ddysgu ar sail hyn oll a datblygu gwell proses ymgynghori? Sut y gallaf gynnwys clinigwyr yn iawn ar y cam cyntaf i ddweud beth yw'r ddelfryd o ran gwasanaethau, ac yna adeiladu ar sail hynny o ran egluro i'r cyhoedd beth yr ydym yn ei wneud â gwasanaethau? Yr wyf yn gobeithio y bydd adroddiad Michael yn rhoi arweiniad mewn rhai meysydd. Byddaf yn siarad â Chris Jones yn nes ymlaen heddiw a chredaf fod ganddo yntau hefyd rai safbwyntiau ynglŷn â sut y gellid bod wedi gwneud

much more transparent consultation process.

pethau'n wahanol. Gobeithiaf y bydd y cyfan yn galluogi imi gyfarwyddo swyddogion i ddatblygu proses ymgynghori sy'n llawer mwy tryloyw.

I understand your point about the Burns review. I have not accepted the review, but it backs up the previous recommendations. We also recognise the position in Llanelli. However, I wanted people to understand that the process is more transparent since I became Minister. I wanted people to have confidence in how we are taking this forward. Sometimes it would be nice to have a quick decision, but, at the end of the day, I want the right decision, and for it to be understood by the public, and that is why I am trying to work in this area. I do not accept that it is chaos; it is not ideal, but, ultimately, I hope that much more practical developments will emerge from all of this in terms of how we deal with consultation.

Deallaf eich pwynt ynglŷn ag adolygiad Burns. Nid wyf wedi derbyn yr adolygiad, ond mae'n ategu'r argymhellion blaenorol. Yr ydym hefyd yn cydnabod y sefyllfa yn Llanelli. Fodd bynnag, yr oedd arnaf eisiau i bobl ddeall bod y broses yn fwy tryloyw ers imi ddod yn Weinidog. Yr oedd arnaf eisiau i bobl fod yn ffyddiog ynglŷn â'r modd yr ydym yn bwrw ymlaen â hyn. Weithiau byddai'n braf cael penderfyniad cyflym, ond, yn y pen draw, y mae arnaf eisiau'r penderfyniad cywir, ac i'r cyhoedd ei ddeall, a dyna pam yr wyf yn ceisio gweithio yn y maes hwn. Nid wyf yn derbyn ei fod yn ddryslyd; nid yw'n ddelfrydol, ond, yn y pen draw, gobeithiaf y bydd datblygiadau llawer mwy ymarferol yn dod yn sgil hyn i gyd o ran sut yr ydym yn ymdrin ag ymgynghori.

Helen Mary Jones: Do you share my concern that some of the reporting around this issue in the last day or so may have worried people in Llandudno and other parts of north Wales? I invite you to take this opportunity to confirm, again, that you are giving a guarantee on behalf of the One Wales Government that Llandudno hospital has a future as an acute hospital? I believe that you have made that clear, but it would be helpful to reiterate it for the record.

Helen Mary Jones: A ydych chi'n pryderu, fel y pryderaf innau, bod rhywfaint o'r gohebu ynglŷn â'r mater hwn dros y dyddiau diwethaf wedi peri pryder, o bosibl, i bobl yn Llandudno ac mewn rhannau eraill o'r gogledd? Hoffwn eich gwahodd i fanteisio ar y cyfle hwn i gadarnhau, unwaith eto, eich bod yn rhoi gwarant ar ran Llywodraeth Cymru'n Un bod dyfodol i ysbyty Llandudno fel ysbyty aciwt. Credaf eich bod wedi datgan hynny'n glir, ond byddai'n ddefnyddiol ei ailadrodd er mwyn i bawb gael gwybod.

2.20 p.m.

Edwina Hart: I am happy to reiterate that: Llandudno hospital's future is secure. It will be an acute facility, especially if we go ahead and accept the Burns review recommendations for the additional services. The point is that we have to see where Llandudno fits into the whole jigsaw of north Wales. I do not think that we have been very good at looking at the jigsaw, getting the parts correct and recognising where we needed to go.

Edwina Hart: Yr wyf yn fodlon ailadrodd hynny: mae dyfodol ysbyty Llandudno yn ddiogel. Bydd yn gyfleuster aciwt, yn enwedig os awn ymlaen i dderbyn argymhellion adolygiad Burns ar gyfer y gwasanaethau ychwanegol. Yr hyn sy'n bwysig yw bod yn rhaid inni weld ymhle y mae Llandudno'n ffitio yn holl jig-so'r gogledd. Ni chredaf ein bod wedi bod yn dda iawn o ran edrych ar y jig-so, rhoi'r darnau yn y lleoedd cywir a sylweddoli ble yr oedd angen inni fynd.

Jenny Randerson: I am sure that you will accept that having a review after the original review has prolonged the uncertainty,

Jenny Randerson: Yr wyf yn siŵr y byddwch yn derbyn bod cynnal adolygiad ar ôl yr adolygiad gwreiddiol wedi ymestyn yr

necessary as the second review was in my view. Nevertheless, there has been continued uncertainty especially in relation to cardiac, stroke and breast care. Like you and many Assembly Members, I visited Llandudno recently and, for local people, this issue is very much at the forefront of their minds. How quickly do you anticipate making those decisions following your further meeting in the area?

There are serious financial implications in the Burns report in relation to capital investment, and it draws attention to them. Do you anticipate being able to meet these expectations within the budget over the period of the One Wales Government? I note that the Burns report has harsh words on management, the management regime and the difficult position of Conwy Local Health Board, which is stuck between a rock and a hard place. It strikes me that some heads need to be banged together. Will you ensure that the proposals in the Burns report in relation to the management approach to this are implemented so that patient convenience is at the top of management's priorities and not at the bottom?

Edwina Hart: Patient need and convenience should be the priority across the health service. One of the issues that I will discuss with officials, from those that you raise, will be the comments on management in the Burns report.

In terms of capital investment, I will have to consider that carefully when I decide whether to accept the full recommendations of the report. I have to consider what cash is available, and how—if I decide to go ahead with that—I would put it into my budget for the next four years. It might be for the six years; we might have to look at capital in a different way. Therefore, I appreciate that point.

I share in your regret that I have prolonged the uncertainty, because this is a live issue. You said that you also met Councillor Groom, as part of a lively group, to discuss the issues in Llandudno. If I could have done

ansicrwydd, er bod yr ail adolygiad yn angenrheidiol yn fy marn i. Er hynny, bu ansicrwydd parhaus yn enwedig o ran gofal cardiaidd, gofal strôc a gofal y fron. Bùm i, fel chi a llawer o Aelodau'r Cynulliad, yn ymweld â Llandudno yn ddiweddar ac, i bobl leol, mae'r mater hwn yn sicr yn pwyso ar eu meddyliau. Pa mor gyflym yr ydych yn disgwyl gallu gwneud y penderfyniadau hynny wedi eich cyfarfod ychwanegol yn yr ardal?

Ceir goblygiadau ariannol sylweddol yn adroddiad Burns o ran buddsoddi cyfalaf, ac mae'n tynnu sylw atynt. A ydych yn disgwyl gallu bodloni'r disgwyliadau hyn o fewn y gyllideb dros gyfnod Llywodraeth Cymru'n Un? Sylwaf fod adroddiad Burns yn dweud pethau llym am reolwyr, y drefn reoli a sefyllfa anodd Bwrdd Iechyd Lleol Conwy, nad oes ganddo unman i droi. Ymddengys imi bod angen cnocio pennau rhai pobl yn erbyn ei gilydd. A wnewch sicrhau y bydd y cynigion yn adroddiad Burns ynglŷn â ffordd y rheolwyr o ymdrin â hyn yn cael eu cyflwyno fel y bydd hwylustod cleifion ar frig blaenoriaethau'r rheolwyr, yn hytrach nag ar y gwaelod?

Edwina Hart: Dylai anghenion a hwylustod cleifion fod yn flaenoriaeth ledled y gwasanaeth iechyd. Un o'r materion y byddaf yn eu trafod gyda swyddogion, o blith y rhai yr ydych yn eu crybwyll, fydd y sylwadau am reolwyr yn adroddiad Burns.

O ran buddsoddi cyfalaf, bydd yn rhaid imi ystyried hynny'n ofalus pan fyddaf yn penderfynu a ddylwn dderbyn argymhellion yr adroddiad yn llawn. Mae'n rhaid imi ystyried pa arian sydd ar gael, a sut—os penderfynaf fwrw ymlaen â hynny—y byddwn yn ei roi yn fy nghyllideb am y pedair blynedd nesaf. Efallai y bydd am y chwe mlynedd; efallai y bydd yn rhaid inni edrych ar gyfalaf mewn ffordd wahanol. Felly, yr wyf yn gwerthfawrogi'r pwynt hwnnw.

Yr wyf fi, fel chi, yn gresynu fy mod wedi ymestyn yr ansicrwydd, oherwydd mae hon yn sefyllfa sy'n bodoli ar hyn o bryd. Dywedasoeh eich bod chi hefyd wedi cwrdd â'r Cynghorydd Groom, yn rhan o grŵp

this in another way, I would have done so. However, I could not.

Karen Sinclair: One of the recommendations in the list is for Llandudno hospital to provide an eight-bed in-patient unit for acquired brain injury patients. I would welcome that. At present, people from north Wales have to go to Southport for such treatment and it is difficult to travel back and forth to Southport. You also said that the unit, alongside stroke rehabilitation services, could build the reputation of the hospital as a neurological rehabilitation centre, which I would also welcome. You then said:

‘Indeed, it was tempting simply to come before you this afternoon to announce that I was accepting the review and endorsing the conclusions.’

However, that is not possible at present because we have so many reviews taking place. I assume that this recommendation will feed into the review of neurological services that is being held at present. At some point, in order to get clarity, these reviews will need to converge; they cannot happen in isolation. I know that they are happening separately, but, in order to make any sense, they have to come together as a whole so that we can see where everything is going. What sort of timescale do you have for this? I assume that this recommendation will feed almost instantaneously into the review of neurological services that is currently taking place.

Edwina Hart: Thank you for your positive comments, Karen. You are correct; the reviews will converge. I had hoped that the reviews would converge neatly for me to make one statement, but I recognised early on that that would not be possible. Therefore, this review converges with the reviews of Michael Williams and Chris Jones. We will need to look at that. I will take them all together at the end, and I hope to deal with them all before the Easter recess. As we speak, the Frank Burns review will be going

bywiog, i drafod y materion yn Llandudno. Pe gallwn fod wedi gwneud hyn yn wahanol, byddwn wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl.

Karen Sinclair: Un o'r argymhellion yn y rhestr yw y dylai ysbyty Llandudno ddarparu uned ag wyth gwely i gleifion mewnlod sydd wedi cael niwed i'r ymennydd. Byddwn yn croesawu hynny. Ar hyn o bryd, mae pobl o'r gogledd yn gorfod mynd i Southport i gael triniaeth o'r fath ac mae'n anodd teithio'n ôl ac ymlaen i Southport. Dywedasoeh hefyd y gallai'r uned, ynghyd â gwasanaethau adsefydlu strôc, greu enw da i'r ysbyty fel canolfan adsefydlu niwrolegol, a byddwn yn croesawu hynny hefyd. Yna dywedasoeh:

‘A dweud y gwir, yr oedd yn demtasiwn gennyf ddod o'ch blaenau'r prynhawn yma a chyhoeddi fy mod yn derbyn yr adolygiad ac yn cymeradwyo'r casgliadau.’

Nid yw hynny'n bosibl ar hyn o bryd, fodd bynnag, gan fod gennym gynifer o adolygiadau ar y gweill. Yr wyf yn cymryd yn ganiataol y bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei ystyried yn rhan o'r adolygiad o wasanaethau niwrolegol sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd. Ar ryw adeg, er mwyn i bopeth fod yn eglur, bydd angen dod â'r adolygiadau hyn ynghyd; ni allant ddigwydd ar eu pennau eu hunain. Gwn eu bod yn cael eu cynnal ar wahân, ond, os ydynt am wneud unrhyw synnwyr, mae'n rhaid iddynt ddod ynghyd yn gyfanwaith fel y gallwn weld i ba gyfeiriad y mae popeth yn mynd. Pa fath o amserlen sydd gennych ar gyfer hyn? Yr wyf yn cymryd y bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei gynnwys bron â bod yn ddi-oed yn yr adolygiad o wasanaethau niwrolegol sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Edwina Hart: Diolch am eich sylwadau cadarnhaol, Karen. Yr ydych yn iawn; bydd yr adolygiadau'n dod ynghyd. Yr oeddwn wedi gobeithio y byddai'r adolygiadau'n dod ynghyd yn daclus fel y gallwn wneud un datganiad, ond sylweddolais yn gynnar yn y broses na fyddai hynny'n bosibl. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn dod ynghyd ag adolygiadau Michael Williams a Chris Jones. Bydd angen inni edrych ar hynny. Byddaf yn eu hystyried i gyd ynghyd ar y diwedd, a gobeithiaf allu ymdrin â hwy i gyd cyn toriad

to the neurological services review group because of its implications for that group. That group is not due to report until the summer, but the rest of the issues can probably be dealt with.

Mark Isherwood: I only have one question. I look forward to your future statement, particularly on community reconfiguration and on community hospitals, but as one of the cross-party speakers—and all parties spoke at the Llandudno march—my question is about the cardiac rehabilitation programme. Some of my north Wales constituents are concerned that that programme should continue; I wonder whether you can provide any assurances accordingly.

Edwina Hart: Cardiac rehabilitation has been a major issue across Wales, as you know, because it has had Big Lottery funding and other bits of funding provided by the local health boards. I have tried to sort out some of the general funding issues around cardiac rehabilitation, and I will take on board all of the issues relating to cardiac treatment when I make my decision on the review from Frank Burns in total.

y Pasg. Mae adolygiad Frank Burns wrthi'n cael ei roi gerbron y grŵp adolygu gwasanaethau niwrolegol yn sgil ei oblygiadau i'r grŵp hwnnw. Ni ydym yn disgwyl i'r grŵp hwnnw gyflwyno ei adolygiad tan yr haf, ond mae'n debyg y gellir ymdrin â gweddill y materion.

Mark Isherwood: Dim ond un cwestiwn sydd gennyf. Edrychaf ymlaen at y datganiad sydd i ddod gennych, yn enwedig ar ailgyflunio cymunedol ac ysbytai cymuned, ond fel un o'r siaradwyr trawsbleidiol—a bu pob plaid yn annerch yn yr orymdaith yn Llandudno—mae fy nghwestiwn yn ymwneud â'r rhaglen adsefydlu gardiaidd. Mae rhai o'm hetholwyr yn y gogledd yn teimlo'n gryf y dylai'r rhaglen honno barhau; tybed a allwch roi unrhyw sicrwydd o ran hynny?

Edwina Hart: Mae adsefydlu cardiaidd wedi bod yn bwnc pwysig ledled Cymru, fel y gwyddoch, gan ei fod wedi cael nawdd gan y Gronfa Loteri Fawr a rhywfaint o nawdd arall a ddarparwyd gan y byrddau iechyd lleol. Yr wyf wedi ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion ariannu cyffredinol ynghylch adsefydlu cardiaidd, a byddaf yn ystyried yr holl faterion sy'n ymwneud â thriniaeth gardiaidd pan fyddaf yn penderfynu ar adolygiad Frank Burns yn ei gyfanrwydd.

Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 35.6 a 35.8:

yn atal Rheol Sefydlog Rhif 7.18(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog Rhif 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynnig o dan eitem 4 gael ei ystyried yn y cyfarfod llawn ddydd Mercher 27 Chwefror 2008. (NNDM3882)

Y Llywydd: A oes unrhyw Aelod yn

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): I propose that

the National Assembly for Wales in accordance with Standing Orders Nos. 35.6 and 35.8:

suspends Standing Order No. 7.18(i) and that part of Standing Order No. 6.10 that requires the weekly announcement under Standing Order No. 6.3 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow the motion under item 4 to be considered in Plenary on Wednesday 27 February 2008. (NNDM3882)

The Presiding Officer: Does any Member

gwrthwynebu'r cynnig? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

object to the motion? I see that there are no objections. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Ethol Aelod i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal Election of a Member to the Committee on Equality of Opportunity

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Cynigiaf fod

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): I propose that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif. 10.3, yn ethol Huw Lewis (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn lle Lynne Neagle (Llafur). (NNDM3883)

the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Huw Lewis (Labour) in place of Lynne Neagle (Labour) as a member of the Committee on Equality of Opportunity. (NNDM3883)

Y Llywydd: A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu'r cynnig? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

The Presiding Officer: Does any Member object to the motion? I see that there are no objections. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Dwbercwlosis mewn Gwartheg The Rural Development Sub-committee's Report on Bovine Tuberculosis

Alun Davies: I propose that

Alun Davies: Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

notes the report of the Rural Development Sub-committee on the sub-committee's inquiry into bovine tuberculosis laid in the Table Office on 22 January 2008. (NDM3872)

yn nodi adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ymchwiliad yr is-bwyllgor i dwbercwlosis mewn gwartheg a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Ionawr 2008. (NDM3872)

Thank you, Presiding Officer, for ensuring that time has been found for this debate this afternoon. In presenting this report, I thank members of the sub-committee and the staff who have worked on this inquiry. I also thank all of those who attended and gave evidence: in particular, those in Northern Ireland who hosted our visit, Professor John Bourne, who chaired the independent scientific group, and, of course, the Minister for Rural Affairs, who also attended as a witness.

Diolch, Lywydd, am sicrhau bod amser wedi'i ganfod ar gyfer y ddadl hon y prynhawn yma. Wrth gyflwyno'r adroddiad hwn, hoffwn ddiolch i aelodau'r is-bwyllgor ac i'r staff a fu'n gweithio ar yr ymchwiliad hwn. Diolchaf hefyd i bawb a fu'n bresennol ac a fu'n rhoi tystiolaeth: yn enwedig i'r bobl hynny yng Ngogledd Iwerddon a'n croesawodd ar ymweliad, i'r Athro John Bourne, a gadeiriodd y grŵp gwyddonol annibynnol, ac, wrth gwrs, i'r Gweinidog

dros Faterion Gwledig, a fu hefyd yn bresennol fel tyst.

In undertaking this investigation, we wanted not only to follow up on the recommendations of our predecessor committee, the Environment, Planning and Countryside Committee, but also to scrutinise the Welsh Assembly Government on its future plans for controlling the disease in the light of the report from the independent scientific group, which reported last June. It is fitting and timely that the sub-committee unanimously decided to focus on this disease as its first inquiry. Any of us who have taken part in either hustings or public meetings over the last few years will recognise the importance of bovine TB throughout rural Wales. Bovine TB is among the most serious challenges facing the Welsh countryside today. Its impact on wildlife and cattle, as well as on the agricultural industry, is growing rapidly, and, to date, all of the different policies that have been employed to bring the disease under control have failed to stop its spread. The hard and sad reality is that the countryside is sick, and we have a duty and responsibility to act. In doing so, there are no easy options, no quick fixes, and no painless solutions.

The impact of bovine TB is growing, and all of the large-scale scientific trials and control programmes have had no impact at all in preventing the disease. In 2007, nearly 8,000 cattle were slaughtered, which amounts to 22 animals a day slaughtered week after week, month after month. Over 2,000 herds are under movement restrictions. In the last year, we have seen a 20 per cent increase in new herd incidents. The cost to the Welsh Assembly Government in compensation payments alone rose from £1 million in 1999 to over £11 million last year. The situation is clearly unsustainable in both its effects on the farmers and animals, and the burden placed on the taxpayer. Every year we spend the equivalent of a cottage hospital on simply killing animals that are infected. It is time to act.

Wrth gynnal yr ymchwiliad hwn, yr oedd arnom nid yn unig eisiau dilyn trywydd argymhellion y pwyllgor a'n rhagflaenodd, sef Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ond yr oedd hefyd arnom eisiau craffu ar Lywodraeth Cynulliad Cymru o safbwynt ei chynlluniau i reoli'r clefyd hwn yn y dyfodol yn sgil adroddiad y grŵp gwyddonol annibynnol, a gyhoeddwyd fis Mehefin diwethaf. Mae'n briodol ac yn amserol bod yr is-bwyllgor wedi penderfynu'n unfrydol i ganolbwyntio ar y clefyd hwn yn ei ymchwiliad cyntaf. Bydd unrhyw rai ohonom sydd wedi cymryd rhan naill ai mewn hustyngau neu mewn cyfarfodydd cyhoeddus dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn sylweddoli pwysigrwydd TB mewn gwartheg ledled cefn gwlad Cymru. Mae TB mewn gwartheg ymhlith yr heriau mwyaf difrifol sy'n wynebu cefn gwlad Cymru heddiw. Mae ei effaith ar fywyd gwylt a gwartheg, yn ogystal ag ar y diwydiant amaethyddol, yn cynyddu'n gyflym, ac mae'r holl bolisiau amrywiol a gyflwynwyd i geisio rheoli'r clefyd wedi methu â'i atal rhag lledaenu hyd yn hyn. Y gwir plaen a thrist amdani yw bod cefn gwlad yn dioddef, ac mae dyletswydd a chyfrifoldeb arnom i weithredu. Wrth wneud hynny, nid oes dim dewisiadau hawdd, dim datrys di-oed, a dim atebion di-boen.

Mae effaith TB mewn gwartheg yn cynyddu, ac nid oes yr un o'r profion gwyddonol na'r rhaglenni rheoli eang wedi cael dim effaith o gwbl o ran atal y clefyd. Yn 2007, lladdwyd 8,000 o wartheg bron, sydd gyfystyr â 22 o anifeiliaid yn cael eu lladd bob dydd, a hynny wythnos ar ôl wythnos, fis ar ôl mis. Mae cyfyngiadau symud ar dros 2,000 o fuchesi. Yn y flwyddyn ddiwethaf, gwelsom gynnydd o 20 y cant yn nifer yr achosion mewn buchesi newydd. Mae cost taliadau iawndal yn unig i Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi codi o £1 miliwn yn 1999 i dros £11 miliwn y llynedd. Mae'r sefyllfa yn amlwg yn anghynaliadwy o ran ei heffaith ar ffermwyr ac anifeiliaid ac o ran y pwysau a roddir ar drethdalwyr. Bob blwyddyn yr ydym yn gwario swm sy'n cyfateb i gost ysbyty bwthyn ar ladd anifeiliaid sydd wedi'u heintio. Mae'n bryd inni weithredu.

Our first finding, and perhaps the intellectual and philosophical basis of the entire report, is that there is a clear link between the disease in wildlife and the disease in cattle. This was not seriously contested or challenged throughout the whole of our inquiry. It was accepted by every single witness, without exception. While it might be possible to control the disease by implementing biosecurity measures alone, we found that it is not possible to eradicate the disease in this way. The sub-committee is now convinced that the Government should adopt a holistic approach that will defeat the disease in both the wildlife and cattle populations. We believe that the Welsh Assembly Government's short-term aim must be to control the disease as quickly as possible, with the ultimate aim being the complete eradication of the disease in Wales.

2.30 p.m.

Our recommendations focus on a variety of tools, which, used in conjunction with each other, will provide an effective tool and means of controlling and eradicating TB. If we are serious about tackling this problem, then we must adopt a holistic approach that will impact upon all different aspects of the disease and its spread.

I will focus my remarks on the different themes and areas of our recommendations. The first recommendations that I would seek to address this afternoon are those on biosecurity. Increased and improved biosecurity is a crucial part of our recommendations. We recommend that the Welsh Assembly Government introduces a system of cattle monitoring based on the Animal and Plant Health Inspection Service system in Northern Ireland. We also recommend that the Welsh Assembly Government introduces the annual testing of animals in Wales. At the same time, it should put in place measures to ensure that the testing regime is adhered to throughout the industry. We also believe that further work on the testing techniques should be taking place and that investment is needed to ensure that the removal of reactor animals is achieved within tightly defined target dates.

Ein canfyddiad cyntaf, a'r hyn sydd, o bosibl, yn sail ddeallusol ac athronyddol i'r holl adroddiad, yw bod cysylltiad clir rhwng y clefyd mewn bywyd gwyllt a'r clefyd mewn gwartheg. Ni chafodd hyn ei amau na'i herio o ddifrif drwy gydol ein hymchwiliad. Cafodd ei dderbyn gan bob un tyst, a hynny'n ddieithriad. Er ei bod yn bosibl rheoli'r clefyd drwy gyflwyno mesurau bioddiogelwch yn unig, darganfuom nad yw'n bosibl cael gwared ar y clefyd fel hyn. Mae'r is-bwyllgor bellach yn argyhoeddedig y dylai'r Llywodraeth fabwysiadu dull gweithredu cyfannol a fydd yn trechu'r clefyd yn y poblogaethau bywyd gwyllt a gwartheg fel ei gilydd. Credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru osod rheoli'r clefyd cyn gynted â phosibl yn nod yn y tymor byr, ac mai'r nod yn y pen draw yw cael gwared ar y clefyd yn llwyr yng Nghymru.

Mae ein hargymhellion yn canolbwyntio ar amrywiol gyfryngau, a fydd, o'u defnyddio ar y cyd, yn gyfrwng effeithiol ac yn fodd o reoli a dileu TB. Os ydym o ddifrif am fynd i'r afael â'r broblem hon, yna rhaid inni fabwysiadu dull gweithredu cyfannol a fydd yn effeithio ar yr holl agweddau gwahanol ar y clefyd a'i ledaeniad.

Canolbwyntiaf fy sylwadau ar wahanol themâu a meysydd ein hargymhellion. Yr argymhellion cyntaf y ceisiaf roi sylw iddynt y prynhawn yma yw'r rheini o safbwynt bioddiogelwch. Mae bioddiogelwch cynyddol a gwell yn rhan hollbwysig o'n hargymhellion. Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno system o fonitro gwartheg sy'n seiliedig ar system y Gwasanaeth Archwilio Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yng Ngogledd Iwerddon. Argymhellwn hefyd fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno profion blynyddol ar anifeiliaid yng Nghymru. Ar yr un pryd, dylai sefydlu mesurau i sicrhau y glynir wrth y gyfundrefn brofion ledled y diwydiant. Credaf hefyd y dylai gwaith pellach gael ei wneud ar y technegau profi a bod buddsoddiad yn angenrheidiol i sicrhau bod anifeiliaid sydd wedi adweithio yn cael eu gwaredu o fewn

dyddiadau targed sydd wedi'u diffinio'n bendant.

I will move on to those recommendations that address wildlife controls, and, in doing so, I inform the Assembly that Lorraine Barrett, a member of the sub-committee, did not accept or support recommendation 7. In adopting a holistic approach and accepting a link between the disease in the wildlife population and among cattle, we concluded that the disease cannot be seriously addressed without a policy to eradicate the disease in the wildlife population. We recommend that the Welsh Assembly Government establishes a series of pilot areas in Wales, continuing the approach adopted under the intensive treatment areas and encouraging the application of existing research and practice, including the vaccination of badgers in those areas.

At the same time, the sub-committee recommends that one area be created in Wales to provide further evidence on the effect of the spread of TB by culling wildlife in an area with hard boundaries. In making this recommendation, we recognise that the Independent Scientific Group on Cattle TB, while acknowledging the link between badgers and the spread of bovine TB, concluded that the widespread culling of badgers would not be the most effective method of controlling the disease. For this reason, we are not recommending a widespread cull throughout all of the infected areas; rather, we are proposing a limited cull, enabling us to understand and appreciate the impact on disease control and on the spread of a disease throughout the countryside. However, badgers are only part of the picture, and I hope that they will not dominate the entirety of this debate.

On a personal level, I was shocked by the lack of structures and resources available to the Welsh Assembly Government to deal with animal disease control. This was something that we touched upon in our report on foot and mouth disease last week. If I have taken anything out of this process over the last few months, it is that the Welsh Assembly Government simply does not have the required infrastructure in place to deal with animal disease control. We are facing

Symudaf ymlaen at yr argymhellion hynny sy'n rhoi sylw i reolaethau bywyd gwyllt, ac, wrth wneud hynny, hysbysaf y Cynulliad na dderbyniodd Lorraine Barrett, sy'n aelod o'r is-bwyllgor, argymhelliad 7 na'i gefnogi. Drwy fabwysiadu dull gweithredu cyfannol a derbyn bod cyswllt rhwng y clefyd a'r boblogaeth fywyd gwyllt, daethom i'r casgliad na ellir rhoi sylw o ddifrif i'r clefyd heb bolisi i ddileu'r clefyd yn y boblogaeth fywyd gwyllt. Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sefydlu cyfres o ardaloedd peilot yng Nghymru, gan barhau â'r dull a fabwysiadwyd dan yr ardaloedd triniaeth ddwys ac annog i'r ymchwil a'r arferion cyfredol gael eu defnyddio, gan gynnwys brechu moch daear yn yr ardaloedd hynny.

Ar yr un pryd, mae'r is-bwyllgor yn argymhell bod un ardal yn cael ei chreu yng Nghymru i ddarparu tystiolaeth bellach ar effaith lledaeniad TB drwy ddiol a difa bywyd gwyllt mewn ardal gyda ffiniau pendant. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, cydnabyddwn fod y Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar TB mewn Gwartheg wedi dod i'r casgliad nad didol a difa moch daear yn eang fyddai'r dull mwyaf effeithiol o reoli'r clefyd, er eu bod yn cydnabod y cyswllt rhwng moch daear a lledaeniad TB mewn gwartheg. Am y rheswm hwn, nid ydym yn argymhell didol a difa eang ledled yr holl ardaloedd heintiedig; yn hytrach, cynigiwn ddiol a difa cyfyngedig, gan ein galluogi i ddeall a gwerthfawrogi'r effaith ar reoli'r clefyd ac ar ledaeniad y clefyd ledled cefn gwlad. Er hynny, rhan o'r darlun yn unig yw moch daear, a gobeithiaf na fyddant yn cael lle blaenllaw yn y ddadl hon drwyddi draw.

Ar lefel bersonol, cefais fy syfrdanu gan y diffyg strwythurau ac adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddelio â rheoli clefydau anifeiliaid. Yr oedd hyn yn rhywbeth y cyffyrddom arno yn ein hadroddiad ar glwy'r traed a'r genau'r wythnos diwethaf. Os yr wyf wedi dysgu unrhyw beth o'r broses hon dros y misoedd diwethaf, yr hyn ydyw yw nad oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn syml y seilwaith gofynnol wedi'i sefydlu i ddelio â

the prospect of an infection of blue tongue disease and we saw the disruption created by the foot and mouth disease last year, but we do not believe that the Welsh Assembly Government is sufficiently structured to deal with the eradication of bovine TB. There are no veterinarians trained in Wales, there are no research facilities and no laboratory facilities. We, therefore, recommend urgent investment to ensure that there are sufficient large animal veterinary practices to support the new testing regimes, alongside the establishment of laboratory facilities for gamma interferon testing and the establishment of research facilities for animal health and disease control in Wales.

My final point on our recommendations is on powers. As a sub-committee, we believe that it is essential that the Welsh Assembly Government has available to it a full range of powers to operate and manage this holistic approach to the control and eradication of TB. At present, some animal health powers are devolved to Wales, but it is important that we have all the relevant powers to implement our own approach to the eradication of bovine TB.

In conclusion, I came to this inquiry, Presiding Officer, with no fixed mindset and no preconceived opinions or prejudice. I came to this inquiry with a single ambition and objective—to publish a report that will directly lead to the eradication of this disease. My own views were changed by the evidence that we received and by the process of examining and testing that evidence and the witnesses who appeared before us.

It is now time to take urgent action on bovine TB. I said at the beginning of my remarks that the current situation is unsustainable. It is unsustainable because of its impact on the countryside, on cattle and on wildlife. It is unsustainable financially because of its impact on us all. This report calls for a range of measures that will control and eventually eradicate the disease. It is imperative that the responsibility for making these decisions work effectively is collectively owned by all of those involved in, and affected by, the disease. We consider that the acceptance and

rheoli clefydau anifeiliaid. Yr ydym yn wynebu'r posibilrwydd o haint clefyd y tafod glas a gwelsom sut yr amharodd clwy'r traed a'r genau ar bethau'r llynedd, ond ni chredwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i strwythuro'n ddigonol i ddelio â dileu TB mewn gwartheg. Nid oes dim milfeddygon yn cael eu hyfforddi yng Nghymru, nid oes dim cyfleusterau ymchwil na dim cyfleusterau labordai. Argymhellwn, felly, fuddsoddiad brys er mwyn sicrhau y ceir practisiau milfeddygol anifeiliaid mawr digonol i gynorthwyo'r cyfundrefnau profi newydd, ynghyd â sefydlu cyfleusterau labordai ar gyfer profion gama interferon a sefydlu cyfleusterau ymchwilio ar gyfer iechyd anifeiliaid a rheoli clefydau yng Nghymru.

Mae fy mhwynt olaf ar ein hargymhellion yn ymwneud â phwerau. Fel is-bwyllgor, credwn ei bod yn hollbwysig bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gael iddi ystod lawn o bwerau i weithredu a rheoli'r dull gweithredu cyfannol hwn o reoli a dileu TB. Ar hyn o bryd, mae rhai pwerau iechyd anifeiliaid wedi'u datganoli i Gymru, ond mae'n bwysig bod yr holl bwerau perthnasol gennym i weithredu ein dull ein hunain o ddileu TB mewn gwartheg.

I gloi, deuthum i'r ymchwiliad, Lywydd, heb unrhyw gyfeiriad meddwl na dim rhagfarn na safbwyntiau rhagdybiedig. Deuthum i'r ymchwiliad hwn gydag un uchelgais ac amcan—cyhoeddi adroddiad a fydd yn arwain yn uniongyrchol at ddileu'r clefyd hwn. Mae'r dystiolaeth a gawsom a'r broses o archwilio a phrofi'r dystiolaeth honno ynghyd â'r tystion a ymddangosodd ger ein bron wedi newid fy safbwyntiau i.

Mae'n awr yn amser gweithredu ar frys ar TB mewn gwartheg. Dywedais ar ddechrau fy sylwadau nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy. Nid yw'n gynaliadwy oherwydd ei heffaith ar gefn gwlad, ar wartheg ac ar fywyd gwyllt. Nid yw'n gynaliadwy'n ariannol oherwydd ei heffaith arnom oll. Mae'r adroddiad hwn yn galw am ystod o fesurau a fydd yn rheoli ac yn y pen draw yn dileu'r clefyd. Mae'n hanfodol bod y cyfrifoldeb dros wneud y penderfyniadau hyn yn gweithio'n effeithiol, bod pawb sy'n gysylltiedig â'r clefyd hwn, ac y mae'n

implementation of our recommendations will be the starting point to control and eventually eradicate this dreadful disease. I commend our report to the Assembly.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Gadeirydd ac aelodau'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig am yr adroddiad hwn ar ei ymchwiliad i TB mewn gwartheg yn Nghymru, ac i bawb a roddodd dystiolaeth i'r is-bwyllgor yn ystod yr ymchwiliad. Diolch hefyd i'r Cadeirydd am ei gyflwyniad cynhwysfawr a heriol i ni y prynhawn yma.

Fel yr ydym i gyd yn gwybod, mae TB mewn gwartheg yn cael effaith ddinistriol ar y diwydiant ffermio yng Nghymru. Yn sgîl hyn, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo swm ychwanegol o £27 miliwn i fynd ati'n ddyfal i gyflwyno rhaglen o ddileu TB yng Nghymru, sef un o ymrwymadau rhaglen Llywodraeth Cymru'n Un. Mae gorfodaeth hefyd arnom fel gwlad, o dan gyfarwydddeb Ewropeaidd, i greu cynllun gwaredu TB. Nid ffermwyr yn unig sy'n dioddef oherwydd TB a'r gwaharddiadau ar ffermydd o'i herwydd. Mae cymhelliad i Lywodraeth hefyd i leihau TB, gan fod y symiau iawndal y mae'n eu talu yn cynyddu wrth i TB gynyddu mewn gwartheg. Yn 2007-08, mae'n debyg y byddwn fel Llywodraeth yn talu'r swm mwyaf erioed o iawndal, sef tua £14 miliwn.

Nid oes gennyf amheuaeth y bydd gan adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ran i'w chwarae yn y gwaith o ddatblygu'r rhaglen dileu TB yng Nghymru. Nid wyf yn bwriadu ymateb yn fanwl i'r adroddiad heddiw; mae gwaith yn mynd yn ei flaen o fewn Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu ein rhaglen dileu TB, a byddaf yn adrodd ar hynny yn y dyfodol agos.

Un peth a bwysleisiwyd yn adroddiad yr is-bwyllgor oedd y ffaith bod nifer o ffactorau ynghlwm wrth y clefyd cymhleth hwn, ac yn cyfrannu ato. Bydd angen i'r rhaglen dileu TB roi sylw i'r ffactorau hyn. Yr wyf yn falch o weld bod yr adroddiad yn cytuno ar ymrwymiad 'Cymru'n Un', sef mai dileu'r clefyd yw amcan unrhyw strategaeth ar gyfer TB yng Nghymru. Mae'r is-bwyllgor hefyd

effeithio arnynt, yn hawlio cydberchnogaeth drosto. Credwn y bydd derbyn a gweithredu ein hargymhellion yn fan cychwyn i reoli'r clefyd dychrynlyd hwn ac yn ei ddileu yn y pen draw. Cymeradwyaf ein hadroddiad i'r Cynulliad.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): I would like to begin by thanking the Chair and the members of the Rural Development Sub-committee for the report of its inquiry into bovine TB in Wales, and everyone who gave evidence to the sub-committee during the inquiry. I also wish to thank the Chair for his comprehensive and challenging presentation this afternoon.

As we are all aware, bovine TB is having a destructive impact on the farming industry in Wales. As a consequence, the Government has pledged an extra £27 million to introduce an intensive TB eradication programme in Wales, which is one of the commitments of the One Wales programme of government. As a country, we are also required, under a European directive, to produce a TB disposal scheme. Farmers are not the only ones who suffer due to TB and the restrictions placed on farms as a result of it. There is also an incentive for the Government to eliminate TB, because the compensation sums it pays increase as TB becomes more prevalent in cattle. In 2007-08, it is likely that, as a Government, we will pay the biggest amount of compensation ever, at around £14 million.

I have no doubt that the report of the Rural Development Sub-committee will play a part as the TB eradication programme is developed in Wales. I do not intend to respond in detail to the report today; work is ongoing within the Assembly Government to develop our TB eradication programme, and I will report on that in the near future.

One issue that was emphasised in the sub-committee report was the fact that several factors are linked to this complex disease and contribute towards it. The TB eradication programme will need to address these factors. I am pleased to see that the report agrees with the 'One Wales' commitment, namely that eradicating the disease is the aim of any TB strategy in Wales. The sub-committee also

yn cydnabod bod yn rhaid i hwn fod yn amcan tymor hir.

Yr wyf yn awyddus i sicrhau mai un o brif elfennau'r rhaglen fydd gwneud y broses o wneud penderfyniadau yn un amlwg a hygyrch. Bydd angen i bawb sydd â rhan yn y broses dderbyn yr atebion a chymryd cyfrifoldeb drostynt, o ffermwyr gwartheg i filfeddygon preifat, ac eraill yn y gymuned wledig. Dyna pam yr wyf yn arbennig o falch o allu cyhoeddi y bydd cynrychiolwyr o'r diwydiant amaeth, yn ogystal â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a swyddogion iechyd anifeiliaid, yn aelodau o fwrdd y rhaglen dileu TB. Stephen James, ffermwr o dde-orllewin Cymru, sy'n cynrychioli'r diwydiant ffermio, ac Andrew Biggs, milfeddyg preifat ac aelod o Gymdeithas Milfeddygon Gwartheg Prydain yw cynrychiolydd y milfeddygon. Mae prif gynghorydd gwyddonol Llywodraeth y Cynulliad, yr Athro Chris Pollock, hefyd wedi cytuno i fod yn aelod o fwrdd y rhaglen; ef fydd yn gyfrifol am y gwaith o reoli ansawdd, gan edrych yn feiriadol ar y dystiolaeth a'r broses o wneud penderfyniadau y bydd y rhaglen yn ei dilyn.

Bydd chwe aelod i gyd ar fwrdd y rhaglen, a'u gwaith fydd rheoli gweithgareddau gyda help y grŵp cynghori technegol a phwyllgor llywio'r strategaeth iechyd a lles anifeiliaid. Mae'r grŵp cynghori technegol wedi ei sefydlu i gyfrannu i'r penderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud o safbwynt technegol. Ymhlith aelodau'r grŵp mae cynrychiolwyr y prif asiantaethau, ac unigolion ag arbenigedd gwyddonol o sefydliadau fel yr asiantaeth labordai milfeddygol, iechyd anifeiliaid, y labordy gwyddoniaeth canolog, ac o bractisau milfeddygol preifat a phrifysgolion Abertawe a Chaerdydd.

Yr wyf eisoes wedi cyhoeddi fy mwriad i roi mwy o bwyslais ar gyfathrebu â rhanddeiliaid, a rhannu cyfrifoldebau drwy bwyllgor llywio'r strategaeth iechyd a lles anifeiliaid. Mae aelodaeth y pwyllgor hwn yn eang; mae'n cynnwys, er enghraifft, gynrychiolwyr o undebau'r ffermwyr, Hybu Cig Cymru, y ganolfan datblygu llaeth, y gymdeithas eidion genedlaethol, iechyd anifeiliaid, a'r Gymdeithas Frenhinol er Atal

acknowledges that this will have to be a long-term objective.

I am eager to ensure that one of the programme's main elements will be to create a transparent and accessible decision-making process. Everyone who contributes to the process will have to accept the solutions and take responsibility over them, from cattle farmers to private veterinarians, as well as others in the rural community. That is why I am particularly pleased to announce that representatives from the agricultural industry, together with Assembly Government officials and animal health officials, will be members of the TB eradication programme board. Stephen Jones, a farmer from south-west Wales, will represent the farming industry, and Andrew Biggs, a private veterinarian and a member of the British Cattle Veterinary Association, will represent the veterinarians. Professor Chris Pollock, the Assembly Government's chief scientific adviser, has also agreed to be a member of the programme's board; he will be responsible for the quality management side and for critically evaluating the evidence and the programme's decision-making process.

There will be a total of six members on the programme's board, and their role will be to manage activities with the support of the technical advice group and the animal health and welfare strategy steering committee. The technical advice group has been established to contribute to the decisions taken from a technical point of view. Among the group members are representatives of the main agencies, and individuals with scientific expertise from institutions such as the veterinary laboratories agency, animal health, the central science laboratory, private veterinary practices and the universities of Swansea and Cardiff.

I have already announced my intention to place more emphasis on communicating with stakeholders, and on sharing responsibilities through the animal health and welfare strategy steering committee. The membership of this committee is broad; it includes, for instance, representatives from the farming unions, Hybu Cig Cymru, the dairy development centre, the national beef association, animal health, and the RSPCA.

Creulondeb i Anifeiliaid. Mae'r tri phrif grŵp eisoes wedi cyfarfod. Ar hyn o bryd, maent yn mynd ati i ddatblygu cynigion manwl ar gyfer y rhaglen dileu TB.

Three main groups have already met. At present, they are developing detailed proposals for the TB eradication programme.

2.40 p.m.

Yr wyf hefyd wedi cyfarfod yn ddiweddar â'r Athro John Bourne, cadeirydd y Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar TB mewn Gwartheg, fel rhan o drafodaeth ehangach ar y clefyd. Nid creu grwpiau er lles creu cyfarfodydd yw'r bwriad ond os ydym o ddifrif ynglŷn â dileu TB—fel yr ydym ni—mae angen yr ystod ehangaf o arbenigedd wrth law i gyfrannu at ein rhaglen waith. Yr wyf yn diolchgar i bawb sydd yn cymryd rhan yn y rhaglen. Os yw'r rhaglen dileu TB yn llwyddo, yn ngeiriau adroddiad yr is-bwyllgor, mae,

I have also recently met with Professor John Bourne, the chair of the Independent Scientific Group on Cattle TB, as part of wider discussions on the disease. The intention is not to create groups merely for the sake of holding meetings, but if we are serious about eradicating TB—as we are—we need the widest range of expertise at hand to contribute to our work programme. I am grateful to everyone who is participating in the programme. If the TB eradication programme is to succeed, to quote the sub-committee report,

‘angen i’r holl randdeiliaid dan sylw fynd i’r afael â’r broblem ac ysgwyddo cyfrifoldeb dros y mesurau y gallant eu rheoli’.

‘We believe that all the stakeholders involved have to take ownership of the problem and responsibility for the measures that they are able to manage.’

Wrth i ni fel Llywodraeth lunio ein rhaglen dileu TB, bydd yn rhaid i ni, fel yr is-bwyllgor, ystyried yr holl dystiolaeth wyddonol a phrofiad gwledydd eraill. Nid ydym yn dechrau o’r dechrau; mae lefel o weithgaredd sylweddol ar reoli TB yng Nghymru eisoes ac yr oedd yn dda heddiw gweld bod adroddiad pwyllgor San Steffan yn argymhell bod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn edrych ar yr arfer dda yng Nghymru gyda’r ardal bioddiogelwch dwys yn sir Benfro.

As we produce our TB eradication programme within the Government, we will have to consider all of the scientific evidence and the experiences of other countries, as the sub-committee did. We are not starting with a blank page; there is a considerable level of activity in terms of managing TB in Wales already, and it was pleasing to see today that a report by a Westminster committee recommends that the Department for Environment, Food and Rural Affairs should look at good practice in Wales within the intensive biosecurity area in Pembrokeshire.

Yr wyf yn ymddiheuro i’r Cynulliad nad yw amserlen y Llywodraeth yn cyd-fynd yn berffaith ag amserlen yr is-bwyllgor i ganiatáu i mi ymateb yn llawn heddiw ar gynnwys y rhaglen dileu TB. Fodd bynnag, byddaf yn dod â datganiad i’r Cynulliad yn gynnar ym mis Ebrill, i amlinellu hyd a lled y rhaglen hon. Yr wyf yn awyddus i wrando ar sylwadau Aelodau’r Cynulliad yn ystod y ddadl hon y prynhawn yma er mwyn llunio a llywio cynnwys y datganiad hwnnw.

I apologise to the Assembly that the Government timetable does not correspond exactly to the sub-committee’s timetable, which would have enabled me to respond in full today on the TB eradication programme’s content. However, I will make a statement to the Assembly in early April, to outline the length and breadth of this programme. I am eager to hear the comments of the Assembly Members during this afternoon’s debate, in order to draw up and inform the content of that statement.

Brynle Williams: Diolch, Weinidog, am gytuno i wneud datganiad ym mis Ebrill.

Brynle Williams: Thank you, Minister, for agreeing to make a statement in April.

I thank Alun for chairing the committee and all those who have contributed to the committee's work: the scientists and veterinary officers, the wildlife groups and the farming and countryside representatives.

I am encouraged that the sub-committee was able to put together a series of recommendations in the report to take a holistic approach to tackling this disease, because it is important to improve cattle testing regimes. TB, regrettably, will never be eradicated by ignoring the reservoir of infection in wildlife, and I am glad that the sub-committee's report recognises that. That approach has also been recognised in the House of Commons today and in the Environment, Food and Rural Affairs Committee report published this morning, to which the Minister alluded.

I welcome the fact that the recommendations for a holistic approach received cross-party support in the committee. That is a measure of just how serious a threat the disease is in Wales.

Unfortunately, because the problem has been pushed to the sidelines for so long, eradication of the disease in the lifetime of this Assembly administration is unlikely, but at least eradication of the disease has now been established as the goal, rather than just control of the disease, as was the case previously. I hope that the Assembly Government takes on board the report's recommendation, because both previous administrations failed to get to grips with bovine TB and, as a result, it has been allowed to spread across the countryside.

Since the Assembly came into being, as Alun and the Minister have just alluded to, the compensation bill has increased by 1,229 per cent. It was just over £1 million in 1999 and, this year, it is almost £14 million. Annually, 1 million cattle are now tested and, last year, 7,200 were culled, which is a sevenfold increase in nine years, while 2,000 herds are currently held under restrictions. With inflation taken into account, the compensation bill has cost taxpayers the equivalent of £71 million over the last eight

Diolchaf i Alun am gadeirio'r pwyllgor ac i bawb o'r rheini a gyfrannodd at waith y pwyllgor: y gwyddonwyr a'r swyddogion milfeddygol, y grwpiau bywyd gwyllt a'r cynrychiolwyr ffermio a chefn gwlad.

Mae'n galonogol imi bod yr is-bwyllgor wedi gallu rhoi at ei gilydd gyfres o argymhellion yn yr adroddiad i weithredu mewn modd cyfannol er mwyn mynd i'r afael â'r clefyd hwn, oherwydd ei bod yn bwysig gwella cyfundrefnau profi gwartheg. Ni chaiff TB byth ei ddileu, yn anffodus, drwy anwybyddu'r gronfa haint mewn bywyd gwyllt, ac yr wyf yn falch bod adroddiad yr is-bwyllgor yn cydnabod hynny. Cydnabuwyd yr agwedd honno yn Nhŷ'r Cyffredin heddiw hefyd ac yn adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a gyhoeddwyd y bore hwn, adroddiad y cyfeiriodd y Gweinidog ato.

Croesawaf y ffaith bod yr argymhellion am ddull gweithredu cyfannol wedi cael cefnogaeth drawsbleidiol yn y pwyllgor. Mae hynny'n dangos bygythiad pa mor ddifrifol yw'r clefyd yng Nghymru.

Yn anffodus, oherwydd i'r broblem gael ei gwthio o'r neilltu am gyhyd, mae dileu'r clefyd yn ystod oes gweinyddiaeth y Cynulliad hwn yn annhebygol, ond o leiaf mae dileu'r clefyd hwn, yn hytrach nag ond ei reoli fel o'r blaen, yn awr wedi cael ei sefydlu fel nod. Gobeithiaf y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn argymhellion yr adroddiad, oherwydd bod y ddwy weinyddiaeth flaenorol wedi methu â mynd i'r afael â TB mewn gwartheg ac, o'r herwydd, caniatwyd iddo ledaenu ar draws cefn gwlad.

Ers sefydlu'r Cynulliad, mae'r bil iawndal, fel y cyfeiriodd Alun a'r Gweinidog ato, wedi cynyddu 1,229 y cant. Yr oedd yn ychydig dros £1 miliwn yn 1999 ac, eleni, mae bron yn £14 miliwn. Yn flynyddol, caiff 1 miliwn o wartheg yn awr eu profi ac, y llynedd, cafodd 7,200 eu didol a'u difa. Mae hwn yn gynydd seithplyg mewn naw mlynedd, tra mae 2,000 o fuchesi wedi'u dal ar hyn o bryd dan gyfyngiadau. Gan ystyried chwyddiant, mae'r bil iawndal wedi costio'r hyn sy'n cyfateb i £71 miliwn i'r trethdalwyr dros yr

years. To put that into context, that money could have been used to train over 2,300 nurses or nearly 3,000 teachers. Instead, it has been used in an attempt to control this disease by, regrettably, focusing on culling cattle alone.

However, this is not just a financial issue. There are also serious concerns regarding cattle and wildlife, because it is in the interest of animal welfare to prevent them from getting this disease, which, if left untreated, will lead to a slow and lingering death.

The old name for TB, as you are probably aware, is consumption, because that is what it does—it consumes the animal from the inside out. It seems that no-one wants to make the point that wildlife with TB suffer a great deal, far more than cattle that are culled, before they can show clinical signs of disease.

I welcome the Minister's commitment of £27 million over the next three years, and I hope that she will support all of the report's recommendations and build on the cross-party support for a holistic programme of TB eradication. It is worth stressing that eradicating TB will need sustained efforts over decades, not just years, and the sooner it starts, the sooner the countryside will end up with a healthy cattle population, and, more than that, with a healthy wildlife population.

Joyce Watson: I commend the work of Alun Davies and the members of his sub-committee in bringing forward this report. The report presents the issue clearly and makes important recommendations in light of the evidence. The starting point for all stakeholders is that the current situation is not sustainable. TB is a chronic problem in Wales that has deeply damaging effects on our farming industry. The current methods of control and compensation are no longer tenable. Compensation payments cost the Assembly Government more than £10 million per year, and the taxpayer in Wales has paid out £25 million over the past three years. This is why the development of a bovine TB strategy underpinned by the allocation of £27 million is timely.

wyth mlynedd diwethaf. I roi hynny yn ei gyd-destun, gellid bod wedi defnyddio'r arian hwnnw i hyfforddi dros 2,300 o nyrsys neu bron 3,000 o athrawon. Yn hytrach, fe'i defnyddiwyd mewn ymgais i reoli'r clefyd hwn, yn anffodus, drwy ganolbwyntio ar ddiol a difa gwartheg yn unig.

Er hynny, nid mater ariannol yn unig yw hwn. Ceir hefyd bryderon difrifol am wartheg a bywyd gwyllt oherwydd, er mwyn lles anifeiliaid, rhaid eu hatal rhag cael y clefyd hwn a fydd, o'i adael heb ei drin, yn arwain at farwolaeth araf a chreulon.

Yr hen enw ar TB, fel y gwyddoch mae'n debyg, yw'r ddarfodedigaeth, gan mai dyna beth sy'n digwydd—mae'n nychu'r anifail o'r tu mewn at allan nes ei fod yn darfod. Mae'n ymddangos nad oes neb eisiau gwneud y pwynt bod anifeiliaid gwyllt sydd â TB yn dioddef llawer iawn, cryn dipyn yn fwy na gwartheg sy'n cael eu difa, cyn bod arwyddion clinigol y clefyd i'w gweld.

Yr wyf yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog o £27 miliwn dros y tair blynedd nesaf, ac yr wyf yn gobeithio y bydd yn cefnogi holl argymhellion yr adroddiad ac yn adeiladu ar y gefnogaeth drawsbleidiol i raglen gyfannol er mwyn dileu TB. Mae'n werth pwysleisio y bydd angen ymdrechu'n barhaus dros ddegau o flynyddoedd er mwyn dileu TB, a gorau po gyntaf y mae'r gwaith hwnnw'n dechrau, er mwyn i gefn gwlad gael gwartheg iach, a bywyd gwyllt iach hefyd.

Joyce Watson: Hoffwn ganmol Alun Davies ac aelodau ei is-bwyllgor am y gwaith y maent wedi'i wneud er mwyn cyflwyno'r adroddiad hwn. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r pwnc yn glir ac yn gwneud argymhellion pwysig sy'n seiliedig ar y dystiolaeth. Y man cychwyn ar gyfer pob un o'r rhanddeiliaid yw bod y sefyllfa bresennol yn anghynaliadwy. Mae TB yn broblem ddifrifol yng Nghymru ac mae'n cael effaith ddychrynlyd ar ein diwydiant amaethyddol. Nid yw'r dulliau presennol o reoli a digolledu'n gynaliadwy mwyach. Mae taliadau digolledu'n costio dros £10 miliwn y flwyddyn i Lywodraeth y Cynulliad, ac mae trethdalwyr Cymru wedi talu £25 miliwn yn ystod y tair blynedd diwethaf. Dyma pam y mae datblygu strategaeth ar TB mewn

gwartheg, sy'n seiliedig ar y dyraniad o £27 miliwn, yn amserol.

The report rightly identifies the need for a holistic approach that has the eradication of the disease as an ultimate long-term aim. It also adopts firm short-term strategies and targets for controlling the disease, focusing on tighter biosecurity and more stringent testing regimes. The report points to examples of best practice from which we can learn, and which will help us to develop our own strategies to take forward.

Mae'r adroddiad yn nodi'n gwbl briodol bod angen dull gweithredu cyfannol y mae dileu'r clefyd yn nod hirdymor iddo. Mae hefyd yn mabwysiadu strategaethau a thargedau pendant er mwyn rheoli'r clefyd yn y tymor byr, gan ganolbwyntio ar fesurau bioddiogelwch llymach a threfniadau profi llymach. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at enghreifftiau o arferion gorau y gallwn ddysgu ohonynt, ac a fydd yn ein helpu i ddatblygu ein strategaethau ein hunain i'w rhoi ar waith.

However, the long-term objective must be the eradication of the disease, and the report suggests targeting the reservoir of infection in the wildlife population. There is a need to continue investing in research to fill in the gaps in our knowledge about how this can be achieved. The committee's recommendation on extending the number and scope of intensive treatment areas is a suggested way of doing this. In particular, on the central issue of culling or developing an effective vaccine, it is vital that we continue to develop our knowledge base. In light of the Independent Scientific Group on Cattle TB report, we need to better understand the ecological impact of any potential decision over our eradication objective.

Fodd bynnag, rhaid anelu yn yr hirdymor at ddileu'r clefyd, ac mae'r adroddiad yn awgrymu y dylid targedu'r gronfa haint mewn bywyd gwyllt. Mae angen dal i fuddsoddi mewn ymchwil er mwyn llenwi'r bylchau yn ein gwybodaeth ynglŷn â sut y gellir gwneud hyn. Mae'r pwyllgor yn argymhell cynyddu nifer yr ardaloedd triniaeth ddwys ac ehangu eu cwmpas fel ffordd bosibl o wneud hyn. Yn fwyaf arbennig, ar fater canolog difa neu ddatblygu brechlyn effeithiol, mae'n hanfodol ein bod yn dal i ddatblygu'n gwybodaeth sylfaenol. Yn dilyn adroddiad y Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar TB mewn Gwartheg, mae angen inni gael gwell dealltwriaeth o effaith ecolegol unrhyw benderfyniad a allai gael ei wneud yng nghyswllt ein nod o ddileu TB.

With such a contentious and often emotive debate, it is important that we build consensus where it can be found and draw policy from scientific evidence. Therefore, I am sure that the report will be given due consideration by all stakeholders in developing the new strategy.

Mae hon yn ddadl gynhennus ac emosiynol yn aml, ac mae'n bwysig ein bod yn meithrin consensws lle mae hynny'n bosibl ac yn llunio polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth wyddonol. O ganlyniad, yr wyf yn siŵr y bydd yr adroddiad yn cael ystyriaeth briodol gan bawb sy'n ymwneud â datblygu'r strategaeth newydd.

Mick Bates: As other Members have done, I congratulate the Chair of the sub-committee on the way that he has presented this report to the Assembly, and I thank the committee's support staff for enabling such comprehensive evidence-taking sessions to take place and for producing a concise, readable report that contains clear recommendations. It is gratifying to see that the Environment, Food and Rural Affairs Committee report published today contains

Mick Bates: Yr wyf finnau, fel yr Aelodau eraill, yn llongyfarch Cadeirydd yr is-bwyllgor ar y ffordd y mae wedi cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cynulliad. Hoffwn ddiolch hefyd i staff cymorth y pwyllgor am sicrhau sesiynau clywed tystiolaeth mor gynhwysfawr ac am lunio adroddiad cryno a darllenadwy sy'n cynnwys argymhellion clir. Mae'n braf gweld bod adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a gyhoeddwyd heddiw'n cynnwys nifer o

many similar recommendations to those arrived at by the Rural Development Subcommittee.

I welcome the Minister's statement, and I reiterate my welcome for the £27 million in the Plaid-Labour Government's budget to help to control and eventually eradicate this disease. However, as Confucius said, even a journey of a thousand miles starts with a single step, and many of us have taken this single step before and hoped, over the last 25 years, that we would reach a point when we could say that we had controlled TB and seen a reduction in its incidence, so that it could finally be eradicated. I need to remind many people that that was once the situation in Wales and throughout the rest of Britain.

2.50 p.m.

Reference has been made to the huge impact of the disease. We would do well to remember that 8,000 animals have been slaughtered in Wales and 2,000 herds are currently under restriction. There are also 1,000 TB tests waiting to be done, which have been delayed. All of this damages the economy and the mental health of the many farming families that are suffering the impact of restrictions, and it also causes much angst for those members of wildlife groups who want to see the wildlife population retained.

The general strategic point, as others have said—although I think that we may have used the word 'holistic' a bit too much today—is that an integrated approach should be taken. Disease control has certain principles: containment; surveillance, with movement patrols and possible zoning; support to make sure that it works, through biosecurity measures; and, finally, vaccination, to make sure that when we have gone through the recommended process, we will actually have eradicated the disease.

The Welsh Liberal Democrats are pleased to note the recommendations and support all of

argymhellion tebyg i rai'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig.

Yr wyf yn croesawu datganiad y Gweinidog, a hoffwn ddweud unwaith eto fy mod yn croesawu'r £27 miliwn yng nghyllideb Llywodraeth Plaid-Llafur er mwyn helpu i reoli'r clefyd hwn a'i ddileu maes o law. Fodd bynnag, fel y dywedodd Confucius, mae taith o fil o filltiroedd hyd yn oed yn dechrau gydag un cam, ac mae llawer ohonom wedi cymryd yr un cam hwn o'r blaen ac wedi gobeithio, dros y 25 mlynedd diwethaf, y byddem yn cyrraedd sefyllfa pan fyddem yn gallu dweud ein bod wedi rheoli TB ac wedi gweld lleihad yn nifer yr achosion, fel y bydd modd ei ddileu o'r diwedd. Mae angen imi atgoffa llawer o bobl mai dyna'r sefyllfa ar un adeg yng Nghymru ac yng ngweddill Prydain.

Cyfeiriwyd at effaith aruthrol y clefyd. Mae'n werth cofio bod 8,000 o anifeiliaid wedi cael eu lladd yng Nghymru a bod cyfyngiadau ar 2,000 o fuchesi ar hyn o bryd. Yn ychwanegol at hyn, mae 1,000 o brofion TB heb eu gwneud, gan eu bod wedi cael eu dal yn ôl. Mae hyn i gyd yn cael effaith andwyol ar yr economi ac ar iechyd meddwl llawer o deuluoedd sy'n byw ar ffermydd ac sy'n dioddef oherwydd effaith cyfyngiadau. Mae hefyd yn achosi llawer iawn o bryder i'r aelodau hynny o grwpiau bywyd gwyllt sy'n awyddus i weld y boblogaeth fywyd gwyllt yn cael ei chadw.

Y pwynt strategol cyffredinol, fel y mae eraill wedi dweud—er fy mod yn meddwl ein bod wedi defnyddio ychydig bach gormod ar y gair 'cyfannol' heddiw—yw y dylid cael dull integredig. Mae egwyddorion penodol ynghlwm wrth reoli clefydau: cyfyngu; cadw golwg, drwy arolygu symudiadau a chreu parthau o bosibl; cefnogi er mwyn gwneud yn siŵr bod y trefniadau'n gweithio, drwy fesurau bioddiogelwch; ac, yn olaf, brechu, er mwyn gwneud yn siŵr, ar ôl inni fynd drwy'r broses sy'n cael ei hargymell, y byddwn wedi llwyddo mewn gwirionedd i ddileu'r clefyd.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n falch o weld yr argymhellion ac yn cefnogi

them. I will start with the recommendations on research and testing. It is important to note that research must continue and that the testing regime is currently subject to a lot of doubt. Work needs to be done to assure the whole industry that the skin test and the gamma interferon test are viable. I note the recommendation that there should be gamma interferon testing facilities in Wales because the test is extremely sensitive and needs to be carried out within 24 hours of taking the blood sample. At the end of the day, research into vaccines will be critical if we are to control the disease. Vaccination has been held out for so long, as the great panacea, that I just hope that the sub-committee will continue to scrutinise the process and ensure that we have up-to-date reports on where we are on the introduction of vaccination.

In terms of an intensive treatment area, we would do well to note that the ISG report, as Alun said earlier, along with that of every other organisation, confirmed that there is a link between wildlife and the spread of TB. There is also a new independent report by four UK scientists, published in the *Proceedings of the Royal Society of London*, entitled 'Estimates for Local and Movement Based Transmission of Bovine Tuberculosis in British Cattle'. It concluded that up to three quarters of bovine TB outbreaks in cattle are caused by contact with infected badgers and other so-called local effects in high-risk areas, rather than by cattle movements, which are responsible for approximately 16 per cent of outbreaks. This contradicts many other findings that cattle movements were the major cause of the spread of TB. Sir David King, the Government's former chief scientific adviser, also said that the best option to control the disease is to reduce the reservoir of infection in wildlife.

Finally, it is important that these policies control the disease and then form the basis for eradication. I look forward to a full response from the Government to these

pob un ohonynt. Hoffwn ddechrau gyda'r argymhellion sy'n ymwneud ag ymchwil a phroffion. Mae'n bwysig cofio bod yn rhaid dal i wneud gwaith ymchwil a bod llawer iawn o amheuon ynglŷn â'r trefniadau profi ar hyn o bryd. Mae angen ceisio sicrhau'r diwydiant yn ei gyfanrwydd bod y prawf croen a'r prawf gama interfferon yn hyfyw. Yr wyf yn sylwi ar yr argymhelliad y dylid sefydlu cyfleusterau ar gyfer profion gama interfferon yng Nghymru gan fod y prawf yn sensitif iawn ac yn un y mae angen ei wneud cyn pen 24 awr ar ôl cymryd y sampl gwaed. Yn y pen draw, bydd ymchwil i frechlynnau'n hollbwysig os ydym am reoli'r clefyd. Mae brechlynnau wedi bod yn cael eu nodi ers cymaint o amser, fel yr ateb perffaith, fel na allaf ond gobeithio y bydd yr is-bwyllgor yn dal i graffu ar y broses a sicrhau ein bod yn cael adroddiadau cyfredol yn dangos beth yw'r sefyllfa o ran cyflwyno brechlynnau.

O ran ardal driniaeth ddwys, byddai'n werth inni nodi bod adroddiad y Grŵp Gwyddonol Annibynnol, fel y dywedodd Alun yn gynharach, ac adroddiad pob sefydliad arall, wedi cadarnhau bod cysylltiad rhwng bywyd gwyllt a lledaeniad TB. Cyhoeddwyd adroddiad annibynnol newydd hefyd gan bedwar gwyddonydd o'r DU yn *Proceedings of the Royal Society of London*. Teitl yr adroddiad oedd 'Estimates for Local and Movement Based Transmission of Bovine Tuberculosis in British Cattle'. Yr oedd yr adroddiad yn dod i'r casgliad bod hyd at dri chwarter yr achosion o TB mewn gwartheg yn cael eu hachosi gan gysylltiad â moch daear heintiedig ac effeithiau lleol eraill, fel y maent yn cael eu galw, mewn ardaloedd risg uchel, yn hytrach na symudiadau gwartheg, sy'n gyfrifol am oddeutu 16 y cant o'r achosion. Mae hyn yn groes i nifer o ganfyddiadau eraill a oedd yn dweud mai symudiadau gwartheg oedd yn bennaf gyfrifol am ledaenu TB. Dywedodd Syr David King, cyn brif gynghorydd gwyddonol y Llywodraeth, hefyd mai'r dewis gorau er mwyn rheoli'r clefyd yw lleihau'r gronfa haint mewn bywyd gwyllt.

Yn olaf, mae'n bwysig bod y polisiau hyn yn rheoli'r clefyd ac yna'n ffurfio'r sail ar gyfer ei ddileu. Edrychaf ymlaen i weld ymateb llawn gan y Llywodraeth i'r argymhellion

recommendations. I make a plea for all stakeholders at a national level to play a part, as the Minister has said that they will, but where we have hot spots and intensive treatment areas, for stakeholders at a local level also to be fully engaged in the process of controlling this terrible disease.

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn hapus iawn i gefnogi'r adroddiad yn llwyr a'r holl argymhellion. Fel y mae'n digwydd, fi oedd Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad pan gynhyrchwyd yr adroddiad diwethaf ar TB yn 2004, er mae'n rhaid nodi bod argymhellion yr adroddiad hwn yn mynd yn bellach nag argymhellion yr adroddiad hwnnw.

Yn anffodus, y pryder mawr yw na weithredwyd yn llawn ar yr argymhellion hynny, a boed hynny'n ganlyniad i hynny neu beidio, y ffaith yw bod y clwyf hwn wedi ymledu'n sylweddol ers y cyfnod hwnnw. Felly, mae'r adroddiad yn amserol.

Nid ailadroddaf yr hyn a ddywedodd Alun yn ei gyflwyniad cynhwysfawr. Yr ydym yn chwilio am gyfuniad o fesurau yn hyn o beth sy'n ymwneud â bioddiogelwch, rheoli bywyd gwyllt a phrofion cyson gyda chanlyniadau cyflym, cyn i anifeiliaid â'r clwyf gael eu difa'n gyflym.

Un o'n bwydydd sylfaenol yw llaeth, ac mae angen iddo fod yn iach. Ni allwn greu diwydiant ffyniannus os yw'r clefyd yn chwalu gyroedd o wartheg ac yn tanseilio gwaith oes ffermwyr. Felly, mae'n rhaid gweld gweithredu buan, a hynny ar fwy nag un lefel.

Er na ddaeth yn amlwg yn y drafodaeth y prynhawn yma, os yw'r ddadl hon yn troi o gwmpas bywyd gwyllt a moch daear, a hynny o blaid neu yn erbyn difa, fe fyddwn wedi colli'r pwynt yn llwyr. Gwnaeth Alun y sylw hwnnw yn ei gyflwyniad, ac yr wyf ond yn tanseilio hynny. Gwn fod teimladau cryfion ynghylch y mater hwn—chwarae teg, yr wyf wedi clywed Brynle Williams lawer gwaith yn datgan ei hoffter o foch daear, gan ddweud bod ganddo filoedd yn byw yn ei ardal. Mae wrth ei fodd â hwy. Derbyniat hynny'n llwyr, ac yr wyf yn siŵr nad awydd i

hyn. Yr wyf yn erfyn ar yr holl randdeiliad cenedlaethol i ymwneud â hyn, gan fod y Gweinidog wedi dweud y bydd hynny'n digwydd, ond lle mae gennym ardaloedd a chanddynt broblemau ac ardaloedd triniaeth ddwys, yr wyf yn erfyn hefyd ar randdeiliaid lleol i ymwneud yn llawn â'r broses o reoli'r clefyd dychrynlyd hwn.

Alun Ffred Jones: It gives me great pleasure to support the report and the recommendations in full. As it happens, I was the Chair of the Environment, Planning and Countryside Committee when the last report on TB was produced in 2004, although it must be noted that the recommendations of this report go much further than those of the previous report.

Unfortunately, the great concern is that those recommendations were not fully implemented, and whether or not this is a result of that, the fact is that this disease has spread substantially since that period. Therefore, the report is timely.

I will not repeat what Alun said in his comprehensive introduction. We are looking for a combination of measures here involving bio-security, controlling wildlife and regular testing with swift results, before the quick culling of animals that have the disease.

Milk is one of our basic foods, and it needs to be healthy. We cannot create a prosperous industry if the disease destroys herds of cattle and undermines farmers' lifetime. Therefore, we must take swift action, and on more than one level.

Although it has not become obvious in this afternoon's discussion, if this debate centres on wildlife and badgers, whether in favour of culling or not, then we will miss the point completely. Alun made that comment in his introduction, and I am simply underscoring that. I know that there are strong feelings on this matter—fair play, I have heard Brynle Williams many times stating his affection for of badgers, saying that thousands of them live in his area. He adores them. I accept that completely, and I am certain that the motivation behind his standpoint is not a

gael gwared ar fywyd gwylt sydd y tu ôl i'w safbwynt.

Er mwyn adfer hyder a sicrhau dyfodol i'r diwydiant mae'n bwysig gweithredu yn unol â'r argymhellion, ac yr wyf yn edrych ymlaen at ddatganiad y Gweinidog maes o law. Nid ydym yn sôn am amaethyddiaeth yn unig; mae diwydiannau eraill yn dibynnu ar brosesu llaeth ac, yn y pen draw, os gwelwn fwy o ffermydd yn diflannu a'r diwydiant yn mynd yn fwy bregus, bydd rhai o'r cwmnïau hynny hefyd dan fygythiad, heb sôn am yr hyn a ddywedir am arian yn cael ei wastraffu ar ddigolledu ffermwyr oherwydd y clwyf. Dyna arian y gellid ei ddefnyddio i hybu'r diwydiant a chreu dyfodol ffyniannus a chynaliadwy.

Andrew R.T. Davies: I thank the Chair and his committee for their comprehensive report. I had the pleasure of attending, with the Chair, an evidence-gathering session at the Stormont Assembly, and I also place on record my sincere gratitude for the courtesy extended to us by Stormont officials and everyone who attended that evidence-gathering session. This really shines through in some of the information gathered in this report, and it just shows how we can learn from best practice.

TB is a disease about which, sadly, report after report has been written, but with only half-hearted measures put in place to try to solve the problem. The figures in this report graphically emphasise that point—in 1998, some 1,046 cattle were slaughtered, with 312 herds restricted, and now we are up to 5,000 cattle slaughtered and 1,945 herds under restrictions. This is untenable, and, from listening to the various contributions made today and reading the report, one senses a desire and a will to achieve the meaningful eradication of TB from Wales, albeit as a long-term objective. I have full confidence in the Minister in bringing forward her proposals. I appreciate, as she rightly highlighted, that the Government timetable and the committee timetable are not quite running in parallel, and so we have to wait until April to get more meat on the bones. As

desire to get rid of wildlife.

To regain confidence and to secure a future for the industry, it is important that we take action in accordance with the recommendations, and I look forward to the Minister's statement in due course. We are not only talking about agriculture; there are associated industries that are dependent on the processing of milk, and ultimately, if we see more farms disappearing, and the industry becomes more fragile, some of those industries will be under threat, never mind what is said about how much money is wasted on compensation for farmers because of the disease. That is money that could be used to promote the industry and create a prosperous and sustainable future.

Andrew R.T. Davies: Hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd a'i bwyllgor am eu hadroddiad cynhwysfawr. Cefais y fraint, gyda'r Cadeirydd, o fynychu sesiwn casglu tystiolaeth yng Nghynulliad Stormont, a hoffwn hefyd gofnodi'n ffurfiol fy niolch didwyll am y cwrteisi a ddangoswyd tuag atom gan swyddogion Stormont a phawb a oedd yn bresennol yn y sesiwn casglu tystiolaeth hwnnw. Mae hyn i'w weld yn amlwg iawn yn rhywfaint o'r wybodaeth a gasglwyd yn yr adroddiad hwn, ac mae'n dangos sut y gallwn ddysgu o'r arferion gorau.

Mae llawer iawn o adroddiadau wedi cael eu hysgrifennu am TB ond, yn anffodus, mae'r mesurau a gyflwynwyd er mwyn ceisio datrys y broblem wedi bod yn rhai digon llugoer. Mae'r ffigurau sydd yn yr adroddiad hwn yn pwysleisio'r pwynt hwnnw'n glir iawn. Yn 1998, cafodd 1,046 o wartheg eu difa, a gosodwyd cyfyngiadau ar 312 o fuchesi. Erbyn hyn mae nifer y gwartheg sy'n cael eu difa wedi codi i 5,000 ac mae cyfyngiadau wedi'u gosod ar 1,945 o fuchesi. Mae hyn yn anghynaliadwy, ac, o wrando ar y cyfraniadau amrywiol a wnaethpwyd heddiw, ac o ddarllen yr adroddiad, mae rhywun yn teimlo bod awydd ac ewyllys i fynd ati o ddifrif i ddileu TB yng Nghymru, hyd yn oed os yw hwnnw'n amcan hirdymor. Mae gennyf bob ffydd yng ngallu'r Gweinidog i gyflwyno'i chynigion. Yr wyf yn sylweddoli, fel y mae wedi nodi'n gwbl

a practising farmer, however, I would welcome the introduction of measures to tackle this disease, which is currently ravaging not only wildlife, but the agriculture industry. This is about not just wildlife or cattle, but about putting health back into the countryside.

I acknowledge the report's recommendation of increasing bio-security, and we must get the industry to embrace that and to learn lessons from best practice elsewhere.

3.00 p.m.

We must also recognise the policies that have already been introduced on movement and pre-testing. A total of 175,000 pre-movement tests have already been undertaken, but they have thrown up only around 530 reactors. That is disproportionate, and so the policy is not getting to the root of the problem of TB and TB in wildlife.

What I learned more than anything when I visited Northern Ireland was the capacity of the administration to deal with bovine TB. The infrastructure was in place to get farm testing done and to put movement restrictions in place. It will be a challenge for us as an institution to ensure that we have that resource in place, following this report's recommendations. Since the report was put together, the bluetongue virus has struck from the blind side, and it will be a challenge for large animal practices—though there not many across Wales—to deal simultaneously with two diseases in their livestock population. It is not beyond us, and we can rise to the challenge, but it will be a resource-intensive issue for the Government to address. The key factor here is that all these recommendations are resource-hungry, and it will require a lot of stamina to see them through, and to achieve the ultimate goal of eradicating TB. That must be our goal: it is not about holding TB, but about eradicating it.

briodol, nad yw amserlen y Llywodraeth ac amserlen y pwyllgor yn cyfateb yn llwyr, a bod yn rhaid inni felly aros tan fis Ebrill cyn cael mwy o gnawd ar yr esgyrn. Fel ffermwr, fodd bynnag, byddwn yn falch iawn o weld mesurau'n cael eu cyflwyno er mwyn mynd i'r afael â'r clefyd hwn, sy'n cael effaith niweidiol ar fywyd gwylt, a hefyd ar y diwydiant amaethyddol. Mae hyn yn ymwneud â gwartheg a bywyd gwylt, ac mae hefyd yn ymwneud ag adfer iechyd yng nghefn gwlad.

Yr wyf yn cydnabod argymhelliad yr adroddiad ynghylch cynyddu bioddiogelwch, a rhaid inni gael y diwydiant i gofleidio hynny ac i ddysgu gwersi oddi wrth yr arferion gorau mewn mannau eraill.

Rhaid inni gydnabod y polisiau sydd eisoes wedi'u cyflwyno ar symud a rhagbrofi hefyd. Mae cyfanswm o 175,000 o brofion cynsymud eisoes wedi'u gwneud, ond dim ond rhyw 530 adweithydd sydd wedi'u canfod ganddynt. Mae hynny'n anghymesur, ac felly nid yw'r polisi'n mynd at wraidd problem TB a TB mewn bywyd gwylt.

Yr hyn a ddysgais yn anad dim wrth ymweld â Gogledd Iwerddon oedd gallu'r weinyddiaeth i ddelio â TB mewn gwartheg. Yr oedd y seilwaith yn ei le i gynnal profion ar ffermydd a gosod cyfyngiadau ar symud. Bydd yn her i ni fel sefydliad sicrhau bod yr adnodd hwnnw yn ei le gennym, yn dilyn argymhellion yr adroddiad hwn. Ers llunio'r adroddiad, mae firws y tafod glas wedi taro o'r ochr dywyll, a bydd yn her i gwmnïau mawr sy'n ymwneud ag anifeiliaid—er nad oes llawer ohonynt yng Nghymru—ddelio ar yr un pryd â dau glefyd yn eu poblogaeth da byw. Nid yw y tu hwnt inni, a gallwn godi i wynebu'r her, ond bydd yn fater sy'n llyncu adnoddau a bydd rhaid i'r Llywodraeth ddelio ag ef. Y ffactor allweddol yma yw bod yr holl argymhellion hyn yn llyncu adnoddau, a bydd angen cryn egni i fwrw'r maen i'r wal gyda hwy, a chyflawni'r nod terfynol o ddileu TB. Dyna o raid yw ein nod: nid mater o ffrwyno TB ydyw, ond ei ddileu.

I hear much criticism from farmers about the removal of cattle from farms once they have been tested positive for TB. In Northern Ireland, cattle are quickly removed from their holdings to remove the risk of spreading the disease, and that is seen as a crucial way of containing the disease.

We must also acknowledge that we are not seeking to wipe out our wildlife population, but to reintroduce healthy wildlife to the environment and countryside, so that all elements of the countryside can benefit from a healthy population and co-exist. That is what we want to see. If we do not tackle this disease and do not stick to the report's recommendations, the danger is that we will be penalised by Europe by losing our disease-free status. That will have implications for export markets and, ultimately, the prosperity of the industry and the country, which we all want.

I welcome this report, and congratulate the Chair and his sub-committee on their in-depth analysis. I also thank everyone else who participated in its collation. It now falls to the Government to rise to the challenge, to implement the recommendations, and to work with industry, conservationists and environmentalists to deliver a healthy and clean countryside.

Lorraine Barrett: I agree that it is a serious issue, and I join my fellow committee members in identifying bovine TB as one of the most serious challenges facing Welsh agriculture and the Welsh countryside today. Other Members have mentioned other diseases, such as bluetongue, and I have made a note for myself to say that intensive farming has a lot to answer for—but that is for another day.

I am pleased that the Welsh Assembly Government has earmarked funding for the next three years to combat the disease, and I welcome the forthcoming TB strategy. I endorse all the report's recommendations except No. 7, as Alun Davies highlighted earlier, and I made my objections clear in committee.

The sub-committee heard evidence from

Clywaf lawer o feirniadaeth gan ffermwyr ynglŷn â symud gwartheg o ffermydd unwaith y byddant wedi cael prawf TB cadarnhaol. Yng Ngogledd Iwerddon, caiff gwartheg eu symud yn gyflym o'u dalfeydd i ddileu'r perygl o ledaenu'r clwyf, a gwelir hynny fel ffordd allweddol o ffrwyno'r clefyd.

Rhaid inni gydnabod hefyd nad ydym yn ceisio dileu ein bywyd gwyllt yn gyfan gwbl, ond ailgyflwyno bywyd gwyllt iach i'r amgylchedd a chefn gwlad, fel y gall holl elfennau cefn gwlad elwa ar boblogaeth iach a chyd-fyw. Dyna beth y mae arnom eisiau ei weld. Os nad awn i'r afael â'r clefyd hwn ac os na lynwn at argymhellion yr adroddiad, y perygl yw y cawn ein cosbi gan Ewrop drwy golli ein statws diglefyd. Bydd gan hynny oblygiadau i farchnadoedd allforion ac, yn y pen draw, i ffyniant y diwydiant a'r wlad, ffyniant yr ydym i gyd yn awyddus i'w weld.

Croesawaf yr adroddiad hwn, gan longyfarch y Cadeirydd a'i is-bwyllgor am eu dadansoddiad manwl. Diolch hefyd i bawb arall a gymerodd ran yn y gwaith o'i gasglu ynghyd. Mater i'r Llywodraeth yn awr yw wynebu'r her, gweithredu'r argymhellion, a gweithio gyda diwydiant, cadwraethwyr ac amgylcheddwyr i greu cefn gwlad iach a glân.

Lorraine Barrett: Yr wyf yn cytuno ei fod yn fater difrifol, ac ymunaf â'm cyd-aelodau pwyllgor i ddweud bod TB mewn gwartheg yn her gyda'r mwyaf difrifol sy'n wynebu amaethyddiaeth Cymru a chefn gwlad Cymru heddiw. Mae Aelodau eraill wedi sôn am glefydau eraill, fel y tafod glas, ac yr wyf wedi gwneud nodyn imi fy hun i ddweud bod gan ffermio dwys lawer i ateb drosto—ond rhywbeth i ddiwrnod arall yw hynny.

Yr wyf yn falch fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi clustnodi cyllid am y tair blynedd nesaf i ymladd y clefyd, a chroesawaf y strategaeth TB sydd i ddod. Ategaf holl argymhellion yr adroddiad ac eithrio Rhif 7, fel y nododd Alun Davies yn gynharach, a mynegais fy ngwrthwynebiad yn glir yn y pwyllgor.

Clywodd yr is-bwyllgor dystiolaeth o Ogledd

Northern Ireland, as has been said, which led us to believe that a regime of annual testing, funded by the Government, could significantly contribute to the control of bovine TB. We heard evidence that the current testing regime still leaves a large amount of undetected disease in herds, and these issues are reflected in a number of the report's recommendations, particularly Nos. 2 and 4.

On recommendation 7, Members will be aware of the 10-year scientific and independent UK-wide study carried out on behalf of the UK Government, which concluded, less than a year ago, that a badger cull would make no meaningful contribution to the control of bovine TB. I have looked at a few websites, and particularly at the consultation by the chief scientific adviser to the Department for Environment, Food and Rural Affairs and a host of other experts, which states that,

'Culling that is small-scale and/or intermittent or inefficient would be expected in most cases to be less effective and is likely to be counter-productive'.

That is because of the perturbation effect of badgers changing their habits and moving to other areas. Even a large-scale cull would make only a small contribution to the eradication of bovine TB. I accept that this is not just about badgers, but about a host of other issues that need to be addressed.

I would have liked some sort of assurance from the Minister today about a potential cull of whatever size, but of course that is not appropriate and must wait for another day, when the Minister responds to the report. However, I do want to say that, to me, a badger cull defies science and logic. From all the scientific evidence that not just this committee, but other committees, assemblies and governments, have received, I cannot see how a cull could possibly offer a long-term or sustainable solution to eradicating the disease. We need an aggressive focus on the cattle problem, more rigorous testing, better animal husbandry and wider controls on

Iwerddon, fel y dywedwyd, a'n harweiniodd i gredu y gallai trefn o brofion blynyddol, wedi'u hariannu gan y Llywodraeth, wneud cyfraniad sylweddol i reoli TB mewn gwartheg. Clywsom dystiolaeth fod y drefn brofi gyfredol yn dal i adael llawer iawn o'r clefyd heb ei ddarganfod mewn buchesi, ac adlewyrchir y materion hyn yn nifer o argymhellion yr adroddiad, yn enwedig Rhifau 2 a 4.

Ynglŷn ag argymhelliad 7, bydd Aelodau'n ymwybodol o'r astudiaeth wyddonol ac annibynnol a wnaed dros gyfnod o 10 mlynedd ledled y Deyrnas Unedig ar ran Llywodraeth y DU, a ddaeth i'r casgliad, lai na blwyddyn yn ôl, na fyddai difa moch daear yn gwneud unrhyw gyfraniad ystyrlon i reoli TB mewn gwartheg. Yr wyf wedi edrych ar ambell wefan, ac yn enwedig ar yr ymgynghoriad gan brif gynghorydd gwyddonol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a llu o arbenigwyr eraill, sy'n dweud,

O ddifa ar raddfa fach a/neu yn ysbeidiol neu'n aneffeithlon, disgwyliad yn y rhan fwyaf o achosion i hynny fod yn llai effeithiol, ac mae'n debygol o fod yn wrthgynhyrchiol.

Y rheswm am hynny yw effaith aflonyddiad wrth i foch daear newid eu harferion a symud i ardaloedd eraill. Hyd yn oed o ddifa ar raddfa fawr, dim ond cyfraniad bach a wneid i ddileu TB mewn gwartheg. Yr wyf yn derbyn nad sôn am foch daear yn unig yr ydym, ond am lu o faterion eraill y mae angen rhoi sylw iddynt.

Buaswn wedi hoffi rhyw fath o sicrwydd gan y Gweinidog heddiw am ddifa posibl ar ba raddfa bynnag, ond wrth gwrs nid yw hynny'n briodol a rhaid aros am ddiwrnod arall, pryd y bydd y Gweinidog yn ymateb i'r adroddiad. Fodd bynnag, y mae arnaf eisiau dweud bod difa moch daear, i mi, yn mynd yn groes i wyddoniaeth a rhesymeg. O'r holl dystiolaeth wyddonol a roddwyd nid yn unig i'r pwyllgor hwn, ond i bwyllgorau, cynullïadau a llywodraethau eraill, ni allaf weld sut yn y byd y gallai difa gynnig ateb hirdymor na chynaliadwy i ddileu'r clefyd. Mae angen canolbwyntio'n ymosodol ar broblem y gwartheg, profi'n llymach, gwell

cattle movement.

I want to compare the situation in the Republic of Ireland with that in Northern Ireland. In the Republic of Ireland, it was recently revealed that bovine TB had increased by 13 per cent in just one year, despite its sustained programme of badger extermination, which is the biggest in western Europe. Compare that with the situation in Northern Ireland, where no badgers have been culled and where the incidence of bovine TB has been halved in three years. I think that the comparison speaks for itself. I give way to Andrew.

Andrew R.T. Davies: Thank you for taking my intervention. It is correct to say that the incidence of TB has been decreasing in Northern Ireland, but the fact that it has come down from a very high level is attributed, as we learned on our evidence-gathering session, to the foot-and-mouth disease restrictions that were put in place between 2000 and 2002. In fact, the normal pattern is only just returning, so there is no decrease in the long-term levels of TB in Northern Ireland. The graph that we saw was therefore misleading.

Lorraine Barrett: I did not visit Stormont, as I could not make it, but there are many factors in play here. For me, the point is that they have not indulged in badger culling there—yet—but TB levels are coming down. I suppose that we could all sit down and look at the statistics, but it would be difficult to know exactly why the figures are coming down. I do not think that you could say that it is for one reason alone, but I will take on board what you said.

I do not think that culling offers a sustainable solution. It ignores the cattle-to-cattle transmission of TB, and thousands of perfectly healthy badgers could be exterminated without any meaningful contribution being made to fighting what is a horrific and costly disease. I was going to leave it at that, but I see that Brynle wants to intervene.

Brynle Williams: Just this morning, I was told by a reliable source that, regrettably, the

hwsmonaeth anifeiliaid a mwy o reolaeth ar symudiadau gwartheg.

Hoffwn gymharu'r sefyllfa yng Ngweriniaeth Iwerddon â honno yng Ngogledd Iwerddon. Yng Ngweriniaeth Iwerddon, datgelwyd yn ddiweddar fod TB mewn gwartheg wedi cynyddu 13 y cant mewn un flwyddyn yn unig, er gwaethaf ei rhaglen barhaus o ddifa moch daear, y rhaglen fwyaf yng ngorllewin Ewrop. Cymharwch hynny â'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon, lle nad oes unrhyw foch daear wedi'u difa a lle mae TB mewn gwartheg wedi haneru mewn tair blynedd. Credaf fod y gymhariaeth yn siarad drosti'i hun. Ildiaf i Andrew.

Andrew R.T. Davies: Diolch am gymryd fy myriad. Mae'n wir dweud bod TB wedi bod yn gostwng yng Ngogledd Iwerddon, ond mae'r ffaith ei fod wedi dod i lawr o lefel uchel iawn i'w briodoli, fel y dysgasom yn ein sesiwn casglu tystiolaeth, i'r cyfyngiadau yn sgil clwy'r traed a'r genau a osodwyd rhwng 2000 a 2002. Yn wir, dim ond yn awr y mae'r patrwm arferol yn dychwelyd, felly nid oes gostyngiad yn lefelau tymor hir TB yng Ngogledd Iwerddon. Yr oedd y graff a welsom yn gamarweiniol, felly.

Lorraine Barrett: Nid ymwelais â Stormont, gan na allwn fod yno, ond y mae llawer o ffactorau ar waith yma. I mi, y pwynt yw nad ydynt wedi mynd ati i ddifa moch daear yn y fan honno—eto—ond bod lefelau TB yn disgyn. Mae'n debyg y gallem i gyd eistedd i lawr ac edrych ar yr ystadegau, ond byddai'n anodd gwybod pam yn union y mae'r ffigurau'n dod i lawr. Nid wyf yn meddwl y gallech ddweud mai un rheswm yn unig sydd drosto, ond ystyriaf yr hyn a ddywedasoch.

Nid wyf yn meddwl bod difa'n cynnig ateb cynaliadwy. Mae'n anwybyddu'r trosglwyddiad TB rhwng gwartheg a gwartheg eraill, a gellid difa miloedd o foch daear perffaith iach heb wneud unrhyw gyfraniad ystyrlon i ymladd clefyd sy'n ffiaidd ac yn gostus. Yr oeddwn yn mynd i'w gadael hi yn y fan honno, ond gwelaf fod Brynle eisiau cael gair.

Brynle Williams: Dim ond y bore yma, clywais o ffynhonnell ddibynadwy fod

incidence of TB in Northern Ireland is going back up.

Lorraine Barrett: Perhaps it will go down again tomorrow; we do not know. You have received that information today, but I did not. We would have to consider the figures and the reasons for the changes.

Today, I will vote in favour of noting this report, but I will go no further than that. I have already made my objections known. If there is to be any culling of badgers, you will have to cull me first.

Paul Davies: I am grateful to be able to take part in this debate this afternoon. Given that I have close links with the farming industry, I know only too well the effects that this devastating disease has had on the agricultural sector. I must declare an interest at this point, as the farm of my parents-in-law, at the foothills of the Preseli mountains, has been affected by bovine TB on and off for the past five or six years. As the report states, the number of cattle slaughtered because of the disease has increased fivefold in the past 10 years, and taxpayers must now foot a bill to the tune of £11 million. As the Minister said earlier, that will reach £14 million in the near future.

3.10 p.m.

I remember discussing the same issues with bovine TB some five years ago, and the only thing that has changed is the dramatic increase in the incidence levels. Over the past 10 years, we seem to have received several reports on this issue, and yet the disease has not been controlled or eradicated. It is clear that the current policy of culling cattle without controlling wildlife is not working. It is not sensible to destroy one set of animals without controlling the other. Consideration must be given to the control of the wildlife population alongside the culling of cattle, to eradicate this damaging disease. This is essential, because it appears that TB is transferred from wildlife to cattle, as well as between cattle. There is no other way of explaining how closed herds contract the disease. Something within the wildlife

mynychder TB yng Ngogledd Iwerddon, syywaeth, ar i fyny eto.

Lorraine Barrett: Efallai yr aiff i lawr eto yfory; ni wyddom. Yr ydych chi wedi cael y wybodaeth honno heddiw, ond ni chefais i mohoni. Byddai'n rhaid inni ystyried y ffigurau a'r rhesymau dros y newidiadau.

Heddiw, byddaf yn pleidleisio o blaid nodi'r adroddiad hwn, ond nid af ymhellach na hynny. Yr wyf eisoes wedi datgan fy ngwrthwynebiad. Os oes unrhyw foch daear i gael eu difa, bydd yn rhaid ichi fy nifa i yn gyntaf.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar am gael cymryd rhan yn y ddatl hon y prynhawn yma. Gan fod gennyf gysylltiadau agos â'r diwydiant ffermio, gwn ond yn rhy dda sut y mae'r clefyd ofnadwy hwn wedi effeithio ar y sector amaethyddol. Rhaid imi ddatgan buddiant yn y fan yma, gan fod fferm fy rhieni yng nghyfraith, ar odre'r Preseli, wedi dioddef effeithiau TB mewn gwartheg yn ysbeidiol ers pum neu chwe blynedd bellach. Fel y dywed yr adroddiad, mae nifer y gwartheg sydd wedi'u difa oherwydd y clefyd wedi cynyddu bum gwaith yn y 10 mlynedd diwethaf, a bellach mae'n rhaid i'r trethdalwyr dalu bil o £11 miliwn. Fel y dywedodd y Gweinidog yn gynharach, bydd hynny'n cyrraedd £14 miliwn cyn bo hir.

Cofiaf drafod yr un cwestiynau gyda TB mewn gwartheg ryw bum mlynedd yn ôl, a'r unig beth sydd wedi newid yw'r cynnydd dramatig yn y lefelau mynychder. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'n debyg ein bod wedi cael amryw o adroddiadau ar y mater hwn, ac eto nid yw'r clefyd wedi'i reoli na'i ddileu. Mae'n amlwg nad yw'r polisi cyfredol o ddifa gwartheg heb reoli bywyd gwyllt yn gweithio. Nid yw'n gall difa un set o anifeiliaid heb reoli'r llall. Rhaid ystyried rheoli poblogaeth bywyd gwyllt ochr yn ochr â difa gwartheg, er mwyn dileu'r clefyd niweidiol hwn. Mae hyn yn hanfodol, oherwydd mae'n ymddangos y caiff TB ei drosglwyddo o fywyd gwyllt i wartheg, yn ogystal â rhwng gwartheg. Nid oes ffordd arall i esbonio sut y mae buchesi caeedig yn dal y clwyf. Mae'n rhaid bod rhywbeth o

population must carry it onto the farm in the first place. That is why I welcome the key recommendations of this report. I would like to congratulate the chairman and his sub-committee on their sterling work.

The recommendations are sensible, and adopt a holistic, clear and concise approach to eradicating the disease. The committee has made recommendations on tackling the disease in the short term, and on how to eradicate it in the long term, such as through vaccine development and trials. I welcome the suggestion of establishing an intensive treatment area within a TB hotspot, to intensively control the movement of cattle while also considering the wildlife population.

The report states clearly that there is a proven link between the transmission of TB between cattle and badgers, and that TB cannot be eradicated without addressing the reservoir of infection in wildlife. I am sure that we should avoid the culling of wildlife if we can, and I know that farmers up and down the country would also want that. However, as Andrew R.T. Davies said, we want a healthy wildlife population in our rural communities and, given the evidence, it seems impossible to avoid that course of action if we seriously want to tackle and eradicate the disease. The report does not suggest a blanket cull of badgers and wildlife across the country, but suggests dealing with infected species within hotspots by introducing intensive treatment areas.

Lorraine Barrett: Thank you for giving way, Paul. Can you tell me how you could identify the unhealthy badgers to avoid killing the healthy badgers?

Paul Davies: We have had some testing of badgers found dead on roads last year, and that proved that badgers carry TB. That is where the evidence comes from.

I am glad that the report suggests rolling out the intensive treatment areas programme to other areas if it proves successful. That is a sensible approach, and I very much hope not only that the Assembly Government notes

fewn y boblogaeth bywyd gwyllt yn ei gario i'r fferm yn y lle cyntaf. Dyna pam yr wyf yn croesawu argymhellion allweddol yr adroddiad hwn. Hoffwn longyfarch y cadeirydd a'i is-bwyllgor ar eu gwaith rhagorol.

Mae'r argymhellion yn gall, ac yn mynd ati mewn modd holistaidd, eglur a chryno i geisio dileu'r clefyd. Mae'r pwyllgor wedi gwneud argymhellion ar gyfer mynd i'r afael â'r clefyd yn y tymor byr, ac ar sut i'w ddileu yn y tymor hir, er enghraifft drwy ddatblygu a threialu brechlyn. Yr wyf yn croesawu'r awgrym y dylid sefydlu ardal driniaeth ddwys o fewn ardal lle mae TB yn gryf, i arfer rheolaeth lem dros symudiad gwartheg gan ystyried y boblogaeth bywyd gwyllt ar yr un pryd.

Dywed yr adroddiad yn glir fod cysylltiad wedi'i brofi rhwng gwartheg a moch daear o ran trosglwyddo TB, ac na ellir dileu TB heb roi sylw i gronfa'r haint yn y gwyllt. Yr wyf yn siŵr y dylem osgoi difa bywyd gwyllt os gallwn, a gwn mai dyna fyddai dymuniad ffermwyr ar hyd a lled y wlad hefyd. Fodd bynnag, fel y dywedodd Andrew R.T. Davies, mae arnom eisiau poblogaeth bywyd gwyllt iach yn ein cymunedau gwledig ac, ac ystyried y dystiolaeth, mae'n debyg ei bod yn amhosibl osgoi gweithredu yn y modd hwnnw os ydym o ddifrif am fynd i'r afael â'r clefyd a'i ddileu. Nid yw'r adroddiad yn awgrymu dileu moch daear a bywyd gwyllt yn ddiwahân ar draws y wlad, ond mae'n awgrymu delio â rhywogaethau heintiedig o fewn ardaloedd lle mae problem drwy gyflwyno ardaloedd triniaeth ddwys.

Lorraine Barrett: Diolch am ildio, Paul. A allwch ddweud wrthyf sut y gallech nodi pa foch daear sy'n glaf er mwyn osgoi lladd y moch daear iach?

Paul Davies: Cafwyd rhywfaint o brofi ar foch daear a ganfuwyd yn farw ar ffyrdd y llynedd, a phrofodd hynny fod moch daear yn cario TB. Dyna o ble y daw'r dystiolaeth.

Yr wyf yn falch fod yr adroddiad yn awgrymu ymestyn y rhaglen ardaloedd triniaeth ddwys i ardaloedd eraill os bydd yn llwyddiannus. Mae hynny'n synhwyrol, a gobeithiaf yn fawr nid yn unig y bydd

this report, but also that the Minister acts upon it and accepts the recommendations. Farmers keep pleading with me to ensure that action is taken. At present, farmers feel that nothing is happening, and they do not know where they stand on this issue. Some farmers feel helpless and do not know where to turn, which is causing extreme distress to them and to their families.

This disease has serious implications for animal health due to the fact that farmers are unable to sell their livestock. It thus becomes difficult for them to house all of their animals. I urge the Assembly Government to accept these sensible recommendations, and I urge the Minister to act upon them. I hope that she will introduce these intensive treatment areas as soon as possible. I sincerely hope, for the industry's sake, that this is not yet another report that will not be acted upon. Surely it would be in the interests of taxpayers to eradicate bovine TB by saving millions of pounds in compensation payments. It would also be in the interests of the industry to eradicate the disease once and for all.

Nerys Evans: Hoffwn ategu'r croeso a roddwyd i'r adroddiad a diolch i'r pwyllgor am ei waith. Dyma'r ail adroddiad pwysig yr ydym wedi ei gael gan yr is-bwyllgor hwn.

Mae'n bwysig bod pobl yn deall effaith TB mewn gwartheg ar y diwydiant amaethyddol. Mae effaith clwy'r traed a'r genau a chlefyd y tafod glas wedi ychwanegu at y meddylfryd nad yw TB mewn gwartheg yn cael effaith fawr ar y diwydiant, gan nad ydyw'n cael yr un sylw mewn penawdau newyddion â chlefydau eraill. Amcangyfrifir y bydd TB mewn gwartheg yn costio £15 miliwn i'r diwydiant eleni. Mae'n hen bryd inni weld gweithredu clir a chadarn yn y maes hwn, er mwyn ceisio rheoli a gwaredu TB.

Fel yr ydym wedi clywed eisoes, mae adroddiad ar ôl adroddiad yn dangos y cysylltiad rhwng TB mewn gwartheg a TB mewn bywyd gwylt, ond mae'r gwahaniaethau enfawr yn effaith y cysylltiad yn peri problemau o ran ceisio mynd i'r afael â'r broblem. Un peth sy'n glir, ac mae'n glir

Llywodraeth y Cynulliad yn nodi'r adroddiad hwn, ond hefyd y bydd y Gweinidog yn gweithredu arno ac yn derbyn yr argymhellion. Mae ffermwyr yn erfyn arnaf o hyd i sicrhau y gwneir rhywbeth. Ar hyn o bryd, mae ffermwyr yn teimlo nad oes dim yn digwydd, ac nid ydynt yn gwybod ymhle y maent yn sefyll ar y mater hwn. Mae rhai ffermwyr yn teimlo'n ddiymadferth heb wybod i ble i droi, sydd yn peri trallod eithriadol iddynt hwy ac i'w teuluoedd.

Mae gan y clefyd hwn oblygiadau difrifol i ieuchyd anifeiliaid oherwydd y ffaith bod ffermwyr yn methu â gwerthu eu da byw. Felly aiff yn anodd iddynt roi lle i'w hanifeiliaid i gyd. Anogaf Lywodraeth y Cynulliad i dderbyn yr argymhellion call hyn, ac anogaf y Gweinidog i weithredu arnynt. Gobeithiaf y gwnaiff hi gyflwyno'r ardaloedd triniaeth ddwys hyn cyn gynted ag y bo modd. Gobeithiaf yn ddiffuant, er mwyn y diwydiant, nad yw hwn yn adroddiad arall eto fyth na fydd gweithredu arno. Siawns y byddai dileu TB mewn gwartheg yn beth da i drethdalwyr gan arbed miliynau o bunnoedd mewn taliadau digolledu. Byddai dileu'r clefyd unwaith ac am byth yn beth da i'r diwydiant hefyd.

Nerys Evans: I endorse the welcome given to this report and thank the committee for its work. This is the second important report that we have received from this sub-committee.

It is important that people understand the effect of bovine TB on the agricultural industry. The effect of foot and mouth disease and the bluetongue disease have also added to the mindset that TB does not have a big impact on the industry because it does not receive the same attention in news bulletins as other diseases do. It is estimated that bovine TB will cost the industry £15 million this year alone. It is about time that we see clear and firm action in this area, to try to control and eradicate TB.

As we have already heard, report after report show the link between bovine TB and TB in wildlife, but the huge differences in the effect of that link cause problems in dealing with the problem. One thing that is clear, and it is also clear in the sub-committee's report, is that TB cannot be eradicated by one means or

hefyd yn adroddiad yr is-bwyllgor, yw nad drwy un ffordd neu un mecanwaith yn unig y mae gwaredu TB. Fel sydd wedi'i grybwyll, rhaid cynyddu bioddiogelwch, gwella'r broses o nodi anifeiliaid sydd o dan fygythiad, ac yn y blaen.

Mae problem o ran pa mor ddibynadwy yw'r broses o brofi gwartheg ar hyn o bryd, a mwy o broblem ynglŷn â pha mor ddibynadwy yw'r broses brofi o ran bywyd gwyllt, sy'n bwynt sylfaenol iawn. Rhaid datblygu'r maes hwn er mwyn sicrhau canlyniadau cywir, a bod gan ffermwyr ffydd yn y system.

Mae goblygiadau hefyd o ran y cynnydd mawr yn y nifer o foch daear. Mae'r cysylltiad rhwng TB mewn gwartheg a TB mewn moch daear yn anodd iawn. Nid yw maint effaith y trosglwyddiad rhwng moch daear a gwartheg wedi ei fesur yn effeithiol hyd yn hyn, ac mae adroddiad yr is-bwyllgor yn codi'r pwyntiau hynny a hefyd yn codi cwestiynau sydd wedi bodoli ers gwaith y grŵp gwyddonol annibynnol. Mewn sefyllfa lle mae ffermwyr yn deall bod rhaid lladd gwartheg sy'n dioddef o'r clwyf, neu sy'n profi'n bositif o dan y systemau, rhaid deall y goblygiadau economaidd sy'n dod yn sgîl hynny. Rhaid i'r ddadl droi at sut i reoli TB mewn bywyd gwyllt. Un peth sy'n hollol glir yw bod peth bywyd gwyllt yn dioddef o TB mewn gwartheg, ac os ydym yn barod i ladd gwartheg sy'n dioddef, rhaid i ni fod yn barod i wneud yr un peth gyda bywyd gwyllt, os yw'r cysylltiad yn cael ei brofi. Yr wyf yn cefnogi argymhelliaid yr is-bwyllgor i ehangu a datblygu ardaloedd peilot.

Wrth i'r drafodaeth fynd rhagddi, mae nifer yr achosion o TB yn cynyddu yng Nghymru, ac mae'r effaith ar y diwydiant hefyd yn cynyddu. Mae'r sefyllfa bresennol yn anghynaliadwy. Yr wyf yn falch o weld ymrwymiad 'Cymru'n Un' i waredu TB ac edrychaf ymlaen yn awr at weld Llywodraeth Cymru'n Un yn gweithredu yn y maes hwn.

Kirsty Williams: I begin by thanking the Chair and the sub-committee for the report. I congratulate the Chair, Alun Davies, on the measured way in which he introduced this debate. It was all going so well, Alun, until your colleague, Lorraine Barrett, intervened.

mechanism. As has been mentioned, biosecurity must be increased, the process of identifying animals in danger must be improved, and so on.

There is a problem in terms of how much we can rely on the current process of cattle testing, and a greater problem in terms of the extent to which we can rely on the process of wildlife testing, which is a fundamental point. This must be developed in order to secure the right results, and to ensure that farmers have faith in the system.

There are also implications in terms of the huge increase in badger numbers. The link between bovine TB and TB in badgers is very difficult. The magnitude of the effect of transfer between badgers and cattle has not yet been effectively measured, and the sub-committee's report raises those points and also raises questions that were raised in the work of the independent scientific group. In circumstances where farmers understand that they must dispose of infected cattle, or cattle that test positive, the associated economic implications must be understood. The debate must turn to the question of how TB in wildlife can be controlled. One thing that is completely clear is that some wildlife is infected with bovine TB, and if we are willing to cull infected cattle, we must be willing to do the same with wildlife, if the link is proven. I endorse the sub-committee's recommendation to expand and develop the pilot areas.

As this debate goes on, the number of cases of TB in Wales is increasing, as is the effect on the industry. The situation as it currently stands is unsustainable. I am pleased that 'One Wales' included a commitment to eradicate TB, and I now look forward to seeing the One Wales Government taking action in this area.

Kirsty Williams: Yr wyf am ddechrau drwy ddiolch i'r Cadeirydd a'r is-bwyllgor am yr adroddiad. Hoffwn longyfarch y Cadeirydd, Alun Davies, am gyflwyno'r ddadl hon mewn ffordd mor bwyllog. Yr oedd popeth yn mynd mor dda, Alun, tan i'ch cyd-Aelod,

Lorraine's rather snide comment about intensive farming does little to further the arguments that she is trying to make, and rather highlights her prejudice and lack of knowledge.

The Presiding Officer: Order. I do not think that Assembly Members make snide comments.

Kirsty Williams: Lorraine's comments on intensive farming do little to promote her arguments, but, I believe, highlight her prejudice. Anyone who knows anything about how TB is spread knows that it is no respecter of how a farmer conducts business. There is nothing intensive about the farming methods employed by many of my constituents who have been shut down as a result of TB.

Lorraine Barrett: I may have my personal views on animal welfare issues, but there is a great deal of scientific evidence to show the effects of intensive farming. I ask you to state your personal interest in this issue: you accuse me of a personal vendetta, when you are in the farming industry yourself, and that justifies your argument. I did not want to get personal, but I have now.

Kirsty Williams: Members will be well aware of my entry in the register of interests and Members should be aware of when it is appropriate and inappropriate for Members to refer to that register. As long as an individual interest is not above and beyond what would normally be expected, one is not required to declare it. Many here will know that I live on a farm and am surrounded by neighbours who are farmers. Fortunately for us, we are free of the disease at the moment.

As I said, Lorraine, if you knew anything at all about the farming industry, you would know that the disease does not choose between the types of farms that become infected. The farm business income statistics have been published today, and they show that lowland farmers' income is down by 24 per cent in the livestock sector and upland

Lorraine Barrett, ymyrryd. Ni fydd sylw coeglyd braidd Lorraine ar ffermio dwys yn gwneud llawer i hyrwyddo'r dadleuon y mae'n ceisio'u cyfleu, ac maent yn dueddol o dynnu sylw at ei rhagfarn a'i diffyg gwybodaeth.

Y Llywydd: Trefn. Nid wyf yn credu bod Aelodau Cynulliad yn gwneud sylwadau coeglyd.

Kirsty Williams: Nid yw sylwadau Lorraine ar ffermio dwys yn gwneud llawer i hyrwyddo'i dadleuon, ond, credaf eu bod yn tynnu sylw at ei rhagfarnau. Mae unrhyw un sy'n gwybod unrhyw beth am y ffordd y mae TB yn cael ei ledaenu'n gwybod nad yw'n parchu ffyrdd ffermwyr o redeg eu busnes. Nid oes dim byd dwys am y dulliau amaethu a ddefnyddir gan lawer o f'etholwyr sydd wedi eu cau o ganlyniad i TB.

Lorraine Barrett: Efallai fod gennyf fy safbwyntiau personol ar faterion lles anifeiliaid, ond mae llawer o dystiolaeth wyddonol sy'n dangos effeithiau ffermio dwys. Gofynnaf ichi ddatgan eich budd personol yn y mater hwn: yr ydych yn fy nghyhuddo i o gynnen bersonol, a chwithau yn y diwydiant ffermio eich hun, ac mae hynny'n cyfiawnhau eich dadl. Nid oeddwn am fod yn bersonol, ond yr wyf wedi bod yn awr.

Kirsty Williams: Bydd Aelodau'n ymwybodol o fy nghofnod yn y gofrestr buddiannau a dylai Aelodau wybod pa bryd y mae'n briodol ac yn amhriodol i Aelodau gyfeirio at y gofrestr honno. Ar yr amod na yw buddiannau unigol yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gellid ei ddisgwyl fel arfer, nid oes angen i neb eu datgan. Bydd llawer yma yn gwybod fy mod yn byw ar fferm a fy mod wedi fy amgylchynu gan gymdogion sy'n ffermwyr. Yn ffodus, nid yw'r clefyd wedi ein taro hyd yma.

Fel y dywedais, Lorraine, petaech yn gwybod rhywbeth am y diwydiant ffermio, byddech yn gwybod nad yw'r clefyd yn dewis rhwng y gwahanol fathau o ffermydd sy'n cael eu heintio. Cafodd ystadegau incwm busnesau fferm eu cyhoeddi heddiw, ac maent yn dangos bod incwm ffermwyr llawr gwlad wedi gostwng 24 y cant yn y sector da byw a

farmers' income is down by 63 per cent in the livestock sector. Therefore, there can be no better day to discuss this issue.

3.20 p.m.

The fact is that we have been here before. In 2004, we had a similar debate on a similar committee report with similar recommendations as to how this problem should be tackled. The difference then was that we had a Minister who was not willing to implement that holistic approach to the disease. Since then, we have seen more pressure put on biosecurity issues, and on testing methods, but we have not seen a drop in the incidence of the disease. Shutdowns, compensation and the culling of cattle continue to increase annually. The current approach serves no-one well. I hope that when the Minister feels that she is in a position to come back and respond more fully to the points of this report, she will realise that doing more of the same will not have a different effect. We can continue to increase biosecurity and testing regimes, but unless we tackle the other side of the argument we will not get a different result. We have to change our approach, and I believe that the approach that has been highlighted by the sub-committee in its report is the correct one.

Turning to the issue of the capacity within the Government department and in the veterinary service across Wales to respond to animal health diseases, I share the Chairman's concern—week after week, we see the number of large animal veterinary practices decline. In Brecon, just this week we have seen another veterinary practice divest itself of large-animal work. It is increasingly difficult to find veterinarians in our community with the skills and the desire to tackle these problems, and with a potential bluetongue disaster facing Wales, and the ongoing threat from foot and mouth disease and tuberculosis, I believe that we need to look at the way that the Government itself is resourced to tackle animal health issues.

Finally, once again, I welcome the way in which this report has been put together, but,

bod incwm ffermwyr mynydd wedi gostwng 63 y cant yn y sector da byw. Felly, nid oes diwrnod gwell na heddiw i drafod y mater hwn.

Y gwir yw ein bod wedi bod mewn sefyllfa debyg o'r blaen. Yn 2004, cawsom ddatl debyg ar adroddiad pwyllgor tebyg gydag argymhellion tebyg ar sut y dylid mynd i'r afael â'r broblem hon. Y gwahaniaeth bryd hynny oedd bod gennym Weinidog nad oedd yn barod i fabwysiadu'r dull gweithredu cyfannol hwnnw at y clefyd. Ers hynny, yr ydym wedi gweld mwy o bwysau'n cael ei roi ar faterion bioddiogelwch, ac ar dulliau profi, ond nid ydym wedi gweld gostyngiad yn nifer yr achosion o'r clefyd. Mae cau ffermydd, iawndal a difa gwartheg yn parhau i gynyddu'n flynyddol. Nid yw'r dull gweithredu presennol yn helpu neb. Gobeithiaf pan fydd y Gweinidog mewn sefyllfa well i ddod yn ôl i ymateb yn llawnach i bwyntiau'r adroddiad hwn, y bydd yn sylweddoli na fydd gwneud mwy o'r un peth yn cael effaith wahanol. Gallwn barhau i gynyddu bioddiogelwch a threfniadau profi, ond oni bai ein bod yn mynd i'r afael ag ochr arall y ddatl ni chawn ganlyniad gwahanol. Rhaid inni newid ein dull o weithredu, a chredaf mai'r dull y tynnwyd sylw ato gan yr is-bwyllgor yn ei adroddiad yw'r un cywir.

Gan droi at allu adran y Llywodraeth a'r gwasanaeth milfeddygol ledled Cymru i ymateb i glefydau ieched anifeiliaid, yr wyf yn rhannu pryderon y Cadeirydd—wythnos ar ôl wythnos, yr ydym yn gweld nifer y parctisiau milfeddygol anifeiliaid mawr yn gostwng. Yr wythnos yma, yn Aberhonddu, gwelsom bractis milfeddygol arall yn rhoi'r gorau i wneud gwaith anifeiliaid mawr. Mae'n mynd yn anos dod o hyd i filfeddygon yn ein cymuned a chanddynt y sgiliau a'r awydd i fynd i'r afael â'r problemau hyn, a chyda Chymru'n wynebu argyfwng clefyd y tafod glas, a'r bygythiad parhaus o glwy'r traed a'r genau a thwbercwlosis, credaf fod angen inni edrych ar yr adnoddau sydd gan y Llywodraeth i fynd i'r afael â phroblemau ieched anifeiliaid.

Yn olaf, eto, yr wyf yn croesawu'r ffordd y paratowyd yr adroddiad hwn, ond, yn y pen

in the end, it is the courage of the Minister to implement the findings that will be the test of whether we can get rid of this disease.

Alun Cairns: I welcome this debate, and I congratulate the Chairman of the sub-committee, Alun Davies, on the report that has been published, which is excellent. I also congratulate the members of the sub-committee on how they supported him.

I would like to speak specifically about recommendation 7, which relates to the culling of wildlife. Much has been made in the debate of the cost to the taxpayer of the compensation paid out as a result of animals contracting bovine TB. We need to bear in mind that the increase in the cost to the taxpayer has come about even after the Auditor General for Wales, and the Audit Committee, reported on bovine TB some years ago with the aim and objective of reducing the overall cost to the public purse. It is important to underline that the compensation is just a small part of the total cost to the farmer, because it only applies to those animals that have contracted the disease—farmers are at a standstill when their animals contract bovine TB, and that has a much greater cost. It is important to recognise that.

However, the last line of recommendation 7 is about the culling of wildlife in areas with hard boundaries, and there are probably only two parts of Wales that can be said to have hard boundaries. One would be Anglesey, because it is an island, and the second would be the Gower. Did the sub-committee consider the parts of Wales that might have a case to make for having hard boundaries, so that the pilots could be done there? The Gower has the coastline to the south, but also a hard industrial line to the north that would provide that natural barrier, allowing an objective test to be made.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Mae'r drafodaeth y prynhawn yma wedi rhoi mwy byth i mi gnoi cil arno wrth ystyried cynnwys y rhaglen gwaredu TB yng Nghymru. Mae gennyf dri phwynt i'w wneud wrth ymateb. Yn gyntaf, dywedodd y Cadeirydd yn ei gyflwyniad fod angen gweithredu ar frys i waredu TB, ac yr wyf yn

draw, dewrder y Gweinidog i weithredu ar y canfyddiadau fydd y prawf a ddengys a fydd modd inni gael gwared ar y clefyd hwn.

Alun Cairns: Yr wyf yn croesawu'r ddadl hon, a llongyfarchaf Gadeirydd yr is-bwyllgor, Alun Davies, ar yr adroddiad a gyhoeddwyd, sy'n un rhagorol. Hoffwn hefyd longyfarch aelodau'r is-bwyllgor am eu cefnogaeth iddo.

Hoffwn sôn yn benodol am argymhelliad 7, sy'n ymwneud â difa bywyd gwyllt. Soniwyd llawer yn y ddadl am y gost y mae'n rhaid i'r trethdalwr ei hysgwyddo yn sgil yr iawndal a delir o ganlyniad i anifeiliaid sy'n dal TB mewn gwartheg. Mae angen inni gadw mewn cof bod y cynnydd yn y gost i'r trethdalwr wedi digwydd hyd yn oed ar ôl i Archwilydd Cyffredinol Cymru, a'r Pwyllgor Archwilio gyflwyno'i adroddiad am TB mewn gwartheg rai blynyddoedd yn ôl gyda'r nod a'r amcan o leihau'r gost gyffredinol i bwrs y wlad. Mae'n bwysig pwysleisio mai rhan fechan yn unig yw'r iawndal o gyfanswm y gost i'r ffermwyr, oherwydd ei fod yn daladwy i'r anifeiliaid hynny sydd wedi dal y clefyd yn unig—mae ffermwyr yn eu hunfan pan fydd eu hanifeiliaid yn dal TB mewn gwartheg, ac mae cost hynny'n llawer uwch. Mae'n bwysig cydnabod hynny.

Fodd bynnag, mae llinell olaf argymhelliad 7 yn ymwneud â difa bywyd gwyllt mewn ardaloedd gyda ffiniau caled, ac mae'n debyg mai dim ond dwy ran o Gymru sydd â ffiniau caled. Un ohonynt yw Ynys Môn, oherwydd ei bod yn ynys, a'r ail yw Penrhyn Gŵyr. A yw'r is-bwyllgor wedi ystyried y rhannau eraill o Gymru y gellid dadlau bod ganddynt ffiniau caled, er mwyn gallu cynnal prosiect peilot yno? Mae gan Benrhyn Gŵyr arfordir deheuol, ond mae ganddo ffin ddiwydiannol yn y gogledd hefyd a fyddai'n gweithredu fel ffin naturiol, gan ganiatáu i brawf gwrthrychol gael ei gynnal yno.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): The debate this afternoon has given me a lot more to think about as I consider the content of the TB eradication programme in Wales. I have three points to make in responding. First, the Chair said that urgent action needs to be taken to eradicate TB, and I agree with him on that. The Chair also

cytuno ag ef ar hynny. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at wendidau yn isadeiledd Llywodraeth y Cynulliad i gwrdd ag anghenion rheoli a gwaredu TB. Dyna pam y clustnodwyd £27 miliwn gan y Llywodraeth, i gryfhau ein gweithgaredd ar waredu TB. Rhaid cofio mai Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sy'n ariannu ac yn rheoli'r asiantaeth Iechyd Anifeiliaid, sy'n gweithredu'n helaeth ar TB yng Nghymru.

Yn ail, yr wyf yn falch nad yw'r drafodaeth y prynhawn yma wedi canolbwyntio ar foch daear yn unig, sy'n duedd anffodus gan y wasg a'r cyfryngau wrth gyflwyno materion sy'n ymwneud â TB. Mae unrhyw raglen i waredu TB yn golygu llawer mwy na chyhoeddiad gennyf i, y Gweinidog, ynglŷn â difa moch daear. Gwn fod gan rai Aelodau deimladau cryf am y materion hyn: mae Lorraine Barrett wedi dal ei safbwynt ar waredu moch daear yn hir ac anrhydeddus, ac mae wedi'i amlinellu eto y prynhawn yma.

Yn olaf, yr hyn nad yw wedi'i drafod ryw lawer y prynhawn yma yw'r effaith ddinistriol ar deuluoedd fferm pan fydd ffermydd yn colli gwartheg ac yn gorfod byw o dan waharddiadau TB. Yn ystod cyfnod o glwy'r traed a'r genau, mae'r cyhoedd yn gweld yn amlwg yr effaith ar deuluoedd fferm pan gaiff anifeiliaid eu cymryd yn orfodol i'w lladd, a hynny o dan reolau rheoli clefydau. Yr ydym oll yn cofio gweld cyfweliadau dirdynnol gan ffermwyr yn Surrey y llynedd, a ffermwyr ar hyd a lled Cymru yn 2001. Mae ffermwyr yng Nghymru a Lloegr yn colli eu hanifeiliaid bron bob dydd oherwydd TB, ac, wrth inni ganolbwyntio ar faterion iechyd anifeiliaid, rhaid cadw mewn cof yr effaith ddirdynol ar deuluoedd fferm wrth i'r clefyd ledu yng Nghymru, fel a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Lywydd, gyda'ch caniatâd, deuaif yn ôl ym mis Ebrill i roi datganiad llawn am raglen y Llywodraeth i waredu TB.

Alun Davies: I thank Members for their kind words during this afternoon's debate. I have enjoyed the debate and the opportunity to hear what may be the first signs of a growing consensus on this issue. Kirsty did her best to break it, but, nevertheless, in terms of taking this issue forward, this work having been completed, there is now a widespread

referred to weaknesses in the Assembly Government's infrastructure in terms of meeting the need to control and eradicate TB. That is why the Government has earmarked £27 million to strengthen our work on eradicating TB. We must remember that the Animal Health agency, which does a great deal of work on TB in Wales, is funded and managed by the Department for Environment, Food and Rural Affairs.

Secondly, I am pleased that this afternoon's debate has not concentrated solely upon badgers, which is the unfortunate tendency of the press and the media in covering stories about TB. Any TB eradication programme is much more than an announcement from me as the Minister on whether badgers should be culled or not. I know that some Members have strong feelings on these issues: Lorraine Barrett has long and honourably held her views on the culling of badgers, and she outlined them once again this afternoon.

Finally, what has not been discussed a great deal this afternoon is the destructive effect on farming families of losing cattle and having to live under TB restrictions. The public can clearly see the effect on farming families of foot and mouth disease outbreaks, when animals are forcibly removed to be culled under disease control regulations. We all remember seeing heart-rending interviews with farmers in Surrey last year and with farmers from all over Wales in 2001. However, farmers in England and Wales lose livestock nearly every day because of TB, and, as we concentrate today on animal health issues, we must also bear in mind the heart-rending effect on farming families as this disease spreads in Wales as it has done over the past few years. As I have said, Presiding Officer, with your permission, I will return in April with a full statement on the Government's programme to eradicate TB.

Alun Davies: Hoffwn ddiolch i Aelodau am eu geiriau caredig yn ystod dadl y prynhawn yma. Yr wyf wedi mwynhau'r ddadl a'r cyfle i glywed yr hyn a all fod yn arwyddion cyntaf consensws cynyddol ar y mater. Gwnaeth Kirsty ei gorau i dorri'r consensws hwnnw, ond, er hynny, o ran bwrw ymlaen â'r mater, mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau, ac mae

recognition, at least, that we need to look at not simply one or two elements of disease control, but a holistic approach to controlling and then eradicating the disease.

I particularly thank the Minister for her remarks this afternoon. I was pleased to see the budget for the eradication of bovine TB, which was announced at the end of our deliberations on this report. I was also pleased to hear the announcement this afternoon of the strategy board that will lead this work, and that we will have an announcement on the overall strategy in early April. Thank you very much for that, Minister, and for how you have supported us in our work over the last few months.

I also thank Brynle, Joyce, Mick, Alun Cairns, Nerys, and even Kirsty Williams, for their contributions this afternoon. Paul Davies reminded us about the personal element of this, and Alun Ffred, as the Chair of the former Environment, Planning and Countryside Committee, reminded us of the context, and that this is not the first time that this issue has been addressed in the Assembly. I hope that we are coming close to a conclusion on it.

In concluding my remarks this afternoon, I would like to address one or two themes that were raised during the debate. The visit to Northern Ireland was instructive for us, and I thank Andrew R.T. Davies for accompanying us on that visit. It opened my eyes to the extent to which the Government in Cardiff needs to invest in an animal disease infrastructure. It does not matter what strategy we follow or determine if we do not have the capacity or infrastructure to implement and sustain that strategy. We need to invest in such an infrastructure, and I hope that that will come out of this work and be a part of the Minister's announcement in early April.

3.30 p.m.

The other issue is how we manage the disease among the wildlife population. Lorraine expresses a widely held view. It is not good enough for any Member to simply dismiss it

cydnabyddiaeth gyffredinol yn awr, o leiaf, bod angen inni edrych nid yn unig ar un neu ddwy elfen o reoli clefydau, ond bod angen mabwysiadu dull gweithredu cyfannol at reoli ac yna dileu'r clefyd.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Gweinidog am ei sylwadau'r prynhawn yma. Yr oeddwn yn falch o weld y gyllideb ar gyfer dileu TB mewn gwartheg, a gyhoeddwyd ar ddiwedd ein trafodaethau ar yr adroddiad, Yr oeddwn yn falch hefyd o glywed y cyhoeddiad y prynhawn yma am y bwrdd strategaeth a fydd yn arwain y gwaith, ac y cawn gyhoeddiad ar y strategaeth gyffredinol ddechrau Ebrill. Diolch yn fawr am hynny, Weinidog, ac am eich cefnogaeth i'n gwaith yn ystod y misoedd diwethaf.

Hoffwn ddiolch hefyd i Brynle, Joyce, Mick, Alun Cairns, Nerys, a hyd yn oed Kirsty Williams, am eu cyfraniadau'r prynhawn yma. Atgoffwyd ni gan Paul Davies am elfen bersonol hyn, ac atgoffodd Alun Ffred ni, fel Cadeirydd y cyn Bwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, o'r cyd-destun, ac nad dyma'r tro cyntaf i'r pwnc hwn gael sylw yn y Cynulliad. Gobeithiaf ein bod yn dod yn agos at gau pen y mwdwl o ran y mater hwn.

Wrth gloi fy sylwadau'r prynhawn yma, hoffwn roi sylw i un neu ddwy o themâu a godwyd yn ystod y ddadl. Yr oedd yr ymweliad â Gogledd Iwerddon yn un fuddiol, a diolchaf i Andrew R.T. Davies am ddod gyda mi ar yr ymweliad hwnnw. Dangosodd imi gymaint yw'r angen i'r Llywodraeth yng Nghaerdydd fuddsoddi mewn seilwaith clefydau anifeiliaid. Ni fydd yn gwneud gwahaniaeth pa strategaeth y byddwn yn ei dilyn nac yn penderfynu arni os na fydd y gallu na'r seilwaith gennym i weithredu a chynnal y strategaeth honno. Mae angen inni fuddsoddi mewn seilwaith o'r fath, a gobeithiaf y digwydd hynny o ganlyniad i'r gwaith hwn ac y bydd yn rhan o gyhoeddiad y Gweinidog ddechrau Ebrill.

Y mater arall yw sut yr ydym yn rheoli'r clefyd ymysg niferoedd anifeiliaid gwyllt. Mynegodd Lorraine farn a goleddir yn eang. Nid yw'n ddigon da i unrhyw Aelod ei

and pretend that that view is not widely held among the population as a whole. However, if we look at the evidence we received as part of this investigation, and if we are determined to eradicate this disease, not simply to spend money on killing animals, we must take very hard decisions. Professor John Bourne, who headed the ISG, said

‘Badgers certainly contribute to the disease in cattle, cattle contribute to the disease in badgers, and cattle contribute to the disease in cattle’.

He went on to say that if we wish to eradicate the disease, and if we are going to eliminate this disease, given the scientific technology available, we have to think in terms of dealing strongly with the badger component as well as the cattle component of the disease. If you believe and accept that there is a link between the reservoir of infection in wildlife and the reservoir of infection in cattle—and no-one has dismissed or denied that link—and you wish to eradicate this disease, then you must adopt a policy of eradication in both the wildlife population and in the cattle population. You cannot walk away from that and pretend that that is not the consequence of your initial belief—a belief that is held by everyone who has studied this disease.

Lorraine Barrett: Will you take an intervention?

Alun Davies: I am sorry, Lorraine, but I have run out of time. This morning, the environment committee in the House of Commons reported in a very similar vein to us; I was pleased to see that, and, frankly, relieved. However, I hope that, in having this inquiry, investigation and debate, and in publishing this report, we add to the overall knowledge of this disease in Wales, we add to the debate on the eradication of this disease, and, I hope, contribute to that work. I thank Members again for their kind words, for their contributions this afternoon and for the way in which the debate has been

gwrthod yn unig a honni nad yw'r farn honno'n cael ei choleddu'n eang ymysg y boblogaeth gyfan. Fodd bynnag, os edrychwn ar y dystiolaeth a gawsom fel rhan o'r ymchwiliad hwn, ac os ydym yn benderfynol o ddileu'r clwyf hwn, yn hytrach na dim ond gwario arian ar ladd anifeiliaid, rhaid inni wneud penderfyniadau anodd iawn. Dywedodd yr Athro John Bourne, a arweiniodd y Grŵp Gwyddonol Annibynnol,

Yn sicr mae moch daear yn cyfrannu at y clwyf mewn gwartheg, mae gwartheg yn cyfrannu at y clwyf mewn moch daear, ac mae gwartheg yn cyfrannu at y clwyf mewn gwartheg.

Aeth yn ei flaen i ddweud, os dymunwn ddileu'r clwyf, ac os byddwn yn dileu'r clwyf, ac ystyried y dechnoleg wyddonol sydd ar gael, ei bod yn rhaid inni feddwl yn nhermau delio'n gryf â'r gydran o'r clwyf sy'n gysylltiedig â moch daear yn ogystal â delio â'r gydran ohono sy'n gysylltiedig â gwartheg. Os ydych yn credu bod cyswllt rhwng cronfa'r haint mewn anifeiliaid gwyllt a chronfa'r haint mewn gwartheg, ac yn derbyn y cyswllt hwnnw—ac nid oes neb wedi gwrthod y cyswllt na'i wadu—a'ch bod yn dymuno dileu'r clwyf hwn, yna mae'n rhaid ichi fabwysiadu polisi dileu yn niferoedd yr anifeiliaid gwyllt ac yn niferoedd y gwartheg. Ni allwch droi eich cefnau ar hynny a chymryd arnoch nad canlyniad yw hynny i'ch cred wreiddiol—cred a goleddir gan bawb sydd wedi astudio'r clwyf hwn.

Lorraine Barrett: A wnewch dderbyn ymyriad?

Alun Davies: Mae'n ddrwg gennyf, Lorraine, ond mae fy amser ar ben. Y bore yma, rhoddwyd gwybodaeth debyg inni gan bwyllgor yr amgylchedd yn Nhŷ'r Cyffredin; yr oeddwn yn falch o weld hynny, ac yr oedd yn rhyddhad imi a bod yn onest. Fodd bynnag, drwy gael yr ymchwiliad hwn, yr archwiliad a'r ddadl, ac wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn, gobeithiaf ein bod yn ychwanegu at y wybodaeth gyffredinol am y clwyf hwn yng Nghymru, ein bod yn ychwanegu at y ddadl am ddileu'r clwyf hwn, a'n bod hefyd, gobeithio, yn cyfrannu at y gwaith hwnnw. Diolchaf i'r Aelodau eto am

conducted. I look forward to the Minister's announcement and statement in early April, and I hope that we will be able to create and maintain a very real consensus to eradicate this absolutely horrible disease from the countryside of Wales.

The Presiding Officer: Nid oes unrhyw Aelod wedi siarad yn erbyn y cynnig i nodi adroddiad yr is-bwyllgor. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Datganiad gan y Llywydd Statement by the Presiding Officer

Y Llywydd: Daeth yn arfer yn ein dadleuon i bleidiau'r Llywodraeth a'r gwrthbleidiau gyflwyno gwelliannau sy'n dileu a rhoi yn eu lle destun cyfan cynigion ar gyfer y math o ddatl sy'n dilyn y datganiad hwn, sef datl yn enwau'r gwrthbleidiau. Mae hwn yn arfer cyffredin yn y Cynulliad erbyn hyn, a'r cynsail sydd wedi'i osod yw i ddethol y gwelliant i'w gynnig ei hun gan y blaid o blith y gwrthbleidiau, sydd wedyn yn caniatáu pleidlais ar sylwedd y cynnig gwreiddiol.

Pan edrychais ar y gwelliannau heddiw, darganfûm dri gwelliant, mewn trefn wrth gwrs, gan yr wrthblaid swyddogol i'w chynnig ei hun. Wedi imi ystyried hyn yn ofalus, yr oeddwn o'r farn nad oedd y cynsail yn darparu'n llwyr am y sefyllfa hon, felly penderfynais wneud yr hyn yr oeddwn yn ei ystyried yn rhesymol, sef cynnal trafodaeth gyda rheolwr busnes y brif wrthblaid, sydd, fel y gŵyr pawb yn y Cynulliad, yn ŵr bonheddig. Cewch glywed ganddo, o'i enau ei hun, ymhen ychydig funudau beth oedd canlyniad y drafodaeth, gan y bydd hynny'n effeithio ar y detholiad a wnaed o'r gwelliannau.

Yr wyf wedi mynegi fy mhenderfyniad bod y mater hwn yn dod gerbron y Pwyllgor Busnes. Gwn fod disgwyl mawr wedi bod am hyn, ond cyn bo hir byddwn yn cyfarfod fel Pwyllgor Busnes yn y Cynulliad newydd i

eu geiriau caredig, am eu cyfraniadau y prynhawn yma ac am y ffordd y cynhaliwyd y ddatl. Edrychaf ymlaen at gyhoeddiad a datganiad y Gweinidog ddechrau Ebrill, a gobeithiaf y byddwn yn gallu creu a chynnal consensws gwirioneddol er mwyn dileu'r clwyf cwbl erchyll hwn o gefn gwlad Cymru.

Y Llywydd: No Member has spoken against the motion to note the sub-committee's report. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

The Presiding Officer: The practice of the Government and opposition parties tabling amendments to delete and replace the entire text of motions for opposition party debates has become commonplace in our debates. This is now common practice in this Assembly, and the precedent that I have established is to select the amendment tabled by an opposition party to its own motion, as this allows a vote on the substance of the original motion.

In relation to today's opposition party debate, three amendments, which are in order, have been tabled by the official opposition party to its own motion. Having considered this carefully, I do not feel that our existing precedent fully covers this situation. Therefore, I decided to take what I consider to be reasonable action, which was to discuss with the business manager of the main opposition party, who, as everyone in the Assembly knows, is a true gentleman. You will hear from him, in his own words, within a few minutes, as to what was the outcome of our discussion, as it will affect the selection of amendments.

I have expressed my intention for this issue to come before the Business Committee for consideration. I know that this has been expected for a long time, but we will meet shortly as a Business Committee of the new

drafod gweithdrefnau. Bydd cyfle wedyn, wrth drafod gweithdrefnau yn y Pwyllgor Busnes, pwy bynnag a fydd yn gwneud hynny, i chwilio am ddull mwy tryloyw i sicrhau bod dadleuon teg a bywiog yn cael eu cynnal, a'n bod yn amddiffyn disgwyliad digon teg y gwrthbleidiau bod cyfle i bleidleisio ar sylwedd eu cynigion.

William Graham: In accordance with your ruling, I will therefore not proceed with amendments 1 and 3 to our motion.

The Presiding Officer: I am grateful to you, as always.

Assembly to discuss procedure. There will be an opportunity, in discussing procedure in the Business Committee, whoever will be doing so, to consider options for a more transparent procedure that will allow for fair and robust debates, as well as protecting the reasonable expectation of opposition parties to see a vote on the substance of their motion.

William Graham: Yn unol â'ch dyfarniad, ni fyddaf yn bwrw ymlaen â gwelliannau 1 a 3 i'n cynnig.

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar ichi, fel bob amser.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.36 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.36 p.m.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Polisiau i Hyrwyddo a Diogelu Cymunedau Cymru Policies to Promote and Protect Communities in Wales

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham, amendment 4 in the name of Carwyn Jones and amendment 5 in the name of Kirsty Williams. If amendment 2 is carried, amendment 4 will be deselected.

Mark Isherwood: I propose that

the National Assembly for Wales:

calls on the Welsh Assembly Government to review its policies to promote and protect communities in Wales. (NDM3873)

I propose amendment 2. Delete all after 'National Assembly for Wales' and replace with:

acknowledges the importance of post offices in protecting our communities and calls on the Assembly Government to:

1. support a sustainable post office network by directing Assembly Government business via post office services.

2. issue guidance to local authorities on the support they may provide to post office

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham, gwelliant 4 yn enw Carwyn Jones a gwelliant 5 yn enw Kirsty Williams. Os derbynir gwelliant 2, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-dethol.

Mark Isherwood: Cynigiau fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu ei pholisiau i hyrwyddo ac amddiffyn cymunedau yng Nghymru. (NDM3873)

Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a rhoi yn ei le:

yn cydnabod pwysigrwydd Swyddfeydd Post o ran diogelu ein cymunedau ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i:

1. cefnogi rhwydwaith cynaliadwy o swyddfeydd post drwy gyfeirio busnes Llywodraeth y Cynulliad drwy wasanaethau swyddfeydd post.

2. cyhoeddi arweiniad i awdurdodau lleol ar y gefnogaeth y gallant ei darparu i

services.

If the Assembly Government is to promote and protect communities in Wales, it must review its policies. We must regenerate and empower local communities through practical action in key areas, supporting our police forces, safeguarding our post offices and sustaining our community schools.

The Assembly Government's amendment, claiming a programme of practical action to rebuild the fabric of communities, including support for police, post offices and community schools, is a denial of reality that ignores the concerns of the people that we are collectively elected to represent.

Each time a local service is lost, a local community is weakened. In Wales, 324 post offices have already closed under Labour since devolution. One third of the Welsh post office network will have closed under Labour by the end of the current round of cuts. If Labour denies that it has let down vulnerable people and communities all over the country, it deludes itself and insults those people and communities.

The decision not to support our motion calling on the UK Government to honour the recent police pay award recommendation was an act of gross political hypocrisy. Labour and Plaid Cymru Assembly Members should be ashamed.

The threat of small school closures is real in communities across the country. It is unsettling for parents and pupils, and it is insulting to teachers. The Labour-Plaid coalition fails to recognise the excellent achievement of many of these schools and the vital role that many play in their communities. I am proud to say that we wrote to councillors in Gwynedd, where 29 small schools are threatened with closure, to urge them to oppose the proposals.

Gaming is a term used where managers change the way they deliver services in a way that improves the performance of the indicator while not achieving improvement in

wasanaethau swyddfeydd post.

Os yw Llywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo a diogelu cymunedau yng Nghymru, rhaid iddi adolygu ei pholisïau. Rhaid inni adfywio cymunedau lleol a'u galluogi drwy weithredu ymarferol mewn meysydd allweddol, gan gefnogi ein heddluoedd, diogelu ein swyddfeydd post a chynnal ein hysgolion cymunedol.

Mae gwelliant Llywodraeth y Cynulliad, sy'n honni bod rhaglen o weithredu ymarferol i ailadeiladu gwedd ein cymunedau, gan gynnwys cefnogaeth i'r heddlu, swyddfeydd post ac ysgolion cymunedol, yn gwadu realiti ac yn anwybyddu pryderon y bobl y cawsom, gyda'n gilydd, ein hethol i'w cynrychioli.

Bob tro y collir gwasanaeth lleol, caiff cymuned leol ei gwanychu. Yng Nghymru, mae 324 o swyddfeydd post eisoes wedi cau dan Lafur ers datganoli. Erbyn diwedd y rownd gyfredol o doriadau, bydd traean rhwydwaith swyddfeydd post Cymru wedi cau o dan Lafur. Os yw Llafur yn gwadu ei bod wedi siomi pobl a chymunedau agored i niwed ar hyd a lled y wlad, mae'n twyllo ei hun ac yn sarhau'r bobl hynny a'r cymunedau.

Yr oedd y penderfyniad i beidio â chefnogi ein cynnig i alw ar Lywodraeth y DU i anrhydeddu'r argymhelliad diweddar o godiad cyflog i'r heddlu yn weithred o ragrith gwleidyddol llwyr. Dylai Aelodau Llafur a Phlaid Cymru yn y Cynulliad gywilyddio.

Mae'r bygythiad y bydd ysgolion bach yn cau yn real mewn cymunedau ledled y wlad. Mae'n tarfu ar rieni a disgyblion, ac mae'n sarhad ar athrawon. Mae'r glymblaid Llafur-Plaid yn methu cydnabod llwyddiant ardderchog nifer o'r ysgolion hyn a'r rôl hanfodol y mae nifer ohonynt yn ei chwarae yn ein cymunedau. Yr wyf yn falch o ddweud inni ysgrifennu at gynghorwyr yng Ngwynedd, lle ceir bygythiad i gau 29 o ysgolion bach, i'w hannog i wrthwynebu'r cynigion.

Mae chwarae â chanlyniadau yn derm a ddefnyddir pan fydd rheolwyr yn newid y ffordd y cyflawnant wasanaethau mewn modd sy'n gwella perfformiad y dangosydd

services delivered to users. This practice was highlighted at last year's Police Federation of England and Wales conference, with stories of children being slapped with a penalty notice for throwing buns at a bus because it counts as a sanction against detection and enables a force to hit its target.

Leighton Andrews: Point of order. This is in respect of the ruling that was announced by the Presiding Officer earlier in relation to two of the amendments. So far, a large proportion of this speech appears to be in respect of those amendments. Has anyone told the Conservative spokesperson that we are no longer debating those amendments?

The Deputy Presiding Officer: It is his debate. What he says in the time available to him is entirely a matter for him.

Nick Bourne: Point of order. The issue of protecting communities is included in the main motion.

The Deputy Presiding Officer: We do not need an explanation. We will just let him to carry on.

Mark Isherwood: I have not proposed those amendments; I am speaking to the main motion.

According to the police federation:

'In the unremitting drive to hit targets...penalty notices are being used by some forces to manipulate their figures to meet various targets.'

It also states that crimes are reclassified to satisfy performance indicators.

A survey conducted by ICM Research for the Taxpayers' Alliance found that, while the overwhelming majority of the public respects the police, less than a quarter think that policing in their area has improved, and less than half think that increases in council tax to pay for improvements to local policing in the last 10 years have been good value for money.

er nad yw'n gwella'r gwasanaethau a gyflwynir i ddefnyddwyr. Cafodd yr arfer hwn ei amlygu yng nghynhadledd Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr y llynedd, lle cafwyd hanesion am blant yn cael hysbysiad cosb am daflu byns at fws oherwydd bod hynny'n cyfrif fel sancsiwn rhag canfyddiad ac yn galluogi heddlu i gyrraedd ei darged.

Leighton Andrews: Pwynt o drefn. Mae hyn ynghylch y dyfarniad a gyhoeddwyd gan y Llywydd yn gynharach ynghylch dau o'r gwelliannau. Hyd yma, ymddengys fod cyfran fawr o'r araith hon yn gysylltiedig â'r gwelliannau hynny. A oes unrhyw un wedi dweud wrth lefarydd y Ceidwadwyr nid ydym y gwelliannau hynny mwyach?

Y Dirprwy Lywydd: Ei ddadl ef ydyw. Ef sydd i benderfynu beth a ddywed yn yr amser sydd ar gael.

Nick Bourne: Pwynt o drefn. Mae amddiffyn cymunedau'n cael ei gynnwys yn y prif gynnig.

Y Dirprwy Lywydd: Nid oes arnom angen esboniad. Gadawn iddo barhau.

Mark Isherwood: Nid wyf wedi cynnig y gwelliannau hynny; yr wyf yn cyflwyno'r cynnig.

Yn ôl ffederasiwn yr heddlu:

Yn yr ymdrech ddi-baid i gyrraedd targedau...caiff hysbysiaidau cosb eu defnyddio gan rai heddluoedd i drin eu ffigurau i gyrraedd gwahanol dargedau.

Dywed hefyd fod troseddau'n cael eu haildiffinio i ddiwallu dangosyddion perfformiad.

Dangosodd arolwg a gyflawnwyd gan ICM Research ar ran Cynghrair y Trethdalwyr, er bod mwyafrif llethol y cyhoedd yn parchu'r heddlu, bod llai na chwarter y cyhoedd yn credu bod plismona yn eu hardal wedi gwella, a bod llai na hanner y cyhoedd yn credu bod codiadau yn y dreth gyngor i dalu am welliannau i blismona lleol yn ystod y deng mlynedd diwethaf wedi rhoi gwerth da

am arian.

3.40 p.m.

A large majority of the public agrees that the police spend too much time in police stations, and not enough time on the beat. They say that their hands are tied by red tape and political correctness, and that they prefer to focus on easy targets, such as speeding motorists, than deal with anti-social behaviour and local crime. All this is happening as police forces faced with cuts come under Home Office pressure to increase expenditure on counter-terrorism and major crime.

Mae mwyafrif helaeth y cyhoedd yn cytuno bod yr heddlu'n treulio gormod o amser mewn gorsafoedd heddlu, heb dreulio digon o amser ar rawd. Dywedant fod eu dwylo wedi'u clymu gan fiwrocratiaeth a chywirdeb gwleidyddol, a bod yn well ganddynt ganolbwyntio ar dargedau hawdd, megis modurwyr yn goryrru, yn hytrach na delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau lleol. Mae hyn i gyd yn digwydd wrth i'r heddluoedd sy'n wynebu toriadau ddod dan bwyasu'r Swyddfa Gartref i gynyddu gwariant ar wrth-derfysgaeth a throseddau mawr.

David Lloyd: To reiterate Leighton Andrews's point, you are meant to be talking to amendment 2, which deletes everything after 'National Assembly for Wales', including any reference to communities. You are meant to be talking about post offices, but I have heard no mention of post offices so far. I await that with interest.

David Lloyd: I ategu pwynt Leighton Andrews, dylech fod yn cyflwyno gwelliant 2, sy'n dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru', gan gynnwys unrhyw gyfeiriad at gymunedau. Dylech fod yn siarad am swyddfeydd post, ond nid wyf wedi clywed unrhyw sôn am swyddfeydd post hyd yma. Disgwyliaf â diddordeb.

The Deputy Presiding Officer: Order. It is not for you, Dai, to tell Mark Isherwood what he wants to say on his own amendment.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid eich lle chi, Dai, yw dweud wrth Mark Isherwood beth y mae'n dymuno'i ddweud ar ei welliant ei hun.

Mark Isherwood: The vote by Labour and Plaid on 30 January not to lobby the UK Government to honour the police pay award in full was a gross betrayal, after 28 years of a pay scheme honoured by successive Governments. As one serving officer told me,

Mark Isherwood: Brad llwyr oedd y bleidlais gan Lafur a Phlaid ar 30 Ionawr i beidio â llobio Llywodraeth y DU i anrhydeddu'r codiad cyflog i'r heddlu yn llawn, a hynny wedi 28 mlynedd o gynllun tâl a anrhydeddwyd gan Lywodraethau olynol. Fel y dywedodd un swyddog sy'n gwasanaethu wrthyf,

'The weakness in simply failing to stand up to central Government control speaks volumes'.

Mae'r gwendid wrth fethu gwrthsefyll rheolaeth y Llywodraeth ganolog yn siarad cyfrolau.

David Lloyd *rose*—

David Lloyd *a gododd*—

Mark Isherwood: I have taken one intervention from you, Dai; I am not taking another one. The officer goes on to say that,

Mark Isherwood: Yr wyf wedi derbyn un ymyriad gennych, Dai; nid wyf yn derbyn un arall. Dywed y swyddog ymhellach,

'To fail to support this relatively straightforward issue fills me with foreboding over the ability of the Labour/ Plaid Cymru

Mae'r methiant o ran cefnogi'r mater cymharol syml hwn yn fy llenwi â rhagargoel ynghylch gallu Llywodraeth glymblaid

coalition Government to effectively represent a divergent view to that held by the national Government, despite the Government's decision being opposed by many Labour and Plaid Cymru MPs'.

Another police officer said,

'I have never in my police career felt so demoralised. All I hear is two-faced political comments about how valued police officers are. I have three sons and would now strongly discourage them from joining the police as a career'.

As another officer said,

'It leaves a bitter taste when an organisation treats its own custodians in this way, to such a degree that I am left feeling utter contempt for our country's leaders'.

I have had hundreds of such comments. During the 30 January debate, it was claimed that the Minister for Social Justice and Local Government had written to the Home Office regarding police pay. The police federation and Nick Bourne asked you for sight of that letter, but, as of yesterday when I last checked, neither had received a response nearly a month later.

In 1997, Labour inherited a profitable post office network, but, by stripping it of services, it turned profit into a loss. We must remind the people of Wales that their Labour Members of Parliament voted to close their local post offices. This is an act of social vandalism. The Assembly Government must seek every opportunity to provide national and local government services over post office counters. [*Interruption.*]

The Deputy Presiding Officer: Order. He is not taking an intervention.

Mark Isherwood: The Welsh Conservatives pledged an extra £16 million for the post office development fund, but this Labour Assembly Government, and its Plaid Cymru fellow travellers, refuses to reopen the post office development fund until the closures

Llafur/Plaid Cymru i gynrychioli barn wahanol i'r un a goleddir gan y Llywodraeth genedlaethol, er bod penderfyniad y Llywodraeth yn cael ei wrthwynebu gan nifer o ASau Llafur a Phlaid Cymru.

Dywedodd swyddog heddlu arall,

Nid wyf erioed yn ystod fy ngyrfa gyda'r heddlu wedi teimlo mor ddigalon. Y cyfan a glywaf yw sylwadau gwleidyddol dauwynebog ynghylch pa mor werthfawr yw swyddogion heddlu. Mae gennyf dri mab a byddwn yn awr yn eu cymell yn gryf i beidio ag ymuno â'r heddlu fel gyrfa.

Fel y dywedodd swyddog arall,

Mae'n gadael blas chwerw pan fydd corff yn trin ei geidwaid ei hun yn y ffordd hon, i'r fath raddau fel fy mod yn teimlo dirmyg llwyr tuag at arweinwyr ein gwlad.

Yr wyf wedi cael cannoedd o sylwadau o'r fath. Yn ystod dadl 30 Ionawr, honnwyd bod y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at y Swyddfa Gartref ynghylch tâl yr heddlu. Mae ffederasiwn yr heddlu a Nick Bourne wedi gofyn ichi am gael gweld y llythyr hwnnw, ond, cyn ddoe, sef y tro diwethaf yr holais, nid oedd y ffederasiwn na Nick Bourne wedi cael ymateb bron fis yn ddiweddarach.

Yn 1997, etifeddodd Llafur rwydwaith swyddfeydd post proffidiol, ond, drwy ei amddifadu o wasanaethau, trodd elw yn golled. Rhaid inni atgoffa pobl Cymru bod eu Haelodau Seneddol Llafur wedi pleidleisio i gau eu swyddfeydd post lleol. Fandaliaeth gymdeithasol yw'r weithred hon. Rhaid i Lywodraeth y Cynulliad geisio pob cyfle i ddarparu gwasanaethau cenedlaethol a gwasanaethau llywodraeth leol dros gownteri swyddfeydd post. [*Torri ar draws.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid yw'n derbyn ymyriad.

Mark Isherwood: Addawodd y Ceidwadwyr Cymreig £16 miliwn yn ychwanegol ar gyfer y gronfa datblygu swyddfeydd post, ond mae Llywodraeth Lafur y Cynulliad, a'i chymdeithion o Blaid Cymru, yn gwrthod ailagor y gronfa datblygu swyddfeydd post

have gone through. These will follow after cynical community consultations, designed to deflect blame and set community against community. The Government should follow the lead set by Members of Parliament in Essex, who have forced Post Office Ltd to open its books to Essex County Council, with a view to the council providing financial assistance to keep threatened post offices open. It should support council leaders in Monmouthshire, who have unanimously backed a campaign against post office closures. It should support council leaders in Denbighshire, who are looking at which post offices are likely to close, and at ways in which they can minimise the impact of those closures. However, they were told by Royal Mail Group Wales, acting as Labour Government proxies, that they were not happy with what they were trying to do in Denbighshire.

However, the real root of the problem was confirmed at the Labour Party conference in Llandudno 11 days ago, when Gordon Brown defended the post office closure programme in Wales. As the Countryside Alliance said,

'the Government has missed the point on post offices, and we are urging it to realise the huge social benefit that they provide. Post offices are the heart of our rural communities and we will fight for them'.

I attended the launch of the rural issues survey at the Royal Welsh Show last year; no Labour or Plaid Cymru Members were there. The Association of Communities in Wales with Small Schools told me that it was seeking meetings with Ministers, that it wanted a voice, that the current situation was not equitable, and that the main issues of concern are focused around the lack of citizen engagement.

As the Campaign for the Protection of Rural Wales states, the Institute of Welsh Affairs report on small school closures appears to ignore all the existing evidence, which favours the educational merits of small schools, including the overwhelming support given by Plaid's great friends, the Scottish

nes bydd cau'r swyddfeydd post wedi gorffen. Bydd cau'r swyddfeydd post yn dilyn ar ôl ymgynghoriadau sinigaidd, a drefnwyd i symud y bai a gosod cymuned yn erbyn cymuned. Dylai'r Llywodraeth ddilyn esiampl a roddwyd gan Aelodau Seneddol yn Essex, sydd wedi gorfodi Swyddfa'r Post Cyf i agor ei lyfrau i Gyngor Sir Essex, gyda'r bwriad o ddarparu cymorth ariannol o du'r cyngor i gadw swyddfeydd post sydd dan fygythiad yn agored. Dylai gefnogi arweinwyr y cyngor yn Sir Fynwy, a roddodd gefnogaeth unfrydol i ymgyrch yn erbyn cau swyddfeydd post. Dylai gefnogi arweinwyr y cyngor yn Sir Ddinbych, sy'n ystyried pa swyddfeydd post sy'n debygol o gau, a pha ddulliau y gallant eu defnyddio i leihau effaith yr achosion hynny o gau. Fodd bynnag, dywedwyd wrthynt gan Grŵp Cymru y Post Brenhinol, oedd yn gweithredu fel dirprwyon y Llywodraeth Lafur, nad oeddent yn fodlon â'r hyn yr oeddent yn ceisio'i wneud yn Sir Ddinbych.

Fodd bynnag, cadarnhawyd gwir wraidd y broblem yng nghynhadledd y Blaid Lafur yn Llandudno 11 diwrnod yn ôl, pan amddiffynnodd Gordon Brown y rhaglen cau swyddfeydd post yng Nghymru. Fel y dywedodd y Cynghair Cefn Gwlad,

mae'r Llywodraeth wedi colli'r pwynt ynghylch swyddfeydd post, ac yr ydym yn ei hannog i sylweddoli'r fantais gymdeithasol enfawr a roddant. Swyddfeydd Post yw calon ein cymunedau gwledig a brwydrwn drostynt.

Yr oeddwn yn bresennol yn lansiad yr arolwg materion gwledig yn Sioe Frenhinol Cymru y llynedd; nid oedd unrhyw Aelodau Llafur na Phlaid Cymru yn bresennol. Dywedwyd wrthyf gan Gymdeithas Cymunedau Cymru ac Ysgolion Bach ei bod yn ceisio cael cyfarfodydd gyda Gweinidogion, bod arni eisiau llais, nad oedd y sefyllfa gyfredol yn deg, ac mai'r prif faterion pryder yw'r diffyg ymgysylltiad gan ddinasyddion.

Fel y dywed Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, ymddengys fod adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig ar gau ysgolion bach yn anwybyddu'r holl dystiolaeth bresennol, sydd o blaid manteision addysgol ysgolion bach, gan gynnwys y gefnogaeth lethol a roddwyd gan gyfeillion mawr Plaid

National Party, and the presumption against closure applying to small schools in England.

When I recently referred, here in the Chamber, to the letter that the UK Government issued to local authorities in England stating that, by law, small rural schools should not be closing, Carwyn Jones responded by stating that that related to schools with 75 children. However, the UK Department for Children, Schools and Families advises that it does not have a definition of a small school and that it is a matter for the local education authority.

The Institute of Welsh Affairs report fails to acknowledge Ofsted conclusions regarding the quality of teaching in small schools and the report of the former Countryside Commission to Parliament in 2005, which highlights the reality that schools with fewer than 100 pupils get the best results.

This Labour Assembly Government with its Plaid Cymru props must not ignore concern about the general erosion of community life and rural services that provide the social glue that binds communities together. Speaking in Llandudno, Gordon Brown dismissed suggestions that rural communities have come under pressure. What contemptible arrogance.

The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons): I propose amendment 4 in the name of Carwyn Jones. Delete all after 'National Assembly for Wales' and replace with:

endorses the ambition set out in 'One Wales' to rebuild the social, economic and cultural fabric of communities through a programme of practical action including support for the police, the post office network and community schools.

Peter Black: I propose amendment 5 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to empower local communities by promoting

Cymru, Plaid Genedlaethol yr Alban, a'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion bach yn Lloegr.

Pan gyfeiriais yn ddiweddar, yma yn y Siambr, at y llythyr a anfonwyd gan Lywodraeth y DU at awdurdodau lleol yn Lloegr yn datgan na ddylai ysgolion bach gwledig, o dan gyfraith, fod yn cau, ymatebodd Carwyn Jones drwy ddweud bod hynny'n cyfeirio at ysgolion â 75 o blant ynddynt. Fodd bynnag, mae Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd y DU yn dweud nad oes ganddi ddiffiniad o ysgol fach ac mai mater i'r awdurdod addysg lleol yw hynny.

Nid yw adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig yn cydnabod casgliadau Ofsted ynghylch ansawdd addysgu mewn ysgolion bach nac adroddiad y Comisiwn Cefn Gwlad gynt i'r Senedd yn 2005, sy'n tynnu sylw at y realiti mai ysgolion â llai na 100 o blant sy'n cael y canlyniadau gorau.

Rhaid i'r Llywodraeth Lafur hon gyda'i chefnogwyr o Blaid Cymru beidio ag anwybyddu pryder ynghylch y ffaith bod bywyd cymunedol a gwasanaethau gwledig sy'n darparu'r glud cymunedol sy'n cadw cymunedau gyda'i gilydd yn erydu'n gyffredinol. Pan siaradodd yn Llandudno, wffiodd Gordon Brown awgrymiadau bod cymunedau gwledig dan bwysau. Dyna agwedd drahaus i'w dirmygu.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons): Cynigiau welliant 4 yn enw Carwyn Jones. Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a rhoi yn ei le:

yn cymeradwyo'r uchelgais a nodir yn 'Cymru'n Un' i ailadeiladu cyfansoddiad cymdeithasol, economaidd a diwylliannol cymunedau drwy raglen o weithgarwch ymarferol yn cynnwys cymorth ar gyfer yr heddlu, rhwydwaith y swyddfa bost ac ysgolion cymunedol.

Peter Black: Cynigiau welliant 5 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i rymuso cymunedau lleol drwy hyrwyddo

opportunities for local people to manage local amenities.

The range of the motion before us is wide, and that is evident from the three amendments that the Conservatives have tabled, each of which tries to delete the other, which left me thoroughly confused until William Graham stood up to withdraw two of them. However, the scope of the amendments as tabled, in terms of post offices, the police, schools and a whole range of other services provided in communities, underlines the threat and the opportunities faced by communities throughout Wales.

As Mark Isherwood said, there are huge issues in relation to community policing and community safety, as well as in relation to post offices, which are under threat in many communities around Wales. The Government is leading that threat and, in Wales, we are going to have to wait at least another year before we see any more money from the community post office development fund. Schools are facing huge issues in terms of the condition of buildings and surplus places, all of which means that local authorities are having to work closely with communities to reorganise and to try to put in place more sustainable arrangements. That will inevitably be controversial.

I want to concentrate on the Welsh Liberal Democrats' amendment. At the heart of Welsh Liberal Democrat philosophy is the idea of engaging people with their communities. What better way to do that than to allow people to take control of amenities in their area, using knowledge to run their facilities in their way, for their own community? What better way to engage them and allow them to take back control of their lives than to let them have a say in the running of the services that they use? What better way to ensure that services are responsive to local needs than listening to local people? That can be done in several ways. We can, for example, give community groups the right to buy important community land or buildings. If community groups registered an interest, we could offer them first refusal on the land. Subject to fundraising and a community ballot, we

cyfleoedd i bobl leol reoli amwynderau lleol.

Mae rhychwant y cynnig ger ein bron yn eang, ac mae hynny'n amlwg o'r tri gwelliant a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr, y naill yn ceisio dileu'r llall. Yr oeddwn wedi drysu'n llwyr nes i William Graham sefyll ar ei draed a thynnu dau ohonynt yn ôl. Fodd bynnag, mae cwmpas y gwelliannau fel y'u cyflwynwyd, o ran swyddfeydd post, yr heddlu, ysgolion ac ystod eang o wasanaethau eraill a ddarperir mewn cymunedau, yn pwysleisio'r bygythiad a'r cyfleoedd y mae cymunedau ledled Cymru yn eu hwynebu.

Fel y dywedodd Mark Isherwood, ceir problemau mawr o ran plismona cymunedol a diogelwch cymunedol, ac o ran swyddfeydd post, sydd dan fygythiad mewn nifer o gymunedau ledled Cymru. Mae'r Llywodraeth yn arwain y bygythiad hwnnw ac, yng Nghymru, bydd yn rhaid inni aros blwyddyn arall o leiaf cyn inni weld rhagor o arian o gronfa datblygu swyddfeydd post cymunedol. Mae ysgolion yn wynebu problemau enfawr o ran cyflwr yr adeiladau a lleoedd gwag, ac mae hyn oll yn golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol weithio'n agos gyda chymunedau i ad-drefnu ac i geisio rhoi trefniadau mwy cynaliadwy ar waith. Bydd hynny, yn anochel, yn ddadleuol.

Hoffwn ganolbwytio ar welliant Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Wrth wraidd athroniaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru mae'r syniad o ymgysylltu pobl â'u cymunedau. Pa ffordd well o wneud hynny na chaniatáu i bobl gymryd rheolaeth dros amwynderau eu hardal, gan ddefnyddio gwybodaeth i redeg eu cyfleusterau yn eu ffordd eu hunain, er budd eu cymuned? Pa ffordd well o ymgysylltu â hwy a chaniatáu iddynt adennill rheolaeth dros eu bywydau na thrwy adael iddynt gael llais yn y ffordd y caiff y gwasanaethau a ddefnyddiant eu rhedeg? Pa ffordd well o sicrhau bod gwasanaethau'n ymatebol i anghenion lleol na gwranddo ar bobl leol? Gellir gwneud hynny mewn nifer o ffyrdd. Gallwn, er enghraifft, roi hawl i grwpiau cymunedol brynu tir neu adeiladau cymunedol pwysig. Petai grwpiau cymunedol yn cofrestru diddordeb, gallem roi'r cynnig

could pass the land directly to community groups. That would be real community action leading to real community benefit.

We can strengthen the powers of town and community councils. Currently, the number and location of community councils vary dramatically across Wales. Local communities should have devolved funds to help them deliver local services. That happens in several councils to a limited extent but it could be taken further. That would be particularly important in rural areas, where towns and villages may be many miles from the town hall, but it could also work in urban areas, as has been evidenced in different parts of the UK over the last decade or so, particularly where Liberal Democrats have run the council, such as in Tower Hamlets back in the 1980s. We can take an approach that still allows local people to run amenities within the purview of local councils' strategic decision making. I would like to see the Welsh Assembly Government promote opportunities where local groups can take charge of the day-to-day running of those amenities. There are good examples in Swansea and Neath Port Talbot, where both councils have set up community trusts to run their leisure services. Those trusts have people from local communities running the facilities, and bringing gains in terms of the costs of running those facilities; because they are run by a charitable trust, they are able to reclaim the valued added tax, so it makes it cheaper to fund those facilities and what is being delivered on behalf of local people.

3.50 p.m.

When local services such as shops, pubs and petrol stations are under threat, we should examine ways in which we can support residents' groups who want to take them over. There was an excellent example a few years ago in Parkmill in Gower, where the post office was under threat and the local chapel took it over and installed the post office in the chapel. I am sure that there are

cyntaf ar dir iddynt hwy. Yn amodol ar godi arian a phleidlais gymunedol, gallem drosglwyddo'r tir yn uniongyrchol i grwpiau cymunedol. Byddai hynny'n weithgaredd go iawn yn y gymuned a fyddai'n arwain at fudd gwirioneddol i'r gymuned.

Gallwn gryfhau pwerau cynghorau tref a chymuned. Ar hyn o bryd, mae lleoliad a nifer y cynghorau cymuned yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Dylai cymunedau lleol gael arian wedi'i ddatganoli i'w helpu i ddarparu gwasanaethau lleol. Mae hynny'n digwydd mewn llawer o gynghorau i ryw raddau ond gellid mynd ag ef ymhellach. Byddai hynny'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig, lle gallai trefi a phentrefi fod filltiroedd lawer o neuadd y dref, ond gallai hefyd weithio mewn ardaloedd trefol, fel y gwelwyd mewn gwahanol rannau o'r DU dros y degawd neu fwy diwethaf, yn arbennig lle mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi rhedeg y cyngor, fel yn Tower Hamlets yn y 1980au. Gallwn gymryd ymagwedd sy'n parhau i alluogi pobl leol i redeg amwynderau o fewn cylch proses gwneud penderfyniadau strategol cynghorau lleol. Hoffwn weld Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hybu cyfleoedd lle y gall grwpiau lleol gymryd rheolaeth dros redeg yr amwynderau hynny o ddydd i ddydd. Ceir enghreifftiau da yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, lle mae'r ddau gyngor wedi sefydlu ymddiriedolaethau cymunedol i redeg eu gwasanaethau hamdden. Yn yr ymddiriedolaethau hynny mae pobl o'r cymunedau lleol yn rhedeg y cyfleusterau, ac yn creu buddiannau o ran costau rhedeg y cyfleusterau hynny; oherwydd eu bod yn cael eu rhedeg gan ymddiriedolaeth elusennol, gallant adennill treth ar werth, felly mae'n rhatach ariannu'r cyfleusterau hynny a'r hyn a ddarperir ar ran pobl leol.

Pan fydd gwasanaethau lleol fel siopau, tafarnau a gorsafoedd petrol dan fygythiad, dylem edrych ar ffyrdd o gefnogi grwpiau preswylwyr sydd am eu rhedeg. Yr oedd enghraifft wych ychydig flynyddoedd yn ôl yn Parkmill yng Ngŵyr, lle'r oedd y swyddfa bost dan fygythiad a throsglwyddwyd yr awenau i'r capel lleol a symudodd y swyddfa bost i'r capel. Yr wyf yn siŵr bod

other examples where post offices have been subsumed into existing shops or local pubs, and because they have been taken over by the local community the businesses remain sustainable; this also applies to other facilities. We need to find ways in which we can be imaginative and encourage people to act in this way to save these vital services.

There are other examples where local communities have taken action to deal with a particular problem; I referred in a debate last week or the week before to the Kenfig Hill, Pyle and Cornelly Youth Centre in Pyle in Bridgend. What happened there was that a local resident, whose son had died from a drug overdose, decided that she wanted to take action, so she squatted on a piece of council land, got the nearby Parc prison to donate its canteen building, and set up a local youth centre. If you were to go there now, you would see a huge complex with computers, a drop-in cafe, and a place for local kids to play pool or table tennis, not to mention a BMX track, an all-weather pitch and a whole range of other facilities. They are getting hundreds of young people there every night, and, as a result, they have reduced youth crime, and they have not had a penny of council money to deliver that.

So, what we are saying in the amendment is that there is a whole range of things which can be done to put services back under the control of local people, and I urge the Assembly Government to adopt this and to look further into how that can be delivered.

Nick Ramsay: I support the motion and amendment 2 in the name of William Graham. It is a wide-ranging debate, and I will focus on the post office issue because other areas have been well covered by my colleague. The post office issue is a large one, and the original motion shows the way in which the different aspects of this proposal—the post office network, the importance of community schools and the policing element—come together to provide the types of services that our rural communities and villages need and rely on, and which are currently under threat and have

enghreifftiau eraill lle mae swyddfeydd post wedi cael eu huno â siopau neu dafarnau, ac oherwydd i'r gymuned leol gymryd yr awenau, sicrhawyd bod y busnesau'n parhau yn gynaliadwy; mae hynny hefyd yn berthnasol i gyfleusterau eraill. Mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio ein dychymyg ac annog pobl i weithredu yn y ffordd honno er mwyn achub y gwasanaethau hollbwysig hynny.

Ceir enghreifftiau eraill lle mae'r gymuned leol wedi cymryd camau i ymdrin â phroblem benodol; cyfeiriais mewn dadl yr wythnos diwethaf neu'r wythnos flaenorol at Ganolfan Ieuentid Mynydd Cynffig, y Pîl a Chorneli ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yr hyn a ddigwyddodd yno oedd bod un o'r trigolion lleol, yr oedd ei mab wedi marw o orddos o gyffuriau, wedi penderfynu ei bod am weithredu, felly sgwatiodd ar ddarn o dir y cyngor, llwyddodd i gael carchar y Parc gerllaw i ddarparu ei gantîn, a sefydlodd ganolfan ieuentid leol. Petaech yn mynd yno yn awr, gwelech adeilad anferth gyda chyfrifiaduron, caffi galw heibio, a lle i blant lleol chwarae pŵl neu denis bwrdd, heb sôn am drac BMX, cae pob tywydd ac ystod eang o gyfleusterau eraill. Mae cannoedd o bobl ifanc yn mynd yno bob nos, ac, o ganlyniad, maent wedi lleihau troseddau ymysg ieuentid, ac nid ydynt wedi cael ceiniog o arian y cyngor i wneud hynny.

Felly, yr hyn a ddywedwn yn y gwelliant yw bod ystod eang o bethau y gellir eu gwneud er mwyn rhoi gwasanaethau yn ôl i'r bobl leol eu rheoli, a phwysaf ar Lywodraeth y Cynulliad i fabwysiadu hyn ac i edrych ymhellach ar sut y gellir ei gyflawni.

Nick Ramsay: Cefnogaf y cynnig a gwelliant 2 a gyflwynwyd yn enw William Graham. Mae'n ddadl eang, a chanolbwyntiaf ar y swyddfeydd post oherwydd mae fy nghyd-Aelod eisoes wedi trafod y meysydd eraill yn fanwl. Mae'r broblem swyddfeydd post yn un fawr, a dengys y cynnig gwreiddiol y ffordd y mae gwahanol agweddau ar y cynnig hwn—rhwydwaith y swyddfeydd post, pwysigrwydd ysgolion cymunedol a'r elfen blismona—yn dod ynghyd i ddarparu'r mathau o wasanaethau y mae eu hangen ar ein cymunedau a'n pentrefi gwledig a'r gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt, ac

been eroded over the past 10 years of a Labour Government in Westminster.

More than 300 post offices have been closed over the past 10 years in Wales alone; I think that 4,000 have closed in the UK as a whole. The worrying thing is the way in which this process has accelerated. I do not think that anyone says that no business will ever close—that is ridiculous and out of the question; we accept the economic realities of the world in which we live. However, the scale of this closure programme has been unprecedented, and there does not seem to be—

Bethan Jenkins: What do you say about the 3,500 post offices that were closed under the Tory reign? You actively pursued that agenda, and it is being continued by the New Labour Government in London.

Nick Ramsay: The fact is that your party is not doing anything with the Labour Assembly Government, which you are propping up, to alter that situation. The withdrawal of the post office development fund was a huge backward step, and it has not been—

Mark Isherwood: Do you not agree that although some post offices did close under the Conservatives, the rate of closure has more than doubled and that by the end of it, the Government will have closed a third of the whole network?

Nick Ramsay: That was well put, Mark. The problem is that we are seeing a massive closure programme, and what we on this side of the Chamber are talking about is what we will do to address that. [*Interruption.*]

The Deputy Presiding Officer: Order. You may not like what he is saying, but let us hear it, because I am interested in what he is saying. So, may we have a bit of hush while Nick Ramsay finishes his speech? Thank you.

Nick Ramsay: I am sure that the Deputy

sydd ar hyn o bryd o dan fygythiad ac wedi edwino dros y 10 mlynedd diwethaf dan y Llywodraeth Lafur yn San Steffan.

Mae dros 300 o swyddfeydd post wedi'u cau dros y 10 mlynedd diwethaf yng Nghymru yn unig; credaf fod 4,000 wedi cau yn y DU gyfan. Y pryder mawr yw'r ffordd y mae'r broses hon wedi cyflymu. Ni chredaf fod neb yn dweud na fydd unrhyw fusnes byth yn cau—mae hynny'n hurt ac yn amhosibl; yr ydym yn derbyn realiti economaidd y byd yr ydym yn byw ynddo. Fodd bynnag, mae maint y rhaglen hon o gau swyddfeydd post yn rhywbeth nas gwelwyd ei fath, ac nid yw'n amlwg bod—

Bethan Jenkins: Beth a ddywedwch am y 3,500 o swyddfeydd post a gaewyd o dan lywodraeth y Torïaid? Aethoch ar drywydd yr agenda honno o ddifrif, ac mae Llywodraeth Llafur Newydd yn Llundain yn parhau â hi.

Nick Ramsay: Y gwir amdani yw nad yw eich plaid chi yn gwneud dim ar y cyd â Llywodraeth Lafur y Cynulliad, yr ydych yn ei chefnogi, i newid y sefyllfa honno. Yr oedd diddymu cronfa ddatblygu'r Swyddfa Bost yn gam enfawr yn ôl, ac ni fu'n—

Mark Isherwood: Oni chytunwch er i rai swyddfeydd post gau o dan y Ceidwadwyr, fod y gyfradd wedi mwy na dyblu ac y bydd y Llywodraeth, yn y pen draw, wedi cau traean o'r rhwydwaith cyfan?

Nick Ramsay: Dywedasoeh hynny'n groyw, Mark. Y broblem yw ein bod yn gweld rhaglen gau enfawr, a'r hyn yr ydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn sôn amdano yw sut y byddem yn mynd i'r afael â hynny. [*Torri ar draws.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Efallai nad ydych yn hoff o'r hyn y mae'n ei ddweud, ond gadewch inni ei glywed oherwydd mae gennyf ddiddordeb yn yr hyn y mae'n ei ddweud. Felly, a allwn gael ychydig o dawelwch tra mae Nick Ramsay yn gorffen ei araith? Diolch.

Nick Ramsay: Yr wyf yn siŵr y bydd y

Presiding Officer will, on hearing more of what I have to say, will like it. We are not seeing the sort of progress that we need. If we want to see post office services truly deliver in the way that local communities expect, we have to allow those post offices to deliver the services that people need. That is not happening at the moment. We have seen services being withdrawn right across the board. It is shameful.

Alun Ffred Jones: You refer to the fact that more Government services should be offered through post offices. What services do you have in mind?

Nick Ramsay: There is a whole range of Assembly Government services that have been withdrawn, including, for example, council tax payments. However, this is about not just what the Assembly Government can provide, but what local authorities would very much like to provide through the post office network. However, they have to be given the necessary support from the top. It was mentioned by my colleague that local authorities such as Monmouthshire County Council, and others, would very much like to provide those services, but they are not able to do so because the will is not there at the top. [*Interruption.*]

The Deputy Presiding Officer: Order. I am sorry, but we cannot have these cross-Chamber interventions from people who are sitting down. If you want to make an intervention, please stand up, but Nick has already taken three interventions and he is running out of time. Nick, will you carry on, please?

Nick Ramsay: I think that that means that I will not be taking any more interventions.

The Assembly Government needs to do a lot more to allow our post offices to provide the services that people need and expect. We have seen a constant erosion of services over the past 10 years and it is about time that we saw a change in policy. Rather than just idle talk here about well-meaning policies, we need to see real action. At the end of the day, the post office network is the heart of our

Dirprwy Lywydd, wrth glywed mwy o'r hyn sydd gennyf i'w ddweud, yn ei hoffi. Ni welwn y math o gynnydd y mae ei angen arnom. Os ydym am weld gwasanaethau swyddfeydd post yn cael eu darparu yn y ffordd a ddisgwylir gan gymunedau lleol, rhaid inni ganiatáu i'r swyddfeydd post hynny ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar bobl. Nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Yr ydym wedi gweld gwasanaethau'n cael eu diddymu yn gyffredinol. Mae'n gywilyddus.

Alun Ffred Jones: Cyfeiriwch at y ffaith y dylid cynnig rhagor o wasanaethau'r Llywodraeth drwy swyddfeydd post. Pa wasanaethau sydd gennych mewn golwg?

Nick Ramsay: Mae ystod eang o wasanaethau Llywodraeth y Cynulliad wedi cael eu diddymu, gan gynnwys, er enghraifft, taliadau'r dreth gyngor. Fodd bynnag, mae a wnelo â mwy na'r hyn y gall Llywodraeth y Cynulliad ei ddarparu; mae a wnelo hefyd â'r hyn y mae awdurdodau lleol yn awyddus iawn i'w ddarparu drwy rwydwaith y swyddfeydd post, ond rhaid iddynt gael y cymorth angenrheidiol o'r brig. Soniodd fy nghyd-Aelod fod awdurdodau lleol fel Cyngor Sir Fynwy, ac eraill, yn awyddus iawn i ddarparu'r gwasanaethau hynny, ond ni allant wneud hynny oherwydd nid oes cefnogaeth o'r brig. [*Torri ar draws.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, ond ni allwn ganiatáu'r ymyriadau hyn ar draws y Siambr gan bobl sydd ar eu heistedd. Os hoffech wneud ymyriad, sefwich ar eich traed, ond mae eisoes wedi derbyn tri ymyriad ac mae ei amser yn prin. Nick, parhewch, os gwelwch yn dda.

Nick Ramsay: Credaf fod hynny'n golygu na fyddaf yn derbyn rhagor o ymyriadau.

Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad wneud mwy o lawer er mwyn caniatáu i'n swyddfeydd post ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar bobl ac a ddisgwylir gan bobl. Yr ydym wedi gweld gwasanaethau'n edwino'n gyson dros y 10 mlynedd diwethaf ac mae'n hen bryd inni weld newid mewn polisi. Yn hytrach na siarad gwag yma am bolisiau sy'n llawn bwriadau da, mae angen

rural and village communities and it serves the most vulnerable people in our society. It is a shame—

Carl Sargeant *rose*—

Nick Ramsay: As it is you, Carl, I will take one tiny intervention.

Carl Sargeant: Thank you for allowing me to make an intervention, to ask you one simple question. If it is so important to the Welsh Conservatives, why did you, or any of your Welsh MP colleagues, not make a submission in May 2007 in response to the Department of Trade and Industry's proposal on post office networks? Not one of you made a submission. I think that your comments are nothing but rhetoric.

Nick Ramsay: That was well spoken. In fact, Carl, it is your Government that is not taking the necessary action to deal with this. We are not talking about the past; we are talking about the future. Post offices are closing at the moment, and I think that it would be very disappointing for the people out there if, at the end of this debate, amendment 2 does not get the support that it deserves. [*Interruption.*]

The Deputy Presiding Officer: Order. I am sorry, but it is getting to the point when I cannot hear what people are saying, so please try to restrict your comments to when you are standing. There will be no more comments from Members who are sitting down. The barracking in the background is quite good fun, but it does make it very difficult for people to be heard.

Irene James: I welcome this debate today, but I am a little surprised that the Conservatives have decided to call a debate on promoting and protecting communities in Wales. Without wishing to hark back to the past, I say that as someone who was born, brought up and still lives in a community that they tried to destroy. I am talking not just about their policy of creating record levels of employment—emphasised most clearly in Islwyn with the closure of our pits—but about their appalling record on investment in

inni weld camau go iawn. Yn y pen draw, rhwydwaith ein swyddfeydd post sydd wrth galon ein cymunedau gwledig a'n pentrefi ac mae'n gwasanaethu'r bobl fwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas. Mae'n drueni—

Carl Sargeant *a gododd*—

Nick Ramsay: Gan mai chi ydyw, Carl, derbyniaf un ymyriad bach.

Carl Sargeant: Diolch am ganiatáu imi ymyrryd, i ofyn un cwestiwn syml ichi. Os yw mor bwysig i Geidwadwyr Cymru, pam na wnaethoch chi, neu unrhyw un o'ch cyd-Aelodau Seneddol Cymreig, gyflwyniad ym mis Mai 2007 mewn ymateb i gynnig yr Adran Masnach a Diwydiant ar rwydweithiau swyddfeydd post? Ni wnaeth yr un ohonoch gyflwyniad. Credaf nad yw eich sylwadau'n ddim ond rhethreg.

Nick Ramsay: Siaradasoch yn groyw. Yn wir, Carl, eich Llywodraeth chi yw'r un nad yw'n cymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â hyn. Nid ydym yn sôn am y gorffennol; yr ydym yn sôn am y dyfodol. Mae swyddfeydd post yn cau ar hyn o bryd, a chredaf y byddai pobl yn siomedig iawn oni chaiff gwelliant 2 gefnogaeth haeddiannol ar ddiwedd y ddadl hon. [*Torri ar draws.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, ond mae wedi dod i sefyllfa lle na allaf glywed yr hyn y mae pobl yn ei ddweud, felly ceisiwch gyfyngu eich sylwadau pan fyddwch ar eich traed. Ni dderbynnir rhagor o sylwadau gan Aelodau sydd ar eu heistedd. Mae'r hwtio yn y cefndir yn hwyl, ond mae'n ei gwneud yn anodd iawn i bobl gael eu clywed.

Irene James: Croesawaf y ddadl hon heddiw, ond synnaf braidd i'r Ceidwadwyr benderfynu galw am ddadl ar hybu a diogelu cymunedau yng Nghymru. Heb rygnu ymlaen am y gorffennol, dywedaf hynny fel rhywun a aned, a fagwyd ac sy'n parhau i fyw mewn cymuned y bu iddynt geisio ei dinistrio. Nid sôn am eu polisi o greu'r lefelau uchaf erioed o ddiweithdra yn unig yr wyf—sefyllfa a amlygwyd yn glir yn Islwyn yn sgîl cau ein pyllau glo—ond am eu record warthus o fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion a chau

school buildings and the closure, as has been said, of thousands of post offices, and their botched attempt to privatise the rest. May we just take a second to contrast that with the record of Labour in Wales?

Communities First projects have been rolled out right across Wales to rebuild the very communities that the Tories tried to destroy. There are such projects in my constituency, such as the one in Cefn Fforest. I look forward to seeing the impact that Communities Next will have, with its increased emphasis on economic regeneration. The police service in Wales has seen a significant increase in resources on a like-for-like basis. The Government grant for the police will have increased by over 52 per cent between 1999 and 2008. My own Labour council in Caerphilly has launched the successful Safer Caerphilly County Borough Community Safety Partnership, which has cut crime and disorder and anti-social behaviour, and the fear of crime in the area has gone down significantly.

Nick Bourne: I am grateful to Irene James for giving way. Your commitment to the police is very welcome and, I am sure, genuine. Therefore, could you explain why you voted against the police pay settlement being paid in full?

4.00 p.m.

Irene James: That was not our decision to make, as it was not a devolved matter.

Jenny Randerson: You know that you have got it wrong.

Irene James: I do not think that I have, Jenny.

Safer Caerphilly, the county borough community safety partnership, is a multi-agency organisation, whose five statutory bodies are Caerphilly County Borough Council, Gwent Police, Caerphilly Local Health Board, South Wales Fire and Rescue Service, and the Gwent Police Authority. That partnership has achieved fantastic results.

miloedd o swyddfeydd post, fel y dywedwyd, a'u hymdrechion aflwyddiannus i breifateiddio'r gweddill. Beth am inni, am eiliad, wrthgyferbynnu hynny â record Llafur yng Nghymru?

Cyflwynwyd prosiectau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru i ailadeiladu'r union gymunedau y ceisiodd y Torïaid eu dinistrio. Mae prosiectau o'r fath yn fy etholaeth i, fel yr un yng Nghefn Fforest. Edrychaf ymlaen at weld effaith Cymunedau Nesaf, gyda'i bwyslais cynyddol ar adfywio economaidd. Bu cynnydd sylweddol yn yr adnoddau ar gyfer gwasanaeth yr heddlu Nghymru ar sail tebyg at ei debyg. Bydd grant y Llywodraeth i'r heddlu wedi cynyddu dros 52 y cant rhwng 1999 a 2008. Mae fy nghyngor Llafur i yng Nghaerffili wedi lansio Partneriaeth Diogelwch Cymunedol lwyddiannus, sef Bwrdeistref Sirol Caerffili Mwy Diogel, sydd wedi lleihau troseddau ac anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mae'r ofn yn yr ardal yn sgil troseddau wedi gostwng yn sylweddol.

Nick Bourne: Yr wyf yn ddiolchgar i Irene James am ildio. Croesewir eich ymrwymiad i'r heddlu yn fawr ac yr wyf yn siŵr ei fod yn ddilys. Felly, a allech esbonio pam y gwnaethoch bleidleisio yn erbyn talu setliad cyflogau'r heddlu yn llawn?

Irene James: Nid ein penderfyniad ni oedd hwnnw i'w wneud, gan nad oedd yn fater oedd wedi cael ei ddatganoli.

Jenny Randerson: Gwyddoch eich bod yn anghywir yn hyn o beth.

Irene James: Ni chredaf fy mod, Jenny.

Mae Caerffili Saffach, partneriaeth diogelwch cymunedol y fwrdeistref sirol, yn gorff amlasiantaethol, a'r pum corff statudol arno yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Heddlu Gwent, Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, ac Awdurdod Heddlu Gwent. Mae'r bartneriaeth honno wedi sicrhau canlyniadau gwyach.

Although the Conservatives will not like being reminded of it, that is in stark contrast to the previous Conservative Government's appalling record on crime prevention in the south Wales Valleys. While I am not complacent about the work that has yet to be done, I challenge the Welsh Conservatives, who have done so much in the past to undermine our communities, to congratulate those communities and Labour on the good work that has been and still is being done.

Andrew R.T. Davies: I welcome the opportunity to contribute to this debate on our communities. Communities, in their various facets, are the lifeblood of the constituencies and regions—north, south, east and west—that all Members are elected to represent. As a Member for South Wales Central, I have seen the effects of the post office closure programme in my region. We have seen 29 post office closures, and I note with dismay the distress caused in communities by this flagship operation being taken off so many high streets. There is also the seemingly arbitrary approach to closures whereby, if one is saved, another is closed elsewhere, as happened when a post office in Barry was saved, which was welcomed, only for one in Mountain Ash to be earmarked for closure, sadly. It is a symptom of a deprived community if people cannot access the post office's flagship services in their main high street. Given that this policy has been rammed through by the Labour Government at Westminster, in cahoots with the Plaid-Labour Assembly Government, what hope do communities have of seeing other community services safeguarded? How many politicians will step up to the plate and push for the resources and the opportunities for post offices to develop their businesses? Many of the businesses being forced to shut are profitable; it is just that a figure of 2,500 post offices across the UK has been arrived at arbitrarily.

On top of that—and I raised this issue with the Deputy Minister the other day, with regard to Salisbury road post office in Cardiff central—when post offices accept the closure programme, their future activities are

Er na fydd y Ceidwadwyr yn hoffi cael eu hatgoffa ohono, mae hynny mewn cyferbyniad llwyr â record waradwyddus y Llywodraeth Geidwadol flaenorol ar atal troseddu yng Nghymoedd y de. Er nad wyf yn hunanfodlon ynglŷn â'r gwaith nad yw wedi cael ei wneud eto, heriaf Geidwadwyr Cymru, sydd wedi gwneud cymaint yn y gorffennol i danseilio ein cymunedau, i longyfarch y cymunedau hynny a Llafur ar y gwaith da sydd wedi cael ei wneud ac sy'n dal i gael ei wneud.

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddatl hon am ein cymunedau. Cymunedau, yn eu holl agweddau, yw enaid yr etholaethau a'r rhanbarthau—gogledd, de, dwyrain a gorllewin—yr etholir yr Aelodau i gyd i'w cynrychioli. Fel Aelod dros Ganol De Cymru, yr wyf wedi gweld effeithiau'r rhaglen cau swyddfeydd post yn fy rhanbarth i. Yr ydym wedi gweld 29 o swyddfeydd post yn cau, a sylwaf â siom ar y loes a achoswyd mewn cymunedau wrth i'r busnes blaenllaw hwn gael ei dynnu oddi ar y stryd fawr mewn cynifer o fannau. Hefyd, mae'r dull mympwyol yn ôl pob golwg o ymdrin â'r cynlluniau cau, sy'n golygu, os caiff un ei hachub, fel a ddigwyddodd pan achubwyd swyddfa bost yn y Barri, a oedd i'w groesawu, fod un arall yn Aberpennar wedi cael ei chlustnodi i gau, yn anffodus. Mae'n symptom o gymuned ddifreintiedig os nad yw pobl yn gallu cyrchu at wasanaethau blaenllaw'r swyddfa bost ar eu prif stryd fawr. Ac ystyried bod y polisi hwn wedi cael ei ddyrnu drwodd gan y Llywodraeth Lafur yn San Steffan, law yn llaw â Llywodraeth Plaid-Llafur yn y Cynulliad, pa obaith sydd gan gymunedau o weld gwasanaethau cymunedol eraill yn cael eu diogelu? Faint o wleidyddion fydd yn camu ymlaen ac yn gwthio am yr adnoddau a'r cyfleoedd i swyddfeydd post ddatblygu eu busnesau? Mae llawer o'r busnesau sy'n cael eu gorfodi i gau yn broffidiol; ond penderfynwyd yn fympwyol ar ffigur o 2,500 o swyddfeydd post ar draws y DU.

Ar ben hynny—a chodais y mater hwn gyda'r Dirprwy Weinidog y dydd o'r blaen, ynglŷn â swyddfa bost Salisbury Road yng Nghanol Caerdydd—pan fydd swyddfeydd post yn derbyn y rhaglen gau, cwtogir ar eu

curtailed by the Post Office demanding that they sign up to arbitrary restrictions on what they can and cannot sell. That, too, is affecting the vibrancy of the high streets in our communities. Not only are you seeking to take post offices out of those communities, but you are also seeking to restrict the availability of services should those businesses wish to develop on an ongoing basis.

Let us look at what the Government is offering by way of support for transport in communities. Transport is a critical component if a community is to develop its prosperity. If people cannot travel outside their community to seek employment, what hope do they have? Through its withdrawal of the support of the bus service operators grant in October, the Welsh Assembly Government—not the Westminster Government—has deprived many bus operators of running routes and of a financial benefit, not only to themselves but to their communities. I have been in correspondence with Stagecoach, and I understand that depriving it of that rebate facility alone, which English authorities have offered to their bus operators, has cost it £175,000. Should the fuel duty increase go through in April, the Government has made no commitment to adhere to the tried and tested platform of delivering that rebate back. I ask the Minister to address that specific issue, because transport is a key function that allows communities to feel engaged and to bring prosperity to their area.

On local housing, if people want to feel engaged in their community, they want to live in their community. Sadly, through the prevailing restrictive planning policies and the Government's technical advice notes, many planning authorities have failed to deliver sustainable development proposals so that people can live and work in their communities and enjoy them. It takes the pride out of that community. If people do not have pride in their communities, the very essence of it is lost. The Minister with responsibility for planning and the Welsh Assembly Government need to be far more

gweithgareddau i'r dyfodol gan fod y Swyddfa Bost yn mynnu eu bod yn ymrwymo i gyfyngiadau mympwyol ynglŷn â'r hynny y cânt ac na chânt ei werthu. Mae hynny, hefyd, yn effeithio ar fywiogrwydd y stryd fawr yn ein cymunedau. Nid yn unig yr ydych yn ceisio tynnu swyddfeydd post o'r cymunedau hynny, ond yr ydych hefyd yn ceisio cyfyngu'r gwasanaethau a fydd ar gael petai'r busnesau hynny'n dymuno datblygu ar sail barhaus.

Gadewch inni edrych ar yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei gynnig ar ffurf cymorth trafndiaeth mewn cymunedau. Mae trafndiaeth yn elfen dyngedfennol os yw cymuned i ddatblygu ei ffyniant. Os na all pobl deithio y tu allan i'w cymuned i geisio gwaith, pa obaith sydd ganddynt? Drwy dynnu ei chefnogaeth ar ffurf y grant i weithredwyr gwasanaethau bysiau yn ôl ym mis Hydref, amddifadodd Llywodraeth Cynulliad Cymru—nid Llywodraeth San Steffan—lawer o weithredwyr bysiau o'r gallu i redeg llwybrau ac o fudd ariannol, nid yn unig iddynt hwy ond i'w cymunedau. Yr wyf wedi bod yn gohebu â Stagecoach, ac yr wyf yn deall bod ei amddifadu o'r cyfleuster ad-daliad hwnnw yn unig, y mae awdurdodau Lloegr wedi'i gynnig i'w gweithredwyr bysiau hwy, wedi costio £175,000 iddo. Os aiff y cynnydd yn y dreth ar danwydd drwodd ym mis Ebrill, nid yw'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gadw at y llwyfan hwnnw, sydd wedi profi ei hun, o ddod â'r ad-daliad hwnnw yn ôl. Gofynnaf i'r Gweinidog ymdrin â'r mater penodol hwnnw, oherwydd mae trafndiaeth yn swyddogaeth allweddol sy'n caniatáu i gymunedau deimlo bod ganddynt ran a dod â ffyniant i'w hardal.

O ran tai lleol, os yw pobl am deimlo bod ganddynt ran yn eu cymuned, maent am fyw yn eu cymuned. Yn anffodus, drwy'r polisiau cynllunio caeth sydd gennym a nodiadau cyngor technegol y Llywodraeth, mae llawer o awdurdodau cynllunio wedi methu darparu cynigion datblygu cynaliadwy fel y gall pobl fyw a gweithio yn eu cymunedau a'u mwynhau. Mae'n tynnu'r balchder o'r gymuned honno. Os nad oes gan bobl falchder yn eu cymunedau, mae ei hanfod yn cael ei gollu. Mae angen i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio a Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn llawer mwy

proactive in their approach to delivering tangible benefits so that, over a generation—and I admit that it will not happen overnight—we can deliver a planning policy that will allow people to stay in their communities.

On this side of the Chamber, we are passionate about enabling young, working-age and old people to live wherever they choose, and not to be priced out of the marketplace. As far as the Liberal Democrat motion is concerned, there can be no better—

Alun Ffred Jones: Thank you for allowing me to intervene. I have much sympathy for what you say, but can you point to one change made to planning policy law when the Conservatives were in Government in London that was introduced to achieve the ends that you want to achieve now? I was a councillor at the time, and the only notable change that I saw was a tightening of the TAN to stop farmers building bungalows on their own land when they had retired.

Andrew R.T. Davies: You were a councillor and leader of Gwynedd Council, and the dilemma that it currently faces over school closure programmes is attributed to historical problems. I agree that, if you look back, you will see that there was a tightening of planning regulations, which deprived many communities of the opportunity to develop. However, we are living in the here and now. They were not called technical advice notes back then, because devolution had not happened. We need to be proactive in seeking residential accommodation in all communities so that they can develop. Let us get devolution working on that model. Surely that is what we should seek to do. You are the Government. You have the reins of power, so step up to the plate and do it.

Jenny Randerson: The Conservatives may not have got the hang of how to table amendments yet, but the panic displayed this afternoon by Labour and Plaid Cymru Members, whose tone verges on the hysterical, shows that the Conservative motion and its amendment have touched a

rhagweithiol wrth ymdrin â darparu manteision pendant fel y gallwn, dros genhedlaeth—ac yr wyf yn cyfaddef na fydd yn digwydd dros nos—ddarparu polisi cynllunio sy'n caniatáu i bobl aros yn eu cymunedau.

Ar yr ochr hon o'r Siambr, yr ydym yn llawn angerdd dros alluogi pobl ifanc, pobl o oedran gweithio a phobl hŷn i fyw lle mynnant, ac i beidio â chael eu prisio allan o'r farchnad. O ran cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol, ni all fod gwell—

Alun Ffred Jones: Diolch ichi am ganiatáu imi ymyrryd. Mae gennyf lawer o gydymdeimlad â'r hyn a ddywedwch, ond a allwch bwyntio at un newid a wnaed i'r gyfraith polisi cynllunio pan oedd y Ceidwadwyr mewn Llywodraeth yn Llundain a gyflwynwyd i wireddu'r amcanion yr ydych am eu gwireddu yn awr? Yr oeddwn yn gynghorydd ar y pryd, a'r unig newid o bwys a welais oedd tynhau'r TAN i atal ffermwyr rhag codi byngalos ar eu tir ar ôl iddynt ymddeol.

Andrew R.T. Davies: Yr oeddech yn gynghorydd ac yn arweinydd Cyngor Gwynedd, ac mae'r benbleth o ran rhaglenni cau ysgolion y mae'n ei hwynebu yn awr i'w phriodoli i broblemau hanesyddol. Cytunaf, os edrychwch yn ôl, y byddwch yn gweld bod y rheoliadau adeiladu wedi cael eu tynhau, gan amddifadu llawer o gymunedau o'r cyfle i ddatblygu. Fodd bynnag, yr ydym yn byw yn y presennol. Nid oeddent yn cael eu galw yn nodiadau cyngor technegol bryd hynny, oherwydd nid oedd datganoli wedi digwydd. Mae angen inni fod yn rhagweithiol yn ceisio llety preswyl ym mhob cymuned fel y gallwn ddatblygu. Gadewch inni gael datganoli'n gweithio ar y model hwnnw. Oni dyna ddylem geisio ei wneud? Chi yw'r Llywodraeth. Chi sy'n dal awenau grym, felly camwch ymlaen a gwnewch hynny.

Jenny Randerson: Efallai nad yw'r Ceidwadwyr wedi meistrolu sut mae cyflwyno gwelliannau eto, ond mae'r panig a ddangoswyd y prynhawn yma gan Aelodau Llafur a Phlaid Cymru, y mae eu tôn yn ymylu ar fod yn hysterig, yn dangos bod cynnig y Ceidwadwyr a'u gwelliant wedi

raw nerve. I have rarely heard so much hypocrisy, so many weasel words, and so much harking back to history. I could hark back to the history of the Labour Party, to 100 years of Labour in this country, which has served the people so very badly, particularly those in the Valleys.

I will first address the Conservatives' amendment on the post offices. The current post office closure programme has revealed that making a purely economic analysis results in the death knell for post offices up and down the country, in urban and rural areas, and it has revealed the social function of post offices. No post office will be safe as long as the Labour Government takes the view that the post office has to pay its way in basic economic figures.

The loss of Government business is the major contributory factor to the post office network no longer being viable. If you take business away from a company that you own—which is the situation with the post office—you are basically killing off your own company. The UK Labour Government is steadily killing off the post office, month by month.

Local authorities have a role in supporting branches in their area, but we have to be careful about issuing guidance that would suggest that local authorities have a duty to pick up the pieces and clean up the mess that the Labour Government has left behind. It is ideal if local authorities can assist their communities by providing business for the post office, but, at a time of this punitive local government settlement, we should not suggest to local authorities in Wales that it be seen as their responsibility.

There is little reason to justify the Government's amendment at this time. The Government's substantive policy on post offices is to reinstate the post office development fund. However, it plans to do so in a wholly inappropriate manner. It will do so only where post office closures have not been finalised. What is it about Cardiff and

cyffwrdd â'r byw. Prin fy mod wedi clywed cymaint o ragrith, cynifer o eiriau slec, a chymaint o rygnu ar hanes. Gallwn innau rygnu ar hanes y Blaid Lafur, ar 100 mlynedd o Lafur yn y wlad hon, sydd wedi gwasanaethu'r bobl mor eithriadol o wael, yn enwedig y rhai yn y Cymoedd.

Ymdriniaf yn gyntaf â gwelliant y Ceidwadwyr ynglŷn â swyddfeydd post. Mae'r rhaglen gyfredol i gau swyddfeydd post wedi datgelu nad yw dadansoddiad economaidd pur ond yn canu cnul swyddfeydd post ar hyd a lled y wlad, mewn ardaloedd trefol a gwledig, ac mae wedi datgelu swyddogaeth gymdeithasol swyddfeydd post. Ni fydd unrhyw swyddfa bost yn ddiogel cyhyd ag y bydd y Llywodraeth Lafur yn mabwysiadu'r safbwynt ei bod yn rhaid i'r swyddfa bost dalu ei ffordd mewn ffigurau economaidd sylfaenol.

Mae colli busnes y Llywodraeth yn ffactor mawr sy'n cyfrannu at y ffaith nad yw rhwydwaith y swyddfa bost yn hyfyw mwyach. Os ydych yn tynnu busnes oddi ar gwmmi yr ydych yn berchen arno—sef y sefyllfa gyda'r swyddfa bost—yn sylfaenol yr ydych yn lladd eich cwmni eich hun. Mae Llywodraeth Lafur y DU yn prysur ladd y swyddfa bost, o fis i fis.

Mae gan awdurdodau lleol rôl yn cefnogi canghennau yn eu hardal, ond rhaid inni fod yn ofalus ynglŷn â darparu canllawiau a fyddai'n awgrymu bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i godi'r darnau a glanhau'r llastr y mae'r Llywodraeth Lafur wedi'i adael ar ôl. Mae'n ddelfrydol os gall awdurdodau lleol helpu eu cymunedau drwy ddarparu busnes i'r swyddfa bost, ond, ar adeg y setliad llywodraeth leol llym hwn, ni ddylem awgrymu wrth awdurdodau lleol yng Nghymru ei fod yn cael ei ystyried fel eu cyfrifoldeb hwy.

Nid oes fawr o reswm i gyfiawnhau gwelliant y Llywodraeth ar hyn o bryd. Sylwedd polisi'r Llywodraeth ar swyddfeydd post yw ailsefydlu'r gronfa datblygu swyddfeydd post. Fodd bynnag, mae'n bwriadu gwneud hynny mewn modd cwbl amhriodol. Dim ond lle nad yw'r cynlluniau i gau swyddfeydd post wedi cael eu pennu ar

the surrounding area that makes it less eligible for post office development fund money than the areas that have yet to be announced? Do not kid yourselves, Labour Members; the secret is out. You can complain all you like and say, 'This isn't us, gov', but the public knows that the post office closure programme is fairly and squarely down to the Labour Party.

4.10 p.m.

Moving on to schools serving their communities, 'One Wales' has strong words about partnerships with sports clubs and pilot schemes for Saturday openings, but the Government has failed to understand that there is no point in talking about community schools, as you will not make any real progress, unless you provide investment to the tune of £818 million. Why would pensioners want to sit in a cold, leaky Victorian school building? What football club wants to play football on a Saturday morning in an indoor sports hall with the rain pouring in through the roof? People in communities do not choose to spend their time in that way.

I am astounded by the Government's claim that it is investing in community policing. There is no reference in 'One Wales' to this. The Government has refused even to talk to Westminster about rolling out the 101 number service, it has voted against amendments that call for the honouring of the police pay award in full, and it has let down the public by failing to fund the target on police community support officers. The Government's record on the issue of the police deserves nought out of 10.

Nerys Evans: The Conservatives' motion calls on the Welsh Assembly Government to review its policies to promote and protect communities in Wales. However, our communities suffered more than ever during the 1980s and 1990s under Tory rule, and are still suffering today. The Conservatives introduced the open market to many services that once benefited the whole of our

eu gwedd derfynol y bydd yn gwneud hynny. Beth ynglŷn â Chaerdydd a'r ardal o'i chwmpas sy'n ei gwneud yn llai cymwys i gael arian o'r gronfa datblygu swyddfeydd post na'r ardaloedd nad ydynt eto wedi cael eu cyhoeddi? Peidiwch a thwylo eich hunain, Aelodau Llafur; mae'r gyfrinach yn hysbys. Gallwch gwyno faint a fynwch a dweud, 'Nid ni sy'n gwneud hyn, wir-yr', ond mae'r cyhoedd yn gwybod bod y rhaglen i gau swyddfeydd post i'w phriodoli yn blwmp ac yn blaen i'r Blaid Lafur.

Gan symud ymlaen at ysgolion yn gwasanaethu eu cymunedau, mae gan 'Cymru'n Un' eiriau cryf am bartneriaethau gyda chlybiau chwaraeon a chynlluniau peilot i agor ar y Sadwrn, ond nid yw'r Llywodraeth wedi deall nad oes diben siarad am ysgolion bro, gan na wnewch chi unrhyw gynnydd gwirioneddol, oni ddarparwch chi fuddsoddiad o £818 miliwn. Pam fyddai pensïynwyr am eistedd mewn adeilad ysgol Fictoraidd oer, sy'n gollwng? Pa glwb pêl-droed sydd am chwarae pêl-droed ar fore Sadwrn mewn neuadd chwaraeon dan do gyda'r glaw yn arllwys i mewn drwy'r to? Nid yw pobl mewn cymunedau yn dewis treulio eu hamser yn y ffordd honno.

Fe'm rhyfeddir gan haerïad y Llywodraeth ei bod yn buddsoddi mewn plismona cymunedol. Nid oes cyfeiriad at hyn yn 'Cymru'n Un'. Mae'r Llywodraeth wedi gwrthod hyd yn oed siarad â San Steffan am gyflwyno'r gwasanaeth rhif 101, mae wedi pleidleisio yn erbyn gwelliannau sy'n galw am anrhydeddu dyfarniad cyflog yr heddlu yn llawn, ac mae wedi siomi'r cyhoedd drwy fethu â chyllido'r targed o ran swyddogion heddlu cymorth cymunedol. Mae record y Llywodraeth o ran yr heddlu yn haeddu dim allan o 10.

Nerys Evans: Mae cynnig y Ceidwadwyr yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu ei pholisïau i hyrwyddo ac amddiffyn cymunedau yng Nghymru. Fodd bynnag, dioddefodd ein cymunedau fwy nag erioed yn ystod y 1980au a'r 1990au dan lywodraeth Doriaidd, ac yr ydym yn dal i ddiodeff heddiw. Cyflwynodd y Ceidwadwyr y farchnad agored i lawer o wasanaethau a

communities. Enabling people to buy council houses has directly impacted on the severe lack of affordable housing available in Wales today, especially in rural communities. Despite the fact that Brynle Williams said a few months ago that he is opposed to the right to buy, I am sure that your policy remains. Under Conservative rule, massive pressure was placed on local government finances, which had huge repercussions for education and other services, and unemployment levels were at their highest. The Conservatives' record on supporting communities is not very strong at all.

The motion calls on the Government to review its policies to promote and protect communities, but which specific policies are you referring to? The whole of the 'One Wales' programme for government is about promoting and protecting our communities, and you and the Liberal Democrats were prepared to sign up to many of its commitments when they were included in 'The All-Wales Accord', such as securing grants for first-time buyers, helping people to get back to work, establishing a business rate relief scheme, and promoting community land trusts. 'One Wales' goes further on those commitments that were not included in the accord. It pledges, for example, to review anti-poverty programmes, to develop Communities Next, to promote the public ownership of green spaces and to develop rural health plans.

Turning to the amendments, you have decided to delete what you proposed in your motion in favour of mentioning the post office network. As a former sub-postmistress of Llan-gain post office—

Nick Bourne: I am grateful to you for giving way, Nerys. You mentioned the motion and what is in the 'One Wales' agreement. Were you committed, under that agreement, to voting against implementing in full the police pay settlement at Westminster? If that was not the case, why did you vote against the increase?

oedd unwaith o fudd i'n cymunedau drwyddynt draw. Mae galluogi pobl i brynu tai cyngor wedi effeithio'n uniongyrchol ar y diffyg difrifol o dai fforddiadwy sydd ar gael yng Nghymru heddiw, yn enwedig mewn cymunedau gwledig. Er gwaethaf y ffaith i Brynle Williams ddweud rai misoedd yn ôl iddo ef wrthwynebu'r hawl i brynu, yr wyf yn siŵr fod eich polisi yn parhau. O dan lywodraeth Geidwadol, rhoddwyd pwysau enfawr ar gyllid llywodraeth leol, a chafodd hynny ôl-ffeithiau enfawr ar addysg ac ar wasanaethau eraill, ac yr oedd lefelau diweithdra ar eu huchaf. Nid yw record y Ceidwadwyr o ran cefnogi cymunedau yn gryf iawn o gwbl.

Mae'r cynnig yn galw ar y Llywodraeth i adolygu ei pholisïau i hyrwyddo ac amddiffyn cymunedau, ond pa bolisïau penodol ydych chi'n cyfeirio atynt? Mae a wnelo rhaglen lywodraethu 'Cymru'n Un' drwyddi draw â hyrwyddo ac amddiffyn ein cymunedau, ac yr oeddech chi a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn barod i ymrwmo i lawer o'i hymrwymiaidau pan gawsant eu cynnwys yn 'Cytundeb Cymru Gyfan', megis sicrhau grantiau i brynwyr tro-cyntaf, helpu pobl i fynd yn ôl i weithio, sefydlu cynllun rhyddhad ardrethi busnes, a hyrwyddo ymddiriedolaethau tir cymunedol. Mae 'Cymru'n Un' yn mynd ymhellach o ran yr ymrwymiaidau hynny nad oeddent wedi cael eu cynnwys yn y cytundeb hwnnw. Mae'n addunedu, er enghraifft, i adolygu rhaglenni gwrthdlodi, i ddatblygu Cymunedau Nesaf, i hyrwyddo perchenogaeth gyhoeddus dros fannau gwyrdd ac i ddatblygu cynlluniau iechyd gwledig.

Gan droi at y gwelliannau, yr ydych wedi penderfynu dileu'r hyn a gynigiasoch yn eich cynnig er mwyn sôn am y rhwydwaith swyddfeydd post. Fel cyn is-bostfeistres swyddfa bost Llan-gain—

Nick Bourne: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am ildio, Nerys. Soniasoch am y cynnig a'r hyn sydd yng nghytundeb 'Cymru'n Un'. A rwymwyd chi, o dan y cytundeb hwnnw, i bleidleisio yn erbyn gweithredu setliad cyflog yr heddlu yn San Steffan yn llawn? Os nad dyna'r sefyllfa, pam y gwnaethoch chi bleidleisio yn erbyn y codiad?

Nerys Evans: Your tabling of the amendment on police pay was nothing but political mischief-making. What is your party in Westminster doing on this issue? Nothing.

On post offices, I am fully aware of how vital the post office network is to our communities. Through a lack of support over recent years, the post office that I worked at, which used to be a vibrant business, has now deteriorated to providing a service in the village hall on only one morning a week. We totally disagree with the proposal to close post offices across Wales, and more details on that will follow in the next few months. We also disagree fundamentally with the constant undermining of the post office network over the years, which has led to the situation that we are in now. We have already heard this afternoon about the mass closure under the Conservative Party's rule, which adds to the hypocrisy of your debate.

It is shocking that the Conservatives have chosen to debate communities in Wales with a very weak motion, which is another example of their lack of imagination. Where are your policies on protecting and promoting communities? Why not bring them to the debate today? The motion is especially ironic given that the iron lady herself, Margaret Thatcher—Alun Cairns's heroine—denied that the concept of community existed. That is real Conservatism.

Bethan Jenkins: Again, we see the same debates in the Assembly. I endorse Nerys's comments about having a more diverse discussion about issues, and perhaps more meat in the debates that the Tories bring before us each week. After all, we have to sit here and take part in them, and it would be more interesting were we to have more rigorous suggestions from the Tories.

The whole issue of community cohesion has been debated, and I find it hypocritical—as others have mentioned—of the Tories to bring forward this issue for debate. As has been said, Thatcher did not even recognise

Nerys Evans: Nid oedd ichi gyflwyno'r gwelliant ar gyflogau'r heddlu yn ddim ond drygioni gwleidyddol. Beth mae eich plaid chi yn San Steffan yn ei wneud ynglŷn â'r mater hwn? Dim.

O ran swyddfeydd post, yr wyf yn gwbl ymwybodol mor hanfodol yw'r rhwydwaith swyddfeydd post i'n cymunedau. Drwy ddiffyg cefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r swyddfa bost y bŵm i'n gweithio ynddi, a arferai fod yn fusnes prysur, wedi dirywio erbyn hyn i ddarparu gwasanaeth yn neuadd y pentref un bore'r wythnos yn unig. Yr ydym yn anghytuno'n llwyr â'r cynnig i gau swyddfeydd post ar draws Cymru, a bydd rhagor o fanylion am hynny yn dilyn dros y misoedd nesaf. Yr ydym hefyd yn anghytuno'n sylfaenol â'r taseilio cyson ar y rhwydwaith swyddfeydd post dros y blynyddoedd, sydd wedi arwain at y sefyllfa yr ydym ynddi yn awr. Yr ydym eisoes wedi clywed y prynhawn yma am y llu o swyddfeydd a gaewyd dan lywodraeth y Blaid Geidwadol, sy'n ychwanegu at ragrith eich dadl.

Mae'n ofnadwy fod y Ceidwadwyr wedi dewis trafod cymunedau yng Nghymru gyda chynnig gwan iawn, sy'n enghraifft arall o'u diffyg dychymyg. Ble mae eich polisiau chi ar amddiffyn a hyrwyddo cymunedau? Pam na wnaethoch ddod â hwy i'r dadl heddiw? Mae'r cynnig yn arbennig o eironig a chofio i'r fenyw haearn ei hun, Margaret Thatcher—arwres Alun Cairns—wadu bod y cysyniad o gymuned yn bodoli. Dyna Geidwadaeth go-iawn.

Bethan Jenkins: Eto, dyma ni'n gweld yr un dadleuon yn y Cynulliad. Ategaf sylwadau Nerys ynghylch cael trafodaeth fwy amrywiol am bynciau, a mwy o gig efallai yn y dadleuon a gyflwyno'r Torïaid ger ein bron bob wythnos. Wedi'r cyfan, yr ydym yn gorfod eistedd yma a chymryd rhan ynddynt, a byddai'n fwy diddorol pe caem awgrymiadau mwy grymus gan y Torïaid.

Mae holl gwestiwn cydlynid cymunedol wedi'i drafod, ac i mi, rhagrith—fel a grybwyllwyd gan eraill—ar ran y Torïaid yw rhoi'r pwnc hwn gerbron ar gyfer dadl. Fel y dywedwyd, nid oedd Thatcher hyd yn oed yn

the existence of community. That is a problem when we are discussing this vital issue.

I will concentrate on post offices. As I said earlier, 3,500 post offices were closed under the Tories. That is a fact. Unfortunately, closures are being continued by the Westminster Government. I reaffirm that Plaid Cymru is its own party, and can criticise the Government in London freely. We are campaigning against this locally: we are not saying one thing on one level and another on another level, as your MPs do regularly. We have been consistent in our opposition to the closure of post offices. We have been fighting the closures in this area, and will do so in other parts of Wales. We maintain that stance, and we will continue to do so until the very end.

It is important that we retain these services, particularly as it is a social policy issue, and directly affects our child poverty agenda in terms of access to services and benefits. I know of many people who have decided to continue to collect child benefit payments from the post office even though they have been encouraged not to do so by community officials. I also believe that we should look at this more creatively. In Plaid Cymru's alternative Queen's Speech, we mentioned that we would be looking into ideas such as a Welsh people's bank, administered through post offices. That is an example of the creative way in which Plaid Cymru is thinking about how to retain post offices in our communities, and we will not give up on this vital issue.

The Federation of Small Businesses estimates that 20 per cent of small businesses use the post office every day and that 47 per cent use it more than once a week. Post offices are key to tackling financial and social exclusion, and I would like to see us support the sub-postmasters in our local areas. I have visited many of them in the Neath and Swansea areas with my colleague, Dr Dai Lloyd.

Nick Ramsay: You mentioned the

cydnabod bodolaeth cymuned. Mae hynny'n broblem wrth inni drafod y mater hollbwysig hwn.

Canolbwytiaf ar swyddfeydd post. Fel y dywedais yn gynharach, caewyd 3,500 o swyddfeydd post dan y Torïaid. Mae hynny'n ffaith. Yn anffodus, mae'r cau'n dal i ddigwydd dan Lywodraeth San Steffan. Yr wyf yn ailddatgan mai ei phlaid ei hun yw Plaid Cymru, a'i bod yn rhydd i feirniadu'r Llywodraeth yn Llundain. Yr ydym yn ymgyrchu yn erbyn hyn yn lleol: nid ydym yn dweud un peth ar un lefel a pheth arall ar lefel arall, fel y gwna eich ASau chi'n rheolaidd. Yr ydym wedi bod yn gyson yn ein gwrthwynebiad i gau swyddfeydd post. Yr ydym wedi bod yn ymladd y cau yn yr ardal hon, a gwnawn hynny mewn rhannau eraill o Gymru. Cymerwn y safiad hwnnw, a pharhawn i wneud tan y diwedd un.

Mae'n bwysig ein bod yn cadw'r gwasanaethau hyn, yn enwedig gan mai mater polisi cymdeithasol ydyw, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ein agenda tlodi plant o ran mynediad at wasanaethau a budd-daliadau. Gwn am lawer o bobl sydd wedi penderfynu dal i gasglu taliadau budd-dal plant o swyddfa'r post er bod swyddogion cymunedol wedi'u hannog i beidio â gwneud hynny. Credaf hefyd y dylem edrych ar hyn yn fwy creadigol. Yn Araith Brenhines amgen Plaid Cymru, soniasom y byddem yn edrych i mewn i syniadau fel banc pobl Cymru, i'w weinyddu drwy swyddfeydd post. Dyna enghraifft o'r ffordd greadigol y mae Plaid Cymru'n meddwl am sut i gadw swyddfeydd post yn ein cymunedau, ac ni wnawn roi'r ffidil yn y to ar y mater hollbwysig hwn.

Mae Ffederasiwn y Busnesau Bach yn amcangyfrif bod 20 y cant o fusnesau bach yn defnyddio swyddfa'r post bob dydd a bod 47 y cant yn ei defnyddio fwy nag unwaith yr wythnos. Mae swyddfeydd post yn allweddol i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ac ariannol, a hoffwn ein gweld yn cefnogi'r isbostfeistri yn ein hardaloedd lleol. Yr wyf wedi ymweld â llawer ohonynt yn ardaloedd Castell-nedd ac Abertawe gyda'm cyd-Aelod, Dr Dai Lloyd.

Nick Ramsay: Cyfeiriasoch at bwysigrwydd

importance of post offices being able to deliver services. Can you tell me what concrete proposals you have and what actions you are taking with your Labour colleagues in the coalition Government to allow post offices across Wales to provide the services that they need to provide in order to be viable?

Bethan Jenkins: They have that power already. However, as we have said, we will reinstate the post office development fund. We have committed to that in 'One Wales'. As I said earlier, we will be campaigning on this issue and supporting the retention of post offices locally.

The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons): It is important to start by putting the record straight. When we previously discussed police pay, the Assembly voted to endorse the actions of the Welsh Assembly Government, which included making representations to the UK Government expressing our opposition to the staging of pay awards in general and that of the police pay award in particular. In that debate, we clearly voted to oppose the staging of the police pay award and asked the UK Government to support fully the award that was made to the police. It is hypocritical that the past masters of staged pay awards, the Conservative Party, should come here and cry crocodile tears over this particular issue.

David Lloyd: I agree with your sentiments on the Tories and communities. On crocodile tears, do you not agree that that is an unwarranted slur about a proud group of water-loving reptiles?

Brian Gibbons: Thank you, Dai, for that observation.

I urge the rejection of the opposition amendments, and support for amendment 4 in the name of Carwyn Jones. We believe that the 'One Wales' agreement does much more to support communities in Wales than anything set out in the opposition motion.

bod swyddfeydd post yn gallu darparu gwasanaethau. A allwch ddweud wrthyf ba gynigion pendant sydd gennych a beth yr ydych yn ei wneud gyda'ch cyd-Weinidogion llafur yn y Llywodraeth glymblaid i ganiatáu i swyddfeydd post ledled Cymru ddarparu'r gwasanaethau y mae arnynt angen eu darparu er mwyn bod yn hyfyw?

Bethan Jenkins: Mae'r grym hwnnw ganddynt yn barod. Fodd bynnag, fel yr ydym wedi dweud, byddwn yn adfer y gronfa datblygu swyddfeydd post. Yr ydym wedi ymrwymo i hynny yn 'Cymru'n Un'. Fel y dywedais yn gynharach, byddwn yn ymgyrchu ar y mater hwn ac yn cefnogi cadw swyddfeydd post yn lleol.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons): Mae'n bwysig dechrau drwy gywiro'r ffeithiau. Pan drafodasom gyflogau'r heddlu o'r blaen, pleidleisiodd y Cynulliad dros gadarnhau gweithredoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, a oedd yn cynnwys cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn mynegi ein gwrthwynebiad i roi dyfarniadau cyflog graddol yn gyffredinol a hynny gyda dyfarniad cyflog yr heddlu'n arbennig. Yn y ddadl honno, pleidleisiasom yn glir dros wrthwynebu graddoli dyfarniad cyflog yr heddlu, gan ofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gefnogi'n llawn y dyfarniad a wnaed i'r heddlu. Mae'n rhagrithiol fod hen feistri'r dyfarniadau cyflog graddol, y Blaid Geidwadol, yn dod yma ac yn wylo dagrau crocodeil dros y mater arbennig hwn.

David Lloyd: Cytunaf â'ch teimladau am y Torïaid a chymunedau. Ynglŷn â dagrau crocodeil, oni chytunwch fod hynny'n anfri di-alw-amdano ar garfan falch o ymlusgiaid dŵr?

Brian Gibbons: Diolch, Dai, am y sylw yna.

Yr wyf yn eich annog i wrthod gwelliannau'r wrthblaid, ac i gefnogi gwelliant 4 yn enw Carwyn Jones. Credwn fod cytundeb 'Cymru'n Un' yn gwneud llawer mwy i gefnogi cymunedau yng Nghymru nag unrhyw beth a nodir yng nghynnig yr wrthblaid.

4.20 p.m.

Peter Black: Will you take an intervention?

Peter Black: A gymerwch chi ymyriad?

Brian Gibbons: No, I do not have time.

Brian Gibbons: Na wnaif; nid oes gennyf amser.

Our public services play a pivotal role in enhancing community cohesion and inclusion. Quality public services contribute to social cohesion by facilitating the inclusion of our most disadvantaged citizens and communities. These services also embody the sense of social solidarity that is at the heart of our 'One Wales' agreement. Through 'Making the Connections' and the post-Beecham agenda, we are promoting the quality of our public services, not preparing them for privatisation or market testing, as some on the opposition benches would like to do.

Mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn chwarae rhan ganolog yn gwella cydlynid a chynhwysiant cymunedol. Mae gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd yn cyfrannu at gydlynid cymdeithasol drwy hwyluso cynhwysiad ein dinasyddion a'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'r gwasanaethau hyn hefyd yn ymgorfforiad o'r ymdeimlad o gydsafiad cymdeithasol sydd wrth galon ein cytundeb 'Cymru'n Un'. Drwy 'Creu'r Cysylltiadau' a'r agenda ôl-Beechams, yr ydym yn hyrwyddo ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus, nid eu paratoi ar gyfer preifateiddio neu brofi'r farchnad, fel yr hoffai rhai ar feinciau'r wrthblaid ei wneud.

'One Wales' provides a portfolio of policies and programmes that are designed to regenerate, promote and protect our communities, to strengthen community cohesion and to enhance the role of local people in making decisions about matters that affect their lives. Crime and the fear of crime can be a serious blight on the regeneration of communities and the lives of people in those communities. The Welsh Assembly Government is committed to working closely with the police and other partners to improve community safety and the lives of local people, and we are succeeding.

Mae 'Cymru'n Un' yn darparu portffolio o bolisiau a rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i adfywio, hyrwyddo a gwarchod ein cymunedau, cryfhau cydlynid cymunedol a chynyddu rôl pobl leol mewn penderfyniadau am faterion sy'n effeithio ar eu bywydau. Gall troseddu ac ofn trosedd fod yn falltod difrifol ar adfywiad cymunedau a bywydau pobl yn y cymunedau hynny. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo i gydweithio'n agos gyda'r heddlu a phartneriaid eraill i wella diogelwch cymunedol a bywydau pobl leol, ac yr ydym yn llwyddo.

The British Crime Survey, which is now based on a survey of 50,000 people, commenced in 1982. Throughout the 1980s and the early 1990s we saw a steady increase in crime levels until they reached an unacceptable peak in 1995. Since then, crime has fallen by 42 per cent, and the risk of being a victim of crime has decreased from 40 per cent in 1990 to 24 per cent now. That is a positive and welcome overall improvement, which is often missed when we discuss issues of community safety and crime levels. However, while crime levels are now back to the levels of the early 1980s, for many communities tackling crime remains

Dechreuwyd Arolwg Troseddu Prydain, sydd bellach yn seiliedig ar arolwg o 50,000 o bobl, yn 1982. Drwy gydol y 1980au a'r 1990au cynnar gwelsom gynnydd cyson mewn lefelau troseddu nes iddynt gyrraedd anterth annerbyniol yn 1995. Ers hynny, mae troseddu wedi gostwng 42 y cant, ac mae'r risg o ddioddef trosedd yn eich erbyn wedi mynd i lawr o 40 y cant yn 1990 i 24 y cant yn awr. Mae hynny'n welliant cyffredinol sy'n gadarnhaol ac yn rhywbeth i'w goesawu, rhywbeth a anghofir yn aml pan drafodwn faterion diogelwch cymunedol a lefelau troseddu. Fodd bynnag, er bod lefelau troseddu bellach yn ôl i lefelau'r 1980au

the single most important issue in improving quality of life. People want to feel secure in their homes, safe when they are going out, day or night, and do not want to have to worry about the wellbeing of their family or friends when they are going about their normal business.

In 2006 the Audit Commission reported that, across England and Wales, the 40 areas that had twice the national average of crime were also among the areas with the highest levels of social and economic deprivation. That cannot be a coincidence, and that is where we will concentrate our efforts.

Peter Black: I am interested as to whether you have come across the Plaid Cymru local elections strategy document for Neath Port Talbot, your area and mine. It states that New Labour in power is failing our communities. Do you agree with that conclusion from your partners?

Brian Gibbons: No, I do not, and I do not think that that is part of the 'One Wales' agreement, Peter, according to which the Government is operating.

If we accept that our key challenge in promoting better communities is tackling those areas where social and economic disadvantage is greatest, then that is why our review of the Communities First programme is so important. 'Communities Next: Taking Communities First Forward' is out to consultation at the moment and I hope that the re-launch of the programme next year will build on the successes to date.

In my constituency, in the last few weeks I have visited the Cwmafan Residents Against Crime group, which hosted the local Police and Communities Together meeting, as well as being a forum for the Communities First group. That is an excellent example of integrated working. Earlier this week I visited the Gurnos estate in Merthyr, where Communities First is helping local people, through the life support project, to gain the skills, support and belief that they need to

cynnar, i lawr o gymunedau, mynd i'r afael â throeddu yw'r un mater pwysicaf o hyd er mwyn gwella ansawdd bywyd. Mae ar bobl eisiau teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi, yn ddiogel pan ânt allan, ddydd neu nos, ac nid oes arnynt eisiau gorfod poeni am les eu teulu neu eu ffrindiau pan fyddant yn mynd o gwmpas eu busnes arferol.

Yn 2006 nododd y Comisiwn Archwilio fod y 40 ardal ar draws Cymru a Lloegr lle ceid dwywaith yn fwy o droeddu na'r cyfartaledd cenedlaethol hefyd ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol ac economaidd. Ni all hynny fod yn gyd-ddigwyddiad, a dyna ble y canolbwyntiwn ein hymdrechion.

Peter Black: Hoffwn wybod a ydych wedi dod ar draws dogfen strategaeth etholiadau lleol Plaid Cymru ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, eich ardal chi a minnau. Mae'n dweud bod Llafur Newydd mewn grym yn gadael ein cymunedau i lawr. A ydych yn cytuno â'r casgliad hwnnw gan eich partneriaid?

Brian Gibbons: Nac ydwyf, ac nid wyf yn meddwl bod hynny'n rhan o'r cytundeb 'Cymru'n Un', Peter, y mae'r Llywodraeth yn gweithredu'n unol ag ef.

Os derbyniwn mai'r her allweddol inni wrth hyrwyddo cymunedau gwell yw mynd i'r afael â'r ardaloedd hynny sy'n fwyaf difreintiedig yn gymdeithasol ac economaidd, yna dyna pam y mae ein hadolygiad o'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf mor bwysig. Mae 'Cymunedau Nesaf: Datblygu Gwaith Cymunedau yn Gyntaf' yn destun ymgynghori ar hyn o bryd a gobeithiaf y bydd ail-lansiad y rhaglen y flwyddyn nesaf yn adeiladu ar y llwyddiannau hyd yma.

Yn f'etholaeth i, yn yr ychydig wythnosau diwethaf yr wyf wedi ymweld â grŵp Trigolion Cwmafan yn erbyn Troeddu, a gynhaliodd y cyfarfod lleol rhwng yr Heddlu a Cymunedau Ynghyd, yn ogystal â bod yn fforwm i'r grŵp Cymunedau'n Gyntaf. Dyna enghraifft ardderchog o weithio cyfannol. Yn gynharach yr wythnos hon ymwelais â stad y Gurnos ym Merthyr, lle mae Cymunedau'n Gyntaf yn helpu pobl leol, trwy'r prosiect cynnal bywyd, i ennill y sgiliau, y gefnogaeth

gain qualifications and employment. I could see there the real benefits flowing from a range of Assembly Government policies, such as Want to Work, Jobmatch, Genesis, Flying Start, the Assembly learning grant and free bus travel. As a result of the provision of free bus travel, Wales is one of the few counties in the United Kingdom where the use of bus transport is increasing.

We now recognise that personal and community damage is frequently due to drug and alcohol abuse, and the illegal trade in drugs. Some 50 per cent of personal violence and domestic abuse occurs due to the use of alcohol. Therefore, we are reviewing our 10-year strategy on drugs and alcohol, and we have gone out to consultation on that strategy. That strategy will be underpinned by an alcohol action plan and a framework for tackling alcohol-related crime and disorder. As part of that programme, we are funding four projects to establish best practice in managing the anti-social behaviour that takes place around the evening and night-time economy.

Andrew R.T. Davies: I recognise the benefits that bus passes offer, but now that the Government has failed to engage bus service operators with a bus service operators grant, there is not much point in having a pass when you do not have a bus on which to use it. Will you engage with bus service operators to reintroduce the grant?

Brian Gibbons: Andrew should go out more often, because anyone who goes around Wales knows that the number of bus routes and the number of people using buses in Wales has increased many times more than was the case during the dismal record of decline that was the consequence of his party's policy.

A key element in delivering safer and more secure communities is our involvement with the police forces, and the Welsh Assembly Government has excellent relations with the police forces in Wales. We work in partnership with the police on many key

a'r gred y mae arnynt eu hangen i gael cymwysterau a gwaith. Gallwn weld yno y buddiannau gwirioneddol sy'n llifo o lu o bolisiau Llywodraeth y Cynulliad, megis Yn Awyddus i Weithio, Jobmatch, Genesis, Dechrau'n Deg, grant dysgu'r Cynulliad a theithio am ddim ar y bws. O ganlyniad i ddarparu teithio am ddim ar y bws, Cymru yw un o'r ychydig wledydd yn y Deyrnas Unedig lle mae'r defnydd o drafnidiaeth bysus ar gynydd.

Yr ydym yn sylweddoli'n awr fod niwed personol a chymunedol yn aml yn deillio o gamddefnydd cyffuriau ac alcohol, a'r fasnach gyffuriau anghyfreithlon. Mae rhyw 50 y cant o drais personol a cham-drin yn y cartref yn digwydd yn sgil defnyddio alcohol. Felly, yr ydym yn adolygu ein strategaeth 10 mlynedd ar gyffuriau ac alcohol, ac yr ydym wedi mynd allan i ymgynghori ar y strategaeth honno. Tanategir y strategaeth honno gan gynllun gweithredu ar alcohol a fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â throsedd ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol. Fel rhan o'r rhaglen honno, yr ydym yn ariannu pedwar prosiect i sefydlu'r arfer gorau ar gyfer rheoli'r ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n digwydd o gwmpas economi'r nos.

Andrew R.T. Davies: Cydnabyddaf y buddiannau y mae cerdyn bws yn eu cynnig, ond â'r Llywodraeth yn awr wedi methu sicrhau gweithredwyr gwasanaethau bws gyda grant gweithredwyr gwasanaethau bws, nid oes llawer o bwynt cael cerdyn bws pan nad oes gennych fws i'w ddefnyddio arno. A drafodwch gyda gweithredwyr gwasanaethau bws er mwyn ailgyflwyno'r grant?

Brian Gibbons: Dylai Andrew fynd allan yn amlach, oherwydd gŵyr unrhyw un sy'n mynd o gwmpas Cymru fod y nifer o lwybrau bysus a'r nifer o bobl sy'n defnyddio bysus yng Nghymru wedi cynyddu lawer gwaith mwy nag a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod diflas o ddirywiad a oedd yn ganlyniad i bolisi ei blaid ef.

Elfen allweddol i sicrhau cymunedau mwy diogel yw ein hymwneud â'r heddluoedd, ac mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru berthynas ragorol gyda'r heddluoedd yng Nghymru. Gweithiwn mewn partneriaeth gyda'r heddlu ar nifer o ddogfennau strategol

strategic documents, and we support the commitment of the police forces in Wales to community policing, which is effective in operational terms and serves as a vital measure to reassure communities. We recognise the vital contribution that the police make to promoting community safety. In Wales, the numbers of police officers increased from 7,200 in March 2003 to 7,469 in September 2007. Linked to that has been a dramatic increase in the number of police community support officers, from 30 in 2003 to 688 now. This visible presence of investment, and the presence of policing on our streets, have been widely welcomed and contributes to the growing sense of security in our communities.

The fabric of the environment in which people live is also important. People need to live in communities that they see as valued. Better planning of the built environment, the steps to take forward achievement of the Wales housing quality standard, the targeting of road safety in our most disadvantaged communities and the improvement of play areas, as well as the encouragement of participation in sporting activities and the provision of free entry to amenities, are part of the strategy being pursued by the Welsh Assembly Government. In conclusion, Wales is a country of communities, and this is embedded in all our policies. As colleagues have said, that is in stark contrast to the time when we had a Prime Minister and a Government that did not even believe in the concept of society, and promoted policies based on rampant individualism and the devil take the hindmost: may we never return to those days.

Nick Bourne: This has been a lively debate; there is little doubt of that. Before I look at some of the specific issues, what characterised it most of all was the incredible hysteria on the part of the Government parties when it began: up stepped the Deputy Minister to try to stop Mark Isherwood from talking about police and schools, perhaps for obvious reasons, because the Government's record is pretty threadbare, as we will see in a minute. The other stunning thing was the interchangeable nature of the speeches from both parts of the Government. The Plaid

allweddol, a chefnogwn ymrwymiad yr heddluoedd yng Nghymru i blismona cymunedol, sy'n effeithiol mewn termau gweithredol ac yn gwasanaethu fel mesur hanfodol i roi sicrwydd i gymunedau. Cydnabyddwn y cyfraniad hollbwysig a wna'r heddlu i hyrwyddo diogelwch cymunedol. Yng Nghymru, cynyddodd nifer y swyddogion heddlu o 7,200 ym Mawrth 2003 i 7,469 ym Medi 2007. Ynghlwm wrth hynny bu cynnydd dramatig yn nifer swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, o 30 yn 2003 i 688 yn awr. Mae'r buddsoddiad gweledol hwn, a phresenoldeb heddwision ar ein strydoedd, wedi cael croeso cyffredinol ac mae'n cyfrannu at yr ymdeimlad cynyddol o ddiogelwch yn ein cymunedau.

Mae adeiledd yr amgylchedd lle mae pobl yn byw'n bwysig hefyd. Mae ar bobl angen byw mewn cymunedau y maent yn gweld bod gwerth yn cael ei roi arnynt. Mae cynllunio gwell i'r amgylchedd adeiledig, y camau i fwrw ymlaen â chyflawni safon ansawdd tai Cymru, targedu diogelwch y ffyrdd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig a gwella manau chwarae, yn ogystal ag annog cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon a darparu mynediad am ddim i fwynderau, yn rhan o'r strategaeth a ddilynir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. I gloi, gwlad o gymunedau yw Cymru, ac mae hyn wedi'i wreiddio yn ein holl bolisiau. Fel y mae cyd-Aelodau wedi dweud, mae hynny'n hollol wahanol i'r adeg pan oedd gennym Brif Weinidog a Llywodraeth nad oeddent hyd yn oed yn credu yn y cysyniad o gymdeithas, ac a hyrwyddai bolisiau seiliedig ar unigolyddiaeth rhemp a threchaf treisied, gwannaf gwichied: na foed inni ddychwelyd i'r dyddiau hynny byth.

Nick Bourne: Bu hon yn ddadl fywiog; mae hynny'n siŵr. Cyn imi edrych ar rai o'r materion penodol, yr hyn a'i nodweddodd yn fwy na dim oedd yr hysteria anhygoel ar ran pleidiau'r Llywodraeth ar y dechrau: camodd y Dirprwy Weinidog i'r fei i geisio atal Mark Isherwood rhag siarad am heddlu ac ysgolion, am resymau amlwg efallai, oherwydd mae record y Llywodraeth yn eithaf llwm, fel y gwelwn mewn munud. Y peth syfrdanol arall oedd natur gydgyfnewidiol yr areithiau gan ddwy ran y Llywodraeth. Gallai areithiau Plaid yn hawdd

speeches could easily have been delivered by Labour Government Members, although only one Labour Member, Irene James, spoke in the debate. Having promised to kick Labour into touch, not only has Plaid kept it in play, but now it is saying what a wonderful team it has always been, how it never commits fouls, never plays dirty, and that its record is worth defending. Then the arch protector of crocodiles was up on his feet as if everything had been absolutely wonderful in the Labour years.

Sandy Mewies: While we are talking about hypocrisy and hysteria—you may well talk about the One Wales Government, which is working well—I seem to remember that you were prepared to go into coalition, as were the Lib Dems, with anybody and everybody to get yourselves into power.

Nick Bourne: You almost said that with a straight face. Even the First Minister would acknowledge that I was always clear that I would never go into Government with Labour, although I would, on terms, with Plaid Cymru and the Liberal Democrats; that is true.

4.30 p.m.

Alun Cairns: I am grateful to you for giving way. I noted, Nick, that you said that the Welsh Conservative Party would never form a coalition Government with the Labour Party. Do you also remember Ieuan Wyn Jones saying that before the election?

Nick Bourne: Yes, but I meant it. Let us look at the specific issues. First on police pay, which the Labour Party, for understandable reasons, does not want us to talk about. You voted against it. We tabled a specific amendment asking for payment for the police in full, with immediate effect. You all voted against it. The police know that, believe me—I have hundreds of e-mails to prove it if you doubt it. Do not give us lectures about phased pay settlements. We have always paid the police in full whatever has been recommended and the record will demonstrate that. The only party that has not done that is the Labour Party—you only need to examine the record.

fod wedi'u traddodi gan Aelodau Llafur y Llywodraeth, er mai dim ond un Aelod Llafur, Irene James, a siaradodd yn y ddadl. Wedi addo cicio Llafur dros yr ystlys, nid yn unig y mae Plaid wedi'i gadw ar dir y chwarae, ond yn awr mae'n dweud tîm mor fendigedig a fu erioed, nad yw byth yn troseddu, byth yn chwarae'n frwnt, a bod ei record yn werth ei hamddiffyn. Wedyn cododd arch-amddiffynnwr y crocodeiliaid ar ei draed fel pe bai popeth wedi bod yn berffaith hyfryd ym mlynnyddoedd Llafur.

Sandy Mewies: A ninnau'n siarad am ragrith a hysteria—hawdd y gallwch sôn am Lywodraeth Cymru'n Un, sydd yn gweithio'n dda—yr wyf fel pe bawn yn cofio i chithau fod yn barod i fynd i glymblaid, ac felly hefyd y Democratiaid Rhyddfrydol, gydag unrhyw un a phawb i roi eich hunain mewn grym.

Nick Bourne: Bu bron ichi ddweud hynny gydag wyneb syth. Byddai hyd yn oed y Prif Weinidog yn cydnabod fy mod i bob amser yn glir na fuaswn fyth yn mynd i Lywodraeth gyda Llafur, er yr awn, ar delerau, gyda Phlaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol; mae hynny'n wir.

Alun Cairns: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am ildio. Sylwais, Nick, ichi ddweud na fyddai Plaid Geidwadol Cymru byth yn ffurfio Llywodraeth glymblaid â'r Blaid Lafur. A ydych hefyd yn cofio Ieuan Wyn Jones yn dweud hynny cyn yr etholiad?

Nick Bourne: Ydw, ond yr oeddwn i'n golygu'r hyn a ddywedais. Gadewch inni edrych ar y materion penodol. Yn gyntaf, cyflogau'r heddlu, pwnc nad yw'r Blaid Lafur, am resymau dealladwy, am inni sôn amdano. Pleidleisio yn erbyn a wnaethoch chi. Cyflwynasom welliant penodol yn gofyn am dalu setliad yr heddlu'n llawn a'i roi ar waith ar unwaith. Pleidleisiodd pob un ohonoch yn ei erbyn. Mae'r heddlu'n gwybod hynny, coeliwch fi—mae gennyf gannoedd o negeseuon e-bost i brofi hynny os ydych yn ei amau. Peidiwch â darlithio i ni am setliadau cyflog fesul cam. Yr ydym bob tro wedi talu beth bynnag sydd wedi'i argymhell yn llawn i'r heddlu a bydd y cofnod

yn dangos hynny. Yr unig blaid sydd heb wneud hynny yw'r Blaid Lafur—nid oes ond angen ichi edrych ar y cofnod.

David Lloyd: So when exactly did George Osborne, the Tory shadow chancellor, announce the commitment to pay the police deal in full—not staged, but in full? When was that commitment announced?

David Lloyd: Felly pa bryd yn union y cyhoeddodd George Osborne, canghellor Toriaidd yr wrthblaid, yr ymrwymiad i dalu setliad yr heddlu'n llawn—nid fesul cam, ond yn llawn? Pa bryd y cyhoeddwyd yr ymrwymiad hwnnw?

Nick Bourne: You have raised this time and again. We answered it last time—it was an absolutely clear commitment that we have always honoured it, and always will. There is no doubt about that.

Nick Bourne: Yr ydych wedi codi hyn dro ar ôl tro. Cawsoch ateb gennym y tro diwethaf—yr oedd yn ymrwymiad cwbl glir. Yr ydym bob tro wedi cadw ato, a byddwn gwneud hynny bob tro yn y dyfodol. Nid oes dim amheuaeth ynglŷn â hynny.

Let me proceed on the police issue. We need more community support officers. We need less stop and search forms, and they need to be shorter. At Westminster, in fairness, the Labour Government is trying to do something on that, but it is too little, too late. Twenty-four-hour licensing, on which we have previously raised concerns, has not been the success that was anticipated. You told us that we were wrong to raise concerns, but, given the violent crime figures, we have been proved right.

Gadewch imi fwrw ymlaen â mater yr heddlu. Mae angen mwy o swyddogion cymorth cymunedol arnom. Mae angen llai o ffurflenni stopio a chwilio arnom, ac mae angen iddynt fod yn fyrrach. Yn San Steffan, a bod yn deg, mae'r Llywodraeth Lafur yn ceisio gwneud rhywbeth ynglŷn â hynny, ond mae'n rhy ychydig, yn rhy hwyr. Nid yw trwyddedu pedair awr ar hugain wedi bod yn gymaint o lwyddiant a ragwelwyd ac yr ydym wedi dweud o'r blaen ein bod yn pryderu am hyn. Dywedasoeh wrthym nad oedd lle inni bryderu ond ac ystyried y ffigurau ar gyfer troseddau treisgar, gwelir mai ni oedd yn iawn.

I will move on to the post office closure programme—a Government-sponsored closure programme. We know that it is Government-sponsored—it holds all the shares. Irene James might not think that it has been privatised, but we know that all the shares are held by the Labour Government, and, if that is the case, it is its closure programme, is it not? We know that the Government has said that there should not be any closures over the local government election period, because it will affect the outcomes of those elections. It is right on that—it will. We must ensure that it does have an affect and that people are not duped.

Symudaf ymlaen at y rhaglen i gau swyddfeydd post—raglen cau sy'n cael ei noddi gan y Llywodraeth. Gwyddom fod y Llywodraeth yn ei noddi—ganddi hi y mae'r cyfranddaliadau i gyd. Efallai nad yw Irene James yn meddwl bod Swyddfa'r Post wedi'i phreifateiddio, ond gwyddom mai'r Llywodraeth Lafur biau'r cyfranddaliadau i gyd, ac, os felly, onid ei rhaglen hi yw'r rhaglen cau? Gwyddom fod y Llywodraeth wedi dweud na ddylid cau'r un swyddfa dros gyfnod etholiadau llywodraeth leol, oherwydd y bydd yn effeithio ar ganlyniadau'r etholiadau hynny. Mae'n iawn ynglŷn â hynny—mi fydd. Rhaid inni sicrhau y bydd yn cael effaith ac na chaiff pobl eu twyllo.

In my own area, post offices have already been served with closure notices, but they cannot say anything about it or they will lose

Yn fy ardal i fy hun, mae swyddfeydd post eisoes wedi cael rhybudd cau, ond ni allant ddweud dim yn ei gylch neu byddant yn colli

their compensation, so it is a double gag by the Labour Government. There is to be no consultation while the closures are going through and no disclosure by post offices of the closure hanging over their heads because they will lose their compensation. Too add insult to injury, the Gradgrind Deputy Minister wants to claw back the money that they will be given when they are closed. They will be closed despite their best efforts and the Government will then try to claw back the money—

Leighton Andrews *rose*—

Nick Bourne: I will give way in a minute.

The Deputy Presiding Officer: Order. You are running out of time.

Nick Bourne: I cannot give way. The Government will then try to claw back the money. You announced it and you know that it is true.

Let me move on to schools. We have heard from Plaid Cymru previously that this will have no effect on the language; these school closures—29 in Gwynedd—will have no effect on the language. I do not always agree with Seimon Glyn, but he says that it will have an effect, and there are Plaid Cymru supporters in Cricieth who say that, when the school closes there, pupils will have to go to an anglicised school. You know that this is true; you know your patch— [*Interruption.*]

I cannot give way; I do not have any time. You know very well that that is true. Lastly, on hospitals, which we have not touched upon, because the Minister has kicked the issue into the long grass, we know that local community services are under threat. We know that the breast cancer service—which you said was vital at Llandudno Hospital during the general election—the stroke service and the cardiac treatment service are all on death row, they have a stay of execution until May 2. That is why we tabled this debate and that is why Members should vote to preserve community services.

eu hiawndal, felly mae'r Llywodraeth Lafur yn cau eu ceg ddwywaith. Ni fydd dim ymgynghori wrth i'r cau fynd rhagddo ac ni chaiff y swyddfeydd post ddatgelu eu bod dan fygythiad oherwydd y byddant yn colli eu hiawndal. I roi halen ar y briw, Mae'r Dirprwy Weinidog Gradgrind am adfachu'r arian a gânt pan gaeir hwy. Fe'u caeir er gwaethaf eu hymdrechion gorau ac yna, bydd y Llywodraeth yn ceisio adfachu'r arian—

Leighton Andrews *a gododd*—

Nick Bourne: Ildiaf mewn munud.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae'ch amser yn dirwyn i ben.

Nick Bourne: Ni allaf ildio. Yna, bydd y Llywodraeth yn ceisio adfachu'r arian. Chi wnaeth gyhoeddi hynny a gwyddoch ei fod yn wir.

Gadewch imi fwrw ymlaen i sôn am ysgolion. Yr ydym wedi clywed gan Blaid Cymru o'r blaen na fydd hyn yn effeithio ar yr iaith; na chaiff cau'r ysgolion hyn—29 yng Ngwynedd—effaith ar yr iaith. Nid wyf bob tro'n cytuno â Seimon Glyn, ond dywed ef y bydd hyn yn cael effaith, ac mae nifer o gefnogwyr Plaid Cymru yng Nghricieth sy'n dweud, pan fydd yr ysgol yno'n cau, y bydd yn rhaid i ddisgyblion fynd i ysgol sydd wedi'i Seisnigo. Gwyddoch fod hyn yn wir, yr ydych yn adnabod eich milltir sgwâr— [*Torri ar draws.*]

Ni allaf ildio; Nid oes gennyf amser. Gwyddoch yn iawn fod hynny'n wir. Yn olaf, yr ysbytai, nad ydym wedi eu crybwyll, oherwydd bod y Gweinidog wedi cicio'r mater i'r borfa hir. Gwyddom fod gwasanaethau cymunedol lleol dan fygythiad. Gwyddom fod gwasanaeth canser y fron—a oedd meddech chi yn ystod yr etholiad cyffredinol—yn hollbwysig yn Ysbyty Llandudno, y gwasanaeth strôc a'r gwasanaeth triniaeth gardiaidd i gyd yn disgwyl y fwyell, a hynny wedi'i ohirio tan 2 Mai. Dyna pam y cyflwynasom y ddadl hon a dyna pam y dylai'r Aelodau bleidleisio dros gadw gwasanaethau cymunedol.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? I see that Members do. We will, therefore, defer the vote until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan 5.25 p.m.
Votes deferred until 5.25 p.m.*

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats Debate

Mesuryddion Smart Smart Meters

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Carwyn Jones.

Mick Bates: I propose that

the National Assembly for Wales:

1. recognises the potential for smart meters to increase energy efficiency, reduce carbon emissions and assist with fuel poverty; and

2. calls on the Welsh Assembly Government to:

a) devise an effective strategy to roll out smart meters across Wales; and

b) continue to press the UK Government to introduce a mandate as soon as possible for the installation of smart meters in every household in Wales. (NDM3874)

I inform Members that, if the information and communications technology is working, there will be some pictures on the screens to demonstrate how the smart meter works. If you wish to access those pictures on your personal screen, they should appear under 'presentation'. Today is E-Day. I am not sure that people have heard of it, but it is an energy-saving day, with the strapline that small things in life can make a big difference.

Wales may be a relatively small country, but I am ambitious for this country to make a big difference when it comes to tackling climate

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw ein bod yn cytuno â gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod. Felly, gohiriwn y bleidlais tan amser pleidleisio.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Carwyn Jones.

Mick Bates: Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn cydnabod y potensial i fesuryddion smart gynyddu effeithlonrwydd ynni, lleihau gollyngiadau carbon a helpu gyda thlodi tanwydd; a

2. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

a) llunio strategaeth effeithiol i gyflwyno mesuryddion smart ledled Cymru; a

b) parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i gyflwyno mandad cyn gynted ag sy'n bosibl ar gyfer gosod mesuryddion smart ym mhob cartref yng Nghymru. (NDM3874)

Er gwybodaeth i'r Aelodau, os yw'r dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n gweithio, bydd nifer o luniau ar y sgriniau i ddangos sut mae'r mesurydd smart yn gweithio. Os dymunwch weld y lluniau hynny ar eich sgrin personol, dylent ymddangos dan 'gyflwyniad'. Mae'n Ddiwrnod Ynni heddiw. Nid wyf yn siŵr bod pobl wedi clywed amdano, ond mae'n ddiwrnod arbed ynni, a'r arwyddair yw y gall pethau bychain mewn bywyd wneud gwahaniaeth mawr.

Efallai fod Cymru'n wlad gymharol fechan, ond fy uchelgais yw gweld y wlad hon yn gwneud gwahaniaeth mawr wrth fynd i'r

change, and to make a big difference when it comes to ensuring that energy customers have a fair deal. This debate is not just about a one-day protest, but is a call for fundamental change in the outdated metering and billing technology that we use, so that all domestic consumers will benefit long into the future. There is scope for individuals to save energy, reduce carbon emissions, and cut costs by adopting energy efficiency and energy conservation measures.

E-Day, for those of you who might wish to look it up, starts officially at 6 p.m. tonight, and calls for people to turn off certain electronic equipment for 24 hours. It is organised by

‘an editorially and financially independent and apolitical organisation which aims to make action to tackle climate change fun, positive, evidence-based and inclusive’,

and so say all of us. This debate—unlike the previous one, which was important, but led to some disagreement—can produce consensus in the Chamber, and action from the Government.

I cannot support the amendment, which deals with one of the issues that we must address. The amendment talks about a trial of smart meters—in St Athan, of all places. I inform Members that the trial is not being run by the Government; it is being run by Ofgem. The biggets Ofgem trial, by the way, is in Newport, run by SWALEC across south Wales. I admit that we must have a trial to see how smart meters work—that would be a good start. We have the renewable energy route-map, which contains a commitment to the installation of smart meters. However, the Assembly Government’s amendment seeks to remove something from the motion—something that puts more flesh on that little bone about wanting to install smart meters.

The amendment also mentions the carbon emissions reduction targets. They are not a Welsh Assembly Government initiative, but originated in Whitehall. We want a plan that is developed here in Wales for the installation

afael â newid yn yr hinsawdd ac yn gwneud gwahaniaeth mawr wrth sicrhau bod cwsmeriaid ynni’n cael bargaen deg. Nid rhan o brotest undydd yn unig yw’r ddadl hon, Mae’n galw am newid sylfaenol yn y dechnoleg hen ffasiwn a ddefnyddiwn i fesur a bilio, er mwyn i bob defnyddiwr domestig elwa ymhell i’r dyfodol. Mae lle i unigolion arbed ynni, lleihau gollyngiadau carbon a thorri ar gostau drwy fabwysiadu dulliau effeithlonrwydd ynni a dulliau cadw ynni

Efallai yr hoffai rhai ohonoch gael gwybod rhagor am y Diwrnod Ynni. Mae’n dechrau’n swyddogol am 6 p.m. heno ac mae’n galw ar bobl i ddiffodd offer electronig arbennig penodol am 24 awr. Trefnir y diwrnod gan

gorff anwleidyddol sy’n annibynnol o safbwynt golygyddol ac ariannol a’i nod yw sicrhau bod gweithredu i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd yn hwyl, yn adeiladol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gynhwysol.

Clywch clywch, meddai pawb. Mae’r ddadl hon—yn wahanol i’r un flaenorol, a oedd yn bwysig, ond a arweiniodd at rywffaint o anghytuno—yn gallu creu consensws yn y Siambr, a gweithredu o du’r Llywodraeth.

Ni allaf gefnogi’r gwelliant, sy’n ymwneud ag un o’r materion y mae’n rhaid inni roi sylw iddo. Mae’r gwelliant yn sôn am dreialu mesuryddion smart—yn Sain Tathan, o bob man. Rhoddaf wybod i’r Aelodau nad y Llywodraeth sy’n cynnal y treial; Ofgem sy’n ei gynnal. Mae treial mwyaf Ofgem, gyda llaw, yn cael ei gynnal yng Nghasnewydd, gan SWALEC, ledled y de. Cyfaddefaf fod yn rhaid inni gael treial i weld sut mae mesuryddion smart yn gweithio—byddai hynny’n ddechrau da. Mae gennym y map llwybr ynni adnewyddadwy, sy’n cynnwys ymrwymiad i osod mesuryddion smart. Fodd bynnag, nod gwelliant Llywodraeth y Cynulliad yw dileu rhywbeth o’r cynnig—rhywbeth sy’n rhoi mwy o gnawd ar yr asgwrn bach hwnnw ynglŷn â dymuno gosod mesuryddion smart.

Mae’r gwelliant hefyd yn sôn am dargedau lleihau gollyngiadau carbon. Nid un o gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru yw hwn. Mae’n tarddu o San Steffan. Yr ydym am gael cynllun sydd yn cael ei ddatblygu

of smart meters. However, even if we accept the Welsh Assembly Government view that that has to be a Westminster or a Whitehall initiative, the reference to the UK Government has also been removed from my motion. I am sure that the Minister, who is very enthusiastic about meeting the challenge of climate change, will say that she is in favour of smart meters. We are having this debate today because we want to know what you are doing to make it happen in Wales. That is the key issue.

On the screens around the Chamber you can see a picture of a smart meter, and I have one here to show you. These meters are fitted in houses in the same location as the current meters. The part that you can see on the screen is the smart bit, which we will hopefully be able to watch, to see how it works. What are the benefits of smart meters? The display screen is the biggest improvement over the old electronic display devices. It ensures greater consumer awareness, so that the consumer can tell at any moment how much energy is being consumed. In fact, its flexibility allows it to be bilingual, which is an important factor to remember. The information can be transmitted to other devices, such as mobile phones, or televisions, or via the internet. Smart meters can be used for both gas and electricity, whereas the old electronic display devices are for electricity only.

The system can also work both ways, communicating between the energy producer and the consumer, so that both parties are informed about the exact amount of energy being consumed. Technology can be developed so that that information can be accessed at any time of day and stored over time to show trends in energy consumption in a house, or factory, or wherever. This information is helpful for developing tariffs from the Government or companies on peak usage, or for social tariffs. Encouraging money saving and energy saving is a key factor.

yma yng Nghymru ar gyfer gosod mesuryddion smart. Fodd bynnag, hyd yn oed os derbyniwn farn Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bod yn rhaid i gynllun o'r fath fod yn gynllun gan San Steffan neu Whitehall, mae'r cyfeiriad at Lywodraeth y DU wedi'i ddileu o'm cynnig hefyd. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog, sy'n frwd iawn o blaid ymateb i her newid yn yr hinsawdd, yn dweud ei bod o blaid mesuryddion smart. Yr ydym yn cynnal y ddatl hon heddiw oherwydd ein bod am gael gwybod beth yr ydych yn ei wneud i wireddu hyn yng Nghymru. Dyna'r mater allweddol.

Ar y sgriniau o gwmpas y Siambr, gallwch weld llun mesurydd smart, ac mae gennyf un yma i'w ddangos ichi. Bydd y mesuryddion hyn yn cael eu gosod mewn tai yn yr un man â'r mesuryddion sydd yno ar hyn o bryd. Y rhan y gallwch ei gweld ar y sgrin yw'r darn smart, a gobeithio y gallwn wyllo hwnnw, i weld sut mae'n gweithio. Beth yw manteision mesuryddion smart? Y sgrin arddangos yw'r gwelliant mawr o'i gymharu â'r hen ddyfeisiau arddangos electronig. Mae'n sicrhau bod y defnyddiwr yn fwy ymwybodol, er mwyn iddo allu gwybod unrhyw bryd faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio. A dweud y gwir, mae ei hyblygrwydd yn golygu y gall fod yn ddwyieithog, sy'n ffactor pwysig i'w gofio. Gellir trosglwyddo'r wybodaeth i ddyfeisiau eraill, megis i ffôn symudol, neu i deledu, neu drwy'r rhyngwrwd. Gellir defnyddio mesuryddion smart ar gyfer nwy ac ar gyfer trydan, yn wahanol i'r hen ddyfeisiau arddangos electronig sydd ar gyfer trydan yn unig.

Mae'r system hefyd yn gallu gweithio ddwy ffordd, gan gyfathrebu rhwng y cynhyrchi ynni a'r defnyddiwr, er mwyn i'r ddau ohonynt wybod faint o ynni'n union sy'n cael ei ddefnyddio. Gellir datblygu technoleg er mwyn mynd at y wybodaeth unrhyw bryd yn ystod y dydd a'i gadw dros gyfnod er mwyn dangos patrymau defnyddio ynni mewn tŷ, mewn ffatri, neu ym mha le bynnag. Mae'r wybodaeth hon o gymorth wrth i'r Llywodraeth neu gwmnïau ddatblygu tariffiau ar gyfer defnydd brig, neu ar gyfer tariffiau cymdeithasol. Un o'r ffactorau allweddol yw annog pobl i arbed arian ac arbed ynni.

4.40 p.m.

Smart meters will also benefit the fuel poor, including pensioners. Fuel poverty in Wales is a growing problem and is set to get worse. Providing accurate information to householders on the actual energy consumption and the resulting costs offers real benefits, particularly around budgeting for fuel and avoiding debt via accurate and timely bills. Energywatch says that 70 per cent of its complaints are about billing—those awful estimated bills.

Consumption is given in terms of costs and acts as an incentive for the consumer to consume less. Technology can be developed to show customers how much each specific electronic device in their homes actually costs them, ensuring that individuals have the choice of turning off unneeded electronic equipment or use energy-saving devices. Energy-savings of between 3 and 15 per cent can prevent over 60,000 tonnes of carbon dioxide emissions from entering the atmosphere each year. Smart meters also create the capacity for selling back to the supplier, which will facilitate microgeneration technology for businesses and homes. All this helps to reduce carbon emissions, in our battle against climate change. You will see from the final slide of my presentation that, if smart meters were adopted, people could press a button to see how much carbon emissions they were responsible for, and discover how they could reduce those emissions.

This debate has been brought forward at a particularly pivotal time, not because of E-Day, but because the Energy Bill is currently going through the House of Commons. This provides us with an excellent opportunity to press our demand for efficient technology that not only delivers help for our planet, but also help for our constituents. Reducing energy bills is one of the key factors that can emerge from accepting our proposal in this debate today. The amount of carbon produced by the average household from gas and electricity is around 2,300 kg. An estimated quarter of carbon emissions in

Bydd mesuryddion smart o fudd i'r tlawd o ran tanwydd hefyd, gan gynnwys pensïynwyr. Mae tlodi tanwydd yn broblem sy'n tyfu yng Nghymru ac mae'n debygol o waethygu. Mae rhoi gwybodaeth gywir i berchnogion tai am yr union ynni y maent yn ei ddefnyddio a'r costau yn sgil hynny'n cynnig manteision go iawn, yn enwedig o ran cyllidebu ar gyfer tanwydd ac osgoi dyled drwy gael biliau cywir a phrydlon. Dywed Golwg ar Ynni mai cwynion am filio yw 70 y cant o'r cwynion a gaiff—yr amcanfiliau erchyll hynny.

Dangosir cost yr ynni a ddefnyddir ac mae hynny'n gymhelliad i'r defnyddiwr ddefnyddio llai. Gellir datblygu technoleg i ddangos i gwsmeriaid faint yn union y mae pob dyfais electronig benodol yn ei gostio iddynt yn eu cartrefi, gan sicrhau bod gan unigolion ddewis. Gallant ddiffodd offer electronig diangen neu ddefnyddio dyfeisiau arbed ynni. Gall arbed rhwng 3 a 15 y cant o ynni atal 60,000 tonnelli o ollyngiadau carbon bob blwyddyn rhag dianc i'r atmosffer. Gyda mesuryddion smart hefyd gellid gwerthu ynni yn ôl i'r cyflenwydd, a bydd yn hwyluso technoleg microgynhyrchu ar gyfer busnesau a chartrefi. Mae hyn i gyd yn helpu i leihau gollyngiadau carbon, yn ein brwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Gwelwch ar sleid olaf fy nghyflwyniad, petai mesuryddion smart yn cael eu mabwysiadu, y gallai pobl bwysu botwm i weld faint o ollyngiadau carbon yr oeddent yn gyfrifol amdanynt, a chael gwybod sut y gallent leihau'r gollyngiadau hynny.

Mae'r ddadl hon wedi'i chyflwyno ar adeg hynod o bwysig, nid dim ond oherwydd ei bod yn Ddiwrnod Ynni, ond oherwydd bod y Mesur Ynni'n mynd drwy Dŷ'r Cyffredin ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhoi cyfle rhagorol inni bwysu am gael technoleg effeithlon sydd nid yn unig yn llwyddo i gynorthwyo'n planed, ond sydd hefyd o gymorth i'n hetholwyr. Lleihau biliau ynni yw un o'r ffactorau allweddol a all godi yn sgil derbyn ein cynnig yn y ddadl hon heddiw. Mae pob cartref ar gyfartaledd yn cynhyrchu oddeutu 2,300 kg o garbon wrth ddefnyddio trydan a nwy. Amcangyfrifir bod chwarter

Wales come from households, so this will have an important impact.

Many of us visit schools and we see that, through teaching, eco-schools and environmental good practice, most young people learn how to save energy. They are the great heroes. If we could install smart meters in Wales's 1.2 million homes, children would tell their parents, 'You can look at this technology and you can use it, not only to save energy but to help to save the planet'. If those children live in vulnerable households, they can also have a social tariff.

Therefore, all of this adds up to win-win situations. The energy White Paper included massive support for smart meters. However, by the time that the Energy Bill was drafted, smart meters were all but forgotten. Instead, the Energy Bill supports energy display mechanisms, which I refer to as dumb meters, that only display the amount of electricity that you use. Our debate today focuses on smart meters; they are the ideal way forward to help us to meet the 60 per cent carbon emission reduction target proposed in the Climate Change Bill. Our motion calls on the Welsh Assembly Government to develop its own initiatives to roll-out smart meters and, at the same time, to put pressure on Westminster to provide a mandate for smart meters in the Energy Bill, rather than allow the Westminster Government to replace smart meters with the outdated and inefficient energy display technology.

The Welsh Assembly Government says that it supports smart meters. Only last week, Rhodri Morgan said that the UK Government should not bother with energy display mechanisms, as they are a diversion on the route to roll-out smart meters. We are calling for the Government to amend the Energy Bill, so that it mandates the installation of smart meters across the United Kingdom. If the Westminster Government wants to delay and waste time with energy display mechanisms, give us framework powers so

gollyngiadau carbon Cymru'n dod o gartrefi, felly caiff hyn effaith bwysig.

Bydd llawer ohonom yn ymweld ag ysgolion a gwelwn, drwy addysgu, eco-ysgolion ac arferion amgylcheddol da, fod y rhain fwyaf o bobl ifanc yn dysgu sut mae arbed ynni. Dyma'r arwyr mawr. Pe galledd osod mesuryddion smart yn yr 1.2 miliwn o gartrefi sydd yng Nghymru, byddai'r plant yn dweud wrth eu rhieni, 'Gallwch edrych ar y dechnoleg hon a'i defnyddio, nid dim ond i arbed ynni ond hefyd er mwyn helpu i achub y blaned'. Os yw'r plant hynny'n byw mewn cartrefi agored i niwed, gallant hefyd gael tariff cymdeithasol.

Felly, gyda'i gilydd, mae hyn i gyd yn creu sefyllfaoedd lle mae pawb ar eu hennill. Yr oedd cefnogaeth aruthrol i fesuryddion smart yn y Papur Gwyn. Fodd bynnag, erbyn drafftio'r Mesur Ynni, yr oedd mesuryddion smart fwy neu lai wedi'u hanghofio. Yn hytrach, mae'r Mesur Ynni'n cefnogi mecanweithiau arddangos ynni. Mesuryddion twp y byddaf i'n eu galw, gan mai'r cyfan y maent yn ei ddangos yw faint o ynni y byddwch yn ei ddefnyddio. Mae ein dadl heddiw'n canolbwyntio ar fesuryddion smart; dyma'r ffordd ddelfrydol ymlaen i'n helpu i gyrraedd y targed 60 y cant ar gyfer lleihau gollyngiadau carbon, sef y targed a gynigir yn y Mesur Newid yn yr Hinsawdd. Mae ein cynnig yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu ei chynlluniau ei hun i ledaenu mesuryddion smart, ac, ar yr un pryd, i roi pwysau ar San Steffan i gynnwys mandad ar gyfer mesuryddion smart yn y Mesur Ynni, yn hytrach na gadael i Lywodraeth San Steffan ddefnyddio technoleg arddangos ynni aneffeithlon a hen ffasiwn yn lle'r mesuryddion smart.

Dywed Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bod yn cefnogi mesuryddion smart. Dim ond yr wythnos diwethaf, dywedodd Rhodri Morgan na ddylai Llywodraeth y DU drafferthu i isod mecanweithiau arddangos ynni gan fod y rhain yn wyriad oddi ar lwybr lledaenu mesuryddion smart. Yr ydym yn galw ar y Llywodraeth i ddiwygio'r Mesur Ynni, er mwyn iddo roi mandad ar gyfer gosod mesuryddion smart ledled y Deyrnas Unedig. Os yw Llywodraeth San Steffan am oedi a gwastraffu amser gyda mecanweithiau

that we can give ourselves the mandate to do it.

As I said, the strapline for energy-savings day was to look after the little things. Most of you will know that that was also what St David, our patron saint, told us. Looking after these little things, such as installing smart meters, can make a massive difference to us in Wales.

Please, support the Welsh Liberal Democrat motion on smart meters.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I propose amendment 1 in the name of Carwyn Jones. Delete everything after point 1 and replace with:

2. welcomes the piloting of smart meters in St Athan;

3. following the publication of the Assembly Government's ambitious renewable energy route-map, welcomes plans to develop a national energy efficiency and saving plan this year;

4. welcomes the opportunities provided by the new carbon emission reduction target (CERT) to support energy efficiency improvements in Wales.

Darren Millar: I am grateful for the opportunity to contribute to this debate, and to support the motion on behalf of the Welsh Conservatives.

The Welsh Conservatives believe that energy efficiency should be at the heart of energy policy. There is no doubt that smart metres can help to reduce energy consumption. I agree with the Energy Retail Association's view that, under the current technology and administrative arrangements for metering and billing, the current energy efficiency and carbon reduction targets will not be met. Most in this Chamber would agree that addressing the challenges of climate change are the pressing matters of our day. It does not take too much research to understand that minimising our carbon footprint takes at least

arddangos ynni, rhwch y pwerau fframwaith i ni fel y gallwn roi'r mandad inni'n hunain wneud hynny.

Fel y dywedais, yr arwyddair ar gyfer diwrnod arbed ynni oedd gofalu am y pethau bychain. Bydd y rhan fwyaf ohonoch yn gwybod mai dyna a ddywedodd Dewi Sant, ein nawddsant wrthym. Gall gofalu am y pethau bychain hyn, megis gosod mesuryddion smart, wneud gwahaniaeth anferth i ni yng Nghymru.

Cefnogwch gynnig Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar fesuryddion smart.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Cynigiau welliant 1 yn enw Carwyn Jones. Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

2. yn croesawu treialu mesuryddion smart yn Sain Tathan;

3. yn dilyn cyhoeddi map trywydd ynni adnewyddadwy uchelgeisiol Llywodraeth y Cynulliad, yn croesawu cynlluniau i ddatblygu cynllun effeithlonrwydd ac arbed ynni eleni;

4. yn croesawu'r cyfleoedd a gynigir gan y targed gostwng gollyngiadau carbon (CERT) newydd i gefnogi gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni yng Nghymru.

Darren Millar: Yr wyf yn ddiolchgar o'r cyfle i gyfrannu at y ddaidl hon a chefnogi'r cynnig ar ran Ceidwadwyr Cymru.

Mae Ceidwadwyr Cymru yn credu y dylai effeithlonrwydd ynni fod wrth galon polisi ynni. Nid oes unrhyw amheuaeth na all mesuryddion smart gyfrannu at leihau faint o ynni a ddefnyddir. Cytunaf â barn y Gymdeithas Manwerthu sy'n datgan, gyda'r dechnoleg gyfredol a threfniadau gweinyddu mesuryddion a bilio, na fydd y targedau cyfredol ar effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon yn cael eu cwrrd. Byddai'r rhan fwyaf yn y Siambr yn cytuno mai mynd i'r afael â heriau newid yn yr hinsawdd yw materion mwyaf llosg ein dydd. Nid yw'n cymryd llawer o ymchwil i ddeall bod lleihau

a twofold approach. On the one hand, we have the need to reduce reliance on fossil fuels and to develop clean energy, and on the other hand, we have the challenge of becoming more energy efficient. Smart meters can help to do both.

Research by the Energy Saving Trust indicates that homes fitted with smart meters tend to use between 5 per cent and 15 per cent less energy than homes without smart metres. As consumers actively engage in monitoring their energy consumption, they are more likely to invest in energy saving products and be spurred on to do other things to help their environment, rather than feeling powerless to make a difference. These next-generation meters have the potential to bring the energy efficiency and climate change message literally to people's doorstep, placing responsibility in the hands of those who, acting together, can make a huge difference to cut carbon emissions in Wales.

In a world where making a difference for the sake of climate change tends to come in small steps, smart meters have the potential to empower every household in the country with the opportunity to make noticeable differences, with obvious results in their everyday lives. These are the kinds of tools that this Labour-Plaid Government should be seeking to implement with a matter of urgency. While enabling consumers to monitor consumption is important, it is also vital that any smart meter technology rolled out in Wales is able to communicate with suppliers.

These so-called 'intelligent' smart meters have the ability to inform energy suppliers as to the demand for energy from their customers. This can assist them in predicting demand and reducing the production of surplus energy, which, at present, is simply wasted in the grid. This would deliver benefits not only to the environment, due to fewer greenhouse gas emissions, but it would also cut costs for energy companies, which they could then pass on to customers, potentially helping to lift thousands out of the

ein hól-troed carbon yn gofyn am agwedd ddeublyg, o leiaf. Ar y naill law, mae gennym yr angen i leihau dibyniaeth ar danwydd ffosil a datblygu ynni glân, ac ar y llaw arall, mae gennym yr her o ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon. Gall mesuryddion smart helpu i gyflawni'r ddau.

Dengys ymchwil gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni bod cartrefi lle mae mesuryddion smart wedi eu gosod yn dueddol o ddefnyddio rhwng 5 y cant a 15 y cant yn llai o ynni na chartrefi heb fesuryddion smart. Gan fod defnyddwyr yn weithredol fonitro faint o ynni a ddefnyddiant, maent yn fwy tebygol o fuddsoddi mewn cynhyrchion arbed ynni a chael eu sbarduno i wneud pethau eraill i helpu eu hamgylchedd, yn hytrach na theimlo'n ddi-rym i wneud gwahaniaeth. Mae gan y mesuryddion cenhedlaeth nesaf hyn y potensial i ddod â neges effeithlonrwydd ynni a newid yn yr hinsawdd yn llythrennol at stepen drws pobl, gan osod cyfrifoldeb yn nwylo'r rheini a allai, drwy weithredu gyda'i gilydd, wneud gwahaniaeth aruthrol i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru.

Mewn byd lle mae gwneud gwahaniaeth er budd newid yn yr hinsawdd yn dueddol o ddigwydd fesul camau bach, mae gan fesuryddion smart y potensial i rymuso pob aelwyd yn y wlad gyda'r cyfle i wneud gwahaniaethau nodedig, gyda chanlyniadau amlwg yn eu bywydau bob dydd. Dyma'r math o gyfryngau y dylai'r Llywodraeth Lafur-Plaid hon fod yn ceisio eu gweithredu ar unwaith. Er bod galluogi defnyddwyr i fonitro eu defnydd yn bwysig, mae hefyd yn hollbwysig bod unrhyw dechnoleg mesuryddion smart a gyflwynir yng Nghymru yn gallu cyfathrebu â chyflenwyr.

Mae gan y mesuryddion smart 'deallus' hyn, fel y'u dywedir, y gallu i hysbysu cyflenwyr ynni ynglŷn â'r galw am ynni gan eu cwsmeriaid. Gall hyn eu helpu i ragweld galw a pheri iddynt beidio â chynhyrchu ynni diangen sydd, ar hyn o bryd, yn cael ei wastraffu yn y grid. Byddai hyn yn esgor ar fudd nid yn unig i'r amgylchedd, yn sgil llai o ollyngiadau nwyon tŷ gwydr, ond byddai hefyd yn torri costau cwmnïau ynni, a gallent hwythau wedyn eu trosglwyddo yn eu tro i gwsmeriaid, gyda'r potensial i helpu miloedd

fuel poverty trap.

I acknowledge the need for piloting and scrutiny, and I welcome the pilot scheme that has been announced in St Athan. However, it says something that it takes the opposition to raise this debate on smart metres in the Chamber, and not the Labour-Plaid Government. We are the ones who are keeping this issue on the public radar. It is further confirmation of how far removed the actions of the Assembly Government are from its rhetoric. The roll-out of smart meters in Wales will require a determined effort from your Government, Minister, and I hope that that is what you will do following this debate. I urge Members to support the Liberal Democrat motion.

Joyce Watson: I am particularly interested in this issue as a Labour Assembly Member, because of the often higher rates of fuel poverty that are found in rural areas of Mid and West Wales. I therefore welcome smart meters as they have the potential to halt and even reverse the current rising costs of energy. By making consumers more aware of their energy use, by enabling them to be more energy efficient, and by reducing the cost to suppliers, smart meters are set to have a positive impact on the environment and on individual families' incomes in Wales.

Fuel poverty is a real issue for many families in Wales, where people are spending more than 10 per cent of their household incomes on keeping their homes warm. Smart meters have the potential to build on the Labour-led Assembly Government's £74 million home energy efficiency scheme, which, since 2000, has helped 74,000 households across Wales achieve greater energy efficiency through measures such as central heating, loft insulation and cavity wall insulation for the elderly, disabled people, and families on low incomes. That is since 2000, Darren Millar.

4.50 p.m.

In my discussions with National Energy Action Cymru and constituents, I have learnt that, with regard to the home energy

o bobl o fagl tlodi tanwydd.

Yr wyf yn cydnabod bod angen treialu a chraffu, a chroesawaf y cynllun peilot sydd wedi'i gyhoeddi ar gyfer Sain Tathan. Fodd bynnag, mae'n rhyfedd o fyd lle mai'r gwrthbleidiau sy'n codi'r ddatl hon am fesuryddion smart yn y Siambr ac nid y Llywodraeth Lafur-Plaid. Ni yw'r rhai sy'n cadw'r mater hwn ar y radar cyhoeddus. Mae'n gadarnhad pellach o'r gagendor rhwng gweithredoedd Llywodraeth y Cynulliad a'i rhethreg. Bydd cyflwyno mesuryddion smart yng Nghymru yn gofyn am ymdrech lew gan eich Llywodraeth, Weinidog, a gobeithiaf mai dyna a wnewch yn dilyn y ddatl hon. Anogaf Aelodau i gefnogi cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol.

Joyce Watson: Mae gennyf ddiddordeb penodol yn y mater hwn fel Aelod Cynulliad Llafur, oherwydd y cyfraddau uwch o dlodi tanwydd a welir yn aml yn ardaloedd gwledig y canolbarth a'r gorllewin. Yr wyf felly'n croesawu mesuryddion smart, gan fod ganddynt y potensial i atal, os nad gwyrddroi, y costau ynni cynyddol cyfredol. Drwy wneud defnyddwyr yn fwy ymwybodol o'r ffordd y defnyddiant ynni, drwy alluogi iddynt ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon, a thrwy leihau'r gost i gyflenwyr, gall mesuryddion smart gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd ac ar incwm teuluoedd unigol yng Nghymru.

Mae tlodi tanwydd yn fater gwirioneddol i lawer o deuluoedd yng Nghymru, lle mae pobl yn gwario mwy na 10 y cant o incwm eu haelwyd ar gadw eu cartrefi'n gynnes. Mae gan fesuryddion smart y potensial i adeiladu ar gynllun effeithlonrwydd ynni cartref gwerth £74 miliwn Llywodraeth y Cynulliad, dan arweiniad Llafur, sydd, er 2000, wedi helpu 74,000 o aelwydydd ledled Cymru i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon drwy fesurau megis gwres canolog, inswleiddio atigau ac inswleiddio waliau ceudod ar gyfer yr henoed, pobl anabl a theuluoedd ar incwm isel. Mae hynny er 2000, Darren Millar.

Yn fy nhrafodaethau gyda Gweithredu Ynni Cenedlaethol Cymru ac etholwyr, yr wyf wedi dysgu, yng nghyswllt y cynllun

efficiency scheme, while there have been many successes, there have also been problems with take-up. That has been a particular problem in rural—

Darren Millar: Will you give way?

Joyce Watson: No.

That has been a particular problem in rural and deep rural areas of Mid and West Wales. It is often because of the type of housing that is found, in that old properties are hard to treat, but there are also problems to do with information—people often simply do not know what help is available to them or how they can access it.

I hope that the Assembly Government, ahead of its plans to pilot smart meter projects, as is being done with the Labour-led Government trial in St Athan, will ensure that it makes special efforts to communicate with the people and communities who will be part of these initial trials so that people are fully aware of the scheme's potential benefits.

Peter Black: I support the motion. I want mostly to address the Labour amendment, which my Liberal Democrat colleagues and I find deeply disappointing, largely because, with the smart meter, as Mick ably demonstrated earlier, we have an opportunity to make a real difference around Wales in terms of reducing energy use and carbon emissions and starting to tackle climate change, albeit in a small way, but certainly in a significant way. Instead of accepting that point and looking at how it can be implemented, the Government has sought to delete, effectively, those parts of the motion and, instead, put in bland and general statements about its own strategies, which, frankly, talk the talk but, so far, are not walking the walk.

The amendment talks about welcoming the piloting of smart meters in St Athan, and we also welcome that. It is typical of this One Wales Government that it emphasises such an achievement without looking at the wider picture and at how we could act more quickly

effeithlonrwydd ynni cartref, er mor llwyddiannus y bu, y cafwyd problemau hefyd ynghylch manteisio arno. Bu honno'n broblem benodol mewn ardaloedd gwledig—

Darren Millar: A wnewch chi ildio?

Joyce Watson: Na wnaif.

Bu honno'n broblem benodol mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd gwledig iawn yn y canolbarth a'r gorllewin. Mae'n digwydd yn aml oherwydd y math o dai a welir yno, gan fod hen eiddo yn anodd ei drin, ond ceir hefyd problemau o ran gwybodaeth: nid yw pobl, yn aml, yn gwybod pa gymorth sydd ar gael iddynt na sut i gael llwybr ato.

Gobeithiaf y bydd Llywodraeth y Cynulliad, cyn ei chynlluniau i dreialu prosiectau mesuryddion smart, fel y gwneir gyda threial y Llywodraeth dan arweiniad Llafur yn Sain Tathan, yn sicrhau y bydd yn gwneud ymdrech arbennig i gyfathrebu â'r bobl a'r cymunedau a fydd yn rhan o'r treialon cychwynnol hyn, er mwyn i bobl fod yn gwbl ymwybodol o ddarpar fuddiannau'r cynllun.

Peter Black: Cefnogaf y cynnig. Mae arnaf eisiau rhoi sylw'n bennaf i welliant Llafur, sy'n destun siom enbyd i mi a'm cyd-Aelodau Democrat Rhyddfrydol, yn bennaf oherwydd, gyda'r mesurydd smart, fel y dangosodd Mick mor gelfydd yn gynharach, bod gennym gyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol ledled Cymru o ran lleihau faint o ynni a ddefnyddir a lleihau gollyngiadau carbon, a dechrau mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, er mewn ffordd fach, ond yn sicr mewn ffordd arwyddocaol. Yn lle derbyn y pwynt hwnnw ac ystyried sut y gellir ei weithredu, mae'r Llywodraeth wedi ceisio dileu, mwy na heb, rhannau hynny'r cynnig ac, yn eu lle, ychwanegu datganiadau diddrwg-didda a chyffredinol am ei strategaethau ei hun, sydd, a siarad yn blaen, yn addo'r byd ond yn cyflawni dim.

Mae'r gwelliant yn sôn am groesawu treialu mesuryddion smart yn Sain Tathan, ac yr ydym ninnau'n croesawu hynny. Mae'n nodweddiadol o'r Llywodraeth Cymru'n Un hon ei bod yn tynnu sylw at gyflawniad o'r fath heb edrych ar y darlun ehangach ac ar

and radically, not just praising pilot schemes, which have been instigated by the private sector, but rolling out, across the whole of Wales, a more widespread scheme that will make a much bigger difference.

The second point in the amendment praises the work done on the energy route-map. We welcome any schemes designed to look at energy efficiency, but the energy route-map makes only tokenistic references to smart meters; there are only two references to smart meters in the document. First, it praises the Scottish and Southern Energy trial in St Athan and elsewhere in the UK and, secondly, it says that the Government's science policy will support topics such as the truly smart meters. That is hardly the radical action that we need and, in any case, the energy route-map is only out for consultation. How long will it be before it is adopted as the Government's strategy, before we have resources and money put behind it and before it is implemented? Will we have to wait until 2011? We must have answers on that.

Last week in the Chamber, the Liberal Democrats highlighted the fact that the route-map is too little too late and that we are already in danger of missing the Government's own targets on energy efficiency and renewable energy. The Government's amendment today is typical of its attitude towards the environment. It is ostrich politics: the Government is hiding its head in the sand and pretending that the problem is not there.

The final point in the amendment refers to one of those targets that we mentioned last week. It is one of the targets that we fear the Government will not be able to achieve. We cannot understand why the Government has decided to delete the part of the motion that is designed to help it achieve those targets. The Government's amendment is exactly what we have come to expect of the Labour Government and of the One Wales Government when it comes to the environment: it is timid, tame and tardy. Why

sut y gallem weithio'n fwy cyflym a radical, nid dim ond canmol cynlluniau peilot, a sbardunwyd gan y sector preifat, ond cyflwyno, ledled Cymru gyfan, gynllun mwy eang a wnaiff wahaniaeth llawer mwy.

Mae ail bwynt y gwelliant yn canmol y gwaith a wnaed ar y map llwybr ynni. Yr ydym yn croesawu unrhyw gynlluniau a luniwyd er mwyn ystyried effeithlonrwydd ynni, ond dim ond cyfeiriadau symbolaidd y mae'r map llwybr ynni yn eu gwneud at fesuryddion smart; dim ond dau gyfeiriad at fesuryddion smart a geir yn y ddogfen. Yn gyntaf, mae'n canmol treial Scottish and Southern Energy a gynhaliwyd yn Sain Tathan ac mewn rhannau eraill o'r DU ac, yn ail, dywed y bydd polisi gwyddoniaeth y Llywodraeth yn cefnogi pynciau fel y mesuryddion smart gwirioneddol. Go brin mai dyna'r gweithredu radical y mae ei angen arnom a, beth bynnag, dim ond yn ei gyfnod ymgynghori y mae'r map llwybr ynni. Pa mor hir fydd hi cyn iddo gael ei fabwysiadu fel strategaeth y Llywodraeth, cyn inni gael adnoddau a chyn i arian gael ei roi yn gefn iddo a chyn iddo gael ei weithredu? A fydd yn rhaid inni aros tan 2011? Rhaid inni gael atebion ynghylch hynny.

Yr wythnos diwethaf yn y Siambr, tynnodd y Democratiaid Rhyddfrydol sylw at y ffaith bod y map llwybr ynni yn rhy ychydig, rhy hwyr a'n bod eisoes mewn perygl o fethu targedau'r Llywodraeth ei hun ar effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Mae gwelliant y Llywodraeth heddiw yn nodweddiadol o'i hagwedd ar yr amgylchedd. Gwleidyddiaeth estrys ydyw: mae'r Llywodraeth yn cuddio ei phen yn y tywod ac yn esgus nad yw'r broblem yn bodoli.

Mae pwynt olaf y gwelliant yn cyfeirio at un o'r targedau hynny y soniasom amdano yr wythnos diwethaf. Mae'n un o'r targedau yr ydym yn ofni na fydd y Llywodraeth yn llwyddo i'w gyflawni. Ni allwn ddeall pam mae'r Llywodraeth wedi penderfynu dileu rhan y cynnig a gynlluniwyd i'w helpu i gyflawni'r targedau hynny. Mae gwelliant y Llywodraeth yn union yr hyn yr ydym wedi dod i'w ddisgwyl gan Lywodraeth Lafur a chan Lywodraeth Cymru'n Un yng nghydestun yr amgylchedd: mae'n betrus, yn ddog

is the Government not seizing the opportunities before us?

The Government does not seem to appreciate that smart meters have benefits beyond those concerning the environment. We hear a lot about fuel poverty, and Joyce Watson has just mentioned that as a major driving factor behind all of our work on energy efficiency and tackling wider poverty issues. Here is an opportunity to help tackle that issue. We have already heard that the biggest development as far as smart meters are concerned is that they can tell you at any moment how much energy is being consumed in pounds and pence rather than in the kilowatt hours that current electricity meters use.

Everyone can understand pounds and pence, but I suspect that few people understand kilowatt hours. An older person who is worried about their fuel bill, instead of sitting at home with the heating turned off, will be able to check against their meter exactly how much money they will have to ultimately pay out and use energy to the maximum possible effect to ensure that they have heat when they need it to keep them warm. Instead of having 1,400 excess deaths as we did last winter, we would hopefully be able to ensure that the number continues to fall and that we continue to reduce the number of people who suffer from winter and cold-related illnesses and deaths. That is an imperative that we should be seeking to bring into effect, and it is something with which the smart meters can help. That is why the Government should be embracing this motion—not trying to amend it with petty words—and starting to implement it by rolling out smart meters across Wales.

David Lloyd: I welcome the opportunity to contribute to the debate on smart meters, which, as we have heard, is the next generation of electricity and gas meters that will bring an end to estimated bills and estimated readings, and provide consumers with accurate information on the amounts of electricity and gas being used. The roll out of smart meters would have a positive impact on fuel poverty, inasmuch as lower income

ac yn ymarhous. Pam nad yw'r Llywodraeth yn bachu ar y cyfleoedd o'n blaenau?

Nid yw'r Llywodraeth fel pe bai'n gwerthfawrogi'r buddiannau sydd gan fesuryddion smart i'w cynnig y tu hwnt i'r rhai sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Clywn lawer am dlodi tanwydd, ac mae Joyce Watson newydd gyfeirio ato fel ffactor ysgogol o bwys y tu ôl ein holl waith ar effeithlonrwydd ynni a mynd i'r afael â materion tlodi ehangach. Dyma gyfle i helpu i fynd i'r afael â'r mater hwnnw. Yr ydym eisoes wedi clywed mai'r datblygiad mwyaf, o ran mesuryddion smart, yw eu bod yn gallu dweud wrthyh ar unrhyw adeg faint o ynni a ddefnyddir mewn punnoedd a cheiniogau yn hytrach nag mewn oriau cilowat fel y mae mesuryddion trydan cyfredol yn ei wneud.

Gall pawb ddeall punnoedd a cheiniogau, ond mae'n amheus gen i faint o bobl sy'n deall oriau cilowat. Bydd pobl hŷn sy'n poeni am eu bil tanwydd, yn lle eistedd yn eu cartref gyda'r gwres wedi'i ddiffodd, yn gallu gweld ar eu mesurydd faint yn union o arian y bydd yn rhaid iddynt ei dalu yn y pen draw a defnyddio eu hynni yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl i sicrhau bod gwres ganddynt pan fydd ei angen i'w cadw'n gynnes. Yn lle cael dros 1,400 o farwolaethau yn ormod fel y cawsom y gaeaf diwethaf, y gobaith yw y gallem sicrhau bod y rhif hwnnw'n parhau i ostwng a'n bod yn parhau i leihau nifer y bobl sy'n dioddef o salwch a sy'n gysylltiedig â'r gaeaf ac oerfel, neu'n marw o ganlyniad iddynt. Mae hwnnw'n rheidrwydd y dylem fod yn ceisio ei weithredu, ac mae'n rhywbeth y gall y mesuryddion smart helpu i'w gyflawni. Dyna pam dylai'r Llywodraeth fod yn coleddu'r cynnig hwn—nid yn ceisio ei wella gyda geiriau dibwys—a dechrau ei weithredu drwy gyflwyno mesuryddion smart ledled Cymru.

David Lloyd: Croesawaf y cyfle i gyfrannu at y ddadl am fesuryddion smart, sef, fel y clywsom, y genhedlaeth nesaf o fesuryddion trydan a nwy a wêl ddiwedd ar filiau amcanedig a darlleniadau amcanedig, a rhoi gwybodaeth gywir i ddefnyddwyr ynglŷn â faint o drydan a nwy a ddefnyddir. Byddai cyflwyno mesuryddion smart yn cael effaith gadarnhaol ar dlodi tanwydd, gan fod grwpiau incwm is ar fesuryddion talu ymlaen

groups on prepayment meters currently perversely pay far more for their energy—around £217 more—than online direct debit consumers. So, smart meters would remove that anomaly.

However, fuel poverty remains a significant challenge for us in Wales; before the last energy price hikes, 240,000 people in Wales were in fuel poverty. There are more by now. British Gas recently announced a 15 per cent hike in charges and subsequently announced hugely inflated profits. The profits of its parent company, Centrica, shot up 40 per cent to £1.95 billion. How about a rebate to customers in Wales and elsewhere?

Electricity prices have risen in Wales from an average of £246 in 2003 to £424 in 2007. In addition, consumers in some parts of Wales pay 18 per cent more for their electricity than consumers in England; north Wales British Gas customers pay 11 per cent more for their electricity than people in south-east England. The price of electricity and gas is of huge concern to us all, and although it is not a devolved issue, the price differential between Wales and England is unacceptable. The market in energy is not working for us in Wales.

I have written to Ofgem about the price differences between Wales and England and to request an inquiry, but this has been overtaken by subsequent events brought about by British Gas's profit. Ofgem has committed itself to an inquiry into energy prices, and I reiterate my call for such an inquiry to include the huge discrepancy in the price paid for electricity by consumers in Wales as compared with prices in England.

Fuel poverty is a huge issue in Wales; smart meters will definitely help, and, although we are dependent on a free market and a regulator, and given that it is not a devolved issue, we must have justice on fuel poverty in Wales.

Mark Isherwood: Fuel poverty in Wales is a growing problem that is set to worsen. The number of households in fuel poverty in Wales has doubled to 240,000, of which

llaw, yn groes, yn talu mwy am eu hynni—oddeutu £217 yn fwy—na defnyddwyr debyd uniongyrchol ar-lein. Felly, byddai mesuryddion smart yn cael gwared â'r anomaledd hwnnw.

Fodd bynnag, erys tlodi tanwydd yn her sylweddol inni yng Nghymru; cyn codi pris ynni'r tro diwethaf, yr oedd 240,000 o bobl yng Nghymru mewn tlodi tanwydd. Mae mwy erbyn hyn. Cyhoeddodd Nwy Prydain yn ddiweddar godiad o 15 y cant yn eu prisiau cyn cyhoeddi elw aruthrol. Saethodd elw ei riant gwmni, Centrica, i fyny 40 y cant i £1.95 biliwn. Beth am ad-daliad i gwsmeriaid yng Nghymru a mannau eraill?

Mae prisiau trydan wedi codi yng Nghymru o gyfartaledd o £246 yn 2003 i £424 yn 2007. Ar ben hynny, mae defnyddwyr ynni mewn rhai ardaloedd yng Nghymru yn talu 18 y cant yn fwy am eu trydan na defnyddwyr yn Lloegr; mae cwsmeriaid Nwy Prydain yn y gogledd yn talu 11 y cant yn fwy am eu trydan na phobl yn ne-ddwyrain Lloegr. Mae pris trydan a nwy yn bryder aruthrol i bob un ohonom, ac er nad yw'n fater datganoledig, mae'r gwahaniaeth prisiau rhwng Cymru a Lloegr yn annerbyniol. Nid yw'r farchnad ynni yn gweithio o'n plaid yng Nghymru.

